

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

30/09/2015

Cynnwys Contents

- [1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
[1. Questions to the Minister for Health and Social Services](#)
- [2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)
[2. Questions to the Minister for Education and Skills](#)
- [3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a'r Dreth Gyngor](#)
[3. Welsh Conservatives Debate: Local Authority Services and Council Tax](#)
- [4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau—Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion](#)
[4. Debate on a Petitions Committee Report—Stop the Army Recruiting in Schools](#)
- [5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Amseroedd Aros y GIG](#)
[5. Welsh Conservatives Debate: NHS Waiting Times](#)
- [6. Cyfnod Pleidleisio](#)
[6. Voting Time](#)
- [7. Dadl Fer: Gofal Lliniarol yng Nghymru—Edrych y Tu Hwnt i 2016](#)
[7. Short Debate: Palliative Care in Wales—Looking Beyond 2016](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

The first item this afternoon is questions to the Minister for Health and Social Services, and question 1 is Bethan Jenkins.

13:30 **1. Questions to the Minister for Health and Social Services** **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a daw cwestiwn 1 gan Bethan Jenkins.

Anhwylder Straen wedi Trawma

Post-traumatic Stress Disorder

13:30 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg triniaeth sydd ar gael i bobl sydd ag anhwylder straen wedi trawma o ganlyniad i gael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant? OAQ(4)0624(HSS)

1. What action is the Welsh Government taking to address the lack of treatment available for those with post-traumatic stress disorder as a result of sexual abuse they suffered as children? OAQ(4)0624(HSS)

13:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Self-identification as a victim of sexual abuse in childhood is inevitably hard to predict, and service planning is inherently complex. Only a proportion of such victims are clinically assessed as suffering from post-traumatic stress disorder. The significant increase in psychological therapies in Wales will improve access to treatment for those who need it.

Mae'n anochel ei bod yn anodd darogan faint o bobl a fydd yn dweud eu bod wedi dioddef cam-drin rhywiol pan oeddent yn blant, ac mae'r broses o gynllunio gwasanaethau yn gymhleth yn ei hanfod. Cyfran yn unig o ddioddefwyr o'r fath sy'n cael asesiad clinigol eu bod yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Bydd y cynnydd sylweddol mewn therapiau seicolegol yng Nghymru yn gwella mynediad at driniaeth i'r sawl sydd ei angen.

13:30

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister, and I'd be interested to know what the proportion is. I have a constituent who suffered abuse as a child, and has suffered mental health issues, such as post-traumatic stress, including night terrors and sleep apnoea, as well as other issues. He's trying to access appropriate treatment, but his GP isn't very helpful, according to my constituent. He was told that he was being referred to a crisis team and that it would take time, and that PTSD services were now, at the moment, being directed towards ex-veterans and ex-service people. Is your Government planning to take steps so that these types of services can be enhanced for others, who are not just service people?

Diolch i chi, Weinidog, a byddai gennyf ddi-ddordeb mewn gwybod beth yw'r gyfran honno. Mae gennyf etholwr a gafodd ei gam-drin yn blentyn, ac mae wedi dioddef problemau iechyd meddwl, megis anhwylder straen wedi trawma, gan gynnwys braw nos ac apnoea cwsig, yn ogystal â phroblemau eraill. Mae'n ceisio dod o hyd i driniaeth briodol, ond nid yw ei feddyg teulu yn rhoi rhyw lawer o gymorth iddo, yn ôl fy etholwr. Dywedwyd wrtho ei fod yn cael ei atgyfeirio at dîm argyfwng ac y byddai'n cymryd amser, a bod gwasanaethau anhwylder straen wedi trawma yn awr, ar hyn o bryd, yn cael eu cyfeirio tuag at gyn-filwyr a chyn-weithwyr y lluoedd arfog. A yw eich Llywodraeth yn bwriadu rhoi camau ar waith er mwyn gwella'r mathau hyn o wasanaethau i eraill yn hytrach nag aelodau'r lluoedd arfog yn unig?

13:31

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Bethan Jenkins for that question. The person you spoke to is right to say that we do have a separate and dedicated service for military veterans. In thinking of her first question, 32 per cent of people who access sexual assault referral clinics in Wales in the last year identified themselves as having been a victim of historic sexual abuse, that is to say, abuse that happened a year or more earlier than they reported it. So, that's 32 per cent of all people presenting at SARCs. Of people who present at SARCs, 12 per cent of those are people who then need onward referral to mental health services, and only a proportion of that 12 per cent will actually be identified as suffering from post-traumatic stress disorder. But, when it happens, it is absolutely serious and demands a proper response. The money we are putting into psychological therapies—£3.1 million, new money, this year, divided between services for adults and dedicated services for children—will, I hope, result in circumstances such as the one that you have just described being responded to better in the future.

Diolch i Bethan Jenkins am ei chwestiwn. Mae'r sawl y siaradodd ag ef yn iawn i ddweud bod gennym wasanaeth ar wahân penodol ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog. O ran ei chwestiwn cyntaf, mae 32 y cant o'r bobl a fynychodd glinigau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf yn nodi eu bod wedi dioddef eu cam-drin yn rhywiol yn hanesyddol, hynny yw, cam-drin a ddigwyddodd flwyddyn neu fwy cyn iddynt roi gwybod amdano. Felly, dyna 32 y cant o'r holl bobl sy'n mynychu clinigau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol. O'r bobl sy'n mynychu clinig atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, mae 12 y cant yn bobl sydd angen eu hatgyfeirio ymlaen at wasanaethau iechyd meddwl, a chyfran yn unig o'r 12 y cant mewn gwirionedd y dynodir eu bod yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Ond pan fo'n digwydd, mae'n ddifrifol tu hwnt ac yn galw am ymateb priodol. Bydd yr arian rydym yn ei roi tuag at therapïau seicolegol—£3.1 miliwn, arian newydd, sydd eleni wedi'i rannu rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau penodol ar gyfer plant—yn arwain, gobeithio, at ymateb gwell yn y dyfodol i amgylchiadau tebyg i'r un rydych newydd ei disgrifio.

13:32

Christine Chapman [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, how are your officials working with others in the Welsh Government to help improve the response to those who suffer sexual abuse as children?

Weinidog, sut y mae eich swyddogion yn gweithio gydag eraill yn Llywodraeth Cymru i helpu i wella'r ymateb i rai sy'n dioddef cam-drin rhywiol yn blant?

13:32

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the Member for that. The approach, as she will know, that we take in the Welsh Government is that responding to those who identify themselves as having suffered sexual abuse as children is that it is everybody's business—it is not the preserve of any one particular service area. The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 strengthens the safeguarding arrangements for children and will have an impact in this area. The Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 is another very important strand in the way that our officials are working to improve services for children, and the first commencement Order under that Act will happen on 5 October—next week.

Diolch i'r Aelod am hynny. Fel y bydd yn gwybod, ein hagwedd yn Llywodraeth Cymru yw bod ymateb i'r rheini sy'n dynodi eu bod wedi dioddef cam-drin rhywiol yn blant yn fater i bawb—nid yw wedi'i gyfyngu at un maes gwasanaeth penodol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cryfhau'r trefniadau diogelu ar gyfer plant a bydd iddi effaith yn y maes hwn. Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn elfen bwysig iawn arall yn y ffordd y mae ein swyddogion yn gweithio i wella gwasanaethau i blant, a bydd y Gorchymyn cychwyn cyntaf o dan y Ddeddf honno yn digwydd ar 5 Hydref—wythnos nesaf.

13:33 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank Bethan for actually raising what is quite a sensitive issue, which will resonate with many across Wales, to include some of our children.

Minister, what assurances can you give regarding increasing the availability of treatment and support for children, but also too—because this has been raised in my constituency, with a family, that, as a result of earlier issues and sexual abuse, this has now carried forward, and, certainly, one of the sisters has had children herself? But also, how do you provide for children in that kind of setting, away from adult services?

Hoffwn ddiolch i Bethan am grybwyll mater sy'n eithaf sensitif mewn gwirionedd ac a fydd yn taro tant gyda nifer o bobl ledled Cymru, gan gynnwys rhai o'n plant.

Weinidog, pa sicrwydd y gallwch ei roi ynglŷn â chynyddu argaeledd triniaeth a chymorth i blant, ond hefyd—gan fod hyn wedi codi yn fy etholaeth, gyda theulu, o ganlyniad i broblemau cynharach a cham-drin rhywiol? Mae hyn yn awr wedi parhau, ac yn sicr, mae un o'r chwirydd wedi cael plant ei hun. Ond hefyd, sut rydych chi'n darparu ar gyfer plant mewn sefyllfa o'r fath, i ffwrdd o wasanaethau oedolion?

13:34 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. She is absolutely right, I think, to say that, when an incident of child sexual abuse is revealed, then the impact is on the whole of the family, and we have to think of how we respond to the impact that that will have on wider family members. Here in Wales, it's Conwy social services department that, on behalf of all local authorities in Wales, is providing support services to victims of historic child abuse in the north Wales area, and so there is a reservoir of expertise there. In terms of psychological therapies, as I said to Bethan Jenkins, we are putting £3.1 million of new money into psychological therapies and we've divided that money very deliberately between a sum of money to improve therapies for adults, and separate money for children, and that money will go through our child and adolescent mental health services.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae hi'n hollol gywir, rwy'n meddwl, i ddweud, pan fydd digwyddiad o gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei ddatgelu, yna mae'n effeithio ar y teulu cyfan, ac mae'n rhaid i ni feddwl sut rydym yn ymateb i effaith hynny ar aelodau o'r teulu ehangach. Yma yng Nghymru, adran gwasanaethau cymdeithasol Conwy, ar ran holl awdurdodau lleol Cymru, sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ddiodeffwyr cam-drin plant hanesyddol yn ardal gogledd Cymru, ac felly mae cronfa o arbenigedd yno. O ran therapiau seicolegol, fel y dywedais wrth Bethan Jenkins, rydym yn rhoi £3.1 miliwn o arian newydd tuag at therapiau seicolegol ac rydym wedi rhannu'r arian yn fwriadol iawn rhwng swm o arian i wella therapiau ar gyfer oedolion, ac arian ar wahân ar gyfer plant, a bydd yr arian yn mynd drwy ein gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod.

13:35 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you provide details of the latest available information concerning Operation Pallial?

Weinidog, a wnewch chi roi manylion am y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn ymwneud ag Ymgyrch Pallial?

13:35 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Gwenda Thomas for that, and, of course, it picks up some of the points that were just being made by Janet. We know that 21 people have been arrested as a result of Operation Pallial since it began in November 2012. It's been led by the National Crime Agency, and five people so far have been convicted and sentenced to substantial periods of imprisonment, and there are further trials under way. Operation Pallial has been supported by a wide coalition of organisations, including the North Wales Police, and the National Society for the Prevention of Cruelty to Children from the third sector. The children's commissioner has taken a particular interest in it, and it is focused on the needs of victims and witnesses—witnesses in the family sense that was mentioned a moment ago. The inquiry has now issued a 'Learning the Lessons' report and this is its conclusion. It says

'We are satisfied that children and young people are now much safer...and that there is now in place a clear infrastructure of checks and balances...to prevent the widespread and sustained abuse that children and young people in North Wales care homes suffered in the 1970s and 80s.'

Diolch i Gwenda Thomas am hynny, ac wrth gwrs, mae'n dilyn rhai o'r pwyntiau a wnaed gan Janet yn awr. Gwyddom fod 21 o bobl wedi cael eu harestio o ganlyniad i Ymgyrch Pallial ers iddi ddechrau ym mis Tachwedd 2012. Cafodd ei harwain gan yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol. Hyd yma, cafwyd pump o bobl yn euog a'u dedfrydu i gyfnodau sylweddol o garchar, ac mae achosion pellach ar y gweill. Cafodd Ymgyrch Pallial gefnogiaeth gan gynghrair eang o sefydliadau, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, a'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant o'r trydydd sector. Mae gan y Comisiynydd plant ddiddordeb arbennig yn yr ymgyrch, sy'n canolbwyntio ar anghenion diodeffwyr a thystion—tystion yn yr ystyr deuluol a grybwyllwyd rai eiliadau'n ôl. Mae'r ymchwiliad bellach wedi cyhoeddi adroddiad 'Dysgu'r Gwersi' a dyma yw ei gasgliad. Mae'n dweud

'Rydym ni'n fodlon fod plant a phobl ifanc bellach yn llawer mwy diogel... a bod seilwaith clir o fesurau gwirio'n bodoli... i atal y cam-drin eang a pharhaus a ddiodeffwyd gan blant a phobl ifanc mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru yn y 1970au a'r 1980au.'

Amseroedd Aros am Driniaeth Canser

Cancer Treatment Waiting Times

- 13:37 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros am driniaeth canser yng Ngorllewin De Cymru?
OAQ(4)0622(HSS)
- 13:37 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health
I expect all patients awaiting cancer treatment in south-west Wales, and throughout Wales, to be seen in order of clinical priority and within Welsh Government targets. We are working with the health boards to ensure that performance improves.
- 13:37 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that answer, Minister. Of course, the targets you set are not being met in South Wales West. The latest figures show that only 81.6 per cent of cancer patients being treated by the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board were seen within 62 days, which is a decrease from 85.2 per cent in June. Can I ask you what specific actions are being taken to reverse that trend?
- 13:37 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for the question. In Abertawe Bro Morgannwg health board area in particular, there is a recognition that they have a number of issues to deal with. Partly, it's about recruitment and an understanding of their particular pathways as well. They have taken action to recruit new consultants within particular fields. They'll also have a new CT scanner on its way, and, in particular, it's important for me to understand the action they're taking to deal with their backlog as well as dealing with new referrals. So, there's a real understanding that improvement is required. The percentage figures, though, are sometimes unhelpful, in that they relate to very small numbers of patients. The challenge will be to see more people being treated within target times as ABMU continue to improve. They know exactly what is required and expected of them, and I expect them to produce that.
- 13:38 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, the figures are disappointing, and whereas perhaps I contradict you, if you look at the figures, the numbers are actually some of the highest in Wales being treated in ABMU. But, one of the concerns I have is diagnostic examinations, which play a critical role in early diagnosis and to allow treatment to start quickly. What's the Welsh Government doing to improve diagnostic services within ABMU?
2. Will the Minister make a statement on cancer treatment waiting times in South Wales West?
OAQ(4)0622(HSS)
- Rwy'n disgwyl i bob claf sy'n aros am driniaeth canser yn ne-orllewin Cymru, a ledled Cymru, i gael eu gweld yn nhrefn blaenoriaeth glinigol ac o fewn targedau Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i sicrhau bod perfformiad yn gwella.
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Wrth gwrs, nid yw'r targedau a osodwyd gennych yn cael eu cyrraedd yng Ngorllewin De Cymru. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai 81.6 y cant yn unig o'r cleifion canser sy'n cael eu trin gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a gafodd eu gweld o fewn 62 diwrnod, sy'n ostyngiad o 85.2 y cant ym mis Mehefin. A gaf fi ofyn i chi pa gamau penodol sy'n cael eu cymryd i wrthdroi'r duedd hon?
- Diolch am y cwestiwn. Yn ardal bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn arbennig, mae yna gydnabyddiaeth fod ganddynt nifer o broblemau i'w datrys. Yn rhannol, mae'n ymwneud â recriwtio a dealltwriaeth o'u llwybrau penodol hefyd. Maent wedi gweithredu i recriwtio ymgynghorwyr newydd mewn meysydd penodol. Hefyd, mae ganddynt sganwr CT newydd ar ei ffordd, ac yn arbennig, mae'n bwysig i mi ddeall y camau y maent yn eu cymryd i ymdrin â'u hól-groniad yn ogystal ag ymdrin ag atgyfeiriadau newydd. Felly, mae yna ddealltwriaeth wirioneddol fod angen gwelliant. Weithiau, fodd bynnag, nid yw'r ffigurau canrannol yn ddefnyddiol, gan eu bod yn ymwneud â niferoedd bach iawn o gleifion. Yr her fydd sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu trin o fewn yr amseroedd targed wrth i fwrdd iechyd lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg barhau i wella. Maent yn gwybod yn union beth sydd ei angen a'r hyn a ddisgwylir ganddynt, ac rwy'n disgwyl iddynt gynhyrchu hynny.
- Weinidog, mae'r ffigurau'n siomedig, ac er efallai fy mod yn gwrth-ddweud yr hyn a ddywedwch, os edrychwch ar y ffigurau, mewn gwirionedd mae'r niferoedd sy'n cael eu trin ym mwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gyda'r uchaf yng Nghymru. Ond un o'r pryderon sydd gennyf yw archwiliadau diagnostig, sy'n chwarae rhan hanfodol mewn diagnosis cynnar ac i ganiatáu i driniaeth ddechrau'n gyflym. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau diagnostig ym mwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg?

13:39 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We've actually seen a significant improvement across the all-Wales picture, including in ABMU, in diagnostic services. There are some specific challenges in some areas that affect the whole of the UK. For example, sonographers—there's a shortage and there's a real difficulty in recruiting those people across every single part of the UK healthcare system. So, the action that has been taken means that, across Wales, there has been a 44 per cent reduction in diagnostic waiting times. And, again, there is a very clear understanding of what needs to happen within health boards, and, in particular, the requirement to share resources as well, because part of the challenge is to see the whole healthcare system, to recognise the patient flows that move across it, and, in particular, ABM's role as a tertiary centre and the people that go from Hywel Dda and Powys in particular to receive treatment in that particular health board. So, diagnostics are improving. We expect to see further improvement, and I'm optimistic, based on management information, that we will see further improvements being realised when the next few periods of monthly figures are published.

Rydym wedi gweld gwelliant sylweddol ar draws y darlun ledled Cymru, gan gynnwys bwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, mewn gwasanaethau diagnostig. Ceir rhai heriau penodol mewn rhai meysydd sy'n effeithio ar y DU gyfan. Er enghraifft, sonograffwyr—mae yna brinder ohonynt a cheir anhawster gwirioneddol i recriwtio'r bobl hyn ar draws pob rhan o'r system ofal iechyd yn y DU. Felly, mae'r camau a roddwyd ar waith wedi arwain at ostyngiad o 44 y cant mewn amseroedd aros diagnostig ar draws Cymru. Ac unwaith eto, ceir dealltwriaeth glir iawn o'r hyn sy'n rhaid iddo ddigwydd yn y byrddau iechyd, ac yn benodol, y gofyniad i rannu adnoddau hefyd, gan mai rhan o'r her yw gweld y system ofal iechyd gyfan yn cydnabod y llif cleifion sy'n symud drwyddi, ac yn arbennig, rôl Abertawe Bro Morgannwg fel canolfan drydyddol a'r bobl sy'n mynd o Hywel Dda a Phowys yn arbennig i gael triniaeth gan y bwrdd iechyd hwnnw. Felly, mae diagnosteg yn gwella. Rydym yn disgwyl gweld gwelliannau pellach, ac rwy'n optimistaidd, yn seiliedig ar wybodaeth reoli, y byddwn yn gweld gwelliannau pellach yn cael eu gwireddu pan fydd ffigurau misol ar gyfer yr ychydig gyfnodau nesaf yn cael eu cyhoeddi.

13:39 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, in my own experience and from talking to both patients and clinicians, one of the greatest delays to treatment is as a result of urgent cancer referrals by GPs being downgraded. What steps is your Government taking to prevent this downgrading and the inevitable delay to a patient's treatment?

Ddirprwy Weinidog, yn fy mhrofiad fy hun ac o siarad â chleifion a chlinigwyr, un o'r rhesymau pennaf dros oedi cyn cael triniaeth yw'r ffaith fod atgyfeiriadau cancer brys gan feddygon teulu yn cael eu hisraddio. Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu rhoi ar waith i atal israddio o'r fath a'r oedi anochel i driniaeth claf?

13:40 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm not aware of any attempt by the national health service to downgrade urgent cancer referrals. If the Member has evidence of that, I would like to see it and deal with it, because that is not what we expect. In fact, on cancer care and treatment, in Wales, we have very good access to cancer care and we have improving outcomes. I recognise that there are challenges, and there's no hiding from that, but, on referral-to-treatment times and expected wait times in cancer, we do better than England. On outcomes, we've seen the fastest improvement of any UK nation. So, there are challenges that we will address, but let's not pretend that cancer care is not, on the overwhelming basis, a positive experience of high quality and which makes a real difference to people's lives here in Wales.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ymgais gan y gwasanaeth iechyd gwladol i israddio atgyfeiriadau cancer brys. Os oes gan yr Aelod dystiolaeth o hynny, hoffwn ei weld ac ymdrin â'r mater, oherwydd nid dyna rydym yn ei ddisgwyl. Yn wir, o ran gofal a thriniaeth cancer yng Nghymru, mae gennym fynediad da iawn at ofal cancer ac mae ein canlyniadau'n gwella. Rwy'n cydnabod bod heriau, ac nid oes cuddio rhag hynny, ond o ran amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth ac amseroedd aros disgwylidiedig mewn perthynas â chanser, rydym yn gwneud yn well na Lloegr. O ran canlyniadau, rydym wedi gweld gwelliant cyflymach nag unrhyw un o wledydd eraill y DU. Felly, mae heriau y byddwn yn mynd i'r afael â hwy, ond gadewch i ni beidio ag esgus nad yw gofal cancer, i raddau helaeth iawn, yn brofiad cadarnhaol o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl yma yng Nghymru.

13:41 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn dilyn ymlaen o'r cwestiwn blaenorol ynglŷn â'r ffaith ein bod yn gweld, dro ar ôl tro, fod yna broblem gyda'r amseroedd aros ar gyfer pobl sydd eisiau cael asesiad diagnostig, os yw'r GP yn ansicr, efallai eich bod chi o fewn y targed, ond efallai fod pobl wedyn yn mynd yn waeth o fewn y targed hwnnw ac yn aros pan ddylen nhw ddim fod yn aros. A ydych chi wedi gwneud ymchwil i mewn i hyn ac a ydych chi wedi gwrandao ar syniad Plaid Cymru o greu canolfannau ar gyfer y fath beth?

Following on from a previous question and the fact that we are seeing, time and again, problems in terms of waiting times for those requiring diagnostic assessments as a result of GP uncertainty, perhaps you are within the target, but people's condition may well deteriorate while waiting for those assessments, and they then wait longer than they should. Have you carried out any research into this, and have you listened to Plaid Cymru's idea of creating centres for this kind of thing?

13:41 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for the question, and I note that Plaid Cymru's idea is essentially the same as that announced by Jeremy Hunt some weeks ago. Our perspective in terms of diagnostics is that we recognise—[Interruption.]

Diolch am y cwestiwn, a nodaf fod syniad Plaid Cymru yn ei hanfod yr un fath â'r un a gyhoeddwyd gan Jeremy Hunt rai wythnosau yn ôl. Ein safbwynt o ran diagnosteg yw ein bod yn cydnabod—[Torri ar draws.]

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Order. Trefn.

13:41 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We recognise that there is a challenge in terms of the whole pathway, including the diagnostics part of it. Our focus is on the whole pathway and on making sure that appropriate treatment is provided within the right timescale to continue improving clinical outcomes. The additional resource that we've provided over this year and the last financial year as well has led to an improvement in diagnostic waiting times, and that is leading to people being identified earlier. Part of our challenge, though, in really improving outcomes for cancer patients, is the earlier diagnosis in any event. We've seen a significant increase in the number of people being referred for cancer treatment, but part of that challenge is that often that referral is made too late and the cancer can often be more advanced than it would be in patients in other parts of the UK. There is a challenge there right across the whole workforce. That's why we're working in particular with Macmillan and primary care to try and ensure that diagnosis and referral is made at an early point to make that biggest difference possible for people who are then subsequently diagnosed with cancer and require treatment.

Rydym yn cydnabod bod yna her o ran y llwybr cyfan, gan gynnwys y rhan ddiagnostig ohono. Rydym yn canolbwyntio ar y llwybr cyfan ac ar sicrhau bod triniaeth briodol yn cael ei darparu o fewn y raddfa amser gywir er mwyn parhau i wella canlyniadau clinigol. Mae'r adnodd ychwanegol rydym wedi'i ddarparu dros y flwyddyn hon a'r flwyddyn ariannol ddiwethaf hefyd wedi arwain at wella amseroedd aros diagnostig, ac mae hynny'n arwain at weld pobl yn gynharach. Rhan o'n her, fodd bynnag, o ran gwella canlyniadau i gleifion cancer mewn gwirionedd, yw diagnosis cynharach ym mhob achos. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio am driniaeth cancer, ond rhan o'r her honno yw'r ffaith bod atgyfeirio yn aml yn digwydd yn rhy hwyr ac yn aml gall y cancer fod wedi datblygu mwy nag y byddai mewn cleifion mewn rhannau eraill o'r DU. Mae her yno ar draws y gweithlu cyfan. Dyna pam rydym yn gweithio gyda Macmillan a gofal sylfaenol yn arbennig i geisio sicrhau bod diagnosis ac atgyfeirio yn digwydd yn gynnar i wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl i bobl sydd wedyn yn cael diagnosis o ganser ac angen triniaeth.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is Welsh Conservative spokesperson, Darren Millar.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma mae llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar.

13:42 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Presiding Officer. Minister, can you tell us how much spending on the Welsh NHS delivery area has fallen in real terms since 2010-11?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, a allwch ddweud wrthym faint y mae gwariant ar ardal ddarparu'r GIG yng Nghymru wedi gostwng mewn termau real ers 2010-11?

13:42 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Llywydd, as I answer this question every time, and as the Member knows perfectly well, his question is not a sensible one. Patients straddle both health service and social services areas. It makes absolutely no sense whatsoever to the individual to analyse spending in the way that he seeks to do. Health and social care spending together in Wales remains 8 per cent above that which his Government achieves in England.

Llywydd, fel rwy'n ateb y cwestiwn hwn bob tro, ac fel y mae'r Aelod yn ei wybod yn iawn, nid yw ei gwestiwn yn un synhwyrol. Mae cleifion yn pontio ardaloedd y gwasanaeth iechyd ac ardaloedd gwasanaethau cymdeithasol. Nid yw dadansoddi'r gwariant yn y ffordd y mae'n ceisio'i wneud yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl o ran yr unigolyn. Mae gwariant iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd yng Nghymru yn parhau i fod 8 y cant yn uwch nag y mae ei Lywodraeth yn ei gyflawni yn Lloegr.

- 13:43 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 And here is me thinking that, under Corbyn, spin was dead in the Labour Party. Quite clearly, that is not the case. The reality, Minister, if you'd have cared to answer the question directly, is that NHS spending has fallen in real terms since 2010-11. In fact, in one single year, it fell by over £225 million and, of course, it's had devastating effects on the NHS—[Interruption.]
- A dyma fi'n meddwl bod sbin wedi marw yn y Blaid Lafur o dan Corbyn. Yn amlwg, nid yw hynny'n wir. Y gwirionedd, Weinidog, pe baech wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, yw bod gwariant y GIG wedi gostwng mewn termau real ers 2010-11. Yn wir, mewn un flwyddyn, bu gostyngiad o dros £225 miliwn ac wrth gwrs, mae wedi effeithio'n andwyol ar y GIG—[Torri ar draws.]
- 13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 The Minister needs no help to answer the questions.
- Nid oes angen unrhyw gymorth ar y Gweinidog i ateb y cwestiynau.
- 13:43 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 It had a devastating impact on the NHS workforce and, indeed, on patients. The reality, Minister, is that if you had increased spending year on year, in line with inflation, more than £1 billion extra would have been spent on patient care in the national health service over the past five years. Given that fact, do you regret your Government's decision to make record-breaking cuts to the national health service budget?
- Mae'n effeithio'n andwyol ar weithlu'r GIG ac yn wir, ar gleifion. Y gwirionedd, Weinidog, yw pe baech chi wedi cynyddu gwariant flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn unol â chwyddiant, byddai dros £1 biliwn yn ychwanegol wedi cael ei wario ar ofal cleifion yn y gwasanaeth iechyd gwladol dros y pum mlynedd diwethaf. O ystyried y ffaith honno, a ydych yn difaru penderfyniad eich Llywodraeth i wneud toriadau gwaeth nag erioed i gyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol?
- 13:44 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Llywydd, the Member's so-called facts are absolutely nothing of the sort. He completely ignores the very, very substantial investment directly in health services that has been made in Wales this year, last year and the year before. His figures would stand up to absolutely no serious examination whatsoever. Here we have a health service in Wales that is employing more doctors, more nurses, seeing more patients, delivering more treatments, doing better than it has ever done before, and it does so in the face of the savage assault on public services that his Government is absolutely determined to carry out.
- Lywydd, nid yw'r hyn y mae'r Aelod yn eu galw'n ffeithiau yn ddim o'r fath. Mae'n llwyr anwybyddu'r buddsoddiad sylweddol iawn, iawn a wnaed yn uniongyrchol i wasanaethau iechyd yng Nghymru eleni, y llynedd a'r flwyddyn flaenorol. Ni fyddai ei ffigurau'n dal dŵr o gwbl o'u harchwilio'n ddifrifol. Yma, mae gennym wasanaeth iechyd yng Nghymru sy'n cyflogi mwy o feddygon a mwy o nyrsys, yn gweld mwy o gleifion, yn darparu mwy o driniaethau, yn gwneud yn well nag y mae wedi gwneud erioed o'r blaen, ac yn gwneud hynny yn wyneb yr ymosodiad ffyrnig ar wasanaethau cyhoeddus y mae ei Lywodraeth yn gwbl benderfynol o'i gyflawni.
- 13:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 The Minister responds to what he describes as my figures. These are not my figures; these are figures from the Members' research service, and I suggest that if you have an issue with the quality of the information provided, you take it up with them. I want to commend them for the piece of work that they have done, which makes it absolutely clear that more than £1 billion more would have been spent if your party had accepted the commitment that my party made prior to the Welsh Assembly elections in 2007. Performance has suffered, patients have suffered and staff have suffered under the pressures that these cuts have created. Do you regret that yours is the only Government that has made these cuts to national health service budgets? Do you also regret serving under a First Minister who has delivered these swingeing cuts to the NHS in a way that no Conservative Prime Minister has ever done to the national health service? No Conservative Prime Minister has ever cut an NHS budget, unlike your First Minister here; shame on him.
- Mae'r Gweinidog yn ymateb i'r hyn y mae'n eu disgrifio fel fy ffigurau. Nid fy ffigurau i yw'r rhain; ffigurau gan wasanaeth ymchwil yr Aelodau yw'r rhain, ac rwy'n awgrymu, os oes gennych broblem gydag ansawdd y wybodaeth a ddarperir, dylech sôn wrthynt hwy am hynny. Rwyf am eu canmol am y gwaith a wnaethant, sy'n ei gwneud yn gwbl glir y byddai dros £1 biliwn yn fwy wedi cael ei wario pe bai eich plaid wedi derbyn yr ymrwymiad a wnaeth fy mhlaid cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2007. Mae perfformiad wedi dioddef, mae cleifion wedi dioddef ac mae staff wedi dioddef o dan y pwysau y mae'r toriadau hyn wedi creu. A ydych yn gresynu mai eich Llywodraeth chi yw'r unig un sydd wedi cyflawni'r toriadau hyn i gyllidebau gwasanaeth iechyd gwladol? A ydych hefyd yn difaru gwasanaethu dan Brif Weinidog sydd wedi cyflawni'r toriadau llym hyn i'r GIG mewn ffordd nad oes unrhyw Brif Weinidog Ceidwadol erioed wedi'i wneud i'r gwasanaeth iechyd gwladol? Nid oes unrhyw Brif Weinidog Ceidwadol erioed wedi torri cyllideb y GIG, yn wahanol i Brif Weinidog Cymru yma; cywilydd arno.

- 13:46 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 What I regret, Llywydd, and I regret it every time the Member gets to his feet, is the way in which he believes that he is able to extract some partisan political advantage from attacking the work that is done in the Welsh NHS—
- Yr hyn rwy'n gresynu, Lywydd, ac rwy'n ei ddifaru bob tro y bydd yr Aelod yn codi ar ei draed, yw'r ffordd y mae'n credu ei fod yn gallu gwasgu rhyw fantais wleidyddol bleidgar o ymosod ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y GIG yng Nghymru—
- 13:46 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Attacking you.
- Ymosod arnoch chi.
- 13:46 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I can tell—
- Gallaf ddweud—
- 13:46 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Attacking your support for cuts.
- Ymosod ar eich cefnogaeth i doriadau.
- 13:46 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I can tell him this: that his approach to this matter is absolutely resented by patients up and down Wales. And I'm glad that he has given me the opportunity to shine a light for a moment on the approach taken by his Government. No doubt he will have read in the 'Health Service Journal' over the last two weeks the way in which the Department of Health and the Treasury are conniving together to undermine the so-called promise of an £8 billion investment in the NHS in England and its consequentials here in Wales. So, we know—. The King's Fund—. [Interruption.] Well, I'm glad he thinks it's nonsense; he'll tell us when he hears it in the comprehensive spending review. The King's Fund tell us now that it is an established fact that the Chancellor intends to exclude from that £8 billion all spending on medical education; that he intends to exclude from that £8 billion all moneys spent on public health; that he intends to exclude from that £8 billion all the money that is spent in the health service on research. By the time his Government has finished fiddling the figures once again, we will see that people in Wales, England and elsewhere are short-changed once again by the actions of his Government. That's what I regret.
- Gallaf ddweud hyn wrtho: mae cleifion ar hyd a lled Cymru yn casáu ei agwedd at y mater hwn yn llwyr. Ac rwy'n falch ei fod wedi rhoi cyfle i mi daflu goleuni am eiliad ar ddull ei Lywodraeth o weithredu. Mae'n siŵr y bydd wedi darllen yn yr 'Health Service Journal' yn ystod y pythefnos diwethaf am y ffordd y mae'r Adran Iechyd a'r Trysorlys yn cydgynllwynio i danseilio'r addewid honedig o fuddsoddiad o £8 biliwn yn y GIG yn Lloegr a'i symiau canlyniadol yma yng Nghymru. Felly, gwyddom—. Roedd Cronfa'r Brenin—. [Torri ar draws.] Wel, rwy'n falch ei fod yn credu ei fod yn nonsens; caiff ddweud wrthym pan fydd yn ei glywed yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae Cronfa'r Brenin yn dweud wrthym yn awr ei bod yn ffaith ddiymwad fod y Canghellor yn bwriadu eithrio pob gwariant ar addysg feddygol o'r £8 biliwn; ei fod yn bwriadu eithrio'r holl arian a werir ar iechyd y cyhoedd o'r £8 biliwn; ei fod yn bwriadu eithrio'r holl arian sy'n cael ei wario ar ymchwil yn y gwasanaeth iechyd o'r £8 biliwn. Erbyn i'w Lywodraeth orffen ffidlan gyda'r ffigurau unwaith eto, fe welwn fod pobl yng Nghymru, Lloegr a mannau eraill ar eu colled unwaith eto oherwydd gweithredoedd ei Lywodraeth. Dyna rwy'n ei resynu.
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Can I just—? Can I remind people this is not leaders' question time? That was yesterday. I now move to Plaid Cymru's spokesperson, Elin Jones.
- A gaf fi—? A gaf fi atgoffa pobl nad sesiwn gwestiynau i'r arweinwyr yw hon? Ddoe oedd honno. Symudaf yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.
- 13:47 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Weinidog, rŷch chi wedi methu cytuno'r cynlluniau ariannol tair blynedd gyda bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr a bwrdd iechyd Hywel Dda—y ddau fwrdd iechyd mwyaf eu maint a mwyaf gwledig yng Nghymru. Beth yw'r rheswm pennaf am hyn?
- Minister, you've failed to agree three-yearly financial plans with the Betsi Cadwaladr health board and the Hywel Dda health board—the two largest health boards and the two most rural health boards in Wales. What's the main reason for that?

13:48

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The reason we have been unable to agree a three-year IMTP with those two health boards is because we take seriously the assurances that were given to this Assembly—were given to your colleague Simon Thomas, who particularly led a series of important questions on this matter—when we said that, in introducing a three-year funding regime, only those health boards that brought forward credible three-year plans that showed that they were genuinely able to integrate service, finance and workforce planning, and only when they reached the necessary standard, would we agree to a three-year plan. That has not yet proved possible in Hywel Dda or in Betsi Cadwaladr, and I'm not prepared to approve three-year plans that don't merit approval.

Y rheswm nad ydym wedi gallu cytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd gyda'r ddau fwrdd iechyd yw ein bod o ddifrif ynglŷn â'r sicrwydd a roddwyd i'r Cynulliad hwn—a roddwyd i'ch cyd-Aelod Simon Thomas, a arweiniodd gyfres benodol o gwestiynau pwysig ar y mater—pan ddywedasom, wrth gyflwyno trefn gyllido dair blynedd, mai'r byrddau iechyd a gyflwynai gynlluniau tair blynedd credadwy yn dangos eu bod yn gallu integreiddio gwasanaethau, cyllid a chynllunio'r gweithlu go iawn, a dim ond pan fyddent yn cyrraedd y safon angenrheidiol, y byddem yn cytuno i gael cynllun tair blynedd. Nid yw hynny wedi bod yn bosibl eto yn Hywel Dda na Betsi Cadwaladr, ac nid wyf yn barod i gymeradwyo cynlluniau tair blynedd nad ydynt yn haeddu cymeradwyaeth.

13:48

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rŷch chi hefyd wedi newid y ffordd yr ydych yn dosrannu arian ychwanegol i fyrddau iechyd o fewn blwyddyn ariannol, ac felly mae'r newid fformiwla a'r newid penderfyniad yna wedi cael effaith ariannol ar fwrdd iechyd Hywel Dda yn enwedig. O dan y fformiwla newydd, mae bwrdd iechyd Hywel Dda wedi derbyn £24 miliwn yn ychwanegol. Os byddech chi wedi defnyddio'r hen fformiwla, bydden nhw wedi bod yn derbyn £48 miliwn yn ystod y flwyddyn yna, er bod dim o'u hamgylchiadau iechyd na'u hanghenion nhw wedi newid yn y cyfnod yna. A ydych chi'n derbyn bod hyn yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar fwrdd iechyd Hywel Dda i fedru cynllunio yn ariannol dros gyfnod o dair blynedd?

During this last year, you've also changed the way you distribute additional funds to the health boards within financial years, and therefore the change of formula and the change of decision have had a financial impact on the Hywel Dda health board particularly. Under the new formula, Hywel Dda health board has received £24 million additionally. If you'd used the old formula, they would have received £48 million during that financial year, although none of their needs or health circumstances had changed during that period. Do you accept that this places additional financial pressures on Hywel Dda health board to plan financially over a period of three years?

13:49

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do recognise the pressures that face all of our different health boards in different ways in drawing up plans to live within their means. I gave an undertaking in front of the Health and Social Care Committee that we would update the formula that we use to distribute money between health boards, using the latest population and other information available to us. Whenever you change the formula there will be some health boards that gain as a result and there will be some health boards that find that they would have been better advantaged under the previous formula, but it is right that we do make sure that the figures going into the formula are the best available and represent the most up-to-date information that we have. That's what we've done. We recognise the impact that that has on some health boards, and we help them in other ways.

Rwy'n cydnabod y pwysau sy'n wynebu pob un o'n byrddau iechyd gwahanol mewn gwahanol ffyrdd wrth lunio cynlluniau ar gyfer byw o fewn eu modd. Rhoddais ymrwymiad gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddem yn diweddarau'r fformiwla a ddefnyddiwn i ddosbarthu arian rhwng byrddau iechyd, gan ddefnyddio'r wybodaeth poblogaeth ddiweddaraf a gwybodaeth arall sydd ar gael i ni. Pryd bynnag y byddwch yn newid y fformiwla bydd rhai byrddau iechyd ar eu hennill o ganlyniad i hynny a bydd rhai byrddau iechyd yn gweld y byddent wedi elwa mwy o dan y fformiwla flaenorol, ond mae'n iawn ein bod yn sicrhau mai'r ffigurau sy'n cael eu cynnwys yn y fformiwla yw'r gorau sydd ar gael ac sy'n cynrychioli'r wybodaeth fwyaf cyfredol sydd gennym. Dyna a wnaethom. Rydym yn cydnabod effaith hynny ar rai byrddau iechyd, ac rydym yn eu helpu mewn ffyrdd eraill.

13:50

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn y gorffennol, Weinidog, rŷch chi wedi derbyn bod yna achos i edrych yn benodol ar rai o'r byrddau iechyd gwledig, yn enwedig o ran eu demograffeg nhw gyda phoblogaeth sydd yn hŷn a phoblogaeth sydd yn ymdeol i mewn i'r ardaloedd gwledig neu ardaloedd arfordirol hynny—ac mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddau o'r byrddau iechyd yna. Hyd yn hyn, nid yw'ch fformiwla chi'n adlewyrchu'r pwysau ychwanegol hynny a'r pwysau o ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun gwledig yn ddigonol, ac felly a ydych chi'n credu ei bod hi'n bryd, yng nghyd-destun y ddau fwrdd iechyd yna yn benodol—a hefyd Powys, o ran hynny, er nad oes yna ysbysai aciwt yn y bwrdd iechyd penodol yna—i edrych yn wirioneddol ar beth yw costau darparu gwasanaeth iechyd yng nghyd-destun cefn gwlad?

In the past, Minister, you've accepted that there is a case to look specifically at some of the rural health boards, particularly in terms of their demographics, in terms of an ageing population and the population who are retiring into those rural areas and those coastal areas—and Hywel Dda and Betsi Cadwaladr are two of those health boards. To date, your formula doesn't reflect that additional pressure and the pressure of providing services in a rural context sufficiently, and therefore do you believe that it is now time, in the context of those two particular health boards—and also Powys if it came to that, although there are no acute hospitals in that specific health board—that we should look at the real costs of providing health services in a rural context?

13:51

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the points that the Member makes are serious ones and proper ones, and we do always look to see that we recognise the additional pressures that come with different population structures, and undoubtedly providing services in more sparsely populated parts of Wales brings costs with it. Powys, however, does have a three-year approved plan; they have managed to pass the hurdle that we set in their path to reach approval. But, because we already recognise those costs, that's why, in some parts of rural Wales, there is more than £200 more spent for every single person in that area than is spent on the citizens of Cardiff to meet their health needs. I can tell you that, when I meet the health board in Cardiff, they will point out to me all the pressures that come with being the largest city, with having populations from around the world, with having diseases that do not occur anywhere else in Wales, and running a tertiary centre for the whole of Wales. Every part of Wales has particular characteristics that they are able to show require proper funding; we do our best to balance those factors out, and we keep them under review in the way that the Member quite properly asks us to.

Rwy'n meddwl bod y pwyntiau y mae'r Aelod yn eu gwneud yn rhai difrifol a phriodol, ac rydym bob amser yn edrych i weld ein bod yn cydnabod y pwysau ychwanegol sy'n dod gyda gwahanol strwythurau poblogaeth, ac yn ddi-os mae darparu gwasanaethau mewn rhannau o Gymru lle y mae'r boblogaeth yn fwy gwasgareddig yn creu costau yn eu sgil. Fodd bynnag, mae gan Bowys gynllun tair blynedd wedi'i gymeradwyo; maent wedi llwyddo i oresgyn y rhwystr a osodasom yn eu ffordd i gael cymeradwyaeth. Ond gan ein bod eisoes yn cydnabod y costau hynny, dyna pam, mewn rhannau o'r Gymru wledig, fod mwy na £200 yn fwy yn cael ei wario ar ddiwallu anghenion iechyd pob person yn yr ardal honno nag a werir ar ddinasyddion Caerdydd. Gallaf ddweud wrthy, pan fyddaf yn cwrdd â'r bwrdd iechyd yng Nghaerdydd, byddant yn tynnu fy sylw at yr holl bwysau sy'n gysylltiedig â bod yn ddinas fwyaf, â chael poblogaethau o bob cwr o'r byd, â chlefydau nad ydynt yn digwydd yn unman arall yng Nghymru, a rhedeg canolfan drydyddol ar gyfer Cymru gyfan. Mae gan bob rhan o Gymru nodweddion penodol y gallant ddangos eu bod angen cyllid priodol ar eu cyfer; rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau cydbwysedd rhwng y ffactorau hynny, ac rydym yn parhau i'w hadolygu yn y ffordd y mae'r Aelod yn gwbl briodol yn gofyn i ni ei wneud.

13:52

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Kirsty Williams.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:52

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Thank you, Presiding Officer. Minister, in the last five years, 29 general medical services contracts have been handed back to local health boards and a further 18 have closed their doors altogether. Apart from the recently announced sustainability package from your Government to assist with financial difficulties in general practices, what steps are you taking to secure the future of general practice services in Wales?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn y pum mlynedd diwethaf, trosglwyddwyd 29 o contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ôl i fyrdau iechyd lleol ac mae 18 arall wedi cau eu drysau'n gyfan gwbl. Ar wahân i'r pecyn cynaliadwyedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan eich Llywodraeth i gynorthwyo gydag anawsterau ariannol mewn practisau cyffredinol, pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau dyfodol gwasanaethau practisau cyffredinol yng Nghymru?

13:53

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that very important question. Well, we are investing £40 million more in our primary care services in this financial year. It is, in very scarce times, by far the single greatest investment that we are able to make, and we are doing that in order to create the primary care service of the future. GPs are hard to recruit, and the nature of the GP workforce is changing, with people coming into it wanting to work in different ways. So, we have a primary care plan and a primary care workforce plan, which mean that, in future, people will receive those services from a wider range of clinical professionals able to provide the services that they need, releasing GPs to concentrate on those things that only GPs are able to provide.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn pwysig hwn. Wel, rydym yn buddsoddi £40 miliwn yn fwy yn ein gwasanaethau gofal sylfaenol yn y flwyddyn ariannol hon. Ar adeg o brinder mawr, dyma'r buddsoddiad mwyaf o bell ffordd y gallwn ei wneud, ac rydym yn ei wneud er mwyn creu gwasanaeth gofal sylfaenol y dyfodol. Mae meddygon teulu yn anodd eu recriwtio, ac mae natur y gweithlu meddygon teulu yn newid, gyda phobl yn dod iddo gyda'r awydd i weithio mewn ffyrdd gwahanol. Felly, mae gennym gynllun gofal sylfaenol a chynllun gweithlu gofal sylfaenol, sy'n golygu y bydd pobl yn y dyfodol, yn cael y gwasanaethau hynny gan ystod ehangach o weithwyr proffesiynol clinigol sy'n gallu darparu'r gwasanaethau y maent eu hangen, gan ryddhau meddygon teulu i ganolbwyntio ar y pethau na all neb ond meddygon teulu eu darparu.

13:54

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the major issues facing a general practice is recruitment, as you said, and the issues appear to be particularly acute in rural Wales and in Valleys communities. Indeed, the further you get away from the M4 corridor, the harder it seems to be to recruit general practitioners. I believe that exposure to general practice at an undergraduate level and exposure to practices in rural communities at a postgraduate level could be positive steps your Government could take to increase the number of GPs being recruited to those areas. What steps are you taking to ensure that people have the opportunity to experience GP practice at the very start of their medical education and have access to a wide range and wide type of practices, where they can see the reality of being a rural GP or a Valleys GP as a really positive career choice?

Weinidog, un o'r problemau mawr sy'n wynebu practis cyffredinol yw recriwtio, fel y dywedasoch, ac mae'n ymddangos bod y problemau'n arbennig o ddifrifol yng nghefn gwlad Cymru ac yng nghymunedau'r Cymoedd. Yn wir, po bellaf yr ewch o goridor yr M4, y mwyaf anodd yw hi, mae'n ymddangos, i recriwtio meddygon teulu. Credaf y gallai profiad o bractis cyffredinol ar lefel israddedig a phrofiad o bractisau mewn cymunedau gwledig ar lefel ôl-raddedig fod yn gamau cadarnhaol y gallai eich Llywodraeth eu cymryd i gynyddu nifer y meddygon teulu sy'n cael eu recriwtio i'r ardaloedd hynny. Pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod pobl yn cael cyfle i brofi gwaith practis meddyg teulu ar ddechrau eu haddysg feddygol ac yn cael mynediad at ystod eang a mathau amrywiol o bractisau, lle y gallant weld realiti bod yn feddyg teulu gwledig neu'n feddyg teulu yn y Cymoedd fel dewis gyrfael cadarnhaol iawn?

13:55

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I completely agree with Kirsty Williams that when young people in training see the opportunities that come with practising in Valleys and rural communities they immediately see the way in which that will provide them with chances to practise general medicine in a way that in other places may no longer be so available. So, working with Cardiff University, we now have at the Keir Hardie University Health Park in Merthyr Tydfil students who, within six weeks of arriving on their medical course in Cardiff, are out knocking on people's doors, visiting not just with GPs but with that wide range of other health professionals—health visitors, physiotherapists, occupational therapists and others. I've been and met groups of young people who've undergone that experience and I can tell you they are hugely enthused by what they see and come out of it really wanting to go back and practise medicine in those areas.

Wel, rwy'n cytuno'n llwyr â Kirsty Williams pan fydd pobl ifanc mewn hyfforddiant yn gweld y cyfleoedd a ddaw o weithio yn y Cymoedd a chymunedau gwledig, byddant yn gweld ar unwaith sut y bydd hynny'n rhoi cyfleoedd i ymarfer meddygaeth gyffredinol mewn ffordd nad ydynt ar gael bellach mewn mannau eraill o bosibl. Felly, gan weithio gyda Phrifysgol Caerdydd, ym Mharc Iechyd Prifysgol Keir Hardie mae gennym bellach fyfyrwyr ym Merthyr Tudful sydd, o fewn chwe wythnos i ddod ar eu cwrs meddygol yng Nghaerdydd, allan yn curo ar ddrysau pobl, yn ymweld â phobl, nid yn unig gyda meddygon teulu, ond gydag ystod eang o weithwyr iechyd proffesiynol eraill—ymwelwyr iechyd, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol ac eraill. Rwyf wedi cyfarfod â grwpiau o bobl ifanc sydd wedi cael y profiad hwnnw a gallaf ddweud wrthynt eu bod yn frwdfrydig dros ben ynglŷn â'r hyn y maent yn ei weld ac yn dod allan ohono'n awyddus iawn i fynd yn ôl i ymarfer meddygaeth yn yr ardaloedd hynny.

At the postgraduate level, as part of the mid Wales collaborative, we are going to fund a new cadre of academic GPs. So, these are GPs who want to spend part of their time in practice, but they want to be doing research and academic work in general practice and, in the mid Wales collaborative instance, inter-general practice in rural Wales. So, I think we are doing our best to be as imaginative as we can be in exposing people along the whole range of GP training to the experiences that working in Valleys and rural Wales can bring them. I share her confidence that once people see the opportunities that are there, they will want to take advantage of them.

Ar lefel ôl-raddedig, fel rhan o fenter gydweithredol canolbarth Cymru, rydym yn mynd i ariannu carfan newydd o feddygon teulu academaidd. Felly, mae'r rhain yn feddygon teulu sydd am dreulio rhan o'u hamser yn ymarfer, ond maent eisiau gwneud gwaith ymchwil a gwaith academaidd mewn practis cyffredinol ac yn achos menter gydweithredol canolbarth Cymru, ymarfer rhyng-gyffredinol yng nghefn gwlad Cymru. Felly, rwy'n meddwl ein bod yn gwneud ein gorau i fod mor greadigol ag y gallwn yn rhoi blas i bobl ar hyd yr ystod gyfan o hyfforddiant i feddygon teulu o'r profiadau y gall gweithio yn y Cymoedd a chefn gwlad Cymru eu cynnig. Rhannaf ei hyder y bydd pobl am fanteisio ar y cyfleoedd sydd yno ar ôl iddynt eu gweld.

13:56

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, can I stretch your imagination a little bit further, then? There are some people who would like to combine a career in both primary and secondary care, a portfolio career that allows them to see patients in general practice but also allows them to contribute to the services delivered in their district general hospitals. But to do that they need to have staff-grade posts. I'm aware of one GP who has consistently wished to apply for a post to work in the A&E department in Nevill Hall but has consistently been turned down for funding. Instead, the health board is quite happy to spend considerable amounts of more money on locum cover than actually a substantive post. Would you agree with me that portfolio careers that allow suitably trained doctors to work in both primary and secondary care actually could solve both our GP recruitment crisis and also sustain services in our more rural and distant DGHs?

Weinidog, a gaf fi ymestyn eich dychymyg ychydig bach ymhellach, felly? Mae rhai pobl a hoffai gyfuno gyrfa mewn gofal sylfaenol ac eilaidd, gyrfa bortffolio sy'n caniatáu iddynt weld cleifion mewn ymarfer cyffredinol, ond sydd hefyd yn caniatáu iddynt gyfrannu at y gwasanaethau a ddarperir yn eu hysbytai cyffredinol dosbarth. Ond i wneud hynny mae angen iddynt gael swyddi graddfa staff. Rwy'n ymwybodol o un meddyg teulu a fu'n gyson awyddus i ymgeisio am swydd yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys yn ysbyty Nevill Hall, ond gwrthodwyd y cyllid i'w alluogi i wneud hynny dro ar ôl tro. Yn lle hynny, mae'r bwrdd iechyd yn ddigon hapus i wario cryn dipyn yn fwy o arian ar locwm nag y byddent yn ei wario mewn gwirionedd ar swydd barhaol. A fydddech yn cytuno y byddai gyrfaoedd portffolio sy'n caniatáu i feddygon wedi'u hyfforddi'n addas weithio mewn gofal sylfaenol ac eilaidd yn gallu datrys ein hargyfwng recriwtio meddygon teulu a chynnal gwasanaethau hefyd yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth mwy gwledig ac anghysbell?

13:57

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Well, whether they would solve the crisis I'm not sure, but I'm sure that they would make a contribution to its solution. I think we're at a stage where all ideas are welcome and thank you for suggesting that one. I'm interested in the specific example that you raised of where barriers are in place, but I'm also aware of some very positive work that's going on at the Royal Glamorgan Hospital, for example, where there are GPs who want to do exactly that. They want to practise as general practitioners, but where they have a special interest, in diabetes, for example, they want to be able to offer some clinics in the hospital setting to work directly with consultants to extend their own range of skills. I met a group of clinical fellows recently, young doctors embarking on their career, and I thought it was very interesting that they said to me they never used the term 'primary and secondary'. They said, 'That's an old-fashioned way of thinking about the health service and it gets in the way of organising things in the way that we will need to in the future.'

Wel, nid wyf yn sicr a fyddent yn datrys yr argyfwng, ond rwy'n siŵr y byddent yn gwneud cyfraniad tuag at ei ddatrys. Rwy'n credu ein bod mewn cyfnod lle y mae croeso i syniadau o bob math a diolch i chi am awgrymu un. Mae gen i ddiddordeb yn yr enghraifft benodol a grybwyllwyd gennych o ran lle y ceir rhwystrau, ond rwy'n ymwybodol hefyd o rywfaent o waith cadarnhaol iawn sy'n digwydd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg hefyd, er enghraifft, lle y ceir meddygon teulu sydd eisiau gwneud yn union hynny. Maent yn awyddus i ymarfer fel meddygon teulu, ond lle y mae ganddynt ddiddordeb arbennig, mewn diabetes er enghraifft, maent yn awyddus i allu cynnig rhai clinigau yn yr ysbyty i weithio'n uniongyrchol gydag ymgynghorwyr er mwyn ymestyn eu hystod eu hunain o sgiliau. Cyfarfûm â grŵp o glinigwyr yn ddiweddar, meddygon ifanc yn dechrau ar eu gyrfaoedd, ac roedd yn ddiddorol iawn eu clywed yn dweud nad ydynt byth yn defnyddio'r term 'sylfaenol ac eilaidd'. Roeddent yn dweud bod honno'n ffordd hen ffasiwn o feddwl am y gwasanaeth iechyd ac yn eu rhwystro rhag trefnu pethau yn y ffordd y bydd angen iddynt ei wneud yn y dyfodol.

13:58

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

We now move back to questions on the paper and question 3 is from Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn ôl i'r cwestiynau ar y papur yn awr a daw cwestiwn 3 gan Rhodri Glyn Thomas.

Amseroedd Aros am Driniaeth

Waiting Times for Treatment

13:58

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros am driniaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? OAQ(4)0631(HSS)

3. Will the Minister make a statement on waiting times for treatment in Hywel Dda University Health Board? OAQ(4)0631(HSS)

13:59

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. Current waiting times for referral to treatment in Hywel Dda are not acceptable and require improvement. The health board plans for improvement include running additional clinic sessions during the week, at weekends, and some outsourcing of patients. However, on cancer referral to treatment, Hywel Dda are among the best performing health boards in Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Nid yw'r amseroedd aros presennol rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn Hywel Dda yn dderbyniol ac mae angen eu gwella. Mae cynlluniau'r bwrdd iechyd ar gyfer gwella yn cynnwys cynnal sesiynau clinig ychwanegol yn ystod yr wythnos, ar benwythnosau, a threfnu triniaeth i gleifion gan ddarparu'r allanol. Fodd bynnag, ar amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth cancer, mae Hywel Dda ymhlith y byrddau iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru.

13:59

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch clywed y Gweinidog yn cydnabod nad yw perfformiad y bwrdd iechyd o ran amseroedd aros yn gyffredinol yn ddigon da. A gaf ei gyfeirio at ddau achos sy'n cynrychioli dau begwn o ran ystod oedran? Roedd un person 79 mlwydd oed wedi disgwyl 29 mis am driniaeth ar gyfer anhwylder niwrolegol, 19 mis i weld niwrolegydd ac yna pedwar mis i gael tri sgan y gellid bod wedi eu gwneud i gyd yr un pryd. Ac yna person arall yn 25 mlwydd oed wedi wedi torri asgwrn ei arddwrn nôl ym mis Chwefror, ac wedi aros hyd fis Mehefin i gael gwylbod y bydd yn gorfod aros 12 mis arall i gael triniaeth o ran graff o'i belfis i wella ei law. A ydy o'n derbyn bod y perfformiad yma o ran y bwrdd iechyd yn annigonol?

I'm pleased to hear the Minister acknowledging that the performance of the health board in terms of waiting times generally is not good enough. May I refer him to two cases that represent the two poles in terms of the age ranges involved? One individual who was 79 years old waited 29 months for treatment for a neurological disorder, 19 months to see a neurologist and then four months to have three scans that could have all happened at the time. And then another individual who was 25 years old who had broken his wrist back in February had waited until June to be told that he would have to wait another 12 months for treatment in terms of a graft from his pelvis for his wrist to recover. Does he accept that this performance by the health board is insufficient?

14:00

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, and if the Member wants to write to me with the specifics that he's outlined then I'll happily take that up with the health board to try to get him a proper answer to, I assume, his constituents on their care and the length of time they've had to wait for different stages of their treatment. It represents this point about dealing with a backlog, because often when we talk about referral-to-treatment times, we talk about new patients coming through the door, but we still need to recognise the people who have been waiting the longest still need to be treated too. There's a point about when is the clinically appropriate time to deliver the right care at the right time in the right place. And so everyone understands the approach that should be taken. Hywel Dda health board understand they need to improve their performance, and they also have plans to do that. The challenge always is: how do we ensure that happens at the right pace to ensure that public expectations of the health service are met, because there is still huge public trust? As you will know yourself and I know you understand from your own interaction with the health service, it does amazing and astonishing things on a regular basis, but, in the key reputational areas, there must be an improvement. That is what we are determined to see, working with our health boards. I expect to see over the coming months that there will be an improvement in achievement in Hywel Dda and in other health boards across Wales.

Ydw, ac os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf gyda'r manylion penodol y mae'n eu hamlinellu, yna byddaf yn hapus i ddwyn y mater i sylw'r bwrdd iechyd er mwyn ceisio cael ateb priodol, rwy'n tybio, ar gyfer ei etholwyr ynglŷn â'u gofal a hyd yr amser y maent wedi gorfod aros am gamau gwahanol o'u triniaeth. Mae'n gwneud y pwynt ynglŷn ag ymdrin ag ôl-groniad, oherwydd yn aml pan fyddwn yn sôn am amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, rydym yn sôn am gleifion newydd yn dod drwy'r drws, ond mae angen i ni gydnabod bod angen trin y bobl a fu'n aros hiraf hefyd. Mae yna bwynt ynglŷn â pha bryd yw'r amser clinigol priodol i ddarparu'r gofal cywir ar yr adeg iawn yn y lle iawn. Ac felly mae pawb yn deall y dull y dylid ei weithredu. Mae bwrdd iechyd Hywel Dda yn deall bod angen iddynt wella eu perfformiad, ac mae ganddynt gynlluniau i wneud hynny hefyd. Yr her bob amser yw: sut rydym yn sicrhau bod hynny'n digwydd ar y cyflymder cywir i sicrhau bod disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch y gwasanaeth iechyd yn cael eu bodloni, oherwydd mae gan y cyhoedd lawer iawn o ffydd ynddo o hyd? Fel y gwyddoch eich hun ac fel rwy'n gwybod eich bod yn deall o'r rhyngweithio a fu rhyngoch a'r gwasanaeth iechyd, mae'n gwneud pethau rhyfeddol a syfrdanol yn rheolaidd, ond yn y meysydd allweddol o ran ei enw da, rhaid cael gwelliant. Dyna'r hyn rydym yn benderfynol o'i weld, gan weithio gyda'n byrddau iechyd. Dros y misoedd nesaf, disgwyliaf weld gwelliant o ran cyflawniad Hywel Dda a byrddau iechyd eraill ledled Cymru.

14:01

Angela Burns [Bywgraffiad Biography](#)

I think it's slightly disingenuous to try to cool the boiling pot of waiting times by sort of talking about it being at the appropriate pace. You look at Hywel Dda and people are having to wait for gastric surgery. The issue there is the only place they can go for it is to Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. ABM have closed two of their smaller hospitals. ABM are unable to get people out of their major beds anywhere to convalesce, and so we have patients in Hywel Dda who can't even get a date far into the far future; they simply cannot get a date to have vital surgery. Deputy Minister, I would like to understand, rather than looking at issues such as the pace—the pace is that they need the surgery, they are in enormous pain and it's impacting on their life—what pressure you can bring to bear on those two health boards to make sure they work better together so that people in west Wales are not disadvantaged again.

Rwy'n credu bod ceisio tawelu'r storm ynglŷn ag amseroedd aros drwy ryw siarad amdano'n mynd ar y cyflymder priodol yn annidwyll braidd. Rydych yn edrych ar Hywel Dda ac mae pobl yn gorfod aros am lawdriniaeth gastrig. Y broblem yn y fan honno yw mai'r unig le y gallant fynd iddo i'w chael yw Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae ABM wedi cau dau o'u hysbytai llai o faint. Nid yw ABM yn gallu cael pobl allan o'u prif welyau i unman i wella, ac felly mae gennym gleifion yn Hywel Dda nad ydynt yn gallu cael dyddiad ymhell i'r dyfodol hyd yn oed; ni allant gael dyddiad i gael llawdriniaeth hanfodol. Ddirprwy Weinidog, yn hytrach nag edrych ar faterion fel y cyflymder—y cyflymder yw bod angen y llawdriniaeth arnynt, maent mewn poen enfawr ac mae'n effeithio ar eu bywydau—hoffwn ddeall pa bwysau y gallwch ei roi ar y ddau fwrdd iechyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n well gyda'i gilydd fel nad yw pobl yn y gorllewin dan anfantais eto.

14:02

Vaughan Gething [Bywgraffiad Biography](#)

I don't think there's anything disingenuous in what I've said about the health service as it is now. Our expectation is for improved achievement. Since I've been in this post, actually, I have taken up issues with both Hywel Dda and ABM health board about the requirement to work together as a more joined-up system for west Wales, and I'm pleased to say that there is a much more constructive relationship between the two health boards now, and a much greater understanding of what they need to do together for the entire population that they serve, because patient flows across the health board boundaries are quite common on a range of different treatments. So, for example, I've also taken up issues in relation to delayed transfers of care to ensure there's capacity both within the health service, between the different parts of the health service as they need treatment, and also with their local authority partners. It isn't simply a case of trying to say that delayed transfer problems should be laid at the door of local authorities; there is much that the health service could and should do. I've had those meetings and I've made clear my expectation for action to be taken in advance of winter to ensure that there is more capacity within the system, because some people do wait too long and some people do wait in discomfort. But, many people don't wait in discomfort, but there's still the challenge of getting the right treatment at the right time and in the right place. That's what I'm determined that we will do, from a Government perspective, working with our health boards to deliver on that very clear, very simple and appropriate vision and mission for the health service.

Nid wyf yn credu bod unrhyw beth yn annidwyll yn yr hyn a ddywedais am y gwasanaeth iechyd fel y mae ar hyn o bryd. Yr hyn a ddisgwyliwn yw cyflawniad gwell. Ers i mi fod yn y swydd hon, mewn gwirionedd, rwyf wedi dwyn pethau i sylw bwrdd iechyd Hywel Dda ac ABM ynglŷn â'r gofyniad i weithio gyda'i gilydd yn system fwy cydgysylltiedig ar gyfer gorllewin Cymru, ac rwy'n falch o ddweud bod perthynas lawer mwy adeiladol rhwng y ddau fwrdd iechyd yn awr, a llawer mwy o ddealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud gyda'i gilydd ar gyfer y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu yn ei chyfanrwydd, gan fod y llif cleifion ar draws ffiniau'r byrddau iechyd yn eithaf cyffredin mewn perthynas ag ystod o wahanol driniaethau. Felly, er enghraifft, rwyf hefyd wedi amlygu materion mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo gofal i sicrhau bod capasiti o fewn y gwasanaeth iechyd, rhwng y gwahanol rannau o'r gwasanaeth iechyd pan fydd angen triniaeth arnynt, a hefyd gyda'uartneriaid awdurdod lleol. Nid yw'n fater syml o geisio dweud mai mater i awdurdodau lleol yw problemau oedi wrth drosglwyddo gofal; mae llawer y gallai ac y dylai'r gwasanaeth iechyd ei wneud. Rwyf wedi cael y cyfarfodydd hynny ac rwyf wedi dweud yn glir fy mod yn disgwyl i gamau gael eu cymryd cyn y gaeaf er mwyn sicrhau bod mwy o gapasiti o fewn y system, oherwydd mae rhai pobl yn aros yn rhy hir ac mae rhai pobl yn aros mewn anghysur. Ond er nad oes llawer o bobl yn aros mewn anghysur, mae'r her yn aros o ran sicrhau'r driniaeth gywir ar yr amser cywir ac yn y lle iawn. Dyna'r hyn rwy'n benderfynol o'i wneud, o safbwynt y Llywodraeth, gan weithio gyda'n byrddau iechyd i wireddu'r weledigaeth a'r genhadaeth glir, syml a phriodol honno ar gyfer y gwasanaeth iechyd.

Gweithlu'r Dyfodol

Future Workforce

14:03

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllunio ar gyfer gweithlu'r dyfodol o fewn y gwasanaeth iechyd?
OAQ(4)0638(HSS)

4. Will the Minister make a statement on planning for the future workforce within the health service?
OAQ(4)0638(HSS)

- 14:04 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)
 Bydd gweithlu a fydd yn gallu cynnal y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol yn gwneud mwy na dim ond dilyn patrwm gweithlu y gorffennol. Bydd y cylch nesaf o gynlluniau tymor canolog integredig yn rhoi ffocws penodol ar gynllunio'r gweithlu, wrth i ni ddatblygu strategaeth 10-mllynedd ar gyfer y gweithlu yng Nghymru.
- A workforce capable of sustaining the NHS in the future will not simply mirror the workforce of the past. The next round of integrated medium-term plans will include a particular focus on workforce planning, as we develop a 10-year workforce strategy for Wales.
- 14:04 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad Biography](#)
 Diolch yn fawr am yr ateb, ac edrychwn ymlaen i weld canlyniad y trafodaethau yma. A gaf eich cyfeirio chi at faes nyrsio y rhai sydd ag anableddau dysgu'n benodol? Roedd yna adroddiad yn 2012, 'Cryfhau'r ymrwymiad', a oedd yn cydnabod bod nyrsys arbenigol yn cael, ac rwy'n dyfynnu, 'dylanwad mawr ar iechyd pobl sydd ag anableddau dysgu'.
- Thank you very much for that response, and we look forward to seeing the outcomes of these discussions. May I refer you to nursing for those who have learning difficulties? There was a report in 2012, 'Strengthening the commitment', that acknowledged that specialist nurses had, and I quote, 'a major input into the health of people with learning disabilities'.
- Ond, mi roedd prinder nyrsys yn y maes yn amlygu'i hun. Mi fu yna adroddiad pellach wedyn—diweddariad ar hynny—yn 2015 yn tanlinellu yr un pwynt. Mae hanner y nyrsys yn y maes yma dros eu 50 oed, felly pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i sicrhau cyflenwad digonol o nyrsys ym maes anableddau dysgu i'r dyfodol?
- But, a shortage of nurses in this area became apparent. There was then a further update report in 2015 that highlighted the same problem. Half of the nurses in this area are over 50 years of age. So, what plans does the Government have to ensure a sufficient supply of nurses working in learning difficulties for the future?
- 14:05 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)
 Diolch yn fawr, wrth gwrs, am y cwestiwn. Bob blwyddyn, rŷm ni'n cytuno cynlluniau gyda'r byrddau iechyd a gyda'r bobl eraill sy'n sefyll ar y bwrded sydd yn cynllunio'r gweithlu. Rŷm ni wedi buddsoddi mwy nag £80 miliwn yn y flwyddyn ariannol yma. Rŷm ni wedi cynyddu nifer y nyrsys o fwy nag 20 y cant yn y flwyddyn ariannol yma, ac rŷm ni wedi rhoi mwy na £0.5 miliwn ychwanegol i helpu i hyfforddi y nyrsys arbenigol rŷm ni'n mynd i'w defnyddio yma yng Nghymru yn y dyfodol.
- Thank you for the question. Each year, we agree plans with the health boards and the other members on the boards who undertake the workforce planning. We've invested more than £80 million in this current financial year. We've increased the number of nurses by more than 20 per cent in this current financial year, and we have given an additional £0.5 million to assist with training the specialist nurses that we're going to use here in Wales in future.
- 14:05 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)
 Weinidog, roeddwn gyda chi ym mis Gorffennaf pan lanswyd y cynllun gweithlu gofal sylfaenol ar gyfer Cymru ym meddygfa Aman Tawe, yn wir yn y pentref lle rwy'n byw. A yw'r cyfnod o ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach ar y cynllun bellach wedi'i gwblhau, a phryd ydych chi'n gobeithio cyhoeddi'r fersiwn derfynol?
- Minister, I was with you in July when the primary care workforce planning scheme for Wales was launched in the Amman Tawe surgery, in the village where I live. Has the period of engagement on the plan with a broader range of stakeholders now been completed, and when do you hope to publish the final version?
- 14:06 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)
 Diolch yn fawr i Gwenda Thomas am y cwestiwn a diolch o galon am ddod gyda fi i Aman Tawe yn ôl ym mis Gorffennaf. Roedd e'n wych bod yna gyda chi a gyda Dr Duncan Williams, sy'n arwain beth maen nhw'n datblygu yn Aman Tawe.
- May I thank Gwenda Thomas very much for that question? May I say thank you very much for accompanying me to Amman Tawe in July? It was wonderful to be there with you and Dr Duncan Williams who is the lead on developing the scheme at Amman Tawe.

Llywydd, we have had a period of engagement on the primary care workforce plan that has been concluded. The plan was very well received. If you look at what has been achieved in Amman Tawe, where I was with Gwenda Thomas, where they took a practice that was in a very difficult situation with a number of GPs deciding to leave, they now have three full-time GPs, five part-time GPs, two advanced nurse practitioners, a clinical pharmacist, a strengthened group of healthcare assistants and they've newly employed a paramedic. In terms of the question that I was originally asked about the workforce, you can see the workforce of the future happening already in Amman Tawe.

Llywydd, rydym wedi cwblhau cyfnod o ymgysylltu ar gynllun y gweithlu gofal sylfaenol. Cafwyd ymateb da iawn i'r cynllun. Os edrychwch ar yr hyn a gyflawnwyd yn Aman Tawe, lle'r oeddwn i gyda Gwenda Thomas, lle y cymerwyd practis a oedd mewn sefyllfa anodd iawn gyda nifer o feddygon teulu yn penderfynu gadael, bellach mae ganddynt dri o feddygon teulu amser llawn, pump o feddygon teulu rhan-amser, dau uwch-ymarferydd nyrsio, fferylllydd clinigol, grŵp cryfach o gynorthwyr gofal iechyd, ac maent newydd gyflogi parafeddyg. O ran y cwestiwn a ofynnwyd i mi'n wreiddiol am y gweithlu, gallwch weld gweithlu'r dyfodol yn digwydd eisoes yn Aman Tawe.

14:07 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister will be aware of the loss of general practitioner surgeries, especially in rural areas, where this has the knock-on effect of patients seeking to register with surviving practices. This puts extra pressure on these practices. What plans does your Government have in place to ensure the survival of our primary care services across Wales?

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o broblem colli meddygfeydd meddygon teulu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle y mae'n arwain at sgil-ffaith ganlyniadol wrth i gleifion geisio cofrestru gyda'r meddygfeydd sy'n dal yno. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y practisau hyn. Pa gynlluniau sydd gan eich Llywodraeth i sicrhau bod ein gwasanaethau gofal sylfaenol yn goroesi ledled Cymru?

14:07 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as the Member will have heard Kirsty Williams mention earlier, we now have an agreement with GPC Wales on a new framework for supporting practices in rural areas, which are inevitably small in scale and on multiple sites, and that happens in Valleys communities as well. The framework sets out a set of agreed criteria, against which fragile practices can apply to their local health boards for assistance, and there is an agreed make-up of a panel that will determine those applications locally. That assistance can be in the form of back-up services, back office services that health boards may be able to provide on behalf of small practices; it can be extra deployment of workers to come and help out, or it can be in the form of direct financial assistance. I'm very glad that we've been able to conclude that agreement with GPC Wales, and I think it will help to address the sorts of circumstance that the Member has identified.

Wel, fel y bydd yr Aelod wedi clywed Kirsty Williams yn sôn yn gynharach, bellach mae gennym gytundeb gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru ar fframwaith newydd ar gyfer cefnogi practisau mewn ardaloedd gwledig, sy'n anochel yn fach o ran maint ac ar safleoedd lluosog, ac mae hynny'n digwydd mewn cymunedau yn y Cymoedd hefyd. Mae'r fframwaith yn nodi set o feini prawf y cytunwyd arnynt, y gall practisau bregus wneud cais i'w byrddau iechyd lleol am gymorth yn seiliedig arnynt, a cheir cynllun panel wedi'i gytuno a fydd yn penderfynu ar y ceisiadau hynny'n lleol. Gall y cymorth fod ar ffurf gwasanaethau wrth gefn, gwasanaethau cefn swyddfa y gallai byrddau iechyd eu darparu ar ran practisau bach; gall gynnwys defnydd o weithwyr ychwanegol i ddod i helpu, neu gall fod ar ffurf cymorth ariannol uniongyrchol. Rwy'n falch iawn ein bod wedi gallu cwblhau'r cytundeb hwnnw gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, ac rwy'n credu y bydd yn helpu i fynd i'r afael â'r mathau o amgylchiadau y mae'r Aelod wedi nodi.

14:08 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, fe wnaethoch chi gyhoeddi'r £80 miliwn ar gyfer hyfforddiant ychwanegol ym mis Chwefror, ond hefyd mi roedd yna gyhoeddiad ym mis Ebrill ynglŷn ag adolygiad o'r hyfforddiant ac addysgu y gweithlu iechyd, ac rwy'n meddwl bod yna ddiweddariad wedi cael ei wneud gennyh chi ym mis Gorffennaf. Fe ddywedwyd bryd hynny eich bod chi'n gobeithio gwneud rhyw fath o gyhoeddiad terfynol yn ystod yr hydref. A ydych chi'n gallu dweud yn union, erbyn hyn, pryd fydd yr adroddiad yna'n cael ei gyhoeddi?

Minister, you did announce that £80 million for additional training in February, but there was also an announcement in April on a review of the training and education of the health workforce, and I think that you gave an update in July. It was said at that time that you hoped to make some sort of final announcement during the autumn. Can you now tell us exactly when that report will be published?

14:09

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, y gobaith sydd gyda fi yw gwneud y datganiad ym mis Hydref. Rŷm ni wedi dod i ben y cyfnod pan oeddem ni wedi mynd yn ôl mas i bobl i gael eu sylwadau nhw ar yr adroddiad a oedd wedi cael ei baratoi o dan arweiniad Mel Evans. Mae'r panel nawr wedi dod at ei gilydd unwaith eto i weld y sylwadau sydd wedi dod yn ôl. Maen nhw wedi bwydo yn ôl i fi y casgliadau sydd gyda nhw ar ôl gwneud y gwaith yna. Rydw i'n edrych ymlaen at gael y cynghoriad diweddaraf gan y gweision sifil ac i wneud y datganiad i'r Cynulliad ym mis Hydref.

My hope is to make that statement in October. We've completed the period of returning to the consultees to ask for their comments on the report that had been written under the leadership of Mel Evans. The panel have now reconvened to look at the comments that have been returned. They have fed back to me on their conclusions after completing that work. I look forward to receiving an update from the civil servants and making the announcement to the Assembly in October.

Recriwtio Nyrsys

Nurse Recruitment

14:10

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r heriau sy'n wynebu'r broses o recriwtio nyrsys yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0637(HSS)

5. What assessment has the Minister made of the challenges facing nurse recruitment in Mid and West Wales? OAQ(4)0637(HSS)

14:10

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Assessments of the recruitment challenges facing both local health boards and trusts, including those in mid and west Wales, are carried out through a number of mechanisms, but primarily through their integrated medium-term plans.

Cynhelir asesiadau o'r heriau recriwtio sy'n wynebu byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau, gan gynnwys y rhai yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, drwy nifer o fectanweithiau, ond yn bennaf drwy eu cynlluniau integredig ar gyfer y tymor canolig.

14:10

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank the Minister very much for that response. Following a letter that I received last month from the Shrewsbury and Telford Hospital NHS Trust regarding delays that they're currently suffering in their international staff recruitment programme, I immediately wrote to the Home Secretary to highlight the concerns that they had regarding the need to put nurses on the shortage occupation list. The response that I then received from the Minister for Immigration went on to refer to the,

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yn dilyn llythyr a gefais fis diwethaf gan Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford ynglŷn ag oedi y maent yn ei ddioddef ar hyn o bryd yn eu rhaglen recriwtio staff rhyngwladol, ysgrifennais ar unwaith at yr Ysgrifennydd Cartref i dynnu sylw at y pryderon a oedd ganddynt ynglŷn â'r angen i roi nyrsys ar y rhestr galwedigaethau prin. Aeth yr ymateb a gefais wedyn gan y Gweinidog dros Fewnfudo ymlaen i gyfeirio at y,

'long-term decision to train our workforce here at home.'

'long-term decision to train our workforce here at home.'

Minister, do you agree with me that, if we are to have and to maintain the safe nursing levels on our wards for which we are campaigning, in the short to medium term it will be necessary for us to recruit both from home and abroad? Furthermore, do you also agree with me, and, indeed, the Royal College of Nursing that the UK Government's irresponsible and illogical attitude to immigration is contributing actively to the nursing crisis that we are facing?

Weinidog, os ydym am gael ac am gynnal y lefelau nyrsio diogel yr ymgyrchwn amdanynt ar ein wardiau, a ydych yn cytuno y bydd yn rhaid i ni yn y tymor byr i'r tymor canolig recriwtio gartref ac o dramor? Ar ben hynny, a ydych hefyd yn cytuno â mi, ac yn wir, â Choleg Brenhinol y Nyrsys fod agwedd anghyfrifol ac afresymegol Llywodraeth y DU tuag at fewnfudo yn cyfrannu'n weithredol at yr argyfwng nyrsio sy'n ein hwynebu?

14:11

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I thank William Powell for that question, and thank you for what you have done in writing to the UK Government on this matter. We, as a Government, have provided evidence to the UK Government's Migration Advisory Committee's review of the UK and Scotland shortage occupation lists and have argued in favour of including nursing within that UK list. It seems absolutely essential to me, and it is just a wrong-headed focus on the wrong issue that is leading them to refuse to do that. I've argued as well for a separate Welsh shortage occupation list. Scotland have it. We get absolutely nowhere in these discussions with the Home Office because they are bent on an entirely different set of priorities, and those things simply get in the way of them making sensible decisions. I agree with you that services in Wales could be improved by better recruitment from overseas. And the final point that you made about the absolutely wrong-headed decision that Elin Jones raised on the floor of the Assembly just before the summer, which will lead, potentially, to the deportation of very well-qualified nurses, both in the NHS and in the social care system, based on some entirely ideologically driven decision by the UK Government, is absolutely to be regretted.

Diolch i William Powell am ei gwestiwn, a diolch i chi am yr hyn rydych wedi ei wneud yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar y mater hwn. Rydym ni, fel Llywodraeth, wedi darparu tystiolaeth i adolygiad Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo Llywodraeth y DU o'r rhestrau galwedigaethau prin yn y DU a'r Alban ac wedi dadlau o blaid cynnwys nyrsio ar restr y DU. Mae'n ymddangos yn gwbl hanfodol i mi, a ffocws cyfeiliornus ar y broblem anghywir sy'n eu harwain i wrthod gwneud hynny. Rwyf wedi dadlau yn ogystal i gael rhestr galwedigaethau prin ar wahân ar gyfer Cymru. Mae gan yr Alban un. Nid ydym yn cyrraedd unman yn y trafodaethau hyn â'r Swyddfa Gartref am eu bod â'u bryd ar set hollol wahanol o flaenoriaethau, ac mae'r pethau hynny'n syml iawn yn eu rhwystro rhag gwneud penderfyniadau synhwyrol. Rwy'n cytuno â chi y gellid gwella gwasanaethau yng Nghymru drwy recriwtio'n well o dramor. A'r pwynt olaf a wnaethoch am y penderfyniad cwbl gyfeiliornus a grybwyllodd Elin Jones ar lawr y Cynulliad yn union cyn yr haf, a fydd yn arwain, o bosibl, at anfon nyrsys â chymwysterau da iawn yn y GIG ac yn y system gofal cymdeithasol o'r wlad, yn seiliedig ar benderfyniad wedi'i ysgogi'n gyfan gwbl gan ideoleg gan Lywodraeth y DU, sy'n destun gofid llwyr.

14:13

Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

We've talked about recruitment from further afield, but could you tell me, Minister, what efforts are being made by the health boards in Mid and West Wales to recruit surgically qualified nurses from within the European Union?

Rydym wedi siarad am recriwtio o ymhellach, ond a allech ddweud wrthyf, Weinidog, pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan y byrddau iechyd yn y canolbarth a'r gorllewin i recriwtio nyrsys cymwys yn llawfeddygol o fewn yr Undeb Ewropeaidd?

14:13

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you to Joyce Watson because, indeed, our first call is to recruit actively within the European Union. We have four local health boards in south Wales, including Hywel Dda, that are joined together in a common attempt to recruit from within the European Union. They are focused so far on Spain, on Portugal and on Italy. The first five overseas nurses to be recruited to Hywel Dda have begun work this week. There are a further 22, we hope, who have been offered contracts and who we expect to arrive. The Hywel Dda health board continues to take a very active part in recruiting on the European stage, including participating in the next European health recruitment fair in Dublin in October.

Diolch i Joyce Watson, oherwydd, yn wir, ein cam cyntaf yw mynd ati i recriwtio o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae gennym bedwar bwrdd iechyd lleol yn ne Cymru, gan gynnwys Hywel Dda, sydd wedi uno â'i gilydd mewn ymgais gyffredin i recriwtio o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Maent yn canolbwyntio hyd yma ar Sbaen, Portiwgal a'r Eidal. Mae'r pum nyrs gyntaf i gael ei recriwtio o dramor i Hywel Dda wedi dechrau gweithio yr wythnos hon. Rydym yn gobeithio ac yn disgwyl y bydd 22 arall sydd wedi cael cynnig cytundebau yn cyrraedd. Mae bwrdd iechyd Hywel Dda yn parhau i chwarae rhan weithgar iawn yn recriwtio ar y llwyfan Ewropeaidd, gan gynnwys cymryd rhan yn y ffair recriwtio iechyd Ewropeaidd nesaf yn Nulyn ym mis Hydref.

14:14

Paul Davies [Bywgraffiad Biography](#)

I understand that the RCN have been concerned that staff shortages due to recruitment difficulties have resulted in nursing staff missing out on essential training. I note the £80 million you have invested in training. However, an RCN survey this year of more than 14,000 staff, with over 700 respondents working in Wales, revealed that nearly a fifth of nursing staff were unable to complete essential training. In the circumstances, what other support have you provided to nurses in order to tackle this specific problem? What mechanisms have you put in place as a Government to ensure that nurses are able to complete that essential training?

Rwy'n deall bod y Coleg Nyrsio Brenhinol wedi bod yn pryderu bod prinder staff oherwydd anawsterau recriwtio wedi arwain at staff nyrsio yn colli cyfleoedd hyfforddi hanfodol. Nodaf yr £80 miliwn a fuddsoddiwyd gennych mewn hyfforddiant. Fodd bynnag, datgelodd arolwg y Coleg Nyrsio Brenhinol eleni o fwy na 14,000 o staff, gyda thros 700 o ymatebwyr sy'n gweithio yng Nghymru, fod bron i un rhan o bump o'r staff nyrsio wedi methu â chwblhau hyfforddiant hanfodol. O dan amgylchiadau o'r fath, pa gymorth arall a ddarparwyd gennych i nyrsys er mwyn mynd i'r afael â'r broblem benodol hon? Pa fecanweithiau a roesoch ar waith fel Llywodraeth i sicrhau bod nyrsys yn gallu cwblhau hyfforddiant hanfodol o'r fath?

14:14

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As Paul Davies's question made clear, this is an issue that is not confined to Wales. As pressures on nurse numbers increase, so releasing nurses who are being employed for training becomes a greater issue for health boards and for trusts.

One of the ways in which this issue will undoubtedly be addressed is when we move to universal and compulsory revalidation of the nursing profession. The Nursing & Midwifery Council will consider this matter at their October meeting. We have had one health board in Wales that has been one of a small number of locations where the revalidation tool has been trialled—that was in the Aneurin Bevan health board. When health boards and trusts know that, in order for their nurse workforce to go on being accredited to train, they have got to be released for such training modules, then I think that will bring an extra and welcome pressure into the system.

Fel y gwnaeth cwestiwn Paul Davies yn glir, dyma fater nad yw wedi ei gyfyngu i Gymru. Wrth i'r pwysau gynyddu o ran niferoedd nyrsys, mae rhyddhau nyrsys cyflogedig i gael hyfforddiant yn dod yn fwy o broblem i fyrdau iechyd ac ymddiriedolaethau.

Yn bendant, un o'r ffyrdd yr eir i'r afael â'r mater hwn yw pan fyddwn yn symud i broses gyffredinol a gorfodol o ailddilysu'r proffesiwn nyrsio. Bydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystyried y mater yn eu cyfarfod ym mis Hydref. Cawsom un bwrdd iechyd yng Nghymru a fu'n un o nifer fach o leoliadau lle y cafodd yr offeryn ailddilysu ei dreialu—sef bwrdd iechyd Aneurin Bevan. Pan fydd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn gwybod bod yn rhaid rhyddhau eu gweithlu nyrsio i ddilyn modiwlau hyfforddiant o'r fath er mwyn iddynt barhau i gael eu hachredu, yna rwy'n meddwl y bydd hynny'n dwyn pwysau ychwanegol i mewn i'r system sydd i'w groesawu.

14:15

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwy'n cytuno â'r hyn rŷch chi newydd ei ddweud ynglŷn â recriwtio, wrth gwrs, ond mae hefyd yn bwysig ein bod yn gofyn pa fath o weithlu nyrsio sydd angen arnom ni yn y canolbarth dros y blynyddoedd i ddod, ac rwy'n ofidus ynglŷn â dau beth: un yw'r diffyg posib o ddarparu ar gyfer nyrsio cymunedol, achos mae nyrsys yn ymddeol ac mae yna ddiffyg eisoes yn y ffrwd honno, ac, yn ail, ein bod yn colli cyfle efallai i sefydlu uwch-ymarferwyr nyrsio fel rhan o'r ddarpariaeth gynradd sydd gennym ni, yn enwedig y rhai, efallai, sy'n gallu presgreibio yn ogystal, fel modd o helpu a chydweithio â meddygon teulu. A ydy'r ddau beth yna'n rhywbeth rydych chi'n gweithio gyda byrddau iechyd arnynt i sicrhau yn y dyfodol?

Minister, I agree with what you've just said on recruitment, of course, but it's also important that we ask what sort of nursing workforce we need in mid Wales over ensuing years, and I am concerned on two issues: one is the possible shortage of community nurses, because there are nurses retiring, and there's already a shortage there, and, secondly, that we're missing an opportunity perhaps to establish senior nurse practitioners as part of the primary provision that we have, particularly those who are able to prescribe also, as a way of assisting and collaborating with GPs. Are those two things something that you're working with the health boards on to ensure that they are available in future?

14:16

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr i Simon Thomas am y cwestiwn. Rŷm ni'n gweithio gyda'r byrddau iechyd yng nghyd-destun y cynllun sydd gennym ni am ofal sylfaenol, yn enwedig, ac i drïo cynyddu'r nifer o nyrsys sy'n gallu presgreibio yn annibynnol ac i helpu i wneud mwy yn y ffordd yna.

There is an interesting issue that is connected to what Simon Thomas has raised, which we will come back to, no doubt, on the floor of this Assembly. The Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill: one of the things that has been a matter of debate around it, and I know is well understood by the Member in charge of it, is whether or not, by identifying some parts of the health system as being protected in law in relation to the number of nurses, it might lead to areas that are not so protected finding numbers moved away from them. There are people in community nursing who raise that point regularly. We will come back to it. It's a matter I know the Member in charge is aware of and we'll be looking jointly to find ways of doing the good things that that Bill seeks to do while minimising any unintended consequences.

Thank you, Simon Thomas, for that question. We are collaborating with the health boards in the context of the plan that we have for primary care, in particular, and we're trying to increase the number of nurses that are able to prescribe independently and to help in doing more in that respect.

Mae yna fater diddorol sy'n gysylltiedig â'r hyn y mae Simon Thomas wedi'i grybwyll, y down yn ôl ato, heb os, ar lawr y Cynulliad hwn. Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): un o'r pethau sydd wedi bod yn destun dadl yn ei gylch, ac rwy'n gwybod bod yr Aelod sy'n gyfrifol amdano yn ei ddeall yn iawn, yw a allai'r Bil, drwy nodi bod rhai rhannau o'r system iechyd yn cael eu diogelu yn y gyfraith mewn perthynas â niferoedd nyrsys, arwain at symud nyrsys o feysydd nad ydynt yn cael eu diogelu yn y fath fodd. Mae yna bobl ym maes nyrsio cymunedol sy'n cyfeirio at hyn yn rheolaidd. Byddwn yn dod yn ôl ato. Mae'n fater rwy'n gwybod bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ymwybodol ohono, a byddwn yn edrych arno gyda'n gilydd i ddod o hyd i ffyrdd o wneud y pethau da y mae'r Bil yn ceisio'u gwneud gan leihau unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

14:18 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, will you welcome the start of the work at Prince Philip Hospital on implementing the new GP and emergency nurse practitioner unscheduled care service? Does the local health board's success in recruiting to all these boards not demonstrate that, even in challenging times, nurses and GPs can be recruited for clinically sustainable services?

Weinidog, a wnewch chi groesawu'r gwaith sy'n dechrau yn Ysbyty Tywysog Philip ar weithredu gwasanaeth newydd gofal heb ei drefnu meddyg teulu ac ymarferydd nyrsio achosion brys? Onid yw llwyddiant y bwrdd iechyd lleol yn recriwtio i'r holl fyrdau hyn yn dangos, hyd yn oed mewn cyfnod heriol, fod modd recriwtio nyrsys a meddygon teulu ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy yn glinigol?

14:18 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Of course, I do very much welcome the fact that work has begun on the front-of-house developments that will be required at Prince Philip Hospital. I hope it's a tangible sign to the local population of the service that, I think, by and large now, people are signed up to. And, the fact that, as I understand it, as Keith Davies has said, the health board has been able to fill all the posts that it was looking for in order to provide that new service, I think does show that, when workforce planning is got right, and scarce professionals can see that they're going to be asked to work in a service that is properly organised and sustainable for the future, we're still very well able, in Wales, to recruit successfully to such ventures.

Wrth gwrs, rwy'n croesawu'n fawr y ffaith fod gwaith wedi dechrau ar y datblygiadau blaen y tŷ y bydd eu hangen yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Rwy'n gobeithio ei fod yn arwydd pendant i'r boblogaeth leol o'r gwasanaeth y mae pobl at ei gilydd yn ei gefnogi bellach, rwy'n credu. Ac mae'r ffaith, yn ôl a ddeallaf, fel y mae Keith Davies wedi'i ddweud, fod y bwrdd iechyd wedi gallu llenwi'r holl swyddi a oedd ei heisiau i ddarparu'r gwasanaeth newydd hwnnw, yn dangos, rwy'n credu, pan fydd cynllunio'r gweithlu'n cael ei wneud yn iawn, a gweithwyr proffesiynol prin yn gweld eu bod yn mynd i gael gwahoddiad i weithio mewn gwasanaeth sydd wedi'i drefnu'n briodol ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, rydym yn dal i allu recriwtio'n llwyddiannus iawn i gynlluniau o'r fath yng Nghymru.

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you.

Diolch.

14:19 **2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau**

2. Questions to the Minister for Education and Skills **Y**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Education and Skills, and question 1 is William Graham.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, a daw cwestiwn 1 gan William Graham.

Absenoldeb mewn Ysgolion

Absenteeism in Schools

14:19 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Presiding Officer. Good afternoon, Minister.

Diolch i chi, Lywydd. Prynhawn da, Weinidog.

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyfradd absenoldeb mewn ysgolion yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0625(ESK)

1. Will the Minister make a statement on the rate of absenteeism in schools in South Wales East? OAQ(4)0625(ESK)

14:19 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

My thanks to the Member for South Wales East. I'm pleased to report that, across Wales, attendance continues to improve. Overall absence in secondary schools in south-east Wales improved according to the latest statistics, although performance does, of course, vary between local authorities in the region, highlighting that there is still work to be done.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru. Rwy'n falch o ddweud bod presenoldeb yn parhau i wella ar draws Cymru. Mae lefelau absenoldeb cyffredinol mewn ysgolion uwchradd yn ne-ddwyrain Cymru wedi gwella yn ôl yr ystadegau diweddaraf, er bod perfformiad yn amrywio, wrth gwrs, rhwng awdurdodau lleol yn y rhanbarth, gan ddangos bod gwaith i'w wneud o hyd.

14:19 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to the Minister for his answer; he will know that the figures have not improved as one would like. The Minister will also know that children only get one chance in school, and, although reasons for absenteeism can be many and varied, what positive steps could he take to engage with local authorities to reduce this worrying trend?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb; fe fydd yn gwybod nad yw'r ffigurau wedi gwella fel y byddai rhywun yn ei hoffi. Bydd y Gweinidog hefyd yn gwybod mai un cyfle'n unig a gaiff plant yn yr ysgol, ac er y gallai'r rhesymau dros absenoldeb fod yn niferus ac yn amrywiol, pa gamau cadarnhaol y gallai eu rhoi ar waith i ymgysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn lleihau'r duedd hon sy'n peri pryder?

14:20 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as I say, Presiding Officer, the trend is not worrying; the trend is showing every sign of improving. I do worry about those, perhaps, local authority areas where things are not quite as advanced as they would be, for instance, in Monmouthshire, which is showing now absence levels of only 5 per cent—this is measured by half days missed in a year—and Torfaen, which has seen a decrease in its absence figures down to about just over 6 per cent, although it's perhaps not quite so encouraging in Caerphilly, where absence figures remain over 7 per cent. The good work that's been done in terms of driving absence figures down is about local authorities understanding their schools, and schools working together with pupils—and families, critically—to ensure that the importance of good attendance is something that nobody misunderstands. It really is also very much about good-quality teaching and learning in the classroom, which is one of the single biggest motivating factors for young people when it comes to an enthusiasm to attend school. But the overall trend is in the right direction.

Wel, fel y dywedaf, Lywydd, nid yw'r duedd yn peri pryder; mae'r duedd yn dangos pob arwydd o wella. Rwy'n poeni am yr awdurdodau lleol lle nad yw pethau wedi datblygu cymaint ag y maent yn Sir Fynwy, er enghraifft, sy'n dangos lefelau absenoldeb o 5 y cant yn unig yn awr—caiff ei fesur yn ôl nifer yr hanner diwrnodau a gollwyd mewn blwyddyn—a Thorfaen, sydd wedi gweld gostyngiad yn ei ffigurau absenoldeb i lawr i ychydig dros 6 y cant, er nad yw pethau mor galonogol efallai yng Nghaerffili, lle y mae ffigurau absenoldeb yn parhau i fod dros 7 y cant. Mae'r gwaith da a wnaed ar ostwng ffigurau absenoldeb yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn deall eu hysgolion, ac ysgolion yn cydweithio â disgyblion—a theuluoedd, yn allweddol—er mwyn sicrhau bod pwysigrwydd presenoldeb da yn rhywbeth nad oes neb yn ei gamddeall. Mae'n ymwneud i raddau helaeth iawn hefyd ag addysgu a dysgu o ansawdd da yn y dosbarth, sy'n un o'r ffactorau ysgogol unigol mwyaf i bobl ifanc o ran brwdfrydedd i fynychu'r ysgol. Ond mae'r duedd gyffredinol yn y cyfeiriad cywir.

14:21 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you are right: in fact, absenteeism is going the right way. But official figures on school absenteeism do not cover incidents of truancy where a parent is making efforts to ensure that the child attends school, but without much success. What efforts are being made for help and support to be given to such parents, please?

Weinidog, rydych yn iawn: yn wir, mae lefelau absenoldeb yn mynd y ffordd gywir. Ond nid yw ffigurau swyddogol ar absenoldeb ysgolion yn cwmpasu achosion o driwantiaeth lle y mae rhiant yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y plentyn yn mynychu'r ysgol, ond heb fawr o lwyddiant. Pa ymdrechion a wneir i roi cymorth a chefnogaeth i rieni o'r fath, os gwelwch yn dda?

14:21 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, we have our education welfare services, and it's very important that the officials engaged in that sort of work are on top of their game and that, as I say, the local authorities are in very close contact with schools, and with social services, if that is part of the picture as well. I would encourage those Members who are concerned about their particular local authority area perhaps not performing quite as well as the best in Wales to encourage their local authorities to take a long hard look at some of the best practice we are seeing up and down the country. But it is true to say that, across Wales as a whole, school absenteeism levels are at record low levels.

Wel, wrth gwrs, mae gennym ein gwasanaethau lles addysg, ac mae'n bwysig iawn fod y swyddogion sy'n rhan o waith o'r fath yn cyflawni cystal ag y dylent a bod yr awdurdodau lleol, fel y dywedais, mewn cysylltiad agos iawn ag ysgolion, a chyda'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd, os ydynt yn rhan o'r darlun. Byddwn yn annog Aelodau sy'n pryderu efallai nad yw eu hawdurdod lleol penodol yn perfformio cystal â'r gorau yng Nghymru i annog eu hawdurdodau lleol i edrych yn ofalus ar rai o'r arferion gorau a welwn ar hyd a lled y wlad. Ond mae'n wir dweud, yn gyffredinol, fod lefelau absenoldeb ysgolion ledled Cymru ar eu hisaf erioed.

Clybiau ar ôl Ysgol

After-school Clubs

14:22 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog plant i gymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol i wella eu sgiliau sylfaenol? OAQ(4)0624(ESK)

2. What is the Welsh Government doing to promote participation in after-school clubs to improve a child's basic skills? OAQ(4)0624(ESK)

14:22

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My thanks to the Member for Cardiff North. Recent Welsh Government guidance on family and community engagement recognises the benefits to learners of schools working in partnership with community groups and learners' families. Partnership projects, which could be run either during or after school hours, help learners apply, practice and see the relevance of their learning.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd. Mae canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru ar ymwneud teuluol a chymunedol yn cydnabod y manteision i ddysgwyr wrth i ysgolion weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol a theuluoedd dysgwyr. Mae prosiectau partneriaeth, y gellid eu cynnal naill ai yn ystod neu ar ôl oriau ysgol, yn helpu dysgwyr i gymhwyso ac arfer eu dysgu, a gweld ei berthnasedd.

14:23

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. Llanishen Fach Primary School in my constituency is providing a very popular after-school bridge club, which, of course, is excellent for promoting numeracy, problem solving and developing mental maths skills. The Welsh Bridge Union has been in touch to say it's keen to promote bridge as an activity in other schools and it's offering to work with schools, doing structured courses with all the materials needed to deliver this. Is this something that the Minister would welcome and would encourage in other schools in Cardiff and in Wales?

Diolch i'r Gweinidog am ei ymateb. Mae Ysgol Gynradd Llanisien Fach yn fy etholaeth yn darparu clwb bridge poblogaidd iawn ar ôl ysgol, sydd, wrth gwrs, yn ardderchog ar gyfer hyrwyddo rhifedd, datrys problemau a datblygu sgiliau mathemateg pen. Mae Undeb Bridge Cymru wedi bod mewn cysylltiad i ddweud ei fod yn awyddus i hyrwyddo bridge fel gweithgaredd mewn ysgolion eraill ac mae'n cynnig gweithio gydag ysgolion, gan wneud cyrsiau strwythuredig gyda'r holl ddeunyddiau sydd eu hangen i gyflawni hyn. A yw hyn yn rhywbeth y byddai'r Gweinidog yn ei groesawu ac yn ei annog mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd ac yng Nghymru?

14:23

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, I would. Thank you for bringing that to my attention. I am pleased that Llanishen Fach has chosen an innovative approach, really, to addressing those crucial skills and engaging young people in an innovative way. Improving literacy and numeracy skills do remain, of course, key educational priorities, and I'm pleased that schools are prepared to experiment and use engaging approaches such as, in this case, bridge, to develop those skills. That's all to the good. Every school, I would hope, pays attention to the potential that after-school clubs and school clubs in general can have in engaging young people in all sorts of agendas relevant to their education and, indeed, with an eye to broadening those young people's view of the world and their education in general.

Wel, wrth gwrs y byddwn. Diolch i chi am dynnu fy sylw at hynny. Rwy'n falch fod Llanisien Fach wedi dewis dull arloesol, yn wir, i fynd i'r afael â'r sgiliau hanfodol hyn a chynnwys pobl ifanc mewn ffordd arloesol. Mae gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd yn parhau i fod, wrth gwrs, yn flaenoriaethau addysgol allweddol, ac rwy'n falch fod ysgolion yn barod i arbrofi a defnyddio dulliau deniadol, megis bridge yn yr achos hwn, o ddatblygu'r sgiliau hynny. Ni ddaw dim ond da o hynny. Byddwn yn gobeithio bod pob ysgol yn rhoi sylw i botensial clybiau ar ôl ysgol a chlybiau ysgol yn gyffredinol ar gyfer cynnwys pobl ifanc mewn pob math o agendâu sy'n berthnasol i'w haddysg ac yn wir, gyda golwg ar ehangu'r ffordd y mae'r bobl ifanc hyn yn edrych ar y byd a'u haddysg yn gyffredinol.

14:24

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, access to after-school clubs can often be hindered by a lack of transport from schools back home for those pupils who don't have access to transport other than perhaps their parents and others. What work do you intend to do with Welsh local authorities to help facilitate home-to-school transport for those who want to be able to participate in the after-school activities that are offered by many schools across Wales?

Weinidog, gall diffyg trafnidiaeth i'w cludo adref o glybiau ar ôl ysgol lesteirio mynediad i ddisgyblion heb dtrafnidiaeth heblaw eu rhieni ac eraill o bosibl. Pa waith y bwriadwch ei wneud gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i helpu i hwyluso trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion sydd am gymryd rhan yn y gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cael eu cynnig gan lawer o ysgolion ledled Cymru?

14:25

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, the Welsh Government recently announced subsidised bus fares and reduced bus fares for 16, 17 and 18-year-olds. It marks a unique policy departure. As far as I'm aware, this is the only part of the United Kingdom where such subsidised transport for young people of that age group is supplied by the Government. That, I think, will make a great difference to those older age groups. There will, of course, remain transport worries concerning younger age groups and, of course, most particularly in those areas where there isn't a great deal of public transport after 5 p.m. I would remind colleagues that the pupil deprivation grant, which is distributed pretty much to every school in Wales—it is quite a legitimate use of the pupil deprivation grant that headteachers could consider providing transport for young people, most particularly, of course, if it is aimed at raising the attainment levels of the least well-off young people.

Wel, wrth gwrs, yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru docynnau bws cymorthdaledig a thocynnau bws rhatach i rai 16, 17 a 18 mlwydd oed. Mae'n dynodi newid polisi unigryw. Cyn belled ag y gwn, dyma'r unig ran o'r Deyrnas Unedig lle y mae'r Llywodraeth yn darparu trafndiaeth gymorthdaledig o'r fath i bobl ifanc o'r grŵp oedran hwnnw. Rwy'n meddwl bod hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr i'r grwpiau oedran hyn hynny. Wrth gwrs, bydd pryderon trafndiaeth yn parhau mewn perthynas â grwpiau oedran iau ac wrth gwrs, yn fwyaf penodol mewn ardaloedd lle na cheir llawer iawn o drafndiaeth gyhoeddus ar ôl 5 pm. Byddwn yn atgoffa cyd-Aelodau bod y grant amddifadedd disgyblion, sy'n cael ei ddosbarthu i bob ysgol yng Nghymru fwy neu lai—byddai i benaethiaid ystyried darparu trafndiaeth ar gyfer pobl ifanc yn ddefnydd cwbl gyfreithlon o'r grant amddifadedd disgyblion, yn enwedig, wrth gwrs, os caiff ei anelu at godi lefelau cyrhaeddiad y bobl ifanc dlotaf.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:26

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma mae llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

14:26

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, your Government is getting a bit of a reputation for setting targets, missing them, and then either abolishing them or downgrading them. But you really have two targets for the same thing. You are now in the strange position of having one national target for attainment for free-school-meal pupils of 37 per cent to achieve grades A* to C at GCSE, and another target for the school categorisation threshold of 34 per cent. Which do you actually expect schools to achieve, and by when?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae eich Llywodraeth yn cael tipyn o enw am osod targedau, methu â'u cyrraedd, ac yna naill ai eu diddymu neu eu hisraddio. Ond mewn gwirionedd, mae gennych ddau darged ar gyfer yr un peth. Rydych chi bellach yn y sefyllfa ryfedd o gael un targed cenedlaethol ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael pryddau ysgol am ddim, sef 37 y cant, i ennill graddau A* i C yn eu harholiadau TGAU, a tharged arall ar gyfer y trothwy categoreiddio ysgolion o 34 y cant. Pa un rydych chi'n disgwyl i ysgolion ei gyflawni mewn gwirionedd, ac erbyn pryd?

14:27

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Simon Thomas is being a little bit fast and loose with the facts here, as is maybe his wont. Perhaps we should have targets for Plaid Cymru researchers to keep up with statistical studies. Thirty-seven per cent, of course, is the national target for gaining five good GCSEs—A* to C. What Simon Thomas also refers to is that ratchet effect of increasing targets—32 per cent, and I believe 34 per cent after that—to ensure that there is a floor beneath which our Schools Challenge Cymru schools should not drop. These are schools, as we all know, that were facing the greatest challenges of all when they joined the schools challenge. Although some of them are already exceeding that target, there are those that have compounded multiple problems that stretch back in some cases some years. It is in order to be clear to everyone that every school is expected to improve every year in terms of closing the gap between the least well-off young people and their peers that that ratcheting target is there for that very specific group of schools.

Wel, mae Simon Thomas yn chwarae o gwmpas braidd â'r ffeithiau yma, fel y mae'n dueddol o'i wneud efallai. Efallai y dylem gael targedau i ymchwilywyr Plaid Cymru allu eu cyrraedd gyda'u hastudiaethau ystadegol. 37 y cant, wrth gwrs, yw'r targed cenedlaethol ar gyfer ennill pum TGAU da—A* i C. Yr hyn y mae Simon Thomas hefyd yn cyfeirio ato yw effaith cronus cynyddu targedau—sef 32 y cant, a 34 y cant ar ôl hynny, rwy'n credu—i sicrhau bod yna drothwy na ddylai ysgolion Her Ysgolion Cymru ddisgyn oddi tano. Fel y gwyddom, dyma ysgolion a oedd yn wynebu'r heriau mwyaf oll pan ddaethant yn rhan o'r her ysgolion. Er bod rhai ohonynt eisoes yn rhagori ar y targed hwnnw, mae yna rai sydd â phroblemau cyfansawdd lluosog sy'n ymestyn yn ôl rai blynyddoedd mewn rhai achosion. Mae'r targed cronus yno ar gyfer y grŵp penodol hwn o ysgolion er mwyn bod yn glir i bawb fod disgwyl i bob ysgol wella bob blwyddyn o ran cau'r bwlch rhwng y bobl ifanc dlotaf a'u cyfoedion.

14:28

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I can assure the Minister that I do know what I'm talking about, even if Nick Ramsay's phone doesn't agree with me. [Laughter.] What we're talking about here is a target for 34 per cent of intervention in schools that need intervention to support free school meals by 2017, whereas your national target says 37 per cent by 2017. So, that means that, if a school reaches 34 per cent, it won't be seen as needing any further assistance to meet your national target although it will, in fact, be 3 per cent short of your national target.

Now, before the summer, you were very bullish that Wales would outpace England in achievement in GCSEs, including improvement on the link between poverty and educational attainment. In fact, we only achieved 31 per cent when it comes to those who receive free school meals. That, surely, is a great betrayal of Welsh pupils in deprived communities. You constantly prove improvement but only deliver mediocrity. What are you going to do to hit your own target for pupils receiving free school meals?

Wel, gallaf sicrhau'r Gweinidog fy mod yn gwybod am beth rwy'n siarad, hyd yn oed os nad yw ffôn Nick Ramsay yn cytuno â mi. [Chwerthin.] Yr hyn rydym yn sôn amdano yma yw targed o 34 y cant ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sydd angen ymyrraeth i gefnogi prydau ysgol am ddim erbyn 2017, er bod eich targed cenedlaethol yn dweud 37 y cant erbyn 2017. Felly, mae hynny'n golygu, os yw ysgol yn cyrraedd 34 y cant, ni fydd yn cael ei gweld fel un sydd angen unrhyw gymorth pellach i gwrdd â'ch targed cenedlaethol er y bydd, mewn gwirionedd, 3 y cant yn fyr o'ch targed cenedlaethol.

Nawr, cyn yr haf, roeddech yn ffyddiog iawn y byddai Cymru'n gwella'n gynt na Lloegr o ran cyflawniad yn yr arholiadau TGAU, gan gynnwys gwelliant o ran y cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Yn wir, 31 y cant yn unig a gyflawnwyd gennym o blith y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae hynny'n sicr yn bradychu disgyblion cymunedau difreintiedig Cymru. Rydych yn gyson yn profi am welliant ond yn cyflawni cyffredinedd yn unig. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i gyrraedd eich targed hun ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim?

14:29

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, if Plaid Cymru really regards this summer's GCSE results as an example of mediocrity, then I suggest they think long and hard about the message that they're sending out there to our young people, to their parents, and to our teaching professionals. Our level 2 inclusive results this year were at 57.6 per cent—an all-time high. That's 2.1 percentage points up on the year before—a level of achievement that is 13.2 percentage points higher than when records began, back in 2006-07. Also, 31.3 per cent of pupils eligible for free school meals achieved the level 2 inclusive of five A* to C grades at GCSE, and that was 3.5 percentage points higher than in 2013-14—again, an all-time high. On top of that, what those figures show is that the gap between the least well-off young people and the rest is closing—promises fulfilled. Early days, yes, of course, early days; it is still unacceptable that only one third of our young people on free school meals are achieving at this level. It is unacceptable, and a great deal more work remains to be done. But, to portray these efforts as somehow being mediocre is disingenuous, to say the least, and is a disgraceful misportrayal of the efforts that schools and young people have been putting in over the last couple of years. [Interruption.]

Lywydd, os yw Plaid Cymru o ddifrif yn ystyried canlyniadau TGAU yr haf hwn fel enghraifft o gyffredinedd, yna rwy'n awgrymu y dylent feddwl yn hir ac yn ddwys ynglŷn â'r neges y maent yn ei hanfon i'n pobl ifanc, i'w rhieni, ac at ein gweithwyr addysg proffesiynol. Roedd ein canlyniadau cynwysedig lefel 2 eleni yn 57.6 y cant—yr uchaf erioed. Dyna 2.1 pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn cynt—lefel o gyflawniad sydd 13.2 pwynt canran yn uwch na phan ddechreuwyd cadw cofnodion, yn ôl yn 2006-07. Hefyd, cyrhaeddodd 31.3 y cant o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim y trothwy cynwysedig lefel 2 o bum gradd A* i C yn eu harholiadau TGAU, ac roedd hynny 3.5 pwynt canran yn uwch nag yn 2013-14—unwaith eto, lefel uwch nag erioed. Ar ben hynny, yr hyn y mae'r ffigurau hynny'n ei ddangos yw bod y bwch rhwng y bobl ifanc tlotaf a'r gweddill yn cau—cyflawni addewidion. Mae'n ddyddiau cynnar, ydy, wrth gwrs, dyddiau cynnar; mae'n dal i fod yn annerbyniol mai traean yn unig o'n pobl ifanc sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni ar y lefel hon. Mae'n annerbyniol, ac mae llawer iawn mwy o waith i'w wneud eto. Ond mae portreadu'r ymdrechion hyn fel pe baent yn gyffredin rywsut yn annidwyll, a dweud y lleiaf, ac yn gambortread gwarthus o ymdrechion ysgolion a phobl ifanc dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. [Torri ar draws.]

14:31

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Withdraw it.

Tynnwch hynny'n ôl.

14:31

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't think the Minister needs any assistance.

Nid wyf yn meddwl bod angen unrhyw gymorth ar y Gweinidog.

- 14:31 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I'm not withdrawing anything. Early days? Sixteen years you've had to perform—16 years is not early days. I specifically said 'free school meals'. Both of you—the two of you—have been preaching about dealing with poverty and education for 16 years now. The Labour Party has been in Government for 16 years, has failed utterly and betrayed the communities you represent. A third of the children in Wales can't even get five decent GCSEs, because of your failure in Government. I won't take any lessons from you about that, and I certainly won't apologise for speaking up for the poorest in our communities, against a Government that's consistently let them down.
- Nid wyf yn tynnu unrhyw beth yn ôl. Dyddiau cynnar? Rydych chi wedi cael 16 o flynyddoedd i berfformio—16 o flynyddoedd, nid dyddiau cynnar. Dywedais yn benodol 'prydau ysgol am ddim'. Rydych chi—y ddau ohonoch—wedi bod yn pregethu ynglŷn â mynd i'r afael â thlodi ac addysg ers 16 o flynyddoedd bellach. Mae'r Blaid Lafur wedi bod mewn Llywodraeth ers 16 o flynyddoedd, wedi methu'n llwyr ac yn bradychu'r cymunedau rydych yn eu cynrychioli. Ni all traean o'r plant yng Nghymru gael pum TGAU da hyd yn oed oherwydd eich methiant yn y Llywodraeth. Ni chymeraf unrhyw wersi gennych am hynny, ac yn sicr ni fyddaf yn ymddiheuro am siarad ar ran y bobl dlotaf yn ein cymunedau, yn erbyn Llywodraeth sy'n gwneud cam â hwy'n gyson.
- 14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Are you coming to your third question? A ydych yn dod at eich trydydd cwestiwn?
- 14:32 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 If I'm allowed to. Os caf fi.
- 14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Thank you. Diolch.
- 14:32 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Schools Challenge Cymru, of course, is your latest scheme to improve standards. So, of the 40 schools in the programme, how many outperformed the national average in raising the standards of free-school-meals students?
 Her Ysgolion Cymru, wrth gwrs, yw eich cynllun diweddaraf i wella safonau. Felly, o'r 40 o ysgolion yn y rhaglen, faint ohonynt a gyflawnodd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran codi safonau myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim?
- 14:32 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Well, those numbers are still being resolved. As Simon Thomas knows full well, the full resolution of GCSE results doesn't come in the summer—
 Wel, mae'r niferoedd hynny'n dal i gael eu dadansoddi. Fel y gŵyr Simon Thomas yn iawn, nid yw'r dadansoddiad llawn o'r canlyniadau TGAU yn dod yn y haf—
- 14:32 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Well, you've just said how good they were. Wel, rydych chi newydd ddweud pa mor dda oeddent.
- 14:32 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 He's seen the results— Mae wedi gweld y canlyniadau—
- 14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Minister, he wasn't standing up when he spoke, so just ignore what he's saying when he's sitting down, and answer the original question.
 Weinidog, nid oedd ar ei draed pan siaradodd, felly anwybyddwch yr hyn y mae'n ei ddweud pan fo'n eistedd, ac atebwch y cwestiwn gwreiddiol.

- 14:32 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Well, I'm trying very hard to ignore several points that the Member has raised this afternoon, Presiding Officer, so let's try and stick to the facts here. And the facts are these: we have never been at such a point, ever, in our secondary schools, when the least well-off young people in our communities are performing at this level of attainment—never—and that includes the four years when Plaid Cymru were in Government. And we have never before seen such a closure of the gap between those young people's attainment and everyone else in the school population. The schools results in Wales show, unequivocally, that the system is improving, and that the young people who are improving the fastest are the poorest. And I'll go to my constituents, and to the people of Wales, and be proud of that record.
- Wel, rwy'n ymdrechu'n galed i anwybyddu sawl pwynt a wnaeth yr Aelod y prynhawn yma, Lywydd, felly gadewch i ni geisio cadw at y ffeithiau yma. A'r ffeithiau yw'r rhain: nid ydym erioed wedi bod ar bwynt o'r fath, erioed, yn ein hysgolion uwchradd, pan fo'r bobl ifanc tlotaf yn ein cymunedau yn cyflawni ar y lefel hon o gyrhaeddiad—ddim erioed—ac mae hynny'n cynnwys y pedair blynedd pan oedd Plaid Cymru yn y Llywodraeth. Ac nid ydym erioed o'r blaen wedi gweld cymaint o gau ar y bwlch rhwng cyrhaeddiad y bobl ifanc hyn a chyrhaeddiad pawb arall yn y boblogaeth ysgol. Mae canlyniadau ysgolion Cymru yn dangos, yn ddiamwys, fod y system yn gwella, ac mai'r bobl ifanc sy'n gwella gyflymaf yw'r rhai tlotaf. A byddaf yn mynd at fy etholwyr, ac at bobl Cymru, yn falch o'r record honno.
- 14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Angela Burns.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Angela Burns.
- 14:33 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Thank you Deputy—I beg your pardon, thank you, Presiding Officer.
- Diolch yn fawr Ddirprwy Lywydd—mae'n ddrwg gennyf, diolch i chi, Lywydd.
- 14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 It's catching, it's catching. Is there something I don't know?
- Mae'n heintus, mae'n heintus. A oes rhywbeth nad wyf yn ei wybod?
- 14:34 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Minister, will you please explain why the Welsh Government didn't note that England had changed its exams structure in 2013 in last year's statistical release on that academic year's GCSE results, as it did in this year's release?
- Weinidog, a wnewch chi esbonio pam na nododd Llywodraeth Cymru fod Lloegr wedi newid ei strwythur arholiadau yn 2013 yn y datganiad ystadegol y llynedd ar ganlyniadau TGAU y flwyddyn academaidd honno, fel y gwnaeth wrth ryddhau'r canlyniadau eleni?
- 14:34 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Well, really, if I spent my time trying to keep track of the changes in the English examinations system, it would very rapidly turn into a full-time job for me. We've had the English baccalaureate, and not the English baccalaureate, we've had the plus 8 and the super 8, and the in-out, in-out, hokey-cokey approach to what is actually measured within the examinations system within England. It has changed so often over the last couple of years that it is rather bewildering. It has reached the point, in fact, where, since the latest review in England—the Alison Wolf review, I don't know how many of you spotted that one, but it seemed to come and go overnight—the changes made by that review have made it clear that England is now highly unlikely even to produce a level 2 inclusive figure for their GCSE results this year, which means that my ambition to close the gap between Welsh and English GCSE attainment will actually be very difficult to prove statistically because England, it seems, are not even going to produce the figures.
- Wel, mewn gwirionedd, pe bawn yn treulio fy amser yn ceisio cadw golwg ar newidiadau i'r system arholiadau yn Lloegr, byddai'n troi'n waith amser llawn yn gyflym iawn i mi. Rydym wedi cael bagloriaeth Lloegr, a ddim bagloriaeth Lloegr, ynghyd â'r 'plus 8' a'r 'super 8', a'r dull 'hokey-pokey', i mewn ac allan, o ran yr hyn sy'n cael ei fesur go iawn yn y system arholiadau yn Lloegr. Mae wedi newid mor aml dros y blynyddoedd diwethaf nes ei fod braidd yn ddryslyd. Mae wedi cyrraedd y pwynt, mewn gwirionedd, ers yr adolygiad diweddaraf yn Lloegr—adolygiad Alison Wolf; nid wyf yn gwybod faint ohonoch chi a sylwodd ar hwnnw, ond roedd yn ymddangos fel pe bai wedi dod ac wedi mynd dros nos—mae'r newidiadau a wnaed gan yr adolygiad hwnnw wedi ei gwneud yn glir fod Lloegr yn awr yn annhebygol iawn o gynhyrchu ffigur trothwy cynwysedig lefel 2 hyd yn oed ar gyfer eu canlyniadau TGAU eleni, sy'n golygu bod fy uchelgais i gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad TGAU Cymru a Lloegr yn anodd iawn i'w brofi'n ystadegol mewn gwirionedd am ei bod yn ymddangos nad yw Lloegr yn mynd i gynhyrchu'r ffigurau hyd yn oed.

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

'Disingenuous' is going to have to be the word of the day, I think. Simon Thomas had to use it, and I'm going to use it with you, because you are being deliberately disingenuous. The reason why my first question was so important is that it goes to the integrity of the answers and the information that the Welsh Government chooses to share with not just the opposition parties, but with the people of Wales. You, Minister, have stood in this Chamber over the last six to eight months and said that you are going to close the gap between England and Wales; that your policies are going to make that difference for our children. And, yet, when we actually looked at the figures, the reason why the statistical releases show that there was a closure in the gap had nothing to do with you, Minister; nothing to do with your policies, but everything to do with the changes that the English have made to their exam. If you're going to stand here and compare yourself to England and say you are doing better or you have closed the gap, then you've got to use a properly verified set of figures because, otherwise, you're trying to pull the wool over our eyes and the eyes of the Welsh public. So, what is it? Did you know or not? Because this year, you confessed; last year, you didn't.

Rhaid i 'annidwyll' fod yn air y dydd, rwy'n meddwl. Roedd yn rhaid i Simon Thomas ei ddefnyddio, ac rwy'n mynd i'w ddefnyddio gyda chi, am eich bod yn fwriadol annidwyll. Y rheswm pam yr oedd fy nghwestiwn cyntaf mor bwysig yw ei fod yn ymwneud ag uniondeb yr atebion a'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn dewis eu rhannu nid yn unig â'r gwrthbleidiau, ond â phobl Cymru. Weinidog, rydych chi wedi sefyll yn y Siambr hon dros y chwech i wyth mis diwethaf ac wedi dweud eich bod yn mynd i gau'r bwllch rhwng Cymru a Lloegr; fod eich polisiau yn mynd i wneud y gwahaniaeth hwnnw ar gyfer ein plant. Ac eto, pan edrychasm ar y ffigurau mewn gwirionedd, nid oes gan y rheswm pam y mae'r datganiadau ystadegol yn dangos bod y bwllch wedi cau ddim oll i'w wneud â chi, Weinidog; dim i'w wneud â'ch polisiau, ond popeth i'w wneud â'r newidiadau y mae'r Saeson wedi'i wneud i'w arholiadau. Os ydych yn mynd i sefyll yma a chymharu eich hun â Lloegr a dweud eich bod yn gwneud yn well neu wedi cau'r bwllch, yna mae'n rhaid i chi ddefnyddio set o ffigurau wedi'u dilysu'n briodol oherwydd, fel arall, rydych yn ceisio taflu llwch i'n llygaid ni a llygaid y cyhoedd yng Nghymru. Felly, pa un yw hi am fod? A oeddech yn gwybod ai peidio? Oherwydd eleni, rydych chi wedi cyfaddef, y llynedd, ni wnaethoch hynny.

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Presiding Officer, I've heard it all this afternoon now, and what we see beginning to emerge, as the unequivocal evidence that the Welsh school system improving is starting to come through thick and fast, is both Plaid Cymru, and now the Welsh Conservatives, attempting to play the man and not the ball. I've had my integrity impugned this afternoon. Let me tell you that, in terms of the figures we're using here when we talk about the figures on GCSE attainment in England, and figures going back to 2011, they're not my figures; it's not my officials who have published these figures; these figures are published by the Department for Education in England. The level 2 inclusive gap over those years was: in 2011, 8.9 per cent; 2012, 8.3 per cent; 2013, 6.5 per cent, and last year, 1.4 per cent.

Wel, Lywydd, rwyf wedi clywed y cyfan y prynhawn yma yn awr, a'r hyn rydym yn ei weld yn dechrau ymddangos, wrth i'r dystiolaeth ddiamwys fod system ysgolion Cymru yn gwella ddechrau dod drwodd yn gryf ac yn gyflym, yw Plaid Cymru, ac yn awr y Ceidwadwyr Cymreig, yn ceisio chwarae'r dyn ac nid y bêl. Ymosodwyd ar fy nidwylledd y prynhawn yma. Gadewch i mi ddweud wrthyf, o ran y ffigurau rydym yn eu defnyddio yma pan fyddwn yn sôn am y ffigurau cyrhaeddiad TGAU yn Lloegr, a ffigurau'n mynd yn ôl i 2011, nid fy ffigurau i ydynt; nid fy swyddogion i sydd wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn; ffigurau sy'n cael eu cyhoeddi gan yr Adran Addysg yn Lloegr yw'r rhain. Y bwllch cynwysedig lefel 2 dros y blynyddoedd hynny oedd: yn 2011, 8.9 y cant; 2012, 8.3 y cant; 2013, 6.5 y cant, a'r llynedd, 1.4 y cant.

We have difficulty now in terms of comparing. These comparisons are—. I've always accepted that these comparisons are not necessarily helping anyone educationally, but the media are obsessed with this comparison and so, it seems, are the opposition party, so let's address the question. The difficulty this year will be that the Department for Education in England has changed the measures so often, so profoundly now, that it's highly unlikely that England will produce a level 2 inclusive figure that will make any sense whatsoever this autumn, and that won't be a first.

Rydym yn cael anhawster i gymharu yn awr. Mae'r cymariaethau hyn yn—. Rwyf bob amser wedi derbyn nad yw'r cymariaethau hyn o reidrwydd yn helpu neb yn addysgol, ond mae gan y cyfryngau obsesiwn â'r gymhariaeth hon, ac felly hefyd yr wrthblaid, mae'n ymddangos, felly gadewch i ni fynd i'r afael â'r cwestiwn. Yr anhawster eleni fydd y ffaith fod yr Adran Addysg yn Lloegr wedi newid y dulliau hyn o fesur mor aml bellach, ac mor llwyr erbyn hyn, fel ei bod yn annhebygol iawn y bydd Lloegr yn cynhyrchu ffigur cynwysedig lefel 2 a fydd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl yn ystod yr hydref, ac nid dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd.

14:38

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't mind with whom we choose to compare ourselves as long as they're significantly better than us. We could compare ourselves to Scotland, or perhaps Germany, or perhaps one of the Scandinavian countries. The point, Minister, is that we all need benchmarks and measurements, something your department absolutely hates having to do, as we found out in the committee meeting today. We need to be able to judge the quality of the work that the education department is producing; we need to be able to judge the quality of our education system. We need to be able to judge where our young people are going to be on a global playing field. You, very, very deliberately, and with great fanfare, have stood here in the past and said that you are closing the gap with England, and you've cited these very figures that have now been proven to be made of nothing but ephemera. So, what I'm saying to you is that we need you to stick to a decent set of figures, where we can benchmark the performance of this Government. And it is vitally important; it's not about talking down education; it's not about talking down Wales; it's about ensuring that we raise our game, so that we actually become truly excellent and are better than everybody around us. But, if you're going to play by one set of figures, which are the ones that you've been quoting all this year—and we can go back to the Record of Proceedings and see them again and again and again—then don't be surprised when someone like me stands up and tells you that you have got it wrong and that you are being disingenuous, because that is exactly, Minister, what you are being.

Nid oes ots gennyf â phwy rydym yn dewis cymharu ein hunain ar yr amod eu bod yn sylweddol well na ni. Gallem gymharu ein hunain â'r Alban, neu efallai â'r Almaen, neu efallai un o'r gwledydd Sgandinafaidd. Weinidog, y pwynt yw bod angen meincnodau a mesuriadau arnom i gyd, rhywbeth y mae eich adran yn wirioneddol gasáu gorfod ei wneud, fel y gwelsom yng nghyfarfod y pwyllgor heddiw. Mae angen i ni allu barnu ansawdd y gwaith y mae'r adran addysg yn ei gynhyrchu; mae angen i ni allu barnu ansawdd ein system addysg. Mae angen i ni allu barnu lle y mae ein pobl ifanc yn mynd i fod ar y maes chwarae byd-eang. Rydych chi, yn fwrriadol iawn, iawn a chydä ffanffer fawr, wedi sefyll yma yn y gorffennol a dweud eich bod yn cau'r bwlch â Lloegr, ac rydych wedi dyfynnu'r ffigurau hyn y profwyd bellach nad ydynt yn ddim byd ond effemera. Felly, yr hyn rwy'n ei ddweud wrthyh yw ein bod angen i chi gadw at set weddus o ffigurau, lle y gallwn feincnodi perfformiad y Llywodraeth hon. Ac mae'n hanfodol bwysig; nid yw'n ymwneud â bychanu addysg; nid yw'n ymwneud â bychanu Cymru; mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn gwella ein perfformiad, er mwyn i ni ddod yn wirioneddol wych ac yn well na phawb o'n cwmpas. Ond os ydych yn mynd i chwarae yn ôl un set o ffigurau, sef y rhai rydych wedi bod yn eu dyfynnu drwy gydol eleni—a gallwn fynd yn ôl at Gofnod y Trafodion a'u gweld eto ac eto ac eto—yna peidiwch â synnu pan fydd rhywun fel fi yn codi ar ei draed ac yn dweud wrthyh eich bod wedi camgymryd a'ch bod yn annidwyll, oherwydd dyna'n union sut rydych chi'n bod, Weinidog.

14:40

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm bewildered now, Presiding Officer; I'm at a loss. I must confess, I'm at a loss as to how to respond to—. Well, that wasn't really a question at all, was it? It was some kind of assertion, based on what exactly? Let me tell the Welsh Conservatives' spokesperson the truth, and I challenge her, and any other opposition Member here present today, listening to this debate, to come back and disprove this: Wales has maintained a transparent and consistent methodology of measuring the level 2 inclusive score over these years, since 2011. We haven't changed it; it has been consistent throughout. Professional statisticians—I presume you are not calling their integrity into question—are the people who give us those figures. Consistently, throughout those years, since 2011, we have seen the level 2 inclusive score in Wales rise from 50 per cent to 51 per cent the year after, to 52 per cent the year after that, to 55 per cent in 2014 and, this year, reaching an all-time high of 57.6 per cent. Quite who the opposition parties are accusing of being disingenuous, I don't know, but I will be very happy to be disproven by anyone who can bring me proper evidence, rather than assertions, that those clear statistics are in any way wrong.

Wel, rwy'n drysu yn awr, Lywydd; nid wyf yn deall. Rhaid i mi gyfaddef, nid wyf yn gwybod sut i ymateb i—. Wel, nid oedd hwnnw'n gwestiwn o gwbl, oedd e? Rhyw fath o honiad ydoedd, yn seiliedig ar beth yn union? Gadewch i mi ddweud y gwir wrth lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, ac rwy'n ei herio hi, ac unrhyw Aelod arall o'r wrthblaidd sy'n bresennol yma heddiw yn gwrando ar y ddadl hon, i ddod yn ôl a gwrthbrofi hyn: mae Cymru wedi cynnal methodoleg dryloyw a chyson ar gyfer mesur sgôr gynwysedig lefel 2 dros y blynyddoedd hyn, ers 2011. Nid ydym wedi ei newid; mae wedi bod yn gyson drwy gydol yr amser. Ystadegwyr proffesiynol—rwy'n rhagdybio nad ydych yn cwestiynu eu huniondeb hwy—yw'r bobl sy'n rhoi ffigurau hyn i ni. Yn gyson, drwy gydol y blynyddoedd hyn, ers 2011, rydym wedi gweld sgôr gynwysedig lefel 2 yng Nghymru yn codi o 50 y cant i 51 y cant y flwyddyn wedyn, i 52 y cant y flwyddyn ar ôl honno, i 55 y cant yn 2014 ac eleni'n cyrraedd y pwynt uchaf erioed o 57.6 y cant. Pwy'n union y mae'r gwrthbleidiau yn ei gyhuddo o fod yn annidwyll, nid wyf yn gwybod, ond rwy'n hapus iawn i gael fy ngwrthbrofi gan unrhyw un a all ddod â thystiolaeth briodol i mi, yn hytrach na honiadau, fod yr ystadegau clir hynny yn anghywir mewn unrhyw ffordd.

14:41

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Aled Roberts.

- 14:41 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Nid wyf yn mynd i awgrymu bod yr ystadegau'n anghywir, ond rwyf eisiau cwestiynu rhai o'r ystadegau ar sail y dystiolaeth rŷch chi'n ei rhoi i ni o fewn rhai o'r adroddiadau, achos mae rhai ohonom yn cofio pa mor amharod oedd y Gweinidog addysg blaenorol i dderbyn y syniad o gael grant amddifadedd yn y lle cyntaf. Ond rŷm nŷn croesawu'r ffaith ei fod wedi newid ei feddwl ar y ffordd i Damascus, wrth gwrs.
- I'm not going to suggest that the statistics are wrong, but I do want to question some of them on the basis of the evidence that you have provided to us within some of your reports, because some of us recall how unwilling the predecessor education Minister was to accept the idea of having a pupil deprivation grant in the first place. But we do welcome his change of heart on the road to Damascus if you like,
- Os ydych yn cofio'r bore yma, fe wnes i ddweud bod yna wendidau o ran y ffordd y mae ystadegau'n cael eu casglu. Rwy'n awyddus iawn i ddeall hyn—rydych chi wedi dweud bod y bwll rhwng y rhai hynny sy'n cael cinio ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn ei gael yn lleihau, ond mae'r adroddiad a gafodd ei gyhoeddi fis diwethaf yn awgrymu bod yna un cafeat o ran hynny, hynny ydy, bod yna lai o blant yn cael eu cyflwyno ar gyfer y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4 nag o blant sy'n cael eu cyflwyno nad ydynt yn derbyn cinio ysgol am ddim, a bod yna wendid, felly, yn y dadansoddiad gan y Llywodraeth bod y bwll yn cau. A oes yna unrhyw waith yn cael ei wneud i ddeall pam mae llai o blant sydd yn derbyn cinio ysgol am ddim yn cael eu cyflwyno ar gyfer TGAU na'r rhai eraill o fewn yr ysgol?
- If you recall this morning, I did say that there were weaknesses in the way that statistics are gathered. I'm very eager to understand—you've said that the gap between those who receive free school meals and those who don't is narrowing, but the report published last month suggests that there is one caveat to that, and that is that there are fewer children who are put forward for the core subjects in key stage 4 than those put forward who don't receive free school meals, and that there is therefore a weakness in the government's analysis that that gap is narrowing. Is any work being done to understand why fewer children in receipt of free school meals are not being put forward for GCSEs than their peers within the school?
- 14:43 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Presiding Officer, that is just another assertion pulled out of the air here. I'm not aware of any statistics that show—
- Llywydd, dyna honiad arall wedi'i greu o ddim byd. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ystadegau sy'n dangos—
- 14:43 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 It's in your own report, Minister.
- Mae yn eich adroddiad eich hun, Weinidog.
- 14:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Order. Excuse me, Aled Roberts.
- Trefn. Esgusodwch fi, Aled Roberts.
- 14:43 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I'm not aware of any statistics that show a fall in the number of young people, over time, on free school meals, who are being entered for examinations. I'm very happy to take a look at those figures in order to confirm that. [Interruption.]
- Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ystadegau sy'n dangos gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n cael prydau ysgol am ddim sydd, dros gyfnod o amser, yn cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau. Rwy'n hapus iawn i edrych ar y ffigurau hynny er mwyn cadarnhau hynny. [Torri ar draws.]
- 14:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Order. Sorry, Minister, hold on. We're making very slow progress this afternoon and it doesn't help when you're making comments from the back seats. Minister, please go on.
- Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, Weinidog, arhoswch. Cynnydd araf deg iawn sy'n cael ei wneud gennym y prynhawn yma ac nid yw'n helpu pan fyddwch yn gwneud sylwadau o'r seddi cefn. Weinidog, ewch ymlaen.
- 14:44 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 The truth of the matter here is incontrovertible and the opposition parties cannot stomach it because it is clear: it's written in letters a mile high and every teacher who I have spoken to across Wales for the last 12 months knows that it's true and every honest commentator on the state of Welsh education also knows that it's true. Our GCSE performance is rising year on year and the gap between the least well-off young people in our schools and the rest is at an all-time high and they are gaining ground on their peers. The opposition parties cannot stomach it.
- Mae'r gwir yma yn ddiymwad ac ni all y gwrthbleidiau ei stumogi am ei fod yn glir: mae wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau filltir o uchder ac mae pob athro y siaradais â hwy ar draws Cymru dros y 12 mis diwethaf yn gwybod ei fod yn wir ac mae pob sylwebydd gonest ar gyflwr addysg yng Nghymru hefyd yn gwybod ei fod yn wir. Mae ein perfformiad TGAU yn codi o flwyddyn i flwyddyn ac mae'r bwll rhwng y bobl ifanc tlotaf yn ein hysgolion a'r gweddill yn uwch nag erioed ac maent yn ennill tir ar eu cyfoedion. Ni all y gwrthbleidiau ei stumogi.

- 14:44 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#)
Eich adroddiad chi eich hun ydyw, Weinidog—paragraff 18: It's your own report, Minister—paragraph 18:
- 'Despite a narrowing gap in attainment nationally at Key Stage 4 there are some caveats: first, improvements in GCSE attainment among e-FSM pupils are balanced against proportionately fewer e-FSM pupils being entered for GCSEs in core subjects'. 'Despite a narrowing gap in attainment nationally at Key Stage 4 there are some caveats: first, improvements in GCSE attainment among e-FSM pupils are balanced against proportionately fewer e-FSM pupils being entered for GCSEs in core subjects'.
- Why is that happening? Pam y mae hynny'n digwydd?
- 14:45 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)
Well, I'm not going to comment on a random paragraph pulled out. I'm not even aware which document the Member is waving around in the Chamber this afternoon. Wel, nid wyf yn mynd i wneud sylwadau ar baragraff wedi'i dynnu allan ar hap. Nid wyf yn ymwybodol hyd yn oed o ba ddogfen y mae'r Aelod yn ei chwifio o gwmpas yn y Siambur y prynhawn yma.
- 14:45 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#)
The Welsh Government 'Evaluation of the Pupil Deprivation Grant'. Gwerthusiad o Grant Amddifadedd Disgyblion Llywodraeth Cymru.
- 14:45 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)
Well, thank you. Obviously, I should have known that, or perhaps worn better glasses. But that wouldn't surprise me at all, that a lower proportion of young people on free school meals are entered for some GCSE subjects. That's part of the problem we're trying to overcome here. The point here is that, year on year, the number of young people on free school meals that pass five good GCSEs—a life-changing set of qualifications—with that clutch of qualifications, is rising, and it's rising faster than the level of the general population. QED. Wel, diolch yn fawr. Yn amlwg, dylwn fod yn gwybod hynny, neu wedi gwisgo sbectol well efallai. Ond ni fyddai hynny'n syndod i mi o gwbl, fod cyfran is o bobl ifanc sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael eu cofrestru ar gyfer rhai pynciau TGAU. Dyna ran o'r broblem rydym yn ceisio ei goresgyn yma. Y pwynt yma yw, flwyddyn ar ôl blwyddyn, fod nifer y bobl ifanc sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n pasio pum TGAU da—set o gymwysterau sy'n newid bywydau—fod nifer y bobl ifanc â'r dyrnaid hynny o gymwysterau, yn codi, ac mae'n codi'n gyflymach na lefel y boblogaeth yn gyffredinol. QED.
- 14:46 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#)
Wel, a gaf i symud ymlaen at un o'r mesurau eraill y mae'r Llywodraeth wedi eu rhoi, sef profion PISA? Fe ddywedwyd mewn datganiad ysgrifenedig fod dim ond 89 allan o 213 o ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi gwirfoddoli i gymryd rhan yn y profion PISA nesaf. A oes gennych chi unrhyw ddiweddariad ar y ffigur yna, os gwelwch yn dda? Well, may I move on to one of the other indicators that the Government has put in place, namely the PISA tests? It was stated in a written statement that only 89 out of 213 secondary schools in Wales had volunteered to participate in the next PISA tests. Do you have any update on that figure, please?
- 14:46 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)
As far as I'm aware, that is the figure of schools that voluntarily entered to use the PISA-style questions that were made available on Hwb, which is our electronic resource for professionals across Wales, which is, I would guess, around 40 per cent of our secondary schools here in Wales. It is not for me to drag schools into tests like this. This is a choice for professionals. We encourage schools to take a look at the option. After all, these PISA-style questions follow quite closely our changes, particularly the changes that are being made in GCSE teaching and assessment over the next few years. Eighty-nine schools, I believe, is the correct figure. Cyn belled ag y gwn i, dyna nifer yr ysgolion a gofrestrodd yn wirfoddol i ddefnyddio'r cwestiynau arddull PISA a oedd ar gael ar Hwb, sef ein hadnodd electronig ar gyfer gweithwyr proffesiynol ledled Cymru, sef tua 40 y cant o'n hysgolion uwchradd yma yng Nghymru, fe fyddwn yn tybio. Nid fy lle i yw gorfodi ysgolion i gynnal profion fel hyn. Mae'n ddewis ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Rydym yn annog ysgolion i ystyried yr opsiwn. Wedi'r cyfan, mae'r cwestiynau arddull PISA hyn yn dilyn ein newidiadau ni yn eithaf agos, yn arbennig y newidiadau a wneir i addysgu ac asesu TGAU dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. 89 o ysgolion, rwy'n credu, yw'r ffigur cywir.

14:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Aled Roberts.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Aled Roberts.

Her Ysgolion Cymru

Schools Challenge Cymru

14:47 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. *A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd cyllid Her Ysgolion Cymru ar gyfer consortia rhanbarthol yn cael ei wario? OAQ(4)0629(ESK)*

3. *Will the Minister outline how the Schools Challenge Cymru funding for regional consortia will be spent? OAQ(4)0629(ESK)*

14:47 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This year, £3.5 million has been awarded to regional consortia to continue to build capacity and support collaboration at regional level. This investment is designed to ensure that Schools Challenge Cymru continues to have a positive impact on the wider educational system.

Eleni, dyfarnwyd £3.5 miliwn i'r consortia rhanbarthol allu parhau i feithrin gallu a chefnogi cydweithio ar lefel ranbarthol. Mae'r buddsoddiad hwn wedi ei gynllunio i sicrhau bod Her Ysgolion Cymru yn parhau i effeithio'n gadarnhaol ar y system addysgol ehangach.

14:48 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A fydddech chi'n barod i wahodd y consortia i gyhoeddi yn union sut y maen nhw'n gwario'r arian yna, er mwyn inni fel gwrthbleidiau asesu pa effaith y mae gwariant yr arian yna wedi cael ar wella ysgolion unigol o fewn y rhanbarthau?

Would you be willing to invite the consortia to publish exactly how they spend that money, so that we as opposition parties can assess what impact that spending has had on individual school improvement within the regions?

14:48 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well yes, of course; there's no mystery to the way that funding allocated to consortia is spent. It's spent according to the plans developed by the consortia themselves. It's all about building capacity, releasing expertise, which is an important part of finding room within the system to do this work, and there is no secret about the accounting behind how the consortia work. All that is published, and I'm very happy to write to the Member with details of whichever part of those figures he's interested in.

Wel byddwn, wrth gwrs; nid oes unrhyw ddirgelwch ynglŷn â'r ffordd y gwerir cyllid a ddyrennir i gonsortia. Caiff ei wario yn ôl y cynlluniau a ddatblygwyd gan y consortia eu hunain. Mae'n ymwneud â meithrin gallu, gan ryddhau arbenigedd, sy'n rhan bwysig o ddod o hyd i le o fewn y system i wneud y gwaith hwn, ac nid oes unrhyw gyfrinach ynglŷn â'r dull o gyfrifo sy'n sail i'r modd y mae'r consortia'n gweithio. Mae hynny i gyd wedi'i gyhoeddi, ac rwy'n hapus iawn i ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion ynglŷn â pha ran bynnag o'r ffigurau hynny y mae ganddo ddi-ddordeb ynddi.

14:49 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you agree with me, Minister, that rather than the glass-half-empty, instant-gratification approach of some of our colleagues, that the Schools Challenge Cymru programme can only deliver once we've seen the results of improving the way in which primary schools tackle deprivation? What heart can you take from the London Challenge report that came out today, by the London School of Economics and the Institute for Fiscal Studies, which showed that they had doubled the outcomes for children on free school meals? However, that is a programme that's been going since 2003. It takes time. Perhaps you could just tell us how the relationship between the regional consortia and the Schools Challenge Cymru programme is operating to reinforce all the measures that we know work in the London Challenge, which is, obviously, what our programme is based on.

A fydddech yn cytuno â mi, Weinidog, yn hytrach nag agwedd gwydr hanner gwag a boddhad uniongyrchol rhai o'n cyd-Aelodau, na fydd y rhaglen Her Ysgolion Cymru yn gallu cyflawni hyd nes y byddwn wedi gweld canlyniadau yn sgil gwella'r ffordd y mae ysgolion cynradd yn mynd i'r afael ag amddifadedd? Pa galondid y gallwch ei gael o adroddiad Her Llundain a gyhoeddwyd heddiw gan Ysgol Economeg Llundain a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, a oedd yn dangos eu bod wedi dyblu'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n cael prydau ysgol am ddim? Fodd bynnag, dyna raglen a fu ar y gweill ers 2003. Mae'n cymryd amser. Efallai y gallech ddweud wrthym sut y mae'r berthynas rhwng y consortia rhanbarthol a rhaglen Her Ysgolion Cymru yn gweithredu i atgyfnerthu'r holl fesurau y gwyddom eu bod yn gweithio yn Her Llundain, sef, yn amlwg, yr hyn y mae ein rhaglen yn seiliedig arno.

14:50

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Schools Challenge Cymru is, indeed, based on the best use of good evidence-based interventions that we have seen working in other parts of the UK and, indeed, in other parts of Europe and across the world. We have experts working with us—alongside us—that were involved in the London Challenge and the Greater Manchester Challenge as well. Let me tell you that Professor Mel Ainscow, who's heading up this work for the Welsh Government, is on record as saying that after only the first year—let's remember, this is just the first full complete academic year that we've seen the schools challenge in operation here in Wales—as saying unequivocally that, at least in terms of that albeit rather narrow measure of GCSE improvement, Wales is improving faster than was the experience in London after their first year. Now, it's very dangerous to extrapolate beyond that, but let's just put that out there for consideration. There is certainly nothing dysfunctional in terms of a comparison between the early days of Schools Challenge Cymru and the challenge, as was, in London—the London Challenge, of course, having been dismantled by the coalition Government when they came to power, but the after-effects, in terms of how professionals work with each other in London, proving to have been permanent.

Mae Her Ysgolion Cymru, yn wir, yn seiliedig ar y defnydd gorau o ymyriadau ar sail tystiolaeth a welsom yn gweithio mewn rhannau eraill o'r DU ac yn wir, mewn rhannau eraill o Ewrop ac ar draws y byd. Mae gennym arbenigwyr yn gweithio gyda ni—ochr yn ochr â ni—a oedd yn rhan o Her Llundain a Her Manceinion Fwyaf hefyd. Gadewch i mi ddweud wrthyh fod yr Athro Mel Ainscow, sy'n arwain y gwaith hwn ar ran Llywodraeth Cymru, wedi dweud yn glir ar goedd fod Cymru, ar ôl y flwyddyn gyntaf yn unig—gadewch i ni gofio mai hon yw'r flwyddyn academaidd gyflawn gyntaf y gwelsom yr her ysgolion ar waith yma yng Nghymru—o ran y mesur braidd yn gul o welliant TGAU o leiaf, fod Cymru yn gwella'n gyflymach na'r hyn a brofwyd yn Llundain ar ôl eu blwyddyn gyntaf. Nawr, mae'n beryglus iawn llunio casgliadau y tu hwnt i hynny, ond gadewch i ni ei ystyried. Yn sicr nid oes dim yn gamweithredol o ran cymharu rhwng dyddiau cynnar Her Ysgolion Cymru a'r her fel yr oedd yn Llundain—wrth gwrs, cafodd Her Llundain ei datgymalu gan y Llywodraeth glymblaid pan ddaethant i rym, ond mae'r ôl-ffeithiau, o ran sut y mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd yn Llundain, wedi bod yn barhaol.

14:51

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was pleased to attend the launch of Schools Challenge Cymru with you at Milford Haven comprehensive, which is the one school taking part in the initiative in my constituency. It's clear from the answer you gave to Simon Thomas earlier that you don't yet know whether the scheme is successful or not. Can you tell us, therefore, when you will know whether the scheme has been successful or not, given that it has been running for a year and it's only committed to run for two years?

Weinidog, roeddwn yn falch o fynychu lansiad Her Ysgolion Cymru gyda chi yn Ysgol Gyfun Aberdaugleddau, sef yr unig ysgol yn fy etholaeth sy'n rhan o'r fenter. Mae'n amlwg o'r ateb a roesoch i Simon Thomas yn gynharach nad ydych yn gwybod eto a yw'r cynllun yn llwyddiannus ai peidio. A allwch ddweud wrthym, felly, pa bryd fyddwch chi'n gwybod a yw'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, o ystyried ei fod wedi bod ar y gweill ers blwyddyn a'i fod ond wedi'i fwriadu i redeg am ddwy flynedd?

14:52

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was answering a question that was specifically in connection with GCSE results this year. We're not in a position, really, anywhere in Wales to give final definitive figures on the GCSE results, although we do know that a good number of Schools Challenge Cymru schools have, within the first year of engagement with the programme, increased their level 2 inclusive attainment to levels that they have never themselves seen before. An example is Tonypandy comprehensive, which has turned in GCSE results this summer that that community has never seen before. These are double-figures increases; we are seeing improvements of 10 per cent, 11 per cent and almost 20 per cent for some schools in terms of the number of young people succeeding at GCSE after one year of the challenge. However, these are narrow measures of success of how the challenge should actually be judged, and we are at a very early stage. We should do justice to the young people who are involved in this challenge, which is about a great deal more than a snapshot of a single set of GCSE figures.

Roeddwn yn ateb cwestiwn a oedd yn ymwneud yn benodol â'r canlyniadau TGAU eleni. Nid ydym mewn sefyllfa yn unman yng Nghymru, mewn gwirionedd, i roi ffigurau terfynol ar y canlyniadau TGAU, er ein bod yn gwybod bod nifer dda o ysgolion Her Ysgolion Cymru, ym mlwyddyn gyntaf eu hymgysylltiad â'r rhaglen, wedi gwella eu cyrhaeddiad cynwysedig lefel 2 i lefelau nad ydynt erioed wedi eu cyrraedd o'r blaen. Un enghraifft yw ysgol gyfun Tonypandy, sydd wedi cael canlyniadau TGAU yr haf hwn na welodd y gymuned honno erioed o'r blaen. Mae'r rhain yn dangos cynnydd mewn ffigurau dwbl; rydym yn gweld gwelliannau o 10 y cant, 11 y cant a bron i 20 y cant mewn rhai ysgolion o ran nifer y bobl ifanc sy'n llwyddo yn eu pynciau TGAU ar ôl un flwyddyn o'r her. Fodd bynnag, mesurau cul o lwyddiant yw'r rhain o sut y dylid barnu'r her mewn gwirionedd, ac rydym ar gam cynnar iawn. Dylem wneud cyfiawnder â'r bobl ifanc sy'n rhan o'r her hon, sy'n ymwneud â llawer mwy na chiplun o un set o ffigurau TGAU.

14:53

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Faint o'r ysgolion sydd yn rhaglen Her Ysgolion Cymru sydd yn ardal GwE, sef ardal consortiwm gogledd Cymru?

How many of the schools included in the Schools Challenge Cymru programme are in the GwE area, which is the north Wales consortium area?

- 14:53 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'm sorry, I didn't catch the beginning of your question; I beg your pardon.
- 14:54 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Faint o ysgolion sydd yn yr Her Ysgolion Cymru sydd yn ardal GwE, sef ardal consortiwm gogledd Cymru?
- 14:54 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The number of schools in north Wales included in Schools Challenge Cymru is well known. I can't call the exact figure to mind. Am I missing the point of the question? They've been known now for some time.

Mae'n ddrwg gennyf, ni chlywais ran gyntaf eich cwestiwn; mae'n ddrwg gennyf.

How many schools included in the Schools Challenge Cymru programme are in the GwE area, which is the north Wales consortium area?

Mae nifer yr ysgolion yng ngogledd Cymru sydd wedi'u cynnwys yn Her Ysgolion Cymru yn hysbys. Nid wyf yn gallu cofio'r union ffigur. A wyf fi'n methu pwynt y cwestiwn? Maent wedi bod yn hysbys bellach ers cryn amser.

Cyllido Addysg Uwch

Higher Education Funding

- 14:54 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
4. Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd y rhan gyntaf o adolygiad yr Athro Diamond o gyllido addysg uwch yn cael ei chyhoeddi? OAQ(4)0632(ESK)
- 14:54 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I expect to receive a factual summary of the evidence that Professor Diamond and the review panel have considered as part of their work by this November. It will be published at the earliest opportunity following submission.
- 14:55 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch i'r Gweinidog am gadarnhau y byddwn yn gweld cyhoeddiad y gwaith pwysig yma. A ydyw'n disgwyl y bydd ei blaid ef a'r Llywodraeth—ac, yn wir, pob plaid arall, wedyn—yn rhoi gerbron ar gyfer yr etholiad flwyddyn nesaf, ar sail y crynodeb ystadegol ffeithiol, gynlluniau newydd ar gyfer cyllido addysg uwch?
- 14:55 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, I can't speak for other political parties; that is a matter for them, but I would have thought that everyone with a realistic view of the political landscape at the moment would realise that there's a great deal of pressure in terms of how higher education is funded going forward, and I know that my party will be carefully considering what it takes to the electorate in terms of a socially just but affordable way in which we can support our students in the future.
4. When does the Minister expect the first part of Professor Diamond's review of higher education funding to be published? OAQ(4)0632(ESK)
- Rwy'n disgwyl cael crynodeb ffeithiol o'r dystiolaeth y mae'r Athro Diamond a'r panel adolygu wedi'i hystyried yn rhan o'u gwaith erbyn mis Tachwedd. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar y cyfle cyntaf yn dilyn ei gyflwyno.
- I thank the Minister for confirming that we will see the publication of this important work. Does he expect that his party and the Government—and, indeed, all other parties—will put forward during the election campaign next year, on the basis of the factual statistical analysis, new proposals for the funding of higher education?
- Wel, ni allaf siarad ar ran y pleidiau gwleidyddol eraill; mae hynny'n fater iddynt hwy, ond byddwn wedi meddwl y byddai pawb sydd â golwg realistig o'r tirlun gwleidyddol ar hyn o bryd yn sylweddoli bod yna lawer iawn o bwysau o ran sut y caiff addysg uwch ei ariannu yn y dyfodol, a gwn y bydd fy mhlaid yn ystyried yn ofalus yr hyn y mae'n ei gyflwyno i'r etholwyr o ran y ffordd gymdeithasol gyfiawn ond fforddiadwy y gallwn gefnogi ein myfyrwyr yn y dyfodol.

14:56

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure you would agree with me that one of the priorities for the Diamond review is actually to ensure a high quality of education in our higher education sector, but also to ensure that it works with other partners across the whole sector to deliver for our regional communities here in Wales. It's come to my attention that, in fact, we are seeing a growth in what I would call access to higher education-type courses across the sector—sometimes in HE institutions themselves or under the auspices of HE institutions. It's possible that those fall outside the umbrella or net of quality assurance, because QAA looks at HE work and, if they're not in further education colleges, it misses their work. Will you look at the area of this type of access course to ensure that the quality is assessed? I don't question them, but it's important that we are confident that the quality is there to ensure that service delivery across the whole sector—FE and HE—is meeting the standard we expect?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi mai un o flaenoriaethau adolygiad Diamond mewn gwirionedd yw sicrhau safon uchel o addysg yn ein sector addysg uwch, ond hefyd i sicrhau ei fod yn gweithio gyda phartneriaid eraill ar draws y sector cyfan i ddarparu ar gyfer ein cymunedau rhanbarthol yma yng Nghymru. Daeth i fy sylw, mewn gwirionedd, ein bod yn gweld twf yn yr hyn y byddwn yn ei alw'n fynediad at gyrsiau o fath addysg uwch ar draws y sector—weithiau mewn sefydliadau AU eu hunain neu o dan nawdd sefydliadau AU. Mae'n bosibl fod y rheini y tu allan i gwmpas neu rwyd sicrwydd ansawdd, gan fod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn edrych ar waith addysg uwch ac os nad yw'r cyrsiau mewn colegau addysg bellach, nid yw'n ymwneud â'u gwaith. A wnewch chi edrych ar y math hwn o gwrs mynediad er mwyn sicrhau bod ei ansawdd yn cael ei asesu? Nid wyf yn eu cwestiynu, ond mae'n bwysig ein bod yn hyderus fod yr ansawdd yno er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar draws yr holl sector—Addysg Bellach ac Addysg Uwch—yn cyrraedd y safon rydym yn ei disgwyl?

14:56

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Member for Aberavon for raising this point this afternoon? It is very important. I am aware of these courses, and there's no reason to think that quality is an issue. However, I'm not convinced that courses like this would necessarily represent the best value for the public purse, and I've asked my officials to look at this sort of provision. I've also asked Professor Sir Ian Diamond to give particular attention to this issue in terms of his review of student finance and higher education funding. Wales really does need a strong partnership and strong collaboration between further and higher education. We need that collaboration, and not competition, between the sectors. So, I do thank the Member for bringing that point to the floor of the Chamber. That is something upon which we will act as soon as is humanly possible.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod dros Aberafan am godi'r pwynt hwn y prynhawn yma? Mae'n bwysig iawn. Rwy'n ymwybodol o'r cyrsiau hyn, ac nid oes unrhyw reswm dros feddwl bod ansawdd yn broblem. Fodd bynnag, nid wyf yn argyhoeddedig y byddai cyrsiau fel hyn o reidrwydd yn cynrychioli gwerth gorau am arian cyhoeddus, ac rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych ar ddarpariaeth o'r fath. Rwyf wedi gofyn hefyd i'r Athro Syr Ian Diamond roi sylw arbennig i'r mater o ran ei adolygiad o gyllid myfyrwyr a chyllido addysg uwch. Mae gwir angen partneriaeth gref a chydweithredu cryf rhwng addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Mae arnom angen cydweithio o'r fath, ac nid cystadleuaeth, rhwng y sectorau. Felly, diolch i'r Aelod am ddod â'r pwynt hwnnw i'r Siambr. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn gweithredu arno cyn gynted ag sy'n bosibl.

14:57

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the £3.6 billion cost of your tuition fees policy was justified on the basis of helping Welsh universities, but there's actually been a drop in Welsh students attending those universities over the past two years. Could it be that the Diamond review publication is being withheld because it shows that your policy is ultimately unsustainable? Yesterday, we had the withholding of the publication of Cabinet decisions; today, this. Whatever happened to transparency?

Weinidog, cafodd y gost o £3.6 biliwn am eich polisi ffioedd dysgu ei gyfiawnhau ar sail y ffaith ei fod yn helpu prifysgolion Cymru, ond cafwyd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr Cymreig sy'n mynychu'r prifysgolion hynny yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mewn gwirionedd. A yw'n bosibl efallai fod cyhoeddi adolygiad Diamond yn cael ei ddal yn ôl am ei fod yn dangos bod eich polisi yn anghynaliadwy yn y pen draw? Ddoe, clywsom na fydd penderfyniadau'r Cabinet yn cael eu cyhoeddi; heddiw, hyn. Beth a ddigwyddodd i dryloywder?

14:58

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, I'm beginning to think I may have entered an alternate dimension, in relation to some of the questions that I'm receiving, particularly from the Welsh Conservatives, this afternoon. I haven't withheld the Diamond review; it will be published this autumn and that has always been the intent. Nothing's been withheld. The Member needs to stay off those conspiracy theory websites.

Lywydd, rwy'n dechrau meddwl efallai fy mod wedi cerdded i mewn i ddimensiwn newydd, o ran rhai o'r cwestiynau rwy'n eu cael, yn enwedig gan y Ceidwadwyr Cymreig, y prynhawn yma. Nid wyf wedi dal adolygiad Diamond yn ôl; bydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr hydref a dyna oedd y bwriad drwy'r amser. Nid oes dim wedi cael ei ddal yn ôl. Mae angen i'r Aelod ymatal rhag y gwefannau theori cynllwyn.

- 14:59 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
5. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fonitro effeithiolrwydd consortia addysg lleol? OAQ(4)0627(ESK)
- 14:59 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I welcome the positive progress identified by Estyn and the Wales Audit Office in their recently published reports on consortia. My officials continue to monitor the performance, progress and impact of consortia against their agreed business plans and tomorrow I will undertake the first of this autumn's review and challenge events.
- 14:59 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, thank you for that answer, Minister. In fact, those reports from Estyn and the Wales Audit Office actually highlighted the need to ensure that regional consortia are appropriately scrutinised, and I'm sure you would agree that the work undertaken in supporting schools to improve should be evaluated for both effectiveness and value for money. This year, we've seen the best results for GCSEs, and I'm sure that the work of the consortia has fed into that, but what evidence is available to demonstrate that, and what action will the Welsh Government take to actually analyse the work of the consortia to ensure that they play an effective role in delivering school improvements?
- 15:00 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, as the Member knows, I take a direct and personal interest in the effectiveness of consortia. As I mentioned in my previous response, I will be chairing tomorrow the first in a round of review and challenge events for each of the four consortia. They're also, as you've mentioned, scrutinised through Estyn and the audit office, too. A great deal hinges for our young people on the success of our consortia. They are essentially the means by which school improvement services are delivered here now in Wales, and although we are seeing signs of uplift in school performance, most particularly through those GCSE results, we will have to keep a very close and vigilant eye on how the consortia are working and how they develop. They're engaged in a complicated business. Even a single school is a complicated thing. With 2,200 schools, well, that is very complicated indeed. So, we need to support our consortia but also we need to challenge them at every turn.
- 5. What action is the Welsh Government taking to monitor the effectiveness of local education consortia? OAQ(4)0627(ESK)*
- Croesawaf y cynnydd cadarnhaol a nodwyd gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hadroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y consortia. Mae fy swyddogion yn parhau i fonitro perfformiad, cynnydd ac effaith y consortia yn erbyn eu cynlluniau busnes y cytunwyd arnynt ac yfory byddaf yn ymgymryd â'r cyntaf o ddigwyddiadau adolygu a herio yr hydref hwn.
- Wel, diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn wir, roedd yr adroddiadau hynny gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru mewn gwirionedd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod consortia rhanbarthol yn cael eu craffu'n briodol, ac rwy'n siŵr y byddech yn cytuno y dylai'r gwaith a wnaed ar gefnogi ysgolion i wella gael ei werthuso o ran ei effeithiolrwydd a'i werth am arian. Eleni, rydym wedi gweld y canlyniadau TGAU gorau, ac rwy'n siŵr bod gwaith y consortia wedi bwydo i mewn i hynny, ond pa dystiolaeth sydd ar gael i ddangos hynny, a pha gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddadansoddi gwaith y consortia mewn gwirionedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn chwarae rhan effeithiol yn y broses o sicrhau gwelliannau i ysgolion?
- Wel, fel y gŵyr yr Aelod, mae gennyf ddiddordeb uniongyrchol a phersonol yn effeithiolrwydd y consortia. Fel y soniais yn fy ateb blaenorol, yfory byddaf yn cadeirio'r cyntaf mewn cylch o ddigwyddiadau adolygu a herio ar gyfer pob un o'r pedwar consortiwm. Fel rydych wedi sôn, maent hefyd yn cael eu craffu drwy Estyn a'r Swyddfa Archwilio. Mae llawer iawn yn dibynnu ar lwyddiant ein consortia ar gyfer ein pobl ifanc. Yn y bôn, dyma'r modd y caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu darparu yma yng Nghymru yn awr, ac er ein bod yn gweld arwyddion o gynnydd ym mherfformiad ysgolion, yn fwyaf arbennig drwy'r canlyniadau TGAU, bydd yn rhaid i ni gadw llygad gwyliadwrus iawn ar sut y mae'r consortia'n gweithio a sut y maent yn datblygu. Maent yn ymwneud â gwaith cymhleth. Mae hyd yn oed ysgol unigol yn beth cymhleth. Gyda 2,200 o ysgolion, wel, mae hynny'n gymhleth iawn yn wir. Felly, mae angen i ni gefnogi ein consortia, ond hefyd mae angen manteisio ar bob cyfle i'w herio.

15:01

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Minister, I've had representations from some schools in my area over the supply of information and the forewarning, shall we say, when, obviously, the traffic light system was brought forward, and they found themselves to be in a category that everything led them to believe that they weren't going to be in. There does seem to be a genuine concern over the ability to have discussions with the consortia about the assessments that they've made and then, maybe, any appeals that they might want to lodge with the consortia over that grading. Have you made an assessment of the way in which the information and the discussions between the school and the consortia is undertaken so that any bottlenecks can be ironed out, because that relationship is vital to drive improvement, and the last thing we want is a deterioration in the relationship between the consortia and the individual schools?

Weinidog, rwyf wedi cael sylwadau gan rai ysgolion yn fy ardal ynghylch y modd y caiff gwybodaeth ei darparu a'r rhybudd ymlaen llaw, gawn ni ddweud, pan gyflwynwyd y system goleuadau traffig, a phan welsant eu bod wedi'u rhoi mewn categori yr oedd popeth wedi'u harwain i greu na fyddent yn cael eu rhoi ynddo. Mae'n ymddangos bod yna bryder gwirioneddol ynglŷn â'r gallu i gael trafodaethau gyda'r consortia am yr asesiadau a wnaethant, ac yna, efallai, unrhyw apeliadau y gallent fod eisiau eu cyflwyno i gonsortia ynghylch y graddio. A ydych wedi asesu'r modd y darperir gwybodaeth ac y cynhelir trafodaethau rhwng yr ysgol a'r consortia er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystrau, gan fod y berthynas honno'n hanfodol i ysgogi gwelliant, a'r peth olaf sydd ei eisiau yw dirywiad yn y berthynas rhwng y consortia a'r ysgolion unigol?

15:02

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Member for that question? It is quite a worrying question, actually, because it points to someone, somewhere, having the wool pulled over their eyes. No school should be surprised by the traffic light colour that it receives because it has been involved from the beginning of the discussion with the consortium and with its local authority. It's been involved in all the discussions that have led to the categorisation colour code that the school actually receives. So, for any headteacher to turn around and tell any observer, 'I don't know where this came from; it's a surprise', is a very puzzling comment to make indeed. But, to be as generous as I could possibly put it, there is obviously something wrong in the school improvement agenda of a school that doesn't understand how it managed to get into its category. That, in itself, is a school improvement worry.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am y cwestiwn? Mae'n gwestiwn sy'n peri peth pryder, mewn gwirionedd, am ei fod yn awgrymu bod rhywun yn taflu llwch i lygaid rhywun yn rhywle. Ni ddylai unrhyw ysgol gael ei synnu gan liw'r goleuadau traffig a gaiff am ei bod wedi bod yn rhan o'r drafodaeth gyda'r consortiwm a chyda'i awdurdod lleol o'r cychwyn. Mae wedi bod yn rhan o'r holl drafodaethau a arweiniodd at roi'r categori cod lliw i'r ysgol. Felly, mae'n syndod clywed am unrhyw bennaeth yn dweud wrth unrhyw sylwedydd, 'Nid wyf yn gwybod o ble y daeth hyn; mae'n destun syndod', yn sylw sy'n peri penbleth mawr yn wir. Ond os caf ei roi mor garedig ag y gallaf, mae'n amlwg fod rhywbeth o'i le ar yr agenda gwella ysgol mewn ysgol nad yw'n deall sut y mae wedi llwyddo i gael ei rhoi yn y categori y mae hi ynddo. Mae hynny, ynddo'i hun, yn bryder o ran gwella ysgol.

15:03

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you are aware a petition is currently being considered by the National Assembly's Petitions Committee calling for the Welsh Government to review the guidance to local authorities on headteachers' power to authorise term-time holidays. You've previously stated that the existing guidance in Wales does advise schools and local authorities of their discretionary power to authorise up to 10 days absence per year for a family holiday during term time. However, evidence recently presented to the committee by the lead petitioner, Bethany Walpole-Rowe of Ceredigion, suggests that in practice it's the education consortia that are in the driving seats here and are determining policy, which is making it very difficult for headteachers and governing bodies. In the light of this uncertainty, Minister, will you consider, in partnership with the consortia across Wales, reviewing the guidance and making it clearer and more transparent?

Weinidog, fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd yn ystyried deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau i awdurdodau lleol ar bŵer penaethiaid i awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor. Rydych chi wedi datgan o'r blaen fod y canllawiau presennol yng Nghymru yn rhoi gwybod i ysgolion ac awdurdodau lleol ynglŷn â'u pŵer disgresiynol i awdurdodi hyd at 10 diwrnod o absenoldeb y flwyddyn ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r pwyllgor gan y prif ddeisebydd, Bethany Walpole-Rowe o Geredigion, yn awgrymu mai'r consortia addysg sy'n arwain ar hyn ac yn pennu polisi yn ymarferol, ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd iawn i benaethiaid a chyrrff llywodraethu. Yng ngoleuni'r ansicrwydd hwn, Weinidog, a wnewch chi, mewn partneriaeth â'r consortia ledled Cymru, ystyried adolygu'r canllawiau a'u gwneud yn gliriach ac yn fwy tryloyw?

15:04

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, if I could say, Presiding Officer, I don't intend to review the guidance. I think the guidance is clear and it is transparent and the headteacher is the person in the driving seat. If there is another interpretation being forced into the conversation by a consortium, local authority or anybody else, I would be very happy to learn about it so that I could intervene. We do not have the English-style system here in Wales. A great many people seem to be under the impression that the school absence system in Wales is what is reported as being the one in England. Ours is different. It is about discretion, and it is about the common sense attitude of a headteacher, and that's the critical element. So, if Members are seeing schools that are not operating in that way, I'd like to know about it because I'd like to get in touch with those local authorities or consortia concerned to make sure that guidance is being followed.

Wel, os caf fi ddweud, Lywydd, nid wyf yn bwriadu adolygu'r canllawiau. Rwy'n meddwl bod y canllawiau'n glir ac yn dryloyw a'r pennaeth yw'r person sy'n penderfynu. Os oes consortiwm, awdurdod lleol neu unrhyw un arall yn mynnu cynnwys dehongliad arall yn rhan o'r drafodaeth, hoffwn wybod er mwyn i mi allu ymyrryd. Nid oes gennym system debyg i un Lloegr yma yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod llawer iawn o bobl dan yr argraff fod y system presenoldeb ysgolion yng Nghymru fel yr un y dywedir ei bod yn bodoli yn Lloegr. Mae ein system ni'n wahanol. Mae'n ymwneud â disgresiwn, ac mae'n ymwneud â synnwyr cyffredin y pennaeth, a dyna'r elfen hollbwysig. Felly, os yw'r Aelodau'n gweld ysgolion nad ydynt yn gweithredu yn y ffordd honno, hoffwn wybod amdanynt oherwydd hoffwn gysylltu â'r awdurdodau lleol neu'r consortia dan sylw i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu dilyn.

Effaith Tlodi ar Gyrrhaeddiad Addysgol

Impact of Poverty on Educational Attainment

15:05

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau effaith tlodi ar gyrrhaeddiad addysgol yng Nghymru? OAQ(4)0626(ESK)

6. What action is the Welsh Government taking to reduce the impact of poverty on educational attainment in Wales? OAQ(4)0626(ESK)

15:05

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My thanks to the Member for Cynon Valley. We will continue to implement our programme of educational reform, which is now paying real dividends. The results published last Thursday show that in 2014-15, 31.3 per cent of free school meal learners achieved five A* to C grades at GCSE. As I say, this is a 3.5 per cent uplift, higher than in 2013-14.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon. Byddwn yn parhau i weithredu ein rhaglen o ddiwygiadau addysgol, sydd bellach yn dwyn ffrwyth go iawn. Mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd ddydd lau diwethaf yn dangos bod 31.3 y cant o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi cyflawni pum gradd A* i C yn eu TGAU yn 2014-15. Fel rwy'n dweud, mae hyn yn gynydd o 3.5 y cant, yn uwch nag yn 2013-14.

15:05

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I was absolutely delighted to see this increase in the number of free school meal pupils getting five good GCSEs, and this does represent a narrowing of the attainment gap, and this is something that we should be very proud of. However, the gap is still there, as the 'Ready to Read' report published last week demonstrated, with children with persistent experiences of poverty being twice as likely to have poor vocabulary skills as their peers, with significant consequences in turn for their educational attainment. I wondered, Minister, what your reflections on this report are, and how can the Welsh Government best address the challenges it identifies?

Diolch yn fawr, Weinidog. Roeddwn wrth fy modd o weld y cynnydd hwn yn nifer y disgyblion ar brydau ysgol am ddim sy'n cael pum TGAU da, ac mae'n dangos bod y bwlch cyrrhaeddiad yn lleihau, sy'n rhywbeth y dylem fod yn falch iawn ohono. Fodd bynnag, mae'r bwlch yn dal i fod yno, fel y dangosodd yr adroddiad 'Ready to Read' a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, gyda phlant â phrofiadau parhaus o dlodi ddwywaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion o fod â sgiliau geirfa gwael, gyda chanlyniadau sylweddol yn eu tro o ran eu cyrrhaeddiad addysgol. Roeddwn yn meddwl tybed, Weinidog, beth yw eich argraffiadau chi o'r adroddiad hwn, a beth yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r heriau y mae'n eu nodi?

- 15:06 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I'll read the report with interest. All evidence in this regard is valuable, but all evidence, it seems, is also consistent and very clear in that some of the problems relating to educational attainment are rooted in literacy and numeracy—and literacy, particularly, is itself rooted in early oracy in the very young. And that's why I'm working very closely with my colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty, to make sure that what Flying Start delivers to our young people takes into account that disadvantage in the acquisition of language that very, very young children face in deprived circumstances. It is—
- Byddaf yn darllen yr adroddiad gyda diddordeb. Mae'r holl dystiolaeth yn hyn o beth yn werthfawr, ond mae'r holl dystiolaeth hefyd i'w gweld yn dynodi'n gyson ac yn glir iawn fod rhai o'r problemau sy'n ymwneud â chyrhaeddiad addysgol yn seiliedig ar lythrennedd a rhifedd—ac mae llythrennedd, yn benodol, yn ddo'i hun yn seiliedig ar lafaredd cynnar mewn plant ifanc iawn. A dyna pam rwy'n gweithio'n agos iawn gyda fy nghyd-Aelod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, i wneud yn siŵr fod yr hyn y mae Dechrau'n Deg yn ei ddarparu i'n pobl ifanc yn ystyried yr anfantais o ran caffael iaith sy'n wynebu plant ifanc iawn mewn amgylchiadau difreintiedig. Mae'n—
- 15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I'm sorry; I thought you'd finished.
- Mae'n ddrwg gennyf; roeddwn i'n meddwl eich bod wedi gorffen.
- 15:07 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I'm sorry; just one final sentence, if you'll forgive me, Presiding Officer. It is the case, though, that good intervention can transform situations for young people. Just this week I went to a comprehensive school in the Vale of Glamorgan, which this summer saw 66 per cent of its young people on free school meals hitting five good GCSEs.
- Mae'n ddrwg gennyf; un frawddeg olaf yn unig, os maddeuwch i mi, Lywydd. Mae'n wir, fodd bynnag, y gall ymyrraeth dda drawsnewid sefyllfaoedd i bobl ifanc. Yr wythnos hon fe fûm mewn ysgol gyfun ym Mro Morgannwg, lle'r oedd 66 y cant o'i phobl ifanc ar brydau ysgol am ddim wedi cael pump TGAU da yr haf hwn.
- 15:08 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Minister, Estyn recently called for more to be done to prevent vulnerable pupils, many of whom come from poor backgrounds, from being excluded from schools. They call on local authorities, schools and pupil referral units to work together to prevent children leaving full-time education here in Wales. What action does the Minister intend to take in response to this call by Estyn, please?
- Weinidog, yn ddiweddar galwodd Estyn am wneud mwy i atal disgyblion sy'n agored i niwed, y mae llawer ohonynt yn dod o gefndiroedd tlawd, rhag cael eu gwahardd o ysgolion. Maent yn galw ar awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i weithio gyda'i gilydd i atal plant rhag gadael addysg amser llawn yma yng Nghymru. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r alwad hon gan Estyn, os gwelwch yn dda?
- 15:08 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 Of course the Member will be aware of our work on school exclusions. Although figures do move up and down slightly, they are in historic terms, over the last 10 years or so, on a downward trend. And he'll be aware that I've asked Ann Keane, the former chief inspector of schools, to review our work on education other than at school, which will include PRU provision and other forms of provision and intervention for those young people at risk of being excluded from schools. I know that Ann will provide us a report that will be extremely useful—indispensable, I'm sure—in terms of making further improvements in this regard.
- Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn gwybod am ein gwaith ar waharddiadau ysgol. Er bod y ffigurau'n codi a gostwng ychydig, yn hanesyddol, dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r duedd ar i lawr. Ac fe fydd yn gwybod fy mod wedi gofyn i Ann Keane, y cyn brif arolygydd ysgolion, i adolygu ein gwaith ar addysg heblaw yn yr ysgol, a fydd yn cynnwys y ddarpariaeth o unedau cyfeirio disgyblion a mathau eraill o ddarpariaeth ac ymyrraeth ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o ysgolion. Gwn y bydd Ann yn rhoi adroddiad hynod o ddefnyddiol i ni—adroddiad anhepgor, rwy'n siŵr—o ran gwneud gwelliannau pellach yn hyn o beth.

15:09

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I believe firmly in the aspiration behind this question, and that informed my Financial Education and Inclusion (Wales) Bill, as you will know, Minister. But it is a little-known fact that growth rates in manufacturing are actually greater than those from the financial industry, and also help to spread wealth around the UK, which is obviously what we want to do. With that in mind, would you consider an audit of engineering provision, particularly at A-level across Wales, with a view to improving that provision? Because when I did a desktop study of this a couple of years ago, provision was patchy, and it would be good to see if this has changed or not, and if it hasn't changed, what are you doing as Minister to improve it?

Credaf yn gadarn yn y dyhead sy'n sail i'r cwestiwn hwn, ac a lywiodd fy Mil Addysg Ariannol a Chynhwysiant (Cymru), fel y gwyddoch, Weinidog. Ond nid yw'n ffaith hysbys iawn fod cyfraddau twf mewn gweithgynhyrchu yn uwch na rhai'r diwydiant ariannol mewn gwirionedd, a hefyd yn helpu i ledaenu cyfoeth o gwmpas y DU, sef yr hyn rydym am ei wneud, wrth gwrs. Gyda hynny mewn golwg, a fydddech yn ystyried archwiliad o'r ddarpariaeth beirianneg, yn enwedig ar lefel y safon uwch ar draws Cymru, gyda golwg ar wella'r ddarpariaeth honno? Oherwydd pan gyflawnais astudiaeth bwrdd gwaith ar hyn ychydig o flynyddoedd yn ôl, roedd y ddarpariaeth yn anghyson, a byddai'n dda gweld a yw hyn wedi newid ai peidio, ac os nad yw wedi newid, beth rydych chi, fel Gweinidog, yn ei wneud i'w wella?

15:10

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm assuming that the Member's referring to engineering provision within schools as a subject area. Yes. Well, that's a very interesting intervention and I think there's substance in what the Member is suggesting—it would be very much in line with current policy developments. If she'd be kind enough to write to me with the substance of her suggestion, I'd be more than happy to take a look at that.

Rwy'n tybio bod yr Aelod yn cyfeirio at y ddarpariaeth beirianneg fel maes pwnc yn yr ysgolion. Ydy. Wel, mae hwnnw'n ymyriad diddorol iawn ac rwy'n credu bod sylwedd yn yr hyn y mae'r Aelod yn ei awgrymu—byddai'n sicr yn cyd-fynd â datblygiadau polisi cyfredol. Os byddai hi'n ddigon caredig i ysgrifennu ataf gyda sylwedd ei hawgrym, byddwn yn fwy na pharod i edrych ar hynny.

15:10

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the pupil deprivation grant is also applied to those very youngest children now in nursery settings, which is very welcome, following a campaign by the Liberal Democrats, but also to children who are looked after. What analysis are you carrying out to look at the impact of pupil deprivation grant on nursery children but also those children who find themselves in the care system through no fault of their own?

Weinidog, mae'r grant amddifadedd disgyblion hefyd yn cael ei gymhwyso i'r plant ieuengaf un bellach mewn lleoliadau meithrin, sydd i'w groesawu'n fawr, yn dilyn ymgyrch gan y Democratiaid Rhyddfrydol, a hefyd i blant sy'n derbyn gofal. Pa ddadansoddiad rydych yn ei gynnal i edrych ar effaith y grant amddifadedd disgyblion ar blant meithrin, a hefyd, plant sydd yn y system ofal heb fod unrhyw fai arnynt hwy?

15:10

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we will evaluate the effect of the pupil deprivation grant in all its guises, whether it's for older children on free school meals, those who are looked after or the very young, through the usual evaluation procedures. It is, though—. I would remind everyone, particularly in terms of the £300 now allocated for the very young, the cheques are barely out of the building as yet. One of the questions I'll be asking headteachers and leaders in settings for the very young is for an audit as soon as possible in terms of how they are spending their pupil deprivation grant. I wouldn't like our early years settings to be under any misapprehension about who that money is intended for and the purpose for which it's intended.

Wel, byddwn yn gwerthuso effaith y grant amddifadedd disgyblion yn ei holl ffurfiau, boed hynny ar gyfer plant hŷn sy'n cael prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal neu blant ifanc iawn, drwy'r gweithdrefnau gwerthuso arferol. Er hynny, mae—. Hoffwn atgoffa pawb, yn arbennig o ran y £300 a ddyrannwyd bellach ar gyfer plant ifanc iawn, nad yw'r sieciau prin allan o'r adeilad eto. Un o'r pethau y byddaf yn gofyn i bennaethiaid ac arweinwyr lleoliadau ar gyfer plant ifanc iawn ei wneud yw cynnal archwiliad cyn gynted ag y bo modd o ran sut y maent yn gwario eu grant amddifadedd disgyblion. Ni fyddwn yn dymuno i'n lleoliadau blynyddoedd cynnar fod o dan unrhyw gamargraff ynglŷn ag ar gyfer pwy y bwriedir yr arian hwn ac at ba ddiben y'i bwriadwyd.

3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a'r Dreth Gyngor

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones.

3. Welsh Conservatives Debate: Local Authority Services and Council Tax

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones.

15:11

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is the Welsh Conservative debate on local authority services and council tax. I call on Janet Finch-Saunders to move the motion. Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar wasanaethau awdurdodau lleol a'r dreth gyngor. Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig y cynnig. Janet Finch-Saunders.

Cynnig NDM5831 Paul Davies

Motion NDM5831 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r rhan bwysig y mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn ei chwarae mewn profiadau unigolion o wasanaethau cyhoeddus.

1. Notes the important role that local authority services play in an individuals' experiences of public services.

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yn barhaus i ddarparu cymorth i awdurdodau lleol er mwyn atal cynnydd mewn biliau treth gyngor;

2. Regrets the Welsh Government's persistent refusal to provide support to local authorities in preventing rises in council tax bills;

3. Yn nodi mai'r band treth gyngor D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 2015-16 yw £1,328 a bod teuluoedd ar eu colled o £546 yn ystod y pedwerydd Cynulliad o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gwrthod rhewi'r dreth gyngor;

3. Notes that the average band D council tax for Wales for 2015-16 is £1,328; and that households are £546 worse off over the course of the Fourth Assembly due to the Welsh Government's refusal to implement a council tax freeze;

4. Yn credu y bydd pobl yng Nghymru yn amau'r gwerth am arian a ddarperir gan lawer o wasanaethau awdurdodau lleol yn dilyn y cynnydd hwn yn y dreth gyngor; a

4. Believes that people in Wales will question the value for money provided by many local authority services further to these council tax rises; and

5. Yn credu ymhellach bod angen gwneud mwy yng Nghymru i fanteisio ar y rôl y gall mudiadau trydydd sector ei chwarae yn y broses o ddarparu gwasanaethau lleol yn effeithiol.

5. Further believes that more work needs to be done in Wales to utilise the role third sector organisations can play in effective local service delivery.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:12

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion in the name of Paul Davies AM, a motion that seeks to propose that the National Assembly for Wales does note

Cynigiaf y cynnig yn enw Paul Davies AC, cynnig sy'n ceisio argymhell y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru nodi'r

'the important role that local authority services play in an individuals' experiences of public services.'

'rhan bwysig y mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn ei chwarae mewn profiadau unigolion o wasanaethau cyhoeddus.'

And we regret

Ac rydym yn gresynu at

'the Welsh Government's persistent refusal to provide support to local authorities in preventing rises in council tax bills',

'y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yn barhaus i ddarparu cymorth i awdurdodau lleol er mwyn atal cynnydd mewn biliau treth gyngor',

noting that

gan nodi mai

'the average band D council tax for Wales for 2015-16 is £1,328; and that households are £546 worse off over the course of the Fourth Assembly due to the Welsh Government's refusal to implement a council tax freeze'.

'band treth gyngor D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 2015-16 yw £1,328 a bod teuluoedd ar eu colled o £546 yn ystod y pedwerydd Cynulliad o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gwrthod rhewi'r dreth gyngor'.

And we believe

Ac rydym yn credu

'that people in Wales will question the value for money provided by many local authority services further to these council tax rises'.

And we further believe

'that more work needs to be done in Wales to utilise the role third sector organisations can play in effective local service delivery.'

Local public services play a key role in the everyday lives of people across Wales, and it is only right that those responsible for this provide top delivery and performance alongside value for money for our taxpayers here in Wales.

Over 16 years and under the Welsh Labour Government, our residents have seen crippling council tax rises that now have increased to a 168 per cent increase since this Labour Government came into play here. They have seen the Welsh Local Government Association warning of public service failure and they have seen over £100 million spent on golden handshakes for senior council staff over the last three years. What they haven't seen, though, in some authorities is innovative public services, open and transparent spending and value for money across local government.

Our motion today calls on this Assembly to note the important role the third sector can play in providing innovative and effective local service delivery, and highlights the importance of value for money when it comes to spending taxpayers' money.

Local authorities, indeed every local authority has the moral imperative and a duty to spend taxpayers' money with prudence, financial probity and should be held accountable in democratic terms, both at local level and, of course, here in the Welsh Labour Government.

The confidence of local people in their ability to influence and shape local service delivery is worryingly low. The 2014-15 national survey for Wales found that 59 per cent—yes, 59 per cent of people—disagreed or strongly disagreed that they could influence decisions affecting their local area. Of course, we only need to look at our health service and the problems therein, especially in north Wales, for further evidence of ignoring patients, especially after taking what they call consultations on ward closures and recently on maternity services. What an absolute shambles. Again, we can only lay responsibility, ultimately, at the feet of this Government. However, at present, this lack of confidence is further hindered by a culture of secrecy in some local authorities. That, now, of course, is extending to the Welsh Labour Government and their shocking announcement yesterday that they will no longer be publishing Cabinet decision reports online. You know, it's about culture, a culture of secrecy, and it's also about trend.

'y bydd pobl yng Nghymru yn amau'r gwerth am arian a ddarperir gan lawer o wasanaethau awdurdodau lleol yn dilyn y cynnydd hwn yn y dreth gyngor'.

Ac rydym yn credu ymhellach

'bod angen gwneud mwy yng Nghymru i fanteisio ar y rôl y gall mudiadau trydydd sector ei chwarae yn y broses o ddarparu gwasanaethau lleol yn effeithiol.'

Mae gwasanaethau cyhoeddus lleol yn chwarae rhan allweddol ym mywydau pob dydd pobl ledled Cymru, ac nid yw ond yn iawn fod y rhai sy'n gyfrifol amdanynt yn darparu gwasanaeth a pherfformiad o'r radd flaenaf ochr yn ochr â gwerth am arian i'n trethdalwyr yma yng Nghymru.

Dros 16 o flynyddoedd ac o dan Lywodraeth Lafur Cymru, mae ein trigolion wedi gweld cynnydd niweidiol yn y dreth gyngor sydd bellach wedi cynyddu 168 y cant ers i'r Llywodraeth Lafur ddod i rym yma. Maent wedi gweld Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhybuddio am fethiant gwasanaethau cyhoeddus ac maent wedi gweld dros £100 miliwn yn cael ei wario ar daliadau ymadael i uwch staff cynghorau dros y tair blynedd diwethaf. Yr hyn nad ydynt wedi ei weld, fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau yw gwasanaethau cyhoeddus blaengar, gwario agored a thryloyw a gwerth am arian ar draws llywodraeth leol.

Mae ein cynnig yn galw heddiw ar y Cynulliad hwn i nodi'r rôl bwysig y gall y trydydd sector ei chwarae yn darparu gwasanaethau lleol blaengar ac effeithiol, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwerth am arian wrth wario arian y trethdalwyr.

Mae rheidrwydd moesol a dyletswydd ar awdurdodau lleol, pob awdurdod lleol yn wir, i wario arian trethdalwyr yn ddarbodus, gyda chywirdeb ariannol a dylent gael eu dwyn i gyfrif yn ddemocrataidd, ar lefel leol ac wrth gwrs, yma yn Llywodraeth Lafur Cymru.

Mae hyder pobl leol yn eu gallu i lywio a dylanwadu ar y modd y caiff gwasanaethau lleol eu darparu yn frawychus o isel. Canfu arolwg cenedlaethol 2014-15 ar gyfer Cymru fod 59 y cant—ie, 59 y cant o bobl—yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Wrth gwrs, nid oes ond angen i ni edrych ar ein gwasanaeth iechyd a'r problemau yno, yn enwedig yn y gogledd, am dystiolaeth bellach o gleifion yn cael eu hanwybyddu, yn enwedig ar ôl cynnal yr hyn y maent yn eu galw'n ymgynghoriadau ar gau wardiau ac yn ddiweddar ar wasanaethau mamolaeth. Dyma beth yw traed moch llwyr. Unwaith eto, mae'r cyfrifoldeb, yn y pen draw, ar y Llywodraeth hon. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r diffyg hyder hwn yn cael ei lesteirio ymhellach gan ddiwylliant o gyfrinachedd mewn rhai awdurdodau lleol. Mae hynny bellach, wrth gwrs, yn ymestyn i Lywodraeth Lafur Cymru a'u cyhoeddiad syfrdanol ddoe na fyddant yn cyhoeddi adroddiadau ar benderfyniadau Cabinet ar-lein mwyach. Wyddoch chi, mae'n ymwneud â diwylliant, diwylliant o gyfrinachedd, ac mae hefyd yn ymwneud â thuedd.

In 2013-14, Wrexham council held every single one of its cabinet meetings behind closed doors. Anglesey—Ynys Môn, I prefer to say—excluded the public from at least one agenda item in 71 per cent of their cabinet meetings. A Welsh Conservative survey found that 49 per cent of respondents felt that their authority did not provide easy-to-access information on where it spends council tax and additional taxpayers' money—

Yn 2013-14, cynhaliodd Cyngor Wrecsam bob un o'i gyfarfodydd cabinet y tu ôl i ddrisau caeedig. Gwaharddodd Ynys Môn y cyhoedd o un eitem fan lleiaf ar yr agenda mewn 71 y cant o'u cyfarfodydd cabinet. Canfu arolwg gan y Ceidwadwyr Cymreig fod 49 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd eu hawdurdod yn darparu gwybodaeth hawdd ei chael ar ble y mae'n gwario'r dreth gyngor ac arian ychwanegol trethdalwyr—

15:16 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:16 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

15:16 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Janet Finch-Saunders, for taking this intervention. How many committee meetings do you attend here that go into private session?

Diolch i chi, Janet Finch-Saunders, am gymryd yr ymyriad hwn. Faint o gyfarfodydd pwyllgor ydych chi'n eu mynychu yma sy'n mynd i sesiwn breifat?

15:16 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are talking about cabinet meetings where decisions are being made, usually when it's controversial. This culture of secrecy, closed doors and a lack of information must be stopped. We are calling today for local authorities to provide council tax payers with a clear and accessible breakdown of how their money is spent. We are calling for open public meetings of engagement prior to council budget setting to increase transparency and enhance public understanding of how and where their money is spent. Monmouthshire do this and consider it extremely worth while. We are calling for all local authorities to publish all expenditure as, again, Conservative-led Monmouthshire council do. A change in Labour's local government culture is well overdue.

Rydym yn siarad am gyfarfodydd cabinet lle y caiff penderfyniadau eu gwneud, fel arfer pan fyddant yn ddadleuol. Rhaid rhoi diwedd ar y diwylliant o gyfrinchedd, drisau caeedig a diffyg gwybodaeth. Rydym yn galw heddiw ar awdurdodau lleol i ddarparu dadansoddiad clir a hygyrch i dalwyr y dreth gyngor o sut y caiff eu harian ei wario. Rydym yn galw am gyfarfodydd cyhoeddus agored ar gyfer ymgysylltu cyn gosod cyllideb y cyngor er mwyn cynyddu tryloywder a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o sut a ble y caiff eu harian ei wario. Mae Sir Fynwy yn gwneud hyn ac yn ystyried ei fod yn hynod o werth chweil. Rydym yn galw ar yr holl awdurdodau lleol i gyhoeddi eu holl wariant fel y mae Cyngor Sir Fynwy dan arweiniad y Ceidwadwyr yn ei wneud. Mae'n hen bryd newid diwylliant llywodraeth leol Llafur.

Overtuning such a culture of unaccountability and secrecy is just the first step. We do need to acknowledge and utilise the valuable role that the third sector can play in providing our vital public services. The third sector understands the needs of service users and our communities and often has a closeness to people that public services can only hope to reach. The provision of value-driven service delivery and innovative solutions via the third sector is invaluable and is a resource that certainly needs tapping into. Effective Governments don't always need to deliver every service, but they do need to ensure that services are delivered efficiently and well to a high standard. Co-production Wales (All in this Together) have highlighted the need for a fundamental shift in thinking in terms of public service delivery, stating that the futureproofing of services requires a change, breaking down barriers between people who provide services and those who use them.

Cam cyntaf yn unig yw trawsnewid diwylliant anatebol a chyfrinachol o'r fath. Mae angen i ni gydnabod a defnyddio'r rôl werthfawr y gall y trydydd sector ei chwarae yn darparu ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Mae'r trydydd sector yn deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau a'n cymunedau ac yn aml yn agos at y bobl na all y gwasanaethau cyhoeddus ond gobeithio'u cyrraedd. Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau wedi'u llywio gan werth am arian ac atebion arloesol drwy'r trydydd sector yn amhrisiadwy ac yn adnodd y mae'n sicr angen i ni fanteisio arno. Nid oes angen i Lywodraethau effeithiol ddarparu pob gwasanaeth bob amser, ond mae angen iddynt sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn dda ac yn safonol. Mae Cydgynhyrchu Cymru (Pawb gyda'i Gilydd) wedi amlygu'r angen am newid sylfaenol yn y ffordd o feddwl ynglŷn â darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ddatgan bod sicrhau gwasanaethau addas ar gyfer y dyfodol yn galw am newid, chwalu rhwystrau rhwng pobl sy'n darparu gwasanaethau a'r rheini sy'n eu defnyddio.

We need to provide better public services more efficiently and offer new partnerships between Government, civil society and the independent sector. We need to give power to those working on the front line, to those who know what is best for the service that they are charged with delivering. There are lessons to be learnt from steps taken over the border in England to improve both the transparency of local government and the delivery of such services. These include incentives to drive local growth, whereby councils retain 50 per cent of money generated by business rates; a requirement on all local authorities to publish expenditure; and a cut down on wasteful spending across the board. Cutting down on such waste is essential, both for providing taxpayers with value for money and for increasing confidence in the way public money is spent by those who represent them at local level and Government level.

Welsh taxpayers will be shocked to learn that redundancy payments by local authorities have risen by almost 50 per cent in the last 12 months, and that is over £100 million—£100 million spent on golden handshakes. As I said, it's well known as the revolving door process, where an officer is made redundant, given a fat cheque, only to return in another role or as an external consultant. This kind of spending flies in the face of Labour's cuts to the local government budget that have forced councils to seek efficiency savings. I have concerns that this outrageous figure could be just the tip of the iceberg if Labour press ahead with their current botched plans for council mergers and major upheaval in local government reorganisation. It is little surprise that the public has lost confidence in the Welsh Labour Government's ability to deliver local government reform. I've only been here for four years and I've already lost such confidence.

Our policies to restore public faith in the delivery of public services through utilising and increasing the role of the third sector and through operating true and proper open and accountable government will reduce wasteful spend by councils and enable us to pass this on to council tax payers through a council tax freeze. Welsh Labour's failure to freeze council tax, as they do in Scotland, as they do in England, has now left us—us, as well—£546 worse off. Since Labour came to power, council tax bills have risen 168 per cent. We know, certainly in Conwy, they've already factored a 5 per cent increase into their budget for next year.

The Minister has highlighted that the local government settlement is not the only funding stream for councils in Wales, and I wonder whether, today, he would confirm that this indicates his contentment with further council tax rises across Wales. Certainly, neither the Minister nor his predecessor, nor his predecessor, gave any indication as to how high council tax would have to rise before they would even consider using their power to cap council tax increases.

Mae angen i ni ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon a chynnig partneriaethau newydd rhwng y Llywodraeth, y gymdeithas sifil a'r sector annibynnol. Mae angen i ni roi grym i'r rhai sy'n gweithio yn y rheng flaen, i'r rhai sy'n gwybod beth sydd orau ar gyfer y gwasanaeth y maent yn gyfrifol am ei ddarparu. Mae yna wersi i'w dysgu o gamau a gymerwyd dros y ffin yn Lloegr i wella tryloywder llywodraeth leol a darparu gwasanaethau o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys cymhellion i ysgogi twf lleol, lle y mae cynghorau'n cadw 50 y cant o'r arian a gynhyrchir o ardrethi busnes; gofyniad i bob awdurdod lleol gyhoeddi gwariant; a chyfyngu ar wariant gwastraffus yn gyffredinol. Mae cyfyngu ar wastraff o'r fath yn hanfodol, er mwyn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr ac er mwyn cynyddu hyder yn y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario gan y rhai sy'n eu cynrychioli ar y lefel leol ac ar lefel y Llywodraeth.

Bydd trethdalwyr Cymru yn cael syndod o ddsygu bod taliadau diswyddo awdurdodau lleol wedi codi bron i 50 y cant yn y 12 mis diwethaf, ac mae'r taliadau hynny dros £100 miliwn—£100 miliwn a wariwyd ar daliadau ymadael. Fel y dywedais, mae'n cael ei alw'n broses drws troi, pan gaiff swyddog ei wneud yn ddi-waith, mae'n cael sic eiddo, ac yn dychwelyd i rôl arall neu fel ymgynghorydd allanol. Mae'r math hwn o wariant yn gwbl groes i'r toriadau y mae Llafur wedi eu gwneud i gyllideb llywodraeth leol sydd wedi gorfodi cynghorau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd. Rwy'n pryderu mai dim ond crafu'r wyneb fydd y ffigur gwarthus hwn o bosibl os yw Llafur yn bwrw rhagddynt â'u cynlluniau carbwl cyfredol i uno cynghorau a'r newidiadau mawr wrth ad-drefnu llywodraeth leol. Nid yw'n syndod fod y cyhoedd wedi colli hyder yng ngallu Llywodraeth Lafur Cymru i ddiwygio llywodraeth leol. Nid wyf ond wedi bod yma ers pedair blynedd ac rwyf eisoes wedi colli hyder o'r fath.

Bydd ein polisiau i adfer ffydd y cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu drwy ddefnyddio a chynyddu rôl y trydydd sector a thrwy weithredu llywodraeth gwirioneddol gywir, agored ac atebol yn lleihau gwariant gwastraffus gan gynghorau ac yn ein galluogi i drosglwyddo hyn i dalwyr y dreth gyngor drwy rewi'r dreth gyngor. Mae methiant Llafur Cymru i rewi'r dreth gyngor, fel y maent yn ei wneud yn yr Alban, fel y maent yn ei wneud yn Lloegr, bellach wedi ein gadael—ninnau hefyd—£546 yn waeth ein byd. Ers i Lafur ddod i rym, mae biliau'r dreth gyngor wedi codi 168 y cant. Rydym yn gwybod, yn sicr yng Nghonwy, eu bod eisoes wedi ffactora cynnydd o 5 y cant i mewn i'w cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'r Gweinidog wedi tynnu sylw at y ffaith nad y setliad llywodraeth leol yw'r unig ffordd ariannu ar gyfer cynghorau yng Nghymru, ac rwy'n meddwl tybed a fyddai'n cadarnhau heddiw fod hyn yn dangos ei fod yn fodlon ynghylch codiadau pellach yn y dreth gyngor ar draws Cymru. Yn sicr, nid yw'r Gweinidog na'i ragflaenydd, na'i ragflaenydd, wedi rhoi unrhyw arwydd ynglŷn â faint y byddai'n rhaid i'r dreth gyngor godi cyn y byddent hyd yn oed yn ystyried defnyddio'u pŵer i gapio codiadau yn y dreth gyngor.

Now, the First Minister has said he cannot see how a council tax freeze would help the local economy. But, I put it to the Minister here today that the people of Wales know best how to spend their money. The people of Wales would not have lost £15 million, as the Welsh Labour Government did through the regeneration investment fund. The people of Wales would not have awarded grant funding to a charity that had not even applied for it, as we saw this week with Autism Spectrum Connections Cymru and Autism Initiatives UK. And, the people of Wales would not have paid out £100 million over three years in golden handshakes for the boys. The people of Wales know best how to spend their money in our Welsh economy, and a Welsh Conservative Government would ensure that they would have money in their pockets to spend.

That might appear to be small fry to the Minister, sat in his office up on the fifth floor. Indeed, his party in Westminster have called a council tax freeze a 'gimmick', but I assure you, Minister, it is a significant sum to many of our households the length and breadth of Wales. This is our policy commitment and I can assure you that it is not a gimmick. I urge Members to support our motion today; to support open and transparent spending of public money; to support the role of the third sector in providing vital public services; and to support giving back to the people of Wales who have put up with so much incompetent spending of public money by the Welsh Labour Government. Let's give them this money back in their pockets and let us have improved public services. If you can't do it, then, on 6 May, move over and let the Welsh Conservatives do this for you.

Nawr, mae'r Prif Weinidog wedi dweud na all weld sut y byddai rhewi'r dreth gyngor yn helpu'r economi leol. Ond rwy'n dweud wrth y Gweinidog yma heddiw mai pobl Cymru sy'n gwybod orau sut i wario'u harian. Ni fyddai pobl Cymru wedi colli £15 miliwn fel y gwnaeth Llywodraeth Lafur Cymru drwy'r gronfa fuddsoddi mewn adfywio. Ni fyddai pobl Cymru wedi dyfarnu arian grant i elusen nad oedd wedi gwneud cais amdano hyd yn oed, fel y gwelsom yr wythnos hon gydag Autism Spectrum Connections Cymru ac Autism Initiatives UK. Ac ni fyddai pobl Cymru wedi talu £100 miliwn dros dair blynedd mewn taliadau ymadael ar gyfer y bois. Pobl Cymru sy'n gwybod orau sut i wario'u harian yn ein heconomi yng Nghymru, a byddai Llywodraeth Geidwadol Cymru yn sicrhau y byddai ganddynt arian yn eu pocedi i'w wario.

Efallai fod hynny'n ymddangos yn arian bach i'r Gweinidog, sy'n eistedd yn ei swyddfa ar y pumed llawr. Yn wir, mae ei blaidd yn San Steffan wedi galw rhewi'r dreth gyngor yn gimig, ond rwy'n eich sicrhau, Weinidog, ei fod yn swm sylweddol i lawer o'n haelwydydd ar hyd a lled Cymru. Dyma ein hymrwymiad polisi a gallaf eich sicrhau nad yw'n gimig. Anogaf yr Aelodau i gefnogi ein cynnig heddiw; i gefnogi gwariant arian cyhoeddus sy'n agored ac yn dryloyw; i gefnogi rôl y trydydd sector yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol; ac i gefnogi rhoi yn ôl i bobl Cymru sydd wedi dioddef cymaint wrth i Lywodraeth Lafur Cymru wario cymaint o arian cyhoeddus mewn modd mor anghymwys. Gadewch i ni roi'r arian hwn yn ôl yn eu pocedi a gadewch i ni gael gwell gwasanaethau cyhoeddus. Os na allwch wneud hynny, yna, ar 6 Mai, symudwch o'r ffordd a gadewch i'r Ceidwadwyr Cymreig wneud hyn ar eich rhan.

15:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the amendment to the motion. I call on Lindsay Whittle to move that amendment, tabled in the name of Elin Jones—Lindsay Whittle.

Gwelliant 1—Elin Jones

Dileu pob dim ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau awdurdod lleol yn y dyfodol os bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fynd ar drywydd polisiâu llymder.

Yn credu y dylai awdurdodau lleol a chymunedau gael y rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain i godi cyllid, er mwyn amddiffyn gwasanaethau a swyddi lleol.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig y gwelliant, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones—Lindsay Whittle.

Amendment 1—Elin Jones

Delete all after point 1 and replace with:

Regrets the implications for the future of local authority services if the UK Government continues to pursue austerity policies.

Believes that local authorities and communities should have the freedom to make their own decisions to raise finance, in order to protect local services and jobs.

Amendment 1 moved.

15:23 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. I formally move the amendment in the name of Elin Jones and, in doing so, I declare an interest that I am also a member of Caerphilly County Borough Council, but take no remuneration from said council.

Diolch, Lywydd. Rwy'n cynnig y gwelliant yn ffurfiol yn enw Elin Jones ac wrth wneud hynny, rwy'n datgan buddiant fy mod hefyd yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ond nid wyf yn cymryd unrhyw dâl gan y cyngor hwnnw.

Plaid Cymru will be opposing the Conservative motion today and every point included in it, apart from part 1. The Conservatives regularly unfurl the flag of council tax rises every few months. There've been two Conservative debates on council tax rises this year and more throughout the term of this Assembly. This motion, like the others, I believe, deserves to be rejected, not because the other parties like council tax rises, or because we want to increase the costs for working people, but because the Tories really are in no position to criticise anything regarding local government funding without rightly being accused of 'having a bit of a nerve'. Local government is in a state of— [Interruption.] I really toned that down [Laughter.]

Local government is in a state of crisis. Last year, the finance spokesperson of the WLGAs was warning that it was just a matter of time before the basic delivery of services reached a crisis point. As a councillor for close on 40 years now and a former leader of a major council, I've not seen such a dire condition of local government financing in Wales. There is, I'm afraid, fault to be laid here at Labour's door, as well. They've shown themselves to be lacking in leadership on local government reform and collaboration, waiting, perhaps, too long to arrange a commission on local government reform in the first place, even though it was inevitable, and then kicking the report into the long grass as far as possible, really. You'd be good for the world cup, boys. Their decision to forgo the reintegration of health and social care, something long called for by Plaid Cymru, has exacerbated the financial problems in local authorities even further. So, no other party is entirely free from responsibility when it comes to the state of local authority finances.

But, the Tories' motion here is particularly galling given two things. Firstly, it's their ideological commitment to austerity that is ultimately driving the public financial situation across the UK. Their manifesto commitments back in 2010 made clear what was going to happen, as they explicitly advocated for services from Government to be cut back and taken over by the private sector. Secondly, all we need to do is to find out what the Tories—

Bydd Plaid Cymru yn gwrthwynebu cynnig y Ceidwadwyr heddiw, a phob pwynt a gynhwysir ynddo, ar wahân i ran 1. Mae'r Ceidwadwyr yn codi baner y dreth gyngor yn rheolaidd bob hyn a hyn o fisoedd. Cafwyd dwy ddatl gan y Ceidwadwyr ar y dreth gyngor eleni a mwy na hynny drwy gydol tymor y Cynulliad hwn. Mae'r cynnig hwn, fel y lleill, yn fy marn i, yn haeddu cael ei wrthod, nid oherwydd bod y pleidiau eraill yn hoff o godiadau yn y dreth gyngor, neu oherwydd ein bod am gynyddu costau i bobl sy'n gweithio, ond oherwydd nad oes gan y Torïaid unrhyw le mewn gwirionedd i feirniadu unrhyw beth yn ymwneud ag ariannu llywodraeth leol heb gael eu cyhuddo, yn briodol iawn, o fod â thipyn o wyneb. Mae llywodraeth leol mewn cyflwr— [Torri ar draws.] Lleddfais gryn dipyn ar hynny [Chwerthin.]

Mae llywodraeth leol mewn cyflwr o argyfwng. Y llynedd, roedd llefarydd cyllid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhybuddio mai dim ond mater o amser yw hi cyn y bydd y broses sylfaenol o ddarparu gwasanaethau yn cyrraedd pwynt argyfwng. Fel cynghorydd am yn agos i 40 mlynedd yn awr a chyn-arweinydd cyngor mawr, nid wyf wedi gweld y fath gyflwr enbyd ar y broses o gyllido llywodraeth leol yng Nghymru. Yn anffodus, mae bai ar Lafur hefyd. Maent wedi dangos eu bod yn brin o arweiniad o ran diwygio llywodraeth leol a chydweithio, gan aros yn rhy hir o bosibl cyn trefnu comisiwn ar ddiwygio llywodraeth leol yn y lle cyntaf, er ei fod yn anochel, a chicio'r adroddiad i'r drysni, mewn gwirionedd. Byddech yn dda ar gyfer cwpan y byd, fechgyn. Mae eu penderfyniad i hepgor ailintegreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, rhywbeth y galwyd amdano ers amser gan Blaid Cymru, wedi gwaethygu problemau ariannol awdurdodau lleol hyd yn oed ymhellach. Felly, nid oes unrhyw blaid arall yn hollol rydd o gyfrifoldeb o ran cyflwr ariannol awdurdodau lleol.

Ond mae cynnig y Torïaid yma yn arbennig o gythruddol o ystyried dau beth. Yn gyntaf, eu hymrwymiad ideolegol i galedi sydd yn y pen draw yn gyrru sefyllfa arian cyhoeddus ar draws y DU. Roedd ymrwymiadau eu manifesto yn ôl yn 2010 yn ei gwneud yn glir beth oedd yn mynd i ddigwydd, wrth iddynt argymhell yn benodol y dylid cwtogi gwasanaethau'r Llywodraeth a'u trosglwyddo i'r sector preifat. Yn ail, y cyfan sydd angen i ni ei wneud yn cael gwybod beth fyddai'r Torïaid—

15:26 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

15:26 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I've no time. I'm terribly sorry, Nick; you can answer the end. What the Tories would do with local government in Wales—well, just look at their record in England. An austerity audit earlier this year confirmed there's been a 37 per cent cut to local government in England since 2010, with further cuts planned over the next Parliament. Coupled with the council tax freeze, which has prevented any English authorities from doing anything to plug their shortfall, it's been a disaster for local authorities.

Na, nid oes gennyf amser. Mae'n ddrwg iawn gennyf, Nick; gallwch ateb ar y diwedd. Beth fyddai'r Torïaid yn ei wneud gyda llywodraeth leol yng Nghymru—wel, edrychwch ar eu record yn Lloegr. Cadarnhaodd archwiliad ar galedi yn gynharach eleni fod toriad o 37 y cant wedi bod i lywodraeth leol yn Lloegr ers 2010, gyda thoriadau pellach wedi'u cynllunio yn ystod y Senedd nesaf. Ynghyd â rhewi'r dreth gyngor, sydd wedi atal unrhyw awdurdodau yn Lloegr rhag gwneud unrhyw beth i leihau eu diffyg, mae wedi bod yn drychineb i awdurdodau lleol.

Well, is that what we want in Wales? Is that what we want? No. In Wales, of course, the current financial situation persists, but we will reach the point that English authorities face at some point in the coming few years. Yet, despite this, the Tories are calling for tax cuts, decreasing vital revenue sources even further. So, we would urge Members to support our motion today, because we cannot allow any party that bears so much responsibility for the financial problems of local authorities to get away with a motion such as this today. The motion seems to place the blame for people's dissatisfaction with service provision and local amenities on the high cost of council tax. Well, as a councillor for many years, I think the real problem is that the services they expect and should have as part of the basic contract between people and Government are being lost in a right-wing experiment to remodel the state. No permanent council tax freeze is going to help alleviate that, I'm sorry.

Wel, ai dyna rydym ei eisiau yng Nghymru? Ai dyna rydym ei eisiau? Nage. Yng Nghymru, wrth gwrs, mae'r sefyllfa ariannol yn dal i fodoli, ond byddwn yn cyrraedd y pwynt y bydd awdurdodau Lloegr yn ei wynebu ar ryw adeg yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Eto i gyd, er gwaethaf hyn, mae'r Torïaid yn galw am dorri trethi, gan leihau ffononellau refeniw hanfodol hyd yn oed ymhellach. Felly, byddem yn annog yr Aelodau i gefnogi ein cynnig heddiw, oherwydd ni allwn ganiatáu i unrhyw blaid sydd mor gyfrifol am broblemau ariannol awdurdodau lleol gyflwyno cynnig fel hwn heddiw. Mae'r cynnig i'w weld yn rhoi'r bai am anffodlonrwydd pobl â'r modd y caiff gwasanaethau ac amwynderau lleol eu darparu ar gost uchel y dreth gyngor. Wel, fel cynghorydd ers nifer o flynyddoedd, rwy'n meddwl mai'r broblem go iawn yw bod y gwasanaethau y maent yn eu disgwyl ac y dylent eu cael fel rhan o'r contract sylfaenol rhwng pobl a Llywodraeth yn cael eu colli mewn arbrawf adain dde i ailfodelu'r wladwriaeth. Ni fydd unrhyw gamau parhaol i rewi'r dreth gyngor helpu i leddfu hynny, mae'n ddrwg gennyf.

15:27

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've been listening to this debate for a while, for this Government has done a lot of cuts and everything. But if the Conservative Party hadn't done these cuts, we'd probably be living like Greece, so remember these words and thus my speech starts for the council tax.

In Brighton this week, we have heard the Labour Party conference criticising the Conservative Government for its alleged attacks on hard-working people. Speaker after speaker queued up to claim only Labour will stand by hard-pressed communities—what a strange statement; they are the ones who put people in poverty in the first place. However, the reality is somewhat different. Wales is the only part of the United Kingdom where Labour is still in power. The fact is, whatever their claim in Brighton, in Wales, Labour has let down hard-working families.

It is a fact that while the UK Government has sought to ease the pressure on household budgets caused by council tax increases, the Welsh Government has chosen not to. Welsh Labour has paid lip service to the problems faced by hard-working families in Wales in paying their bills.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Instead of using the money provided by the Westminster Government to freeze council tax in Wales, Welsh Labour has allowed council tax bills to rise to excessive levels. The average band council tax bill in 1997, Deputy Presiding Officer, was £495. In 2015-16, it was £1,328. This represents an increase of 168 per cent. In south-east Wales, it is the poorest communities that have suffered the most. Since 2011, council tax has increased by £542—550—. [Interruption.] Yes, go on then.

Rwyf wedi bod yn gwrando ar y ddadl hon ers peth amser, gan fod y Llywodraeth hon wedi gwneud llawer o doriadau a phopeth. Ond pe na bai'r Blaid Geidwadol wedi gwneud y toriadau hyn, byddem yn ôl pob tebyg yn byw fel Gwlad Groeg, felly cofiwch y geiriau hyn ac felly mae fy araith ar y dreth gyngor yn dechrau.

Yn Brighton yr wythnos hon, clywsom gynhadledd y Blaid Lafur yn beirniadu'r Llywodraeth Geidwadol am ei hymosodiadau honedig ar bobl weithgar. Roedd siaradwr ar ôl siaradwr yn ciwio i hawlio mai Llafur yn unig sy'n sefyll gyda'r cymunedau hyn sydd dan bwysau—am ddatganiad rhyfedd; dyma'r rhai a wnaeth pobl yn dlawd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae'r realiti ychydig yn wahanol. Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig lle y mae Llafur yn dal i fod mewn grym. Y ffaith yw, beth bynnag a honnant yn Brighton, yng Nghymru, mae Llafur wedi siomi teuluoedd gweithgar.

Er bod Llywodraeth y DU wedi ceisio lleddfu'r pwysau ar gyllidebau aelwydydd a achoswyd gan godiadau yn y dreth gyngor, mae'n ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â gwneud hynny. Mae Llafur Cymru wedi gwneud tipyn o siarad gwag am y problemau y mae teuluoedd gweithgar yng Nghymru yn eu cael i dalu eu biliau.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.

Yn hytrach na defnyddio'r arian a ddarperir gan Lywodraeth San Steffan i rewi'r dreth gyngor yng Nghymru, mae Llafur Cymru wedi caniatáu i filiau'r dreth gyngor godi'n rhy uchel. Roedd bil y dreth gyngor ar gyfer y band cyfartalog yn £495 yn 1997, Ddirprwy Lywydd. Yn 2015-16, roedd yn £1,328. Dyna gynnydd o 168 y cant. Yn ne-ddwyrain Cymru, y cymunedau tlotaf sydd wedi dioddef fwyaf. Ers 2011, mae'r dreth gyngor wedi cynyddu £542—550—. [Torri ar draws.] Iawn, ewch ymlaen felly.

- 15:30 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Do you think, in South Wales East, perhaps what's really hit households is the welfare changes that your Government has brought in, which have meant a loss, on average, of £550 per working-age adult?
- A ydych yn meddwl, yn Nwyrain De Cymru, efallai mai'r hyn sydd wedi taro aelwydydd go iawn yw'r newidiadau lles y mae eich Llywodraeth wedi'u cyflwyno, sydd wedi golygu colled, ar gyfartaledd, o £550 i bob oedolyn o oedran gweithio?
- 15:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, Jeff, you know very well, you were a Minister—
- Wel, Jeff, rydych yn gwybod yn iawn, roeddech yn Weinidog—
- 15:30 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, that's right, so I know.
- Oeddwn, mae'n wir, felly rwy'n gwybod.
- 15:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Look, this Government—our Government in Westminster—only in real terms have cut 1p in the £1, for God's sake, and you're trying to say this country has got really in a bad position in finances. It's not that—it's the mismanagement of your Government here.
- Edrychwch, nid yw'r Llywodraeth hon—ein Llywodraeth yn San Steffan—ond wedi torri 1c yn y £1 mewn termau real, er mwyn Duw, ac rydych yn ceisio dweud bod y wlad hon wedi mynd i sefyllfa wael yn ariannol. Nid dyna ydyw—camreoli eich Llywodraeth yma yw hyn.
- It's £553 in Torfaen; Merthyr Tydfil, £693; and a struggling £733 in Blaenau Gwent, which is the poorest region in my patch. Citizens Advice has said that council tax in Wales is the biggest debt problem. The number of people struggling to pay council tax bills has more than doubled in the last 12 months. Deputy Presiding Officer, we on this side of the Chamber recognise the need to help families and pensioners with their bills. In sharp contrast, the Welsh Labour Government has shown a callous disregard for those people by refusing to freeze the council tax in Wales. Welsh Labour has decided to use the money for its own purposes. They believe they know best how to spend the money, rather than leaving it in the pockets of the Welsh public. The First Minister is on record as saying he could not see how a council tax freeze would, I quote, in his words, 'help the local economy'. What a strange thinking by a First Minister.
- Mae'n £553 yn Nhorfaen; Merthyr Tudful, £693; ac yn £733 anodd ym Mlaenau Gwent, sef y rhanbarth tlotaf yn fy ardal. Mae Cyngor ar Bopeth wedi dweud mai'r dreth gyngor yw'r broblem ddyled fwyaf yng Nghymru. Mae nifer y bobl sy'n cael trafferth i dalu biliau'r dreth gyngor wedi mwy na dyblu yn y 12 mis diwethaf. Ddirprwy Lywydd, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cydnabod yr angen i helpu teuluoedd a phensiynwyr gyda'u biliau. Mewn cyferbyniad llwyr, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi dangos diffyg ystyriaeth ddideimlad tuag at y bobl hynny drwy wrthod rhewi'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae Llafur Cymru wedi penderfynu defnyddio'r arian at ei dibenion ei hun. Maent yn credu mai nhw sy'n gwybod orau sut i wario'r arian, yn hytrach na'i adael ym mhocedi'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud ar goedd na allai weld sut y byddai rhewi'r dreth gyngor, yn ei eiriau ef, 'yn helpu'r economi leol'. Am ffordd ryfedd o feddwl gan Brif Weinidog Cymru.
- Well, First Minister, putting money in people's pockets stimulates the local economy. Giving people increased spending power allows them to make their own spending decisions, and most will be spent locally, boosting the local economy. That is the answer, First Minister. It isn't good enough for the Welsh Government to say that average council tax bills are lower in Wales than they are in England. Welsh bills have gone up, from being 78 per cent of the English level—78 per cent—to 89 per cent in the current year. What a shame. Average wages were lower in Wales than in England, and we remain the poorest nation in the United Kingdom. By refusing to freeze council tax, the Welsh Labour Government has shown—
- Wel, Brif Weinidog, mae rhoi arian ym mhocedi pobl yn ysgogi'r economi leol. Mae rhoi mwy o rym gwario i bobl yn caniatáu iddynt wneud eu penderfyniadau gwariant eu hunain, a bydd y rhan fwyaf yn cael ei wario'n lleol, gan hybu'r economi leol. Dyna'r ateb, Brif Weinidog. Nid yw'n ddigon da i Lywodraeth Cymru ddweud bod biliau'r dreth gyngor yn is ar gyfartaledd yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae biliau Cymru wedi codi, o fod yn 78 y cant o'r lefel yn Lloegr—78 y cant—i fod yn 89 y cant yn y flwyddyn gyfredol. Dyna drueni. Roedd cyfartaledd cyflogau yn is yng Nghymru nag yn Lloegr, ac rydym yn parhau i fod yn genedl dlotaf y Deyrnas Unedig. Drwy wrthod rhewi'r dreth gyngor, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi dangos—
- 15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Finish now, please.
- Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.
- 15:33 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Deputy Presiding Officer.
- Diolch, Ddirprwy Lywydd.

It has shown that it does not care about relieving the pressure on Welsh families and pensioners. It is a disgrace that Wales under Labour—

Mae wedi dangos nad yw'n poeni am leddfu pwysau ar deuluoedd a phensynwyr Cymru. Mae'n warthus mai Cymru o dan Lafur—

15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish, please.

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

15:33 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—is the only part of the United Kingdom that denies the benefits of a council tax freeze.

[Yn parhau.]—yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig sy'n gwadu manteision rhewi'r dreth gyngor.

15:33 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This debate takes place when the most extreme Government Britain has ever had is setting out destroying the state provision of services in England. [Interruption.] I want, initially, to address two specific points in the resolution.

Mae'r ddadl hon yn digwydd pan fo'r Llywodraeth Brydeinig fwyaf eithafol erioed yn mynd ati i ddiinstrio darpariaeth y wladwriaeth o wasanaethau yn Lloegr. [Torri ar draws.] I ddechrau, rwyf am fynd i'r afael â dau bwynt penodol yn y penderfyniad.

15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. We've heard pungent speeches from this side; he's not been going 10 seconds and you're shouting him down. He will be heard. Mike Hedges.

Trefn. Rydym wedi clywed areithiau brathog o'r ochr hon; nid yw ond wedi bod wrthi ers 10 eiliad ac rydych yn gweiddi ar ei draws. Fe gaiff ei glywed. Mike Hedges.

15:33 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Point 2 regrets the Welsh Government's persistent refusal to provide support to local authorities in preventing rises in council tax. The Welsh block grant, I would say, is the Welsh block grant, but, as that seemed to confuse some of the researchers on the Conservative benches, I'll try and help them. The Welsh block grant is a fixed sum. If the Welsh Government reduces the rate support grant—and they made up the grant, they made it up by a grant supporting council tax—local authorities would have exactly the same money coming in, just packaged differently, and then spun as a saving, which would be illusory.

Mae pwynt 2 yn gresynu at y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn barhaus wedi gwrthod darparu cymorth i awdurdodau lleol atal codiadau yn y dreth gyngor. Byddwn yn dweud mai'r grant bloc i Gymru, yw'r grant bloc i Gymru, ond gan fod hynny i'w weld yn drysu rhai o'r ymchwilyr ar feinciau'r Ceidwadwyr, ceisiaf eu helpu. Mae grant bloc Cymru yn swm sefydlog. Pe bai Llywodraeth Cymru yn lleihau'r grant cynnal ardrethi—a'u bod yn llunio'r grant, yn ei gyflawni drwy grant i gefnogi'r dreth gyngor—byddai awdurdodau lleol â'r union yr un faint o arian yn dod i mewn, ond ei fod wedi'i becynnu'n wahanol, a'i sbinio fel arbediad, na fyddai'n ddim ond rhith.

Point 3 notes the average band D council tax for Wales for 2015-16 is £1,328, and that households are £546 worse off over the course of the fourth Assembly due to the Welsh Government's refusal to implement a council tax freeze. The fact that the average band D council tax is higher in England is, of course, ignored. The fact that a large number of Conservative councils in England have not implemented the council tax freeze is also, of course, ignored. The logic of this argument is that there is a desire to reduce local government expenditure by £546 per council tax payer per council.

Mae pwynt 3 yn nodi mai'r band treth gyngor D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 2015-16 yw £1,328, a bod teuluoedd ar eu colled o £546 yn ystod y Pedwerydd Cynulliad o ganlyniad i'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn gwrthod rhewi'r dreth gyngor. Mae'r ffaith fod y band treth gyngor D cyfartalog yn uwch yn Lloegr, wrth gwrs, yn cael ei hanwybyddu. Mae'r ffaith nad yw nifer fawr o gyngorhorau Ceidwadol yn Lloegr wedi gweithredu camau i rew'i'r dreth gyngor hefyd, wrth gwrs, yn cael ei hanwybyddu. Y rhesymeg dros y ddadl hon yw bod awydd i leihau gwariant llywodraeth leol o £546 am bob un sy'n talu'r dreth gyngor i bob cyngor.

I now intend to summarise my interpretation of the Conservative party's policies.

Rwyf yn awr yn bwriadu crynhoi fy nehongliad o bolisiau'r Blaid Geidwadol.

15:35 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way, Mike?

A wnewch chi ildio, Mike?

15:35 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I finish my summary, and I will then? You might want to intervene twice. A freeze on council tax, cut the rate support grant in order to support hospital services, directly fund schools and reduce overall education expenditure by ending the central local authority expenditure, and for councils to concentrate on their statutory functions and reduce or end discretionary services. Nick.

A gaf fi orffen fy nghrynodeb, ac fe ildiaf wedyn? Efallai y byddwch eisiau ymyrryd ddwywaith. Rhewi'r dreth gyngor, torri'r grant cynnal ardrethi er mwyn cefnogi gwasanaethau ysbty, cyllido ysgolion yn uniongyrchol a lleihau gwariant ar addysg yn gyffredinol drwy roi terfyn ar wariant canolog awdurdodau lleol, a chynghorau i ganolbwyntio ar eu swyddogaethau statudol a lleihau neu roi diwedd ar wasanaethau disgresiynol. Nick.

15:35 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. Yes, you're right; a number of local authorities, Labour local authorities, in England, did choose not to pass on the council tax freeze. But the difference in England compared with Wales is that at least they were given the choice, which councils in Wales were not given.

Diolch i chi am ildio. Ie, rydych chi'n iawn; mae nifer o awdurdodau lleol, awdurdodau lleol Llafur, yn Lloegr, wedi dewis peidio â gweithredu i rewi'r dreth gyngor. Ond y gwahaniaeth yn Lloegr o gymharu â Chymru yw eu bod o leiaf yn cael y dewis, na roddwyd i gynghorau yng Nghymru.

15:35 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, actually, I'm glad Labour's won Surrey, we're doing really well, but I think the key point, of course, is that local authorities get exactly the same amount of money; it's just how it's paid out. Every local authority in Wales could freeze council tax; they just have to cut services. What does this position that I've just said about the Conservatives mean in practice? If education central services were removed, the most obvious change would be the end of free school transport. This would need legislation. It would be taking us back to before the 1944 Butler Act. This would disproportionately affect rural areas, Welsh-medium education and denominational schools. The second major area removed would be education consortia, and, whilst removing them may be popular, it would signal the end to all support to schools from outside.

Wel, mewn gwirionedd, rwy'n falch fod Llafur wedi ennill Surrey, rydym yn gwneud yn dda, ond rwy'n meddwl mai'r pwynt allweddol, wrth gwrs, yw bod awdurdodau lleol yn cael yn union yr un faint o arian; dyna sut y caiff ei dalu. Gallai pob awdurdod lleol yng Nghymru rewi'r dreth gyngor; rhaid iddynt dorri gwasanaethau, dyna'i gyd. Beth y mae safbwyntiau'r Ceidwadwyr fel yr wyf newydd eu disgrifio yn ei olygu'n ymarferol? Pe bai gwasanaethau canolog addysg yn cael eu dileu, y newid mwyaf amlwg fyddai rhoi diwedd ar gludo plant ysgol am ddim. Byddai angen deddfwriaeth i wneud hyn. Byddai'n mynd â ni yn ôl i'r dyddiau cyn Deddf Butler 1944. Byddai'n effeithio'n anghymesur ar ardaloedd gwledig, addysg cyfrwng Cymraeg ac ysgolion enwadol. Yr ail faes pwysig y byddid yn cael ei wared fyddai'r consortia addysg, ac er y gallai eu dileu fod yn boblogaidd, byddai'n arwydd fod y diwedd yn dod ar bob cymorth i ysgolion o'r tu allan.

End discretionary services—that's an easy one, isn't it? You're only doing statutory services: that would mean closing all parks, closing all community centres, closing all leisure centres, closing all sports facilities, closing all public toilets, ending bus subsidies—and that's obviously a number of bus routes—ending economic development by local authorities, ending support for tourism by local authorities and substantially reducing library provision. What the Conservatives appear incapable of understanding is that housing, social services for the elderly, primary care and secondary care are all inter-related. To quote that well-known left-leaning news group, Sky:

Rhoi diwedd ar wasanaethau disgresiynol—dyna un hawdd, onid e? Gwasanaethau statudol yn unig rydych chi'n eu gwneud: byddai hynny'n golygu cau pob parc, cau pob canolfan gymunedol, cau pob canolfan hamdden, cau'r holl gyfleusterau chwaraeon, cau pob toiled cyhoeddus, a rhoi diwedd ar gymorthdaliadau bws—a byddai hynny'n nifer o lwybrau bws wrth gwrs—gan roi diwedd ar ddatblygu economaidd gan awdurdodau lleol, diwedd ar gefnogaeth i dwristiaeth gan awdurdodau lleol a lleihau darpariaeth llyfrgell yn sylweddol. Yr hyn y mae'r Ceidwadwyr i'w gweld yn methu â'i ddeall yw bod tai, gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer yr henoed, gofal sylfaenol a gofal eilaidd i gyd yn rhyng-gysylltiedig. I ddyfynnu'r grŵp newyddion enwog adain chwith hwnnw, Sky:

'Bed blocking in NHS hospitals has reached its highest level...amid warnings that a lack of social care is bringing the health service "to its knees". Every day, doctors and nurses in England are unable to discharge more than 1,000 patients who no longer need treatment because there is no care available for them at home or in the community... Analysis of the latest health statistics by Sky News shows that on one day in September'

'Bed blocking in NHS hospitals has reached its highest level...amid warnings that a lack of social care is bringing the health service "to its knees". Every day, doctors and nurses in England are unable to discharge more than 1,000 patients who no longer need treatment because there is no care available for them at home or in the community... Analysis of the latest health statistics by Sky News shows that on one day in September'

2014, just under 5,000

2014, fod ychydig o dan 5,000 o gleifion

'patients were unable to be transferred either to other parts of the NHS or into the care of local authorities...That month, 138,068 days of care were lost because of "delayed transfers of care". At £250 a day for a hospital bed'

that's £34 million a month looking after patients who no longer need to be there.

More than a quarter of the delays were attributed to a lack of social care funding and that is before the latest set of cuts to local authority expenditure. Poor housing, unavailable sport and exercise opportunities, inadequate primary care and unavailable social care will lead, without any doubt whatsoever, to serious increasing demand and delays in hospital care. The continued attack on local government by the Conservatives is not only unfair and unwarranted, but, if implemented, would have a catastrophic effect on hospital services and the whole of society.

Can I just finish by paying tribute to councillors of all political parties? When I first got elected, I served on the county council with Nigel Evans. I know Lindsay Whittle served as a councillor for 40 years. These people give their time and work incredibly hard for very modest amounts of money. I think we all ought to pay tribute to the work that they do for their community because they care.

'were unable to be transferred either to other parts of the NHS or into the care of local authorities...That month, 138,068 days of care were lost because of "delayed transfers of care". At £250 a day for a hospital bed'.

sef £34 miliwn y mis yn gofalu am gleifion nad oes angen iddynt fod yno mwyach.

Roedd mwy na chwarter yr achosion o oedi i'w priodoli i ddiffyg cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol a hynny cyn y set ddiweddaraf o doriadau i wariant awdurdodau lleol. Bydd tai gwael, diffyg cyfleoedd chwaraeon ac ymarfer corff, gofal sylfaenol annigonol a diffyg gofal cymdeithasol yn arwain, heb unrhyw amheuaeth o gwbl, at alw cynyddol ac oedi difrifol mewn gofal ysbyty. Mae'r ymosodiadau parhaus ar lywodraeth leol gan y Ceidwadwyr nid yn unig yn annheg ac yn ddireswm, ond os cânt eu gweithredu, byddant yn effeithio'n drychinebus ar wasanaethau ysbytai a'r gyfdeithas gyfan.

A gaf fi orffen drwy dalu teyrnged i gynghorwyr o bob plaid wleidyddol? Pan gefais fy ethol am y tro cyntaf, roeddwn yn gwasanaethu ar y cyngor sir gyda Nigel Evans. Rwy'n gwybod bod Lindsay Whittle wedi gwasanaethu fel cynghorydd ers 40 mlynedd. Mae'r bobl hyn yn rhoi eu hamser ac yn gweithio'n hynod o galed am symiau cymedrol iawn o arian. Rwy'n meddwl y dylem i gyd dalu teyrnged i'r gwaith a wnânt ar ran eu cymunedau am eu bod malio amdanynt.

15:38

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like the opportunity to take part in this important debate on our public local services. I do declare an interest as a sitting member of Powys County Council. I do agree with Mike Hedges that many county councillors work extremely hard across Wales. I would like to focus my remarks on the challenges of delivering public services in rural areas, and the unfairness, I think, in the funding formula, which continues to penalise rural local authorities in Wales. Living and working in mid-Wales is a great privilege, but delivering essential public services, such as healthcare and education, in rural areas, where public transport links are limited, is increasingly challenging. Some local authorities, including my own, are also currently considering closing schools serving local areas, meaning that students may spend a good proportion of their time, of their educational day, travelling to school on a bus rather than being in a classroom and this has the potential to penalise those who live in the most rural parts of Wales. There is, therefore, a requirement for there to be new and innovative ways of thinking, which will see services delivered closer to people who live in rural areas of Wales rather than further away.

There are clearly specific issues facing rural areas, such as my Montgomeryshire constituency and, in recent years, many of those problems have been exacerbated by a Welsh Government that continues to fail to reflect the unique challenges of delivering public services across large, sparsely populated areas, such as mid Wales.

Hoffwn y cyfle i gymryd rhan yn y ddaid bwysig hon ar ein gwasanaethau cyhoeddus lleol. Rwy'n datgan buddiant fel aelod presennol o Gyngor Sir Powys. Rwy'n cytuno â Mike Hedges fod llawer o gynghorwyr sir yn gweithio'n hynod o galed ar draws Cymru. Hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau ar yr heriau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, ac ar annhegwch y fformiwla ariannu, sydd, yn fy marn i, yn parhau i gosbi awdurdodau lleol gwledig yng Nghymru. Mae byw a gweithio yng nghanolbarth Cymru yn fraint fawr, ond mae darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, fel gofal iechyd ac addysg, mewn ardaloedd gwledig, lle y mae cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, yn fwyfwy heriol. Mae rhai awdurdodau lleol, gan gynnwys fy un i, hefyd wrthi'n ystyried cau ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd lleol, gan olygu y gall myfyrwyr dreulio cyfran dda o'u hamser, o'u diwrnod addysgol, yn teithio i'r ysgol ar fws yn hytrach na bod mewn ystafell ddosbarth ac mae'n bosibl fod hyn yn cosbi'r rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf gwledig Cymru. Felly, mae gofyn cael ffyrdd newydd ac arloesol o feddwl, a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n nes at bobl sy'n byw yn ardaloedd gwledig Cymru yn hytrach nag ymhellach i ffwrdd.

Mae'n amlwg fod yna faterion penodol yn wynebu ardaloedd gwledig, fel fy etholaeth i yn Sir Drefaldwyn ac yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o'r problemau hynny wedi cael eu gwaethygu gan Lywodraeth Cymru sy'n parhau i fethu ag adlewyrchu'r heriau unigryw o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws ardaloedd mawr, tenau eu poblogaeth, megis canolbarth Cymru.

For the last eight years in a row, Powys County Council has received one of the worst local government funding settlements from the Welsh Government of all 22 local authorities in Wales. I seem to make that statement every year, just adding an extra year on every year I've been here.

A special budget seminar of Powys County Council was told that, on average, they've received a 0.5 per cent increase every year for the past nine years, compared to a Welsh average increase of 9.8 per cent, and a near 19 per cent increase for Cardiff Council. So, the average over the last nine years is: Cardiff Council a 19 per cent increase and Powys County Council a 0.5 per cent increase.

Harry Thomas, a former chief executive of Gwynedd Council and a recently appointed member of the Independent Commission on Local Government Finance, told the seminar earlier this month that Powys's budget would be £16 million higher if the county had received the Welsh average. I listened to Mike Hedges and what he says—that it is all the fault of the UK Government—but these are decisions made here by this Welsh Labour Government.

Am bob un o'r wyth mlynedd diwethaf yn olynol, mae Cyngor Sir Powys wedi cael un o'r setliadau cyllid llywodraeth leol gwaethaf gan Lywodraeth Cymru o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n ymddangos fel pe bawn yn gwneud y datganiad hwnnw bob blwyddyn, gan ychwanegu blwyddyn ychwanegol at bob blwyddyn y bûm yma.

Dywedwyd wrth seminar arbennig ar y gyllideb gan Gyngor Sir Powys eu bod, ar gyfartaledd, wedi cael cynnydd 0.5 y cant bob blwyddyn dros y naw mlynedd diwethaf, o gymharu â chynnydd cyfartalog Cymru, sef 9.8 y cant, a bron i 19 y cant o gynnydd i Gyngor Caerdydd. Felly, y cyfartaledd dros y naw mlynedd diwethaf yw: Cyngor Caerdydd, cynnydd o 19 y cant, a Chyngor Sir Powys, cynnydd o 0.5 y cant.

Dywedodd Harry Thomas, cyn brif weithredwr Cyngor Gwynedd ac aelod a benodwyd yn ddiweddar o'r Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol, wrth y seminar yn gynharach y mis hwn y byddai cyllideb Powys £16 miliwn yn uwch pe bai'r sir wedi cael cyfartaledd Cymru. Gwrandewais ar Mike Hedges a'r hyn y mae'n ei ddweud—mai bai Llywodraeth y DU yw'r cyfan—ond penderfyniadau a wnaed yma gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru yw'r rhain.

15:42 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:42 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

15:42 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is Powys County Council not better funded than both Cardiff and Swansea per head of population and above the Welsh average in terms of the amount of money it receives per head?

Onid yw Cyngor Sir Powys yn cael eu hariannu'n well na Chaerdydd ac Abertawe fesul pen o'r boblogaeth ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran faint o arian y mae'n ei dderbyn y pen?

15:42 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You completely miss the point, Mike Hedges. You're therefore saying that, nine years ago, Powys County Council was well overfunded.

Rydych yn methu'r pwynt yn llwyr, Mike Hedges. Rydych yn dweud felly fod Cyngor Sir Powys yn cael ei orgyllido'n helaeth naw mlynedd yn ôl.

15:42 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Ydw.

15:42 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thanks for making that clear; I'll be sure to let my constituents know that view. I don't agree with you, Mike Hedges. You're not aware of the unique challenges that exist in rural parts of Wales. You're just not seeing that point, Mike, at all.

Wel, diolch am wneud hynny'n glir; byddaf yn sicr o adael i fy etholwyr wybod am y farn honno. Nid wyf yn cytuno â chi, Mike Hedges. Nid ydych yn ymwybodol o'r heriau unigryw sy'n bodoli mewn rhannau gwledig o Gymru. Nid ydych yn gweld y pwynt hwnnw o gwbl, Mike.

The difference between urban and rural areas is wrong and it's time that ended, and the Welsh Government needs to reform the formula that it used to decide how much each council receives. The current system is flawed. It doesn't work properly and it doesn't take into account the challenges of delivering vital local public services over large rural areas. The current system provides councils in urban south Wales with a far more attractive financial settlement, while the largest, most rural councils of Powys, Ceredigion, Monmouthshire and Pembrokeshire are among those with the worst cash settlements.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, the Welsh Government continues to ignore the specific needs of rural communities. With the challenges they face at an all-time high, I want to see a wholesale reform of the local government funding formula that properly takes into account the challenges of delivering vital public services over large areas of rural Wales.

15:43

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I start by declaring an interest as a sitting councillor, although I haven't sat on a council as long as Lindsay Whittle—[Interruption.] Obviously, but obviously he's a bit older than me. [Laughter.]

I think, Deputy Presiding Officer, that the word for today—With age comes maturity, Lindsay; that's fine. I think the word for today has clearly been 'disingenuous' and I think that sums up a large part of what this motion is about. That is not because I disagree with some of the statements in it, because some of them are clearly factual, but because having sat here for session after session in which the Conservatives argue that we should put more money into health, which, of course, the last Welsh Assembly budget did, they are now arguing that we should also put more money into local government, without actually saying where that money's going to come from or how we can spend the same amount of money twice. It does seem to me that it's all very well saying that we should be allocating money from one pot—from the same pot—to freeze council tax, but it is disingenuous when you're also arguing that that money should be used to increase expenditure on health. I think that some element of reality is needed here in terms of what the Welsh Conservatives are actually arguing.

I think, also, there's a misunderstanding even of the Barnett formula here because, yes, the Welsh Government do receive a Barnett consequential for money being put in by the UK Government to freeze council tax in England, but we also receive disbenefits in terms of cuts, which the UK Government make in other areas of our budget. So, we don't actually receive the full amount of money that the UK Government have actually allocated for this particular item. I think that, in any case, if you're going to freeze council tax, that is a matter for each local council. It's a matter for each local council to determine for themselves what their budgets are going to be, what their council tax is going to be, and local democracy—

Andrew R.T. Davies a gododd—

Mae'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn anghywir ac mae'n bryd i hynny ddod i ben, ac mae angen i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r fformiwla a ddefnyddiodd i benderfynu faint y mae pob cyngor yn ei gael. Mae'r system bresennol yn ddiffygiol. Nid yw'n gweithio'n iawn ac nid yw'n ystyried yr heriau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol hanfodol dros ardaloedd gwledig mawr. Mae'r system bresennol yn darparu setliad ariannol llawer mwy deniadol i gynghorau yn ardaloedd trefol de Cymru, tra bod y rhan helaethaf o gynghorau gwledig mwyaf Powys, Ceredigion, Sir Fynwy a Sir Benfro ymhlith y rhai sy'n cael y setliadau ariannol gwaethaf.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i anwybyddu anghenion penodol cymunedau gwledig. Gyda'r heriau sy'n eu hwynebu yn fwy nag erioed, rwyf am weld diwygio fformiwla ariannu llywodraeth leol yn gyfan gwbl er mwyn ystyried yn briodol yr heriau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol dros rannau mawr o gefn gwlad Cymru.

A gaf fi ddechrau drwy ddatgan buddiant fel cynghorydd presennol, er nad wyf wedi bod yn aelod o gyngor cyhyd â Lindsay Whittle—[Torri ar draws.] Yn amlwg, ond mae'n amlwg ei fod ychydig yn hŷn na fi. [Chwerthin.]

Rwy'n meddwl, Ddirprwy Lywydd, mai'r gair am heddiw yw—. Gydag oedran, daw aeddfedrwydd, Lindsay; mae hynny'n iawn. Rwy'n meddwl mai'r gair amlwg am heddiw yw 'annidwyll' a chredaf fod hynny'n crynhoi rhan fawr o'r hyn y mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag ef. Nid yw hynny oherwydd fy mod yn anghytuno â rhai o'r datganiadau ynddo, gan fod rhai ohonynt yn amlwg yn ffethiol, ond oherwydd fy mod wedi eistedd yma o un sesiwn i'r llall yn clywed y Ceidwadwyr yn dadlau y dylem roi mwy o arian tuag at iechyd, rhywbeth a wnaeth cyllideb ddiwethaf y Cynulliad wrth gwrs, ac yn awr maent yn dadlau y dylem hefyd roi mwy o arian i lywodraeth leol, heb ddweud o ble y daw'r arian na sut y gallwn wario'r un faint o arian ddwywaith. Mae'n ymddangos i mi ei bod hi'n ddigon hawdd dweud y dylem ddyrannu arian o un pot—o'r un pot—er mwyn rhewi'r dreth gyngor, ond mae'n annidwyll pan fyddwch hefyd yn dadlau y dylai'r arian hwnnw gael ei ddefnyddio i gynyddu gwariant ar iechyd. Rwy'n meddwl bod angen rhyw elfen o realiti yma o ran yr hyn y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei ddadlau mewn gwirionedd.

Rwy'n meddwl, hefyd, fod camddealltwriaeth hyd yn oed ynglŷn â fformiwla Barnett yma oherwydd, ydy, mae Llywodraeth Cymru yn cael swm canlyniadol Barnett am arian sy'n cael ei roi i mewn gan Lywodraeth y DU i rewi'r dreth gyngor yn Lloegr, ond rydym hefyd yn cael anfanteision o ran y toriadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud mewn meysydd eraill o'n cyllideb. Felly, nid ydym mewn gwirionedd yn cael y swm llawn o arian y mae Llywodraeth y DU wedi'i ddyrannu ar gyfer yr eitem benodol hon mewn gwirionedd. Beth bynnag, os ydych yn mynd i rewi'r dreth gyngor, credaf mai mater i bob cyngor lleol yw hynny. Mae'n fater i bob cyngor lleol benderfynu drostynt eu hunain beth yw eu cyllidebau'n mynd i fod, beth yw eu treth gyngor yn mynd i fod, ac mae democratiaeth leol—

Andrew R.T. Davies a gododd—

15:45 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Give me a chance. Local democracy is all about allowing local people to judge the administration of those councils on the quality of those decisions and voting accordingly. It's not for us to dictate to local councils what they are accountable for to another set of electors. I give way.

Rhowch gyfle i mi. Mae democratiaeth leol yn ymwneud â chaniatáu i bobl leol farnu'r modd y caiff y cynghorau hynny eu gweinyddu yn ôl ansawdd y penderfyniadau a phleidleisio yn unol â hynny. Nid ein lle ni yw dweud wrth gynghorau lleol beth y maent yn atebol amdano i set arall o etholwyr. Rwy'n ildio.

15:46 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, to the Member, for giving way. That is the very point of this. It is about choice. In England, councils have the choice as to whether they wish to freeze or not, and many councils have chosen not to. They have to face their electorate and face the consequences. What we are saying is that there should be the choice here in Wales. The consequential comes over. That should be offered.

Diolch i'r Aelod am ildio. Dyna union bwynt hyn. Mae'n ymwneud â dewis. Yn Lloegr, mae cynghorau'n cael dewis a ydynt yn dymuno rhewi neu beidio, ac mae llawer o gynghorau wedi dewis peidio â gwneud hynny. Mae'n rhaid iddynt wynebu eu hetholwyr ac wynebu'r canlyniadau. Yr hyn rydym ni yn ei ddweud yw y dylai fod y dewis yma yng Nghymru. Mae'r symiau canlyniadol yn dod drosodd, a dylid eu cynnig.

15:46 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the choice is there for councils to freeze council tax. I actually served in an administration that froze its council tax at one stage. I think that Lindsay Whittle has as well. So, councils have frozen their council tax in the past. Of course, the choice in England isn't as simple as, 'We give you more money and you freeze your council tax'. It's 'We give you more money, you freeze your council tax, but you still have to cut your services by 30 per cent to 40 per cent because we haven't been funding you properly. That's the real choice that those councils are facing as a result of the way that the block grant is being paid to them through the funding formula that they have, which also, by the way, doesn't take account of rurality any more than—. Well, I think ours does, but it doesn't take account of rurality as well.

Wel, mae'r dewis yno i gynghorau rewi'r dreth gyngor. A dweud y gwir, roeddwn yn gwasanaethu mewn gweinyddiaeth a rewodd ei threth gyngor ar un adeg. Credaf fod hynny'n wir am Lindsay Whittle hefyd. Felly, mae cynghorau wedi rhewi eu treth gyngor yn y gorffennol. Wrth gwrs, nid yw'r dewis yn Lloegr mor syml â dweud, 'Rydym yn rhoi mwy o arian i chi ac fe fyddwch chi'n rhewi eich treth gyngor'. Mae'n fater o: 'Rydym ni'n rhoi mwy o arian i chi, fe fyddwch chi'n rhewi eich treth gyngor, ond bydd yn dal yn rhaid i chi dorri eich gwasanaethau 30 i 40 y cant am nad ydym wedi bod yn eich ariannu'n iawn.' Dyna'r dewis gwirioneddol y mae'r cynghorau hynny'n ei wynebu o ganlyniad i'r ffordd y mae'r grant bloc yn cael ei dalu iddynt drwy'r fformiwla ariannu sydd ganddynt, ac nad yw hefyd, gyda llaw, yn ystyried natur wledig ardal fwy nag—. Wel, rwy'n meddwl bod ein hun ni'n gwneud hynny, ond nid yw'n ystyried natur wledig hefyd.

The other issue around here is, in actual fact, the way that the funding of local government is actually designed because, of course, one of the problems facing councils in terms of council tax is firstly, the size of the council and their council tax base. Because we have 22 councils, a lot of them don't have a sustainable council tax base, which means that they have a very high council tax because they don't have a good mix of band A all the way through to band G in terms of the number of properties. Secondly, there's the gearing effect that applies, because so much of their money comes from central government grants. That's why the amendment is so important in terms of allowing councils to make their own decisions to raise finances in order to protect local jobs and services. Because if you can reduce the amount of grant that you pay to those councils, allowing them to raise more money, or, rather, to allow the councils to raise more of their own money locally, to a higher proportion, the council tax doesn't necessarily have to be so high, especially if you give them other ways of raising money. I think that's the key issue here in terms of trying to keep council tax down as part of that.

Y mater arall yn y fan hon, mewn gwirionedd, yw'r ffordd y cynlluniwyd y drefn o gyllido llywodraeth leol oherwydd, wrth gwrs, un o'r problemau sy'n wynebu cynghorau o ran y dreth gyngor yn gyntaf yw maint y cyngor a sylfaen eu treth gyngor. Am fod gennym 22 o gynghorau, nid oes gan lawer ohonynt sylfaen dreth gyngor gynaliadwy, sy'n golygu bod ganddynt dreth gyngor uchel iawn oherwydd nad oes ganddynt gymysgedd dda o fand A yr holl ffordd drwodd i fand G o ran nifer eiddo. Yn ail, ceir effaith gerio sy'n berthnasol, gan fod cymaint o'u harian yn dod o grantiau'r llywodraeth ganolog. Dyna pam y mae'r gwelliant mor bwysig o ran caniatáu i gynghorau wneud eu penderfyniadau eu hunain i godi arian er mwyn diogelu swyddi a gwasanaethau lleol. Oherwydd os gallwch leihau swm y grant rydych yn ei dalu i'r cynghorau hynny, gan eu caniatáu i godi mwy o arian, neu'n hytrach, i ganiatáu i'r cynghorau godi cyfran uwch o'u harian eu hunain yn lleol, nid oes yn rhaid i'r dreth gyngor fod mor uchel o reidrwydd, yn enwedig os rhowch ffyrdd eraill iddynt o godi arian. Rwy'n credu mai dyna'r mater allweddol yma o ran ceisio cadw'r dreth gyngor i lawr yn rhan o hynny.

I've got very little time left, so I'm just going to make one more point in terms of this particular issue, and that is around the issue of the future for council tax funding. We now know that the Welsh Government, in the last budget, cut council finances by more than they had been cut themselves because they put more money into health. It appears that that may well continue for some time to go, and that is going to cause huge problems for local councils all around Wales in terms of the delivery of services. I think that the Welsh Government needs to think again about that because, clearly, if you're going to put more money into health but also cut the amount of money that local councils can spend on social services, for example, you are effectively undermining the investment that you've made with one hand by the cuts that you've made with another. We need to have a joined-up approach to this and recognise that local councils form a holistic part of the delivery of public services, and that the funding for local councils should be considered within that holistic whole. Thank you.

Ychydig iawn o amser sydd gennyf ar ôl, felly rwy'n mynd i wneud un pwynt arall o ran y mater penodol hwn, yn ymwneud â'r dyfodol o ran cyllid y dreth gyngor. Rydym bellach yn gwybod bod Llywodraeth Cymru, yn y gyllideb ddiwethaf, wedi torri mwy ar gyllid cyngorau nag y torrwyd ar eu cyllid eu hunain am eu bod wedi rhoi mwy o arian tuag at iechyd. Mae'n ymddangos y gallai hynny'n hawdd barhau am beth amser i ddod, ac mae'n mynd i achosi problemau enfawr i gynghorau lleol ledled Cymru o ran darparu gwasanaethau. Credaf fod angen i Lywodraeth Cymru feddwl eto am hynny oherwydd, yn amlwg, os ydych yn mynd i roi mwy o arian tuag at iechyd, ond hefyd yn torri'r swm o arian y gall cynghorau lleol ei wario ar wasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, rydych i bob pwrpas yn tansilio'r buddsoddiad a wnaethoch gydag un llaw â'r toriadau a wnaethoch gyda'r llaw arall. Mae angen i ni gael dull cydgysylltiedig o wneud hyn a chynabod bod cynghorau lleol yn rhan gyfannol o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac y dyldid ystyried y cyllid ar gyfer cynghorau lleol yn rhan o'r cyfanrwydd cyfannol hwnnw. Diolch.

15:49

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to contribute in this afternoon's debate. I begin by endorsing the comments that Mike Hedges made about the work that local councillors do the length and breadth of Wales, irrespective of political affiliation and non-political affiliation as well because, obviously, there's a rich tradition of independence on local authorities as well. Obviously, with the issue— [Interruption.] Well, at the end of the day, if people are prepared to put themselves forward for public service—and I can see other political parties curling their faces up thinking about independence—but at the end of the day, I think councillors have a valuable role to play in whatever badge they wear, and they need to be held to account. The problem that many councillors have faced over many years since the inception of the Assembly is the unequal relationship that has existed, and has never really been confronted, as to how local government fits in with the Assembly, or with Westminster, and the demands that trickle down and are placed on them. The one thing that is quite evident from this particular Welsh Government is how they just do not get local government. I think the current Minister is the third Minister in the four years that the Government has been sitting—we're going into the fifth year now. We've had three different Ministers holding the portfolio, and in the original format of the First Minister's Government, obviously it was transport and local government, because we were told that transport was an integral part of what local government has to deliver. But a little after 18 months, the First Minister ripped all that up, took transport away, commissioned then the Williams commission to look into the format and make-up of local government, and when Williams delivered, it was going to be implemented, and that was how local government was going to be delivered in Wales.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Dechreuaf drwy ategu'r sylwadau a wnaeth Mike Hedges am y gwaith y mae cynghorwyr lleol yn ei wneud ar hyd a lled Cymru, ni waeth beth yw eu hymlyniad gwleidyddol a'u hymlyniad anwleidyddol yn ogystal oherwydd, yn amlwg, ceir traddodiad cyfoethog o annibyniaeth ar awdurdodau lleol hefyd. Yn amlwg, gyda'r mater o—[Torri ar draws.] Wel, yn y pen draw, os yw pobl yn barod i gynnig eu hunain i wasanaeth cyhoeddus—a gallaf weld y pleidiau gwleidyddol eraill yn crychu eu hwynebau wrth feddwl am annibyniaeth—ond yn y pen draw, rwy'n meddwl bod gan gynghorwyr ran werthfawr i'w chwarae waeth pa fathodyn a wisgant, ac mae angen eu dwyn i gyfrif. Y broblem y mae llawer o gynghorwyr wedi'i hwynebu dros lawer o flynyddoedd ers sefydlu'r Cynulliad yw'r berthynas anghyfartal sydd wedi bodoli, heb ei herio'n iawn erioed, o ran sut y mae llywodraeth leol yn cydweddu â'r Cynulliad, neu â San Steffan, a'r galwadau sy'n rhaeadu i lawr ac a osodir arnynt. Yr un peth sy'n eithaf amlwg o'r Llywodraeth benodol hon yng Nghymru yw'r modd nad ydynt yn deall llywodraeth leol. Rwy'n meddwl mai'r Gweinidog ar hyn o bryd yw'r trydydd Gweinidog yn y pedair blynedd y bu'r Llywodraeth mewn grym—rydym ar drothwy'r bumed flwyddyn yn awr. Rydym wedi cael tri Gweinidog gwahanol yng ngofal y portffolio, ac yn fformat gwreiddiol Llywodraeth y Prif Weinidog, trafndiaeth a llywodraeth leol oedd y portffolio, oherwydd dywedwyd wrthym fod trafndiaeth yn rhan ganolog o'r hyn sydd gan lywodraeth leol i'w gyflawni. Ond ychydig ar ôl 18 mis, cafodd y Prif Weinidog wared ar hynny i gyd, gan dynnu trafndiaeth o'r portffolio, comisiynu comisiwn Williams i edrych ar ffurf a chyfansoddiad llywodraeth leol, a phan gyflwynodd Williams ei adroddiad, roedd yn mynd i gael ei weithredu, a dyna sut oedd llywodraeth leol yn mynd i gael ei ddarparu yng Nghymru.

So, it's no wonder that local government feels so battered, so bruised, when it has been left rudderless by the Assembly Government, and the way that the First Minister and his ministers have treated it. It is a fact that, obviously, there has been the ability to bring forward a council tax freeze here in Wales. We have brought that forward time and again when the announcement was made that there was going to be a Barnett consequential. We do not believe that councils should be forced to freeze council tax, because this is about local democracy, but there should be an opportunity, where the money is made available, for the councils to consider whether they would wish to undertake the freezing of council tax for their local communities. That is the difference between this side of the house and other benches in this Chamber: we believe in giving the opportunity of choice. It is a fact, as other speakers have spoken about today, that Welsh council tax has seen an inexhaustible rise up the ladder, getting closer and closer to where England was, because England, historically, was always ahead of us in its council tax rates, because of larger take-home wages, but also the larger property values that were attributed to the base value when council tax was set. So, ultimately, the gap now is miniscule because this particular Government has chosen not to use the consequentials that have come over from the Treasury and pass that on, should local authorities request further the ability to freeze their council tax.

They would still be, under Conservative proposals, able to raise that if they wished to, but they would be under an obligation then to explain that fully to the electorate who pay the council tax. Ultimately, householders the length and breadth of Wales are seeing council tax used as a very blunt instrument now to raise local rates by as much as 5 per cent in some council areas when we have an inflation rate of 0 per cent. Ultimately, less and less is being delivered for the money that they are paying through their council tax, and it is slowly but surely causing real resentment on the ground. We see it in the Police and Crime Commissioner precept that is raised in council tax bills the length and breadth of Wales, where, in Dyfed Powys, a Conservative-led police commissioner has cut the Police and Crime Commissioner precept by 5 per cent. In south Wales, there has been a rise of 5 per cent in the precept by Alun Michael, the Labour member. You can see what the ideology is driving here: on the Labour benches, they want to milk the taxpayer. On our benches, we believe the best people to actually have the money are the taxpayers themselves, to spend it within their local communities and drive service development by holding their councils to account over the way we would provide the information around how decisions are made within council chambers, and in particular, how the local council tax is spent, because for many local council tax payers, it is a mystery where all that money disappears to.

But I go back to my overarching point here: this is a Labour Government that has been completely rudderless when it comes to local government. We're on the third Minister for local government here. The portfolio's been cut up several times by the First Minister. We had Williams, who talked about reorganising local government. The Welsh Government have driven through massive increases in local council tax, and ultimately, it is the people who are having to pay through the nose. Next May they will have the choice: do they want choice in how they spend their money—

Felly, nid yw'n syndod fod llywodraeth leol yn teimlo'i bod wedi cael ei churo a'i chleisio i'r fath raddau, ar ôl cael ei gadael yn ddigyfeiriad gan Lywodraeth y Cynulliad, a'r ffordd y mae'r Prif Weinidog a'i gweinidogion wedi ei thrin. Mae'n amlwg yn ffaith y gellid bod wedi rhewi'r dreth gyngor yma yng Nghymru. Rydym wedi cyflwyno hynny dro ar ôl tro er pan wnaed y cyhoeddiad y byddai yna swm canlyniadol Barnett ar ei gyfer. Nid ydym yn credu y dylid gorfodi cyngorau i rewi'r dreth gyngor, gan fod hyn yn ymwneud â democratiaeth leol, ond dylai fod cyfle, lle y mae'r arian ar gael, i gyngorau ystyried a fyddent yn dymuno rhewi'r dreth gyngor er mwyn eu cymunedau lleol. Dyna'r gwahaniaeth rhwng yr ochr hon i'r tŷ a meinciau eraill yn y Siambr hon: rydym yn credu mewn rhoi cyfle i ddewis. Mae'n ffaith, fel y mae siaradwyr eraill wedi sôn heddiw, fod y dreth gyngor yng Nghymru wedi gweld cynnydd dihybsydd i fyny'r ysgol, gan nesu fwyfwy at ble'r arferai Lloegr fod, gan fod Lloegr, yn hanesyddol, bob amser o'n blaenau o ran ei chyfraddau treth gyngor, am fod cyflogau mynd adref yn uwch, ond hefyd oherwydd gwerth uwch yr eiddo a briodolwyd i'r gwerth sylfaen pan osodwyd y dreth gyngor. Felly, yn y pen draw, mae'r bwch yn awr yn fach iawn am fod y Llywodraeth benodol hon wedi dewis peidio â defnyddio'r symiau canlyniadol a drosglwyddwyd gan y Trysorlys a'u pasio ymlaen, pe bai awdurdodau lleol yn gofyn am y gallu pellach i rewi eu treth gyngor.

O dan gynigion y Ceidwadwyr, byddent yn dal i allu codi hynny pe baent yn dymuno, ond byddent dan rwymedigaeth wedyn i egluro hynny'n llawn i'r etholwyr sy'n talu'r dreth gyngor. Yn y pen draw, mae deiliad tai ar hyd a lled Cymru yn gweld y dreth gyngor yn cael ei defnyddio fel offeryn di-fin iawn erbyn hyn i godi cyfraddau lleol cymaint â 5 y cant mewn rhai ardaloedd cyngor pan fo gennym gyfradd chwyddiant o 0 y cant. Yn y pen draw, mae llai a llai yn cael ei ddarparu am yr arian y maent yn ei dalu drwy eu treth gyngor, ac yn araf ond yn sicr mae'n achosi dicter gwirioneddol ar lawr gwlad. Rydym yn ei weld ym mhraesept y Comisiynydd Heddlu a Throseddau sy'n cael ei godi yn y biliau treth gyngor ar hyd a lled Cymru, lle y mae comisiynydd yr heddlu dan arweiniad y Ceidwadwyr yn ardal Dyfed Powys wedi torri 5 y cant oddi ar braesept Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Yn ne Cymru, bu cynnydd o 5 y cant yn y praesept gan Alun Michael, yr aelod Llafur. Gallwch weld yr ideoleg sy'n sail i hyn: ar y meinciau Llafur, maent am odro'r trethdalwr. Ar ein meinciau ni, rydym yn credu mai'r bobl orau i gael yr arian mewn gwirionedd yw'r trethdalwyr eu hunain, i'w wario yn eu cymunedau lleol a datblygu gwasanaethau drwy ddwyn eu cyngorau i gyfrif ynghylch y ffordd y byddent yn darparu'r wybodaeth ynglŷn â sut y caiff penderfyniadau eu gwneud yn siambrau'r cyngor, ac yn benodol, sut y gwerir y dreth gyngor leol, oherwydd i lawer o dalwyr y dreth gyngor leol, mae'n ddirgelwch i ble y mae'r holl arian yn diflannu.

Ond rwy'n dychwelyd at fy mhwynt cyffredinol yma: mae hon yn Llywodraeth Lafur sydd wedi bod yn gwbl ddigyfeiriad mewn perthynas â llywodraeth leol. Rydym ar y trydydd Gweinidog llywodraeth leol yma. Mae'r portffolio wedi cael ei chwalu sawl gwaith gan y Prif Weinidog. Cawsom Williams, a siaradodd am ad-drefnu llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgogi codiadau anferth yn y dreth gyngor leol, ac yn y pen draw, y bobl sy'n gorfod talu drwy eu trwynau. Fis Mai nesaf, bydd ganddynt ddewis: a ydynt eisiau dewis sut y maent yn gwario eu harian—

15:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Conclude, please.

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

15:54 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Or do they want to hand it over to these people on the other benches who will fritter it away?

Neu a ydynt yn dymuno ei drosglwyddo i'r bobl hyn ar y meinciau eraill a fydd yn ei wastraffu?

15:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

15:54 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Deputy Presiding Officer, today's motion from the Welsh Conservatives is this week's version of their campaign to talk down Wales and talk down our vital public services. The Tories have demonstrated again and again their utter disregard for public services in Wales, but they have really ramped up their local government bashing over the past few months. Their colleagues in London have cut local government funding to the bone, and my colleague, the Member for Swansea East, gave a vivid demonstration of what would happen to local government services in Wales if we had Welsh Conservatives running Wales. Most shamefully, the Conservatives in England have focused the worst of the cuts in the most deprived areas. In the next few years, they aim to reduce central funding to councils in England through the revenue support grant to zero. Let us be under no illusion: it is clear they would do the same in Wales if they were ever to take power in the Assembly.

Ddirprwy Lywydd, cynnig heddiw gan y Ceidwadwyr Cymreig yw fersiwn yr wythnos hon o'u hymgyrch i fychanu Cymru a bychanu ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Mae'r Toriaid wedi dangos dro ar ôl tro eu difaterwch llwyr ynghylch y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond maent wedi cynyddu eu harfer o ladd ar lywodraeth leol yn helaeth dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae eu cymheiriaid yn Llundain wedi torri cyllid llywodraeth leol at yr asgwrn, a rhoddodd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, arddangosiad byw o'r hyn a fyddai'n digwydd i wasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru pe bai'r Ceidwadwyr Cymreig mewn grym yng Nghymru. Yn fwyaf cywilyddus, mae'r Ceidwadwyr yn Lloegr wedi canolbwyntio'r gwaethaf o'r toriadau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn y blynyddoedd nesaf, eu nod yw lleihau cyllid canolog i gynghorau yn Lloegr drwy'r grant cynnal refeniw i sero. Na foed i ni fod dan unrhyw gamagraff ynglŷn â hyn: mae'n glir y byddent yn gwneud yr un peth yng Nghymru pe baent fyth yn dod i rym yn y Cynulliad.

Nick Bourne famously said in 2010 that he would cut local government funding by 12 per cent. I have no doubt this figure would be much higher in today's economic climate. A 12 per cent cut to the revenue support grant would wipe £0.5 billion off council budgets every year, erasing, as my colleague, the Member for Swansea East said, non-statutory services and causing mass redundancies. But, not content with decimating budgets, the Tories in Westminster are playing havoc with local government in Wales and in the other devolved administrations by delaying the spending review until late November. This delays the budgets of all devolved administrations, and means we will be very late confirming final settlements to councils; not our fault—the Tories' fault.

Dywedodd Nick Bourne, yn gofiadwy, yn 2010 y byddai'n torri 12 y cant oddi ar gyllid llywodraeth leol. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddai'r ffigur hwn yn llawer uwch yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Byddai toriad o 12 y cant yn y grant cynnal refeniw yn cael gwared ar £0.5 biliwn oddi ar gyllidebau'r cynghorau bob blwyddyn, gan ddileu, fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, gwasanaethau anstatudol ac yn achosi diswyddiadau torfol. Ond heb fodloni ar ddinistrio cyllidebau, mae'r Toriaid yn San Steffan yn chwarae hafoc â llywodraeth leol yng Nghymru ac yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill drwy ohirio'r adolygiad o wariant hyd at ddiwedd Tachwedd. Mae hyn yn oedi cyllidebau'r holl weinyddiaethau datganoledig, ac mae'n golygu y byddwn yn hwyr iawn yn cadarnhau setliadau terfynol i gynghorau; nid ein bai ni—bai'r Toriaid.

After imposing such drastic cuts, are they apologetic about it? Absolutely not. Only yesterday, they took the opportunity to kick local government again, this time berating them for paying redundancy to workers leaving councils according to their contractual terms. I think the Welsh Local Government Association spokesperson for employment responded well when he said:

Ar ôl cyflawni toriadau llym o'r fath, a ydynt yn ymddiheuro am y peth? Dim o gwbl. Ddoe ddiwethaf, manteisiodd y Ceidwadwyr ar y cyfle i roi cic i lywodraeth leol eto, y tro hwn drwy eu difrio am dalu taliadau diswyddo i weithwyr sy'n gadael cynghorau yn ôl eu telerau cytundebol. Rwy'n meddwl bod llefarydd cyflogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ymateb yn dda pan ddywedodd:

'It is a bit rich complaining about costs of redundancies when it is central government cuts that are creating them. This story is the political equivalent of blaming the victim... In this context, we have a statutory and moral duty to honour people's contractual terms and conditions.'

As I said a few weeks ago—

'It is a bit rich complaining about costs of redundancies when it is central government cuts that are creating them. This story is the political equivalent of blaming the victim... In this context, we have a statutory and moral duty to honour people's contractual terms and conditions.'

Fel y dywedais ychydig wythnosau'n ôl—

15:57 **Aelod Cynulliad / An Assembly Member**

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:57 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No. We reject the divisive approach to the local government workforce taken by the UK Government, exemplified by the Trade Union Bill they have brought forward. The First Minister has written to the Prime Minister to make clear that we believe this Bill will lead to more confrontational relationships between employers and workers and ultimately undermine, rather than support, public services and the economy.

We know there are no easy solutions to many of the issues facing our public services, and we recognise that it will not always be possible to deliver everything that people want. However, I continue to believe that our social-partnership approach provides the best opportunity to ensure we are able to make best use of the talent and commitment we see day in, day out from our public service workforce. I also want to pay tribute to all those people across Wales who serve as councillors in what is a very difficult time for anybody in local government, regardless of party or regardless of non-party affiliation.

It's not enough that the Conservatives have cut local government funding to the bone; they are now coming after council tax and they want a regressive model for business rates that would penalise the poorest councils and the poorest areas in Wales. This is yet another opportunity to starve local government in Wales of proper funding for our vital local services. Again, they fail to consider the difficult balance between minimising the burden on the council tax payer and maintaining essential local services. We take our responsibility to protect council tax payers from excessive increases very seriously.

Na wnaif. Rydym yn gwrthod ymagwedd ymrannol Llywodraeth y DU tuag at y gweithlu llywodraeth leol, sydd i'w gweld yn y Bil Undebau Llafur a gyflwynwyd ganddynt. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y DU i wneud yn glir ein bod yn credu y bydd y Bil hwn yn arwain at berthynas fwy gwrthdrawdol rhwng cyflogwyr a gweithwyr ac yn y pen draw yn tansellio, yn hytrach na chefnogi, gwasanaethau cyhoeddus a'r economi.

Gwyddom nad oes unrhyw atebion hawdd i lawer o'r materion sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym yn cydnabod na fydd bob amser yn bosibl cyflawni popeth y mae pobl eu heisiau. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu bod ein dull o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn rhoi'r cyfle gorau i sicrhau ein bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r doniau a'r ymroddiad a welwn ddydd ar ôl dydd gan weithlu ein gwasanaethau cyhoeddus. Rwyf hefyd am dalu teyrnged i'r holl bobl ledled Cymru sy'n gwasanaethu fel cynghorwyr ar yr adeg anodd hon ar bawb mewn llywodraeth leol, waeth beth fo'u plaid neu eu hymlyniad di-blaid.

Nid yw'n ddigon fod y Ceidwadwyr wedi torri cyllid llywodraeth leol at yr asgwrn; maent yn awr yn dod ar ôl y dreth gyngor ac maent eisiau model anflaengar ar gyfer ardrethi busnes a fyddai'n cosbi'r cynghorau tlotaf a'r ardaloedd tlotaf yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle arall eto i lwgu llywodraeth leol yng Nghymru o gyllid priodol ar gyfer ein gwasanaethau lleol hanfodol. Unwaith eto, maent yn methu ag ystyried y cydbwysedd anodd rhwng lleihau'r baich ar dalwyr y dreth gyngor a chynnal gwasanaethau lleol hanfodol. Rydym o ddifrif ynglŷn â'n cyfrifoldeb i ddiogelu talwyr y dreth gyngor rhag codiadau gormodol.

We recognise times are tough for many households in Wales. Members have previously debated the council tax freezes in England and Scotland, but we also have to consider the consequences of such initiatives. Over this Assembly term, if our councils had opted for a freeze on the same basis as in England, local government in Wales would be over £150 million worse off than it is today. For the past three years, the grant in England has offered funding equivalent to an increase in council tax of just 1 per cent. Authorities there have faced a choice between taking the grant and raising council tax within the strict limits prescribed by the UK Government or embarking on a costly local referendum. At the same time, as the Liberal Democrats' spokesperson pointed out, the general funding provided to English authorities has been cut year on year since 2010. It's no surprise, therefore, that the number of English authorities choosing to decline the grant from central Government to freeze council tax has increased again this year. This year, 43 per cent of English authorities rejected the grant, opting to increase council tax. This includes a quarter of David Cameron's own Tory councils. So, the freeze grant in England has not resulted across England in council tax being frozen.

In Wales, we channel all the available funding into the main local government settlement, allowing councils to make local decisions about council tax and to allocate funding according to local priorities. We do not package the funding as a grant for freezing council tax. The reality, of course, is that the average council tax in Wales remains over £150 lower than in England, and we have a reduction scheme that means that over 300,000 households receive help with their bills and over 200,000 pay no council tax at all—a real freeze for those who need it, unlike in England.

We support the amendment to the motion. Like Plaid Cymru, we fully recognise the funding pressure on local public services as a result of the UK Government's spending decisions. We also agree that the freedom to set local budgets is an important part of the funding arrangements for councils, allowing them to address local pressures and priorities.

In closing, I find myself in agreement with a statement by the well-respected local government journalist, David Walker, in this week's 'The MJ'. He says that, in David Cameron's mind, local government remains an embodiment of the state he wants to shrink and repulse, and that this ambition will take detailed shape in the spending review in a couple of months' time. I fear, Deputy Presiding Officer, that the Welsh Conservatives feel the same way as David Cameron. They would decimate local government, they would decimate local government services, and their policies would lead to more redundancies in local government, worse public services, and we will stand up for local government, as we have done throughout the lifetime of this Assembly.

Rydym yn cydnabod ei bod yn adeg anodd ar lawer o deuluoedd yng Nghymru. Mae'r Aelodau wedi trafod rhewi'r dreth gyngor yn Lloegr a'r Alban o'r blaen, ond mae'n rhaid i ni hefyd ystyried canlyniadau mentrau o'r fath. Dros dymor y Cynulliad hwn, pe bai ein cyngorau wedi dewis rhewi ar yr un sail ag yn Lloegr, byddai llywodraeth leol yng Nghymru dros £150 miliwn yn waeth ei byd nag y mae heddiw. Am y tair blynedd diwethaf, mae'r grant yn Lloegr wedi cynnig cyllid sy'n cyfateb i gynnydd yn y dreth gyngor o 1 y cant yn unig. Mae awdurdodau yno wedi wynebu dewis rhwng cymryd y grant a chodi'r dreth gyngor o fewn y terfynau caeth a bennwyd gan Lywodraeth y DU neu gynnal refferendwm lleol costus. Ar yr un pryd, fel y nododd llyfarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, mae'r cyllid cyffredinol a ddarparwyd i awdurdodau yn Lloegr wedi cael ei dorri fwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2010. Nid yw'n syndod, felly, fod nifer yr awdurdodau yn Lloegr sy'n dewis gwrthod y grant gan y Llywodraeth ganolog ar gyfer rhewi'r dreth gyngor wedi cynyddu eto eleni. Eleni, mae 43 y cant o awdurdodau Lloegr wedi gwrthod y grant, gan ddewis cynyddu'r dreth gyngor. Mae hyn yn cynnwys chwarter cyngorau Torïaidd David Cameron ei hun. Felly, nid yw'r grant rhewi yn Lloegr wedi arwain at rewi'r dreth gyngor ar draws Lloegr.

Yng Nghymru, rydym yn sianelu'r holl arian sydd ar gael i'r prif setliad llywodraeth leol, gan ganiatáu i gynghorau wneud penderfyniadau lleol am y dreth gyngor a dyrannu cyllid yn ôl blaenoriaethau lleol. Nid ydym yn pecynnu'r cyllid fel grant ar gyfer rhewi'r dreth gyngor. Y realiti, wrth gwrs, yw bod y dreth gyngor ar gyfartaledd yng Nghymru yn parhau i fod dros £150 yn is nag yn Lloegr, ac mae gennym gynllun gostyngiad sy'n golygu bod dros 300,000 o gartrefi yn cael cymorth gyda'u biliau a thros 200,000 nad ydynt yn talu'r dreth gyngor o gwbl—rhewi go iawn i'r rhai sydd ei angen, yn wahanol i Loegr.

Rydym yn cefnogi'r gwelliant i'r cynnig. Fel Plaid Cymru, rydym yn llwyr gydnabod y pwysau ariannu ar wasanaethau cyhoeddus lleol o ganlyniad i benderfyniadau gwariant Llywodraeth y DU. Rydym hefyd yn cytuno bod y rhyddid i bennu cyllidebau lleol yn rhan bwysig o'r trefniadau cyllido ar gyfer cynghorau, gan ganiatáu iddynt fynd i'r afael â phwysau a blaenoriaethau lleol.

Wrth gloi, rwy'n dal fy hun yn cytuno â datganiad a wnaed gan y gohebydd llywodraeth leol uchel ei barch, David Walker, yn 'The MJ' yr wythnos hon. Dywed fod llywodraeth leol ym meddwl David Cameron, yn parhau i fod yn ymgorfforiad o'r wladwriaeth y mae'n awyddus i'w chrebachu a'i gwthio'n ôl, ac y bydd yr uchelgais hwn yn cael ffurf fanwl yn yr adolygiad o wariant mewn ychydig fisoedd. Rwy'n ofni, Ddirprwy Lywydd, fod y Ceidwadwyr Cymreig yn teimlo'r un fath â David Cameron. Byddent yn anrheithio llywodraeth leol, byddent yn anrheithio gwasanaethau llywodraeth leol, a byddai eu polisiau'n arwain at fwy o ddiswyddiadau mewn llywodraeth leol, a gwasanaethau cyhoeddus gwaeth, ac rydym am sefyll yn gadarn dros lywodraeth leol, fel yr ydym wedi'i wneud drwy gydol oes y Cynulliad hwn.

16:02

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And Nick Ramsay to reply.

A Nick Ramsay i ymateb.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Isn't it interesting that the Minister for Public Services refused to take any interventions from the leader of the opposition during that speech, whilst quoting the previous leader of the opposition, Nick Bourne, from 2011, who did, of course, point out that the Welsh Conservatives wanted to protect the NHS budget in Wales—a key part of the public services budget in Wales? That figure is actually on that little bit of paper, that shadow budget paper that the First Minister was waving around yesterday and which other Ministers are quoting from. Isn't it funny that none on that side is actually mentioning that key figure—possibly the most important figure to the public in Wales, and certainly the most important figure to constituents of Assembly Members here. It is not being quoted because you know full well that you have cut a huge part of the public services budget in terms of the NHS in Wales, and you don't want to admit it.

Turning to Plaid Cymru now, it is disappointing that Plaid Cymru feel unable to support the Welsh Conservatives' motion today, a motion that notes the important role that local authority services play in an individual's experiences of public services. It further notes that more work needs to be done to utilise the role of the third sector in effective local service delivery. [Interruption.] You say you can read it; well, if you can read it, then I think you would accept there is nothing there for you to disagree with, and yet you have said you will not support this—churlish in the extreme.

This debate, opened by Janet Finch-Saunders, calls for more openness, increased transparency and greater publication of expenditure. What could be wrong with any of that? Janet Finch-Saunders was right to point out the record of Wales's only Conservative-led council, Monmouthshire, which has been widely recognised for its innovation and efficiency. The response of the Welsh Government? To throw all this innovation in the air and to try and force local authorities such as Monmouthshire to merge, with no local support, no guarantee that public services will be any better, nor any guarantee that people's lives will be improved. Minister, as I've told you so many times, it is the wrong approach, and what it will ultimately do is sacrifice any good practice that is out there on the altar of the bigger is better cop-out ideology. It has failed in the past and it will fail again. I cannot believe, and my constituents cannot believe, that you are running headlong over the same cliff that so many Ministers have headed over before. The people of Monmouthshire are not interested, Minister, in your plans and, increasingly, people across Wales are turning away from them and will oppose them.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Onid yw'n ddi-ddorol bod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwrthod cymryd unrhyw ymyriadau gan arweinydd yr wrthblaid yn ystod yr araith honno, gan ddyfynnu arweinydd blaenorol yr wrthblaid, Nick Bourne, yn 2011, a nododd, wrth gwrs, fod y Ceidwadwyr Cymreig yn awyddus i warchod cyllideb y GIG yng Nghymru—rhan allweddol o'r gyllideb gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? Mae'r ffigur mewn gwirionedd ar y darn bach hwnnw o bapur, papur cyllideb yr wrthblaid yr oedd y Prif Weinidog yn ei chwifio ddoe ac y mae Gweinidogion eraill yn dyfynnu ohono. Onid yw'n rhyfedd nad oes neb ar yr ochr honno'n sôn am y ffigur hwnnw—y ffigur pwysicaf oll i'r cyhoedd yng Nghymru o bosibl, ac yn sicr y ffigur pwysicaf i etholwyr Aelodau'r Cynulliad yma. Nid yw'n cael ei ddyfynnu oherwydd eich bod yn gwybod yn iawn eich bod wedi torri rhan enfawr o'r gyllideb gwasanaethau cyhoeddus o ran y GIG yng Nghymru, ac nid ydych am gyfaddef hynny.

Gan droi at Blaid Cymru yn awr, mae'n siomedig fod Plaid Cymru yn teimlo na allant gefnogi cynnig y Ceidwadwyr Cymreig heddiw, cynnig sy'n nodi'r rôl bwysig y mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn ei chwarae ym mhrofiad yr unigolyn o'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n nodi ymhellach fod angen gwneud mwy o waith ar ddefnyddio rôl y trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaethau lleol yn effeithiol. [Torri ar draws.] Rydych yn dweud y gallwch ei ddarllen; wel, os gallwch ei ddarllen, yna rwy'n meddwl y byddech yn derbyn nad oes dim yno i chi i anghytuno ag ef, ac eto rydych wedi dweud na fyddwch yn cefnogi hyn—hynod o anfoesgar.

Mae'r ddadl hon, a agorwyd gan Janet Finch-Saunders, yn galw am natur fwy agored, mwy o dryloywder a mwy o gyhoeddi gwariant. Beth allai fod o'i le ar unrhyw ran o hynny? Mae Janet Finch-Saunders yn iawn i dynnu sylw at record yr unig gyngor yng Nghymru a arweinir gan y Ceidwadwyr, sef Sir Fynwy, sydd wedi cael cydnabyddiaeth eang oherwydd ei arloesedd a'i effeithlonrwydd. Ymateb Llywodraeth Cymru? Taflu'r holl arloesedd hwn yn yr awyr a cheisio gorfodi awdurdodau lleol megis Sir Fynwy i uno, heb unrhyw gefnogaeth leol, heb unrhyw warrant y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn well, nac unrhyw sicrwydd y bydd bywydau pobl yn cael eu gwella. Weinidog, fel rwyf wedi dweud wrthy ch gymaint o weithiau, nid dyma'r dull cywir, a'r hyn y bydd yn ei wneud yn y pen draw yw aberthu unrhyw arferion da a geir ar lawr gwlad ar allor yr esgus o ideoleg mai 'gorau po fwyaf'. Mae wedi methu yn y gorffennol a bydd yn methu eto. Ni allaf gredu, ac ni all fy etholwyr gredu, eich bod yn rhedeg yn syth at yr un dibyn y mae cymaint o Weinidogion wedi mynd drosto o'r blaen. Nid oes gan bobl Sir Fynwy ddiddordeb, Weinidog, yn eich cynlluniau ac yn gynyddol, mae pobl ledled Cymru yn troi eu cefnau arnynt a byddant yn eu gwrthwynebu.

One way, of course, that people's lives could have been improved over the last few years, as has been mentioned by many AMs from all parties in this Chamber, is by passing on the council tax freeze. The money was made available to Welsh Government and it was not passed on. That is our basic contention. Yes, Mike Hedges is right, other AMs are right. It is the decision of local authorities whether they freeze council tax or not. We do not dispute that. But in Wales, unlike in England, they were never given the choice. They were never given the chance financially. Mohammad Asghar evokes the memory of Prime Minister Harold Wilson with his 'Pound in your pocket' quote. It seems that Harold Wilson was more in tune with the people of Wales and Britain than the current Welsh Government is when it comes to the money in your pocket. It's not Government's money to fritter away. It is the public's money. They've earned it, it is their money to decide what to do with for themselves and their families. By not passing on that council tax freeze, it has actually taken money out of the public's pockets that was not theirs to take.

Deputy Presiding Officer, in closing, we are calling for greater transparency. Monmouthshire County Council hold open cabinet meetings, they publish their cabinet reports and they show the council tax payer where their money is going. It's an increasingly popular approach to take and it is democratic. That is what this motion is calling for: greater transparency, greater openness and greater democracy. I don't believe that it is in the hearts of Plaid Cymru to actually oppose this motion in principle. I urge you to reconsider. I urge all Assembly Members to support this motion and let's get on with the job of improving local government in Wales.

Un ffordd, wrth gwrs, y gallai bywydau pobl fod wedi'u gwella dros y blynyddoedd diwethaf, fel y crybwyllodd nifer o ACau o bob plaid yn y Siambr hon, yw drwy drosglwyddo'r gallu i rewi'r dreth gyngor. Rhyddhawyd yr arian i Lywodraeth Cymru ac ni chafodd ei throsglwyddo. Dyna asgwrn ein cynnen yn y bôn. Ydy, mae Mike Hedges yn iawn, mae ACau eraill yn iawn. Penderfyniad yr awdurdodau lleol yw rhewi'r dreth gyngor ai peidio. Nid ydym yn amau hynny. Ond yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, ni chawsant y dewis. Ni chawsant y cyfle'n ariannol. Mae Mohammad Asghar yn dwyn i gof y Prif Weinidog Harold Wilson gyda'i ddyfyniad am y bunt yn eich poced. Mae'n ymddangos bod Harold Wilson yn deall pobl Cymru a Phrydain yn well na Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd pan ddaw'n fater o'r arian yn eich poced. Nid arian y Llywodraeth i'w wastraffu ydyw. Arian y cyhoedd ydyw. Maent wedi ei ennill, eu harian hwy ydyw i benderfynu drostynt eu hunain a'u teuluoedd beth i'w wneud ag ef. Drwy beidio â throsglwyddo'r gallu i rewi'r dreth gyngor, mewn gwirionedd mae wedi mynd â'r arian o boced i'r cyhoedd er nad eu harian hwy ydoedd i'w gymryd.

Ddirprwy Lywydd, wrth gloi, rydym yn galw am fwy o dryloywder. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnal cyfarfodydd cabinet agored, maent yn cyhoeddi eu hadroddiadau cabinet ac maent yn dangos i dalwyr y dreth gyngor i ble mae eu harian yn mynd. Mae'n ymagwedd fwyfwy poblogaidd ac mae'n ddemocrataidd. Dyna'r hyn y mae'r cynnig hwn yn galw amdano: mwy o dryloywder, ymagwedd fwy agored a mwy o ddemocratiaeth. Nid wyf yn credu bod Plaid Cymru yn eu calonnau yn gwrthwynebu'r cynnig hwn mewn egwyddor. Fe'ch anogaf i ailystyried. Rwy'n annog holl Aelodau'r Cynulliad i gefnogi'r cynnig hwn a gadewch i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o wella llywodraeth leol yng Nghymru.

16:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting to voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

16:06 **4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau—Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion**

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 4 yw'r dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau—atal recriwtio i'r fyddin mewn ysgolion. Galwaf ar William Powell i wneud y cynnig.

Cynnig NDM5828 William Powell

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb, 'Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2015.

Cynigiwyd y cynnig.

4. Debate on a Petitions Committee Report—Stop the Army Recruiting in Schools

Y

Item 4 is the debate on the Petitions Committee report—stop the army recruiting in schools. I call on William Powell to move the motion.

Motion NDM5828 William Powell

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the report of the Petitions Committee on the petition, 'Stop the army recruiting in schools', which was laid in the Table Office on 19 June 2015.

Motion moved.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased indeed to be opening this debate this afternoon on our committee's report on the petition 'Stop the Army Recruiting in Schools'. This petition gathered over 1,000 signatures and was organised by Cymdeithas y Cymod/The Fellowship of Reconciliation. It called on the Welsh Government to discourage schools from inviting in the armed forces for recruitment purposes.

After taking initial views from the Welsh Government, the committee agreed that the petition merited wider and, indeed, more detailed consideration. We, therefore, launched a written consultation on the petition and, subsequently, agreed to hold a number of oral evidence sessions. The committee received over 30 responses to the written consultation. A summary of the main points made, as well as some other details of those who responded, are set out in our report. Most of those who responded supported the aims of the petition, but responses also expressed a number of concerns about its aims. In the light of the consultation responses the committee took oral evidence from the petitioners, from ForcesWatch and from Ban Schoolyard Recruitment—all organisations active in campaigning on the subject. Subsequently, we visited Prestatyn High School and spoke informally to a group of year 11 students as well as taking oral evidence from one of the teachers at the school and from three of the pupils.

Among other matters, proponents of the petition argued that the armed forces target schools in areas of relatively high deprivation and low educational achievement; that while pupils are not actually signed up in the school, the work of the armed forces is promoted, which leads to recruitment further down the line; that the armed forces present an exciting picture for young children but that the violent and dangerous side of the role and the risks involved are not properly represented; and, finally, that the armed forces put huge resources into their work in schools and colleges and could not do so unless it helped their recruitment efforts.

Among the arguments of opponents of the petition were the following: all careers advice should be welcomed; the armed forces should have the same right to provide careers advice as other lawful professions; and, finally, preventing the forces from visiting schools could prevent young people, including those from deprived backgrounds, from entering high quality careers with good training.

Rwy'n falch iawn yn wir fy mod yn agor y ddatl hon y prynhawn yma ar adroddiad ein pwyllgor ar y ddeiseb 'Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion'. Llwyddodd y ddeiseb hon i gasglu dros 1,000 o lofnodion ac fe'i trefnwyd gan Gymdeithas y Cymod. Roedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal ysgolion rhag gwahodd y lluoedd arfog i'r ysgolion at ddibenion recriwtio.

Ar ôl clywed safbwyntiau cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, roedd y pwyllgor yn cytuno bod y ddeiseb yn haeddu ystyriaeth ehangach, a mwy manwl, yn wir. Felly, lanswyd ymgynghoriad ysgrifenedig ar y ddeiseb ac yn dilyn hynny, cytunwyd i gynnal nifer o sesiynau tystiolaeth ar lafar. Cafodd y pwyllgor dros 30 o ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig. Nodwyd crynodeb o'r prif bwyntiau a wnaed, yn ogystal ag ychydig o fanylion eraill gan y rhai a ymatebodd, yn ein hadroddiad. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi amcanion y ddeiseb, ond roedd ymatebion hefyd yn mynegi nifer o bryderon ynghylch ei hamcanion. O ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, aeth y pwyllgor ati i gymryd tystiolaeth ar lafar gan y deisebwyr, o ForcesWatch ac o Ban Schoolyard Recruitment—pob sefydliad sy'n ymgyrchu ar y pwnc. Yn dilyn hynny, buom yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Prestatyn ac yn siarad yn anffurfiol â grŵp o ddisgyblion blwyddyn 11 yn ogystal â chymryd tystiolaeth ar lafar gan un o athrawon yr ysgol a thri o'r disgyblion.

Ymhlith materion eraill, roedd y rhai a ddadleuai dros y ddeiseb yn dadlau bod y lluoedd arfog yn targedu ysgolion mewn ardaloedd lle y ceir lefelau cymharol uchel o amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel; er nad yw disgyblion yn cofrestru yn yr ysgol mewn gwirionedd, fod gwaith y lluoedd arfog yn cael ei hyrwyddo, ac yn arwain at recriwtio yn nes ymlaen; bod y lluoedd arfog yn cyflwyno darlun cyffrous i blant ifanc, ond nad yw ochr dreisgar a pheryglus y rôl a'r risgiau cysylltiedig yn cael eu cynrychioli'n briodol; ac yn olaf, fod y lluoedd arfog yn darparu adnoddau enfawr ar gyfer eu gwaith mewn ysgolion a cholegau ac na allent wneud hynny oni bai ei fod yn helpu eu hymdrechion recriwtio.

Ymhlith dadleuon gwrthwynebwyr y ddeiseb roedd y canlynol: dylid croesawu pob cyngor gyrfa; dylai'r lluoedd arfog gael yr un hawl i ddarparu cyngor gyrfaoedd â phroffesiynau cyfreithlon eraill; ac yn olaf, gallai atal y lluoedd arfog rhag ymweld ag ysgolion atal pobl ifanc, gan gynnwys rhai o gefndiroedd difreintiedig, rhag cael gyrfaoedd o ansawdd uchel gyda hyfforddiant da.

So, what were the main factors that the committee took into account that led to the three recommendations that we made to Welsh Government? Firstly, there is, of course, nothing fundamentally wrong with employers targeting their recruitment efforts to get the staff that they need for the jobs that they have on offer. But, the armed forces are not like other employers. Other employers do not ask their staff to accept that part of the job that could require them to harm or, indeed, kill other human beings. And although other jobs might carry high risks of death or injury, it is difficult to think of any other job where you can be instructed deliberately to put yourself in situations where such risks are present. So, the committee agreed that while inviting the armed forces into schools is of course legitimate, it should perhaps be treated with particular care. And we must not forget that joining the armed forces is a legitimate and, for many, an appropriate and fulfilling career choice.

Indeed, many of the roles in the forces do not involve combat or even significantly higher risks than any other professions. As I've already mentioned, preventing the forces from visiting schools could actually end up disadvantaging young people, particularly from less affluent backgrounds, from accessing good careers and high quality training.

Some members of the committee shared the petitioner's concerns that the armed forces use school visits as a recruitment tool, and that they do target schools in areas of particularly high deprivation. Evidence provided by ForcesWatch indicated that maintained schools in Wales are much more likely to be visited by the army than those in other parts of the UK. But, we did not receive—this is important—any compelling evidence that the armed forces deliberately strategically target schools in deprived areas. But while there was no hard evidence of schools being targeted in this way, the reasons for the apparently disproportionate number of visits to these schools was not clear, and in our view merits further investigation. Hence our recommendation.

I note that the Minister has responded to our recommendation in this area by promising to see whether further research is indeed needed in light of the experience of the roll out of the enhanced employer engagement project. I look forward to hearing more from the Minister on this matter, once there has been a chance to evaluate that project.

The committee was not so naive as to believe that the forces have no interest in using school visits to project themselves as providers of interesting and accessible career opportunities. However, we heard from schools, pupils and, indeed, education authorities that there is no evidence that the fine line between informing pupils of potential career choices, as opposed to actively recruiting pupils, is one that is crossed. The pupils we spoke to in Prestatyn did not feel pressurised into joining the forces and, indeed, wanted such visits to continue.

Felly, beth oedd y prif ffactorau a ystyriwyd gan y pwyllgor a arweiniodd at y tri argymhelliad rydym wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru? Yn gyntaf, wrth gwrs, nid oes dim o'i le yn y bôn ar gyflogwyr yn targedu eu hymdrechion recriwtio er mwyn cael y staff sydd eu hangen arnynt ar gyfer y swyddi sydd ganddynt ar gael. Ond nid yw'r lluoedd arfog yr un fath â chyflogwyr eraill. Nid yw cyflogwyr eraill yn gofyn i'w staff dderbyn y gallai rhan o'u swydd ei gwneud yn ofynnol iddynt niweidio neu'n wir, i ladd bodau dynol eraill. Ac er y gallai swyddi eraill gynnwys risg uchel o farwolaeth neu gael anaf, mae'n anodd meddwl am unrhyw swydd arall lle y gallwch gael cyfarwyddyd bwriadol i roi eich hun mewn sefyllfaoedd lle y ceir risgiau o'r fath. Felly, er bod gwahodd y lluoedd arfog i ymweld ag ysgolion yn gyfreithlon, wrth gwrs, cytunodd y pwyllgor efallai y dylid ei drin gyda gofal arbennig. Ac mae'n rhaid i ni beidio ag anghofio bod ymuno â'r lluoedd arfog yn gyfreithlon, ac yn ddewis gyrfa priodol a boddhaus i lawer.

Yn wir, mae llawer o'r rolau yn y lluoedd arfog nad ydynt yn cynnwys ymladd na risgiau sy'n sylweddol uwch nag unrhyw broffesiynau eraill hyd yn oed. Fel y crybwyllais eisoes, gallai atal y lluoedd arfog rhag ymweld ag ysgolion greu anfantais i bobl ifanc yn y pen draw, yn enwedig pobl ifanc o gefndiroedd llai cefnog, drwy eu hatal rhag cael gyrfa dda a hyfforddiant o ansawdd uchel.

Roedd rhai aelodau o'r pwyllgor yn rhannu pryderon y deisebydd fod y lluoedd arfog yn defnyddio ymweliadau ysgol fel offeryn recriwtio, a'u bod yn targedu ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd arbennig o uchel. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd gan ForcesWatch yn nodi bod ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o gael ymweliad gan y fyddin nag ysgolion felly mewn rhannau eraill o'r DU. Ond ni welsom unrhyw dystiolaeth gref—mae hyn yn bwysig—fod y lluoedd arfog yn mynd ati'n strategol i dargedu ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd yn fwriadol. Ond er nad oedd unrhyw dystiolaeth gadarn o ysgolion yn cael eu targedu yn y modd hwn, nid oedd y rhesymau dros y nifer anghymesur o ymweliadau â'r ysgolion hyn yn glir, ac yn ein barn ni mae hyn yn galw am ymchwilio pellach. A dyna'r rheswm dros ein hargymhelliad.

Sylwaf fod y Gweinidog wedi ymateb i'n hargymhelliad yn hyn o beth drwy addo gweld a oes angen ymchwil pellach mewn gwirionedd yn sgil y profiad a gafwyd o gyflwyno'r prosiect estynedig ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr. Edrychaf ymlaen at glywed mwy gan y Gweinidog ar y mater hwn ar ôl cael cyfle i werthuso'r prosiect hwnnw.

Nid oedd y pwyllgor mor naif â chredu nad oes gan y lluoedd arfog ddiddordeb mewn defnyddio ymweliadau ysgol i gyflwyno'u hunain fel darparwyr cyfleoedd gyrfaol sy'n ddiddorol ac yn hygyrch. Fodd bynnag, clywsom gan ysgolion, disgyblion ac yn wir, awdurdodau addysg nad oes unrhyw dystiolaeth fod y ffin denau rhwng rhoi gwybod i ddisgyblion ynglŷn â dewisiadau gyrfa posibl a mynd ati'n weithredol i recriwtio disgyblion, yn un sy'n cael ei chroesi. Nid oedd y disgyblion y buom yn siarad â hwy ym Mhrestatyn yn teimlo dan bwysau i ymuno â'r lluoedd arfog ac yn wir, roeddent yn awyddus i ymweliadau o'r fath barhau.

In oral evidence, the petitioners themselves agreed that there was no evidence that young people are actively recruited in schools, and that the armed forces' work in schools is successful in attracting recruits.

This brings me to the moral dimension of the petition and what it seeks to achieve. The petitioners' argument is perhaps, more than anything else, a moral one. They say that the nature alone of what the armed forces do should be a sufficient reason for preventing them from visiting schools for promotional purposes. The trouble with this argument, however sincere its proponents may be, is that it takes us on something of a slippery slope. As one of the teaching unions that responded to our consultation expressed it:

'What are the implications of a government influencing, whether explicitly or implicitly by means of advice, which legally permitted careers young people should receive information...on?'

The committee agreed that schools should try to ensure that visits are balanced, and that pupils should be able to ask questions and receive honest and candid responses. Schools should also try to ensure that the armed forces are not overly glamorised and that the risks are also clearly explained. However, we agreed that young people, supported by their teachers, are more than capable of reaching for themselves their own judgment on the morality of the armed forces and its role. Indeed, they should be encouraged to think about these issues when the forces do visit educational establishments.

But that's not to be complacent. Prestatyn High School made it clear to us when we visited that they would welcome further guidance on inviting the armed forces into schools, and we believe that other schools would also appreciate the same. So, I'm very pleased indeed that the Minister has indicated in his response to the committee that he has accepted our recommendation, and will provide further guidance to clarify roles and responsibilities of stakeholders in delivering the careers and the world of work curriculum.

It was not the main purpose of our consideration of this petition, but it did become clear to us when we visited Prestatyn High School that there is a need for other employers, whether in the public or, indeed, the private sector, to be more active in explaining and promoting career opportunities that their professions provide. That's why we recommended that more thought be given to how employers can be encouraged to visit schools so as to impart that information, but a wide range of employers and career opportunities, not merely the armed forces.

Mewn tystiolaeth lafar, cytunodd y deisebwyr eu hunain nad oedd unrhyw dystiolaeth fod pobl ifanc yn cael eu recriwtio'n weithredol mewn ysgolion, a bod gwaith y lluoedd arfog mewn ysgolion yn llwyddo i ddenu recriwtiaid.

Daw hyn â mi at ddimensiwn moesol y ddeiseb a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni. Dadl foesol, yn fwy na dim arall o bosibl, yw dadl y deisebwyr. Maent yn dweud y dylai natur yr hyn y mae'r lluoedd arfog yn ei wneud ynddo'i hun fod yn rheswm digonol dros eu rhwystro rhag ymweld ag ysgolion at ddibenion hyrwyddo. Y drafferth gyda'r ddatl hon, waeth pa mor ddiffuant yw ei chefnogwyr, yw ei bod yn ein harwain ar hyd llethr llithrig braidd. Fel y dywedodd un o'r undebau athrawon a ymatebodd i'n hymgyngoriad:

'What are the implications of a government influencing, whether explicitly or implicitly by means of advice, which legally permitted careers young people should receive information...on?'

Cytunodd y pwyllgor y dylai ysgolion geisio sicrhau bod ymweliadau'n gytbwys, ac y dylai disgyblion allu gofyn cwestiynau a chael atebion gonest a didwyll. Hefyd, dylai ysgolion geisio sicrhau nad yw'r lluoedd arfog yn cael eu glamoreiddio'n ormodol a bod y risgiau'n cael eu hegluro'n glir. Fodd bynnag, rydym wedi cytuno bod pobl ifanc, gyda chefnogaeth eu hathrawon, yn gallu ffurfio barn eu hunain yn iawn ar foesoldeb y lluoedd arfog a'i rôl. Yn wir, dylid eu hannog i feddwl am y materion hyn pan fydd y lluoedd arfog yn ymweld â sefydliadau addysgol.

Ond ni ddylem fodloni ar hynny. Dywedodd Ysgol Uwchradd Prestatyn yn glir wrthym pan aethom i'w gweld y byddent yn croesawu mwy o arweiniad ar wahodd y lluoedd arfog i ysgolion, a chredwn y byddai ysgolion eraill yn gwerthfawrogi hynny hefyd. Felly, rwy'n falch iawn fod y Gweinidog wedi nodi yn ei ymateb i'r pwyllgor ei fod wedi derbyn ein hargymhelliad, ac y bydd yn rhoi cyfarwyddyd pellach i egluro rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid wrth gyflwyno'r cwricwlwm gyrfaoedd a byd gwaith.

Er nad dyna oedd prif bwrpas ein hystyriaeth o'r ddeiseb, daeth yn amlwg i ni pan ymwelsom ag Ysgol Uwchradd Prestatyn fod angen i gyflogwyr eraill, yn y sector cyhoeddus neu'n wir, yn y sector preifat, fynd ati'n fwy egniol i egluro a hyrwyddo'r cyfleoedd gyrfa y mae eu proffesiynau yn eu cynnig. Dyna pam y gwnaethom yr argymhelliad y dylid meddwl mwy ynglŷn â sut y gellid annog cyflogwyr i ymweld ag ysgolion er mwyn rhannu'r wybodaeth honno, ond ystod eang o gyflogwyr a chyfleoedd gyrfa, nid y lluoedd arfog yn unig.

In concluding, Dirprwy Lywydd, this petition has raised a very genuine area of concern about the role of the armed forces and their promotional work in our schools. The committee agrees that we need to continue to ensure that the legitimate function of informing pupils about the work of the armed forces does not become an out-and-out recruitment exercise. However, we do not believe that the case has been made for an outright prohibition of the armed forces from visiting schools in Wales, and that, of course, was the prime aim of the petitioners.

Finally, I would like to place on record the committee's thanks to the petitioners themselves, to all those who responded to our written consultation, and to those who came and gave oral evidence, in particular to the pupils and staff at Prestatyn High School for their time and hospitality. I'd also like to thank the members of the committee and the committee staff who assisted in our consideration of the petition and the production of the report.

16:16 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#)

I'd like to thank the Petitions Committee for bringing this to the Plenary because I think it raises some very thoughtful issues that we need to discuss carefully.

I think we need to recognise the important role that the army can play in giving a skill, a transferrable trade, a structured routine, including physical fitness, to young people who otherwise might get none of the advantages that people from better-off families take for granted. I acknowledge that for many young people it can literally be a life redeemer. However, joining the army is not a real-life video game, and people as young as 16 could be misled into thinking it was.

Military conflict is a dangerous, unpredictable, traumatic business, and being in the army means you could be parachuted into a conflict zone with the real possibility of being ordered to kill someone you have never met and know nothing about. Being in the army includes the possibility of being killed or permanently injured, either physically or mentally. The horrors of military conflict can be so traumatic that many find it very difficult to rebuild a normal life on civvy street. I can think of several constituents who are in that situation, who find it extremely difficult to form good relationships and to break out of the isolation they feel as a result of being a bit like a fish out of water, and who certainly have great difficulty finding appropriate employment.

I note that Britain is the only EU country that allows the military to have a presence in schools, that Britain is the only EU country to recruit 16-year-olds, and that the petition asserts that a disproportionate number of army visits are to schools in areas of high deprivation. I've read the evidence of the Petitions Committee that says that it's unclear whether that is actually factually accurate, but nevertheless, I have concerns that recruits may have lower levels of literacy and numeracy than the general population, and that in a career path where certainly both are an essential requirement of doing the job accurately.

Wrth gloi, Ddirprwy Lywydd, mae'r ddeiseb hon wedi tynnu sylw at bryderon dilys iawn ynghylch rôl y lluoedd arfog a'u gwaith hyrwyddo yn ein hysgolion. Mae'r pwyllgor yn cytuno bod angen i ni barhau i sicrhau nad yw'r swyddogaeth gyfreithlon o roi gwybod i ddisgyblion am waith y lluoedd arfog yn troi'n ymarfer recriwtio drwyddo draw. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod achos wedi'i wneud dros wahardd y lluoedd arfog yn llwyr rhag ymweld ag ysgolion yng Nghymru, a dyna, wrth gwrs, oedd prif amcan y deisebwyr.

Yn olaf, hoffwn gofnodi diolchiadau'r pwyllgor i'r deisebwyr eu hunain, i bawb a ymatebodd i'n hymgyngoriad ysgrifenedig, ac i'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar, yn arbennig i'r disgyblion a'r staff yn Ysgol Uwchradd Prestatyn am eu hamser a'u lletygarwch. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau'r pwyllgor a staff y pwyllgor a fu'n ein cynorthwyo wrth i ni ystyried y ddeiseb a chynhyrchu'r adroddiad.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deisebau am ddod â hyn i'r Cyfarfod Llawn gan fy mod yn credu ei fod yn tynnu sylw at faterion dwys sydd angen eu trafod yn ofalus.

Rwy'n credu bod angen cydnabod y rhan bwysig y gall y fyddin ei chwarae yn rhoi sgil, crefft drosglwyddadwy, trefn strwythuredig, gan gynnwys ffitrwydd corfforol, i bobl ifanc na fyddent fel arall, o bosibl, yn cael y manteision y mae pobl o deuluoedd mwy cefnog yn eu cymryd yn ganiataol. Rwy'n cydnabod ei fod yn gallu bod yn achubiaeth, yn llythrennol, i lawer o bobl ifanc. Fodd bynnag, nid gêm fideo bywyd go iawn yw ymuno â'r fyddin, a gallai pobl mor ifanc â 16 oed gael eu camarwain i gredu hynny.

Mae gwrthdaro milwrol yn fater peryglus, anhagweladwy, a thrawmatig, ac mae bod yn y fyddin yn golygu y gallech gael eich gollwng mewn parasiwt mewn parth gwrthdaro gyda'r posibilrwydd gwirioneddol o gael eich gorchymyn i ladd rhywun nad ydych erioed wedi eu cyfarfod nac yn gwybod dim amdanynt. Mae bod yn y fyddin yn cynnwys posibilrwydd o gael eich lladd neu eich anafu'n barhaol, naill ai'n gorfforol neu'n feddyliol. Gall erchyllterau gwrthdaro milwrol fod mor drawmatig fel bod llawer yn ei chael yn anodd iawn ailadeiladu bywyd arferol. Gallaf feddwl am nifer o etholwyr sydd yn y sefyllfa honno, sy'n ei chael yn anodd iawn i feithrin perthynas dda ag eraill a thorri'n rhydd o unigrwydd y teimlad o fod fel pysgod allan o ddŵr braidd, ac sy'n sicr yn cael anhawster mawr i ddod o hyd i waith addas.

Nodaf mai Prydain yw'r unig wlad yn yr UE sy'n caniatáu i'r lluoedd arfog fynd i ysgolion, ac mai Prydain yw'r unig wlad yn yr UE sy'n recriwtio pobl ifanc 16 mlwydd oed, ac mae'r ddeiseb yn honni bod nifer anghymesur o ymweliadau'r fyddin ag ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Rwyf wedi darllen dystiolaeth y Pwyllgor Deisebau sy'n dweud nad yw'n eglur a yw hynny'n ffeithiol gywir mewn gwirionedd, ond er hynny, mae gennyf bryderon y gallai fod lefelau is o lythrennedd a rhifedd ymhlith recriwtiaid na'r boblogaeth yn gyffredinol, a hynny mewn llwybr gyrfaol lle y mae'r ddau yn bendant yn hanfodol er mwyn gallu gwneud y gwaith yn gywir.

I think there are considerable concerns about how the army trains its new recruits. We can all recall the death of the three trainees on Pen y Fan on one of the hottest days of the year in 2003, and since then, there have been the deaths of other trainees. I feel very much that, in peacetime situations, the army should be subject to the same health-and-safety and duty-of-care scrutiny as any other employer, and that principle most definitely applies when we come to considering what has been happening at Deepcut barracks over so many years. We still do not have clear explanations of how these five young people died, but there have been persistent reports of bullying and serious sexual harassment, which is entirely relevant to whether or not we should be allowing the army to recruit vulnerable young people from our schools.

We should recall Cheryl James from Llangollen. Her parents have never been given a full explanation as to how she died, but Liberty had to use the Human Rights Act 1998 to obtain access to 40 key documents that could shed some light on this matter, which then resulted in a new inquest, including the exhuming of her body. It would be interesting to know, in the case of all five young people who have died in either a deemed suicide or unexplained open verdict deaths, how all these young people were recruited, what their education levels were and what other career choices they might have had. The army training programme must be beyond reproach and must be ensuring that young people are accurately told about the career path that they are taking and the possibility that they will be involved with war. These are really good reasons why we should be very cautious about army recruitment in our schools.

Rwy'n credu bod yna bryderon sylweddol ynghylch y modd y mae'r fyddin yn hyfforddi ei recriwtiaid newydd. Mae pob un ohonom yn cofio marwolaeth y tri hyfforddai ar Ben y Fan ar un o ddiwrnodau poethaf y flwyddyn yn 2003, ac ers hynny, cafwyd marwolaethau hyfforddeion eraill. Rwy'n teimlo'n gryf iawn y dylai'r fyddin, mewn sefyllfaoedd heddychlon, fod yn rhwym wrth yr un math o graffu ar iechyd a diogelwch a dyletswydd gofal ag unrhyw gyflogwr arall, ac mae'r egwyddor honno'n bendant yn berthnasol o ystyried yr hyn a fu'n digwydd ym marics Deepcut dros gymaint o flynyddoedd. Nid ydym eto wedi cael eglurhad clir ynglŷn â sut y bu'r pump o bobl ifanc hyn farw, ond cafwyd adroddiadau parhaus o fwlio ac aflonyddu rhywiol difrifol, sy'n gwbl berthnasol i'r cwestiwn a ddylem fod yn caniatáu i'r fyddin recriwtio pobl ifanc sy'n agored i niwed yn ein hysgolion.

Dylem gofio am Cheryl James o Langollen. Nid yw ei rhieni erioed wedi cael esboniad llawn ynglŷn â sut y bu farw, ond roedd yn rhaid i Liberty ddefnyddio Deddf Hawliau Dynol 1998 i gael mynediad at 40 o ddogfennau allweddol a allai daflu rhywfaint o oleuni ar y mater, ac arweiniodd hynny at gwest newydd, yn cynnwys datgladdu ei chorff. Byddai'n ddiddorol gwybod, yn achos pob un o'r pump o bobl ifanc sydd wedi marw naill ai drwy hunanladdiad tybiedig neu farwolaethau dedfryd agored heb esboniad, sut y cafodd yr holl bobl ifanc hyn eu recriwtio, beth oedd eu lefelau addysg a pha ddewisiadau gyrfa eraill a allai fod wedi bod ar gael iddynt. Mae'n rhaid i raglen hyfforddiant y fyddin fod yn un na ellir gweld bai arni ac yn un sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael y wybodaeth gywir am y llwybr gyrfa y maent yn ei ddewis a'r posibilrwydd y byddant yn gorfod cymryd rhan mewn rhyfel. Mae'r rhain yn rhesymau da iawn pam y dylem fod yn ofalus iawn ynglŷn â'r fyddin yn recriwtio yn ein hysgolion.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rise to contribute to this debate as the Chair of the cross-party group on the armed forces and cadets and, indeed, a participant in the Assembly armed forces scheme. I know there are other Members of this Chamber who've participated in that as well. I think it's really important to stress that none of the armed forces are actually visiting schools for recruitment purposes. The evidence that was given to the committee—none of it actually suggested that that was the reason for those visits. They only actually attend schools, or visit them, on being extended an invitation by those individual schools, and they seek to contribute to the life of that school, yes, of course, by talking about their work and the important work that they do, but also actually helping to deliver the national curriculum is part of the work that they do. They visit thousands of schools across the UK each year, and I was pleased to note that the committee found that there was absolutely no evidence that they could see that there was a deliberate targeting of those visits at areas that had relatively high deprivation. I do think that it's probably hardly surprising that there are some schools that tend to invite the armed forces in more regularly than others. That's sometimes to do with the disposition of the headteachers in those schools. It's sometimes because of long associations that those schools have had with the armed forces because there are many armed forces families in the communities in which they actually lie, and that includes, of course, places in areas of deprivation here in Wales. We know that Wales, of course, is a higher contributor in terms of armed forces personnel per capita than many other parts of the UK.

There's also no denying, of course, that there is a wealth of opportunities for careers to be developed within the armed forces. There seems to be an assumption that almost all of those career opportunities are combat-related in the Chamber here today. Of course, that is not the case. Many careers in the armed forces don't involve any sort of combat whatsoever and are perfectly legitimate choices for young people and others to make in terms of trades that can be developed, managerial careers—I mean, you can be a bean counter in the army and not have to go into combat. I do think it's important that all of our young people are able to see the breadth of those opportunities, and if these visits to schools help to facilitate that then I believe that it can only be a positive thing. I think also that our young people deserve to know about the important role that our armed forces play overseas in keeping the peace around the world. There are huge peacekeeping operations that our armed forces are involved in, and that is something, I think, to be commended and something that our young people need to be aware of.

I don't think it would be appropriate to prevent the armed forces from visiting our schools. I think that would be discriminatory towards the armed forces in a way that schools don't discriminate against other employers. I have to say this to those who argue that other businesses, other trades, other organisations aren't going into our schools: if they were invited, I'm sure they would go along, and perhaps if they made a bit more of an effort to engage with schools in their local communities, they would also be invited themselves.

Rwy'n codi i gyfrannu at y ddatl hon fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog a'r cadetiaid ac yn wir, fel aelod o gynllun lluoedd arfog y Cynulliad. Gwn fod Aelodau eraill o'r Siambr hon wedi cymryd rhan yn y cynllun hwnnw hefyd. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig pwysleisio nad oes yr un o'r lluoedd arfog yn ymweld ag ysgolion at ddiwionerwr mewn gwirionedd. O ran y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor—nid oedd dim ohoni'n awgrymu mai dyna'r rheswm dros yr ymweliadau hynny. Yr unig adeg y byddant yn mynd i ysgolion, neu'n ymweld â hwy, yw ar ôl derbyn gwahoddiad gan yr ysgolion unigol hynny, ac maent yn ceisio cyfrannu tuag at fywyd yr ysgol honno, wrth gwrs hynny, drwy siarad am eu gwaith a'r gwaith pwysig y maent yn ei wneud, ond hefyd mae helpu i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol yn rhan o'r gwaith a wnânt. Maent yn ymweld â miloedd o ysgolion ar draws y DU bob blwyddyn, ac roeddwn yn falch o nodi nad oedd y pwyllgor wedi gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o gwbl fod yr ymweliadau hynny'n targedu ardaloedd ag amddifadedd cymharol o uchel yn fwriadol. Rwy'n credu nad yw'n fawr o syndod fod rhai ysgolion yn tueddu i wahodd y lluoedd arfog yn fwy rheolaidd nag eraill. Weithiau, mae hynny'n ymwneud ag agwedd penaethiaid yr ysgolion hynny. Weithiau, mae'n deillio o gysylltiadau hir rhwng yr ysgolion hynny a'r lluoedd arfog gan fod llawer o deuluoedd y lluoedd arfog yn byw yng nghymunedau'r ysgolion, gan gynnwys, wrth gwrs, lleoedd mewn ardaloedd o amddifadedd yma yng Nghymru. Gwyddom fod Cymru, wrth gwrs, yn cyfrannu mwy o bersonél lluoedd arfog y pen na sawl rhan arall o'r DU.

Ni ellir gwadu chwaith, wrth gwrs, fod yna gyfoeth o gyfleoedd ar gyfer datblygu gyrfaedd yn y lluoedd arfog. Mae'n ymddangos bod rhagdybiaeth yn y Siambr hon heddiw fod bron pob un o'r cyfleoedd gyrfaol hynny'n gysylltiedig ag ymladd. Nid yw hynny'n wir, wrth gwrs. Ceir llawer o yrfaedd yn y lluoedd arfog nad ydynt yn cynnwys unrhyw fath o ymladd o gwbl ac maent yn ddewisiadau hollol ddilys i bobl ifanc ac eraill eu gwneud yn nhermau crefftau y gellir eu datblygu, gyrfaedd rheoli—hynny yw, gallwch fod yn gyfrifydd ffa yn y fyddin ac ni fyddai'n rhaid i chi ymladd. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig fod pob un o'n pobl ifanc yn gallu gweld ehangder y cyfleoedd hyn, ac os yw'r ymweliadau ag ysgolion yn helpu i hwyluso hynny, yna mae hynny'n beth cadarnhaol. Rwy'n credu hefyd fod ein pobl ifanc yn haeddu cael gwybod am rôl bwysig ein lluoedd arfog dramor yn cadw'r heddwch ar draws y byd. Mae ein lluoedd arfog yn rhan o weithgarwch cadw'r heddwch enfawr, ac mae hynny i'w ganmol, rwy'n credu, ac yn rhywbeth y mae angen i'n pobl ifanc fod yn ymwybodol ohono.

Nid wyf yn credu y byddai'n briodol atal y lluoedd arfog rhag ymweld â'n hysgolion. Rwy'n credu y byddai hynny'n dangos agwedd wahaniaethol tuag at y lluoedd arfog mewn ffordd nad yw ysgolion yn gwahaniaethu yn erbyn cyflogwyr eraill. Mae'n rhaid i mi ddweud hyn wrth y rhai sy'n dadlau nad yw busnesau eraill, crefftau eraill, a sefydliadau eraill yn ymweld â'n hysgolion: pe baent yn cael eu gwahodd, rwy'n siwr y byddent yn mynd, ac efallai pe baent yn gwneud ychydig mwy o ymdrech i ymgysylltu ag ysgolion yn eu cymunedau lleol, byddent hwythau hefyd yn cael eu gwahodd.

One thing that hasn't been mentioned by any speakers yet, and I know that this is something that the Minister has taken a great interest in, is the very positive contribution that uniformed professions make to our schools, particularly with their cadet programmes. There are cadet programmes across Wales with the fire brigades and with the police forces and, indeed, we have combined cadet forces that operate under the auspices of the armed forces and with their support. We mustn't forget that many of those programmes are helping young people to make achievements that they would not be able to achieve otherwise. They're getting qualifications—cadet vocational qualifications. These are the equivalent of four GCSEs for many of these young people; GCSEs and qualifications that they wouldn't have under their belts if it wasn't for the positive contribution being made by the armed forces and some of these uniformed professions.

So, I'm a huge fan of the work that's being done with the armed forces. The way that they're engaging with schools, I think, is a very positive feature of what is going on across Wales. I would urge everybody in this Chamber to do what they can to go along to a visit when the armed forces visit a school in their constituency to see the work that they do. I'm sure that you'll be given every assurance as a result of that visit that there's no attempt to make any recruitment of the individuals in those schools.

16:26 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak in this important debate today. I speak as a patron of the Motivational Preparation College for Training—or MPCT for short—and also as a member of the Royal British Legion. While I disagree with the call of the petitioners to ban the armed forces from visiting schools, I welcome the Petitions Committee's balanced report and I also welcome the Welsh Government's encouraging response.

This is an important area in terms of careers advice and skills and training provision, with particular regard to areas of Wales that are relatively deprived. Deputy Llywydd, last week, I hosted a presentation evening on behalf of the MPCT here in the Senedd and I was delighted to see a number of other Members there as well. Those who attended will have seen the discipline and sense of pride that the college instils in its students. Many of its students join them upon leaving school after their GCSEs, many of whom struggle academically and may have had behavioural problems earlier in life. The MPCT provides them with a structured programme of learning and training, acquiring skills, both hard and soft, that help them to progress to further careers elsewhere.

Un peth sydd heb gael ei grybwyll gan unrhyw siaradwr eto—a gwn ei fod yn fater y mae'r Gweinidog wedi bod â diddordeb mawr ynddo—yw'r cyfraniad cadarnhaol iawn y mae proffesiynau mewn lifrai yn ei wneud i'n hysgolion, yn enwedig gyda'u rhaglenni cadetiaid. Ceir rhaglenni cadét ar draws Cymru gyda'r brigadau tân a'r heddluoedd ac yn wir, mae gennym luoedd cadét wedi'u cyfuno sy'n gweithredu dan nawdd y lluoedd arfog a chyda'u cefnogaeth. Mae'n rhaid i ni beidio ag anghofio bod llawer o'r rhaglenni hyn yn helpu pobl ifanc i gyflawni mewn modd na fyddent wedi gallu ei wneud fel arall. Maent yn cael cymwysterau—cymwysterau galwedigaethol i gadetiaid. Mae'r rhain yn gyfwerth â phedair TGAU i lawer o'r bobl ifanc hyn; TGAU a chymwysterau na fyddai ganddynt i'w henw oni bai am y cyfraniad cadarnhaol a wneir gan y lluoedd arfog a rhai o'r proffesiynau mewn lifrai hyn.

Felly, rwy'n frwd fy nghefnogaeth i'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r lluoedd arfog. Mae'r ffordd y maent yn ymgysylltu ag ysgolion, rwy'n credu, yn nodwedd gadarnhaol iawn o'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru. Byddwn yn annog pawb yn y Siambr hon i wneud yr hyn a allant i fynd draw i weld pan fydd y lluoedd arfog yn ymweld ag ysgol yn eu hetholaeth i weld y gwaith y maent yn ei wneud. Rwy'n siŵr y cewch bob sicrwydd o ganlyniad i'r ymweliad nad oes unrhyw ymgais i recriwtio unrhyw unigolion yn yr ysgolion hynny.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddatllyth bwysig hon heddiw. Rwy'n siarad fel un o noddwyr y Coleg Hyfforddi Paratoi Ysgogiadol—neu MPCT yn fyr—a hefyd fel aelod o'r Llywodraeth Frenhinol. Er fy mod yn anghytuno â galwad y deisebwyr i wahardd y lluoedd arfog rhag ymweld ag ysgolion, rwy'n croesawu adroddiad cytbwys y Pwyllgor Deisebau ac rwyf hefyd yn croesawu ymateb calonogol Llywodraeth Cymru.

Mae hwn yn faes pwysig o ran cyngor a sgiliau gyrfaoedd a'r ddarpariaeth hyfforddiant, gyda sylw arbennig i ardaloedd yng Nghymru o amddifadedd cymharol. Ddirprwy Lywydd, yr wythnos diwethaf, cynhaliais noson gyflwyno ar ran yr MPCT yma yn y Senedd ac roeddwn wrth fy modd yn gweld nifer o Aelodau eraill yno hefyd. Bydd y rhai a fynychodd y digwyddiad wedi gweld y ddisgyblaeth a'r ymdeimlad o falchder y mae'r coleg yn ei gymhell yn ei fyfyrwyr. Mae llawer o fyfyrwyr y coleg yn ymuno â hwy ar ôl gadael yr ysgol yn dilyn eu harholiadau TGAU, a llawer ohonynt wedi ei chael hi'n anodd yn academiaidd ac o bosibl wedi cael trafferthion ymddygiad yn gynharach yn eu bywydau. Mae'r MPCT yn rhoi rhaglen strwythuredig o ddsygu a hyfforddiant iddynt, gan feithrin sgiliau caled a meddal, sy'n eu helpu i gamu ymlaen i yrfaoedd pellach mewn mannau eraill.

While MPCT has no formal links with the military, it was set up by a former army officer and many of its graduates go on to successfully enter the armed forces and other walks of life. I recognise, of course, that a full-time career in the armed forces may not be suitable for everyone. It may be the case that a young person has specific or transferrable skills and capabilities that can benefit the armed forces, but they, as individuals, may not be suited for front-line duty. So, when the armed forces are invited into schools to explain the benefits of a possible career in the military, it needs to be made clear that it is a unique career in many ways. Being in the armed forces is not your ordinary nine-to-five day job and I'm pleased that the Welsh Government's response to the report acknowledges this and look forward to further updates in due course.

Nonetheless, I do not think it would be appropriate, as the petition calls, to ban the armed forces from visiting schools. It is wrong to imply that they intentionally and purposefully recruit from schools in deprived areas. I know of no evidence, for instance, that schools serving the more deprived areas of my constituency send a disproportionately high number of pupils into the armed forces. As evidence to the Petitions Committee points out, the armed forces only attend schools if they are invited to do so. This, of course, remains the prerogative of the schools themselves, and in particular that of headteachers and school governing bodies.

It should, therefore, be made clear to pupils that a career in the armed forces is, as I have said, not your average career. It is a very different one in which a successful recruit will be subject to military discipline, where they could be posted far away from home in unfamiliar and potentially hostile environments, and that they join the forces in the full knowledge that, one day, they may be sent into a theatre of war. However, other than that significant caveat, the armed forces should not be treated any differently from other prospective employers who visit schools. Learners must be free and able to make their own informed choice. They should also be made aware that a career in the armed forces may not necessarily mean a career as a front-line soldier and that it can result in the acquisition of skills that will be valuable to employers in other walks of life.

In conclusion, Deputy Llywydd, I would once again like to welcome this report and the Welsh Government's response. While I disagree with the premise of the petition, I acknowledge that it has brought important issues to the table and that it has allowed me to focus on the benefits that a career in the armed forces or time learning at an organisation like MPCT can bring to a young person in terms of confidence, motivation, skills and training. I have seen these results at first hand. I welcome the Welsh Government's development of a new, enhanced employer engagement mode and look forward to scrutinising this further.

Er nad oes gan MPCT unrhyw gysylltiadau ffurfiol â'r fyddin, fe'i sefydlwyd gan gyn swyddog yn y fyddin ac mae llawer o'r graddedigion yn llwyddo i gamu ymlaen i fod yn aelodau o'r lluoedd arfog a swyddi eraill mewn bywyd. Rwy'n cydnabod, wrth gwrs, nad yw gyrfa amser llawn yn y lluoedd arfog yn addas i bawb. Gall fod yn wir fod gan berson ifanc sgiliau a galluoedd penodol neu drosglwyddadwy a all fod o fudd i'r lluoedd arfog, ond mae'n bosibl nad ydynt, fel unigolion, yn addas ar gyfer dyletswydd rheng flaen. Felly, pan fydd y lluoedd arfog yn cael eu gwahodd i ysgolion i egluro manteision gyrfa bosibl yn y fyddin, mae angen gwneud yn glir ei bod yn yrfa unigryw mewn sawl ffordd. Nid yw bod yn y lluoedd arfog yn swydd arferol naw tan bump ac rwy'n falch bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn cydnabod hyn ac yn edrych ymlaen at ddiweddariadau pellach maes o law.

Serch hynny, nid wyf yn credu y byddai'n briodol gwahardd y lluoedd arfog rhag ymweld ag ysgolion fel y mae'r ddeiseb yn galw amdano. Mae'n anghywir awgrymu eu bod yn mynd ati'n fwrriadol ac yn bwrsadol i recriwtio unigolion o ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth, er enghraifft, fod ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd mwy difreintiedig yn fy etholaeth yn anfon nifer anghymesur o uchel o ddisgyblion i'r lluoedd arfog. Fel y mae'r dystiolaeth i'r Pwyllgor Deisebau yn ei ddangos, nid yw'r lluoedd arfog yn mynychu ysgolion oni bai eu bod yn cael eu gwahodd i wneud hynny. Hawl yr ysgolion eu hunain yw hyn o hyd, wrth gwrs, a hawl penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion yn benodol.

Felly, dylid ei gwneud yn glir i ddisgyblion nad yw gyrfa yn y lluoedd arfog, fel y dywedais, yn yrfa gyffredin. Mae'n un wahanol iawn a bydd unrhyw un y llwyddir i'w recriwtio yn ddarostyngedig i ddisgyblaeth filwrol, lle y gallai gael ei anfon yn bell i ffwrdd o'i gartref i amgylcheddau anghyfarwydd a gelyniaethus o bosibl, ac maent yn ymuno â'r lluoedd arfog gan wybod yn iawn y gallant gael eu hanfon i ryfel rhyw ddydd. Fodd bynnag, ar wahân i'r cafeat sylweddol hwnnw, ni ddylid trin y lluoedd arfog yn wahanol i ddarpar gyflogwyr eraill sy'n ymweld ag ysgolion. Mae'n rhaid i ddisgyblion allu bod yn rhydd i wneud eu penderfyniad gwybodus eu hunain. Dylent fod yn ymwybodol hefyd nad yw gyrfa yn y lluoedd arfog o reidrydd yn golygu gyrfa fel milwr rheng flaen ac y gall arwain at feithrin sgiliau a fydd yn werthfawr i gyflogwyr mewn swyddi eraill mewn bywyd.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, unwaith eto hoffwn groesawu'r adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru. Er fy mod yn anghytuno â rhagosodiad y ddeiseb, rwy'n cydnabod ei fod wedi dod â materion pwysig i'n sylw ac wedi fy ngalluogi i ganolbwyntio ar y manteision y gallai gyrfa yn y lluoedd arfog neu amser yn dysgu mewn sefydliad fel MPCT eu rhoi i berson ifanc o ran hyder, ysgogiad, sgiliau a hyfforddiant. Rwyf wedi gweld y canlyniadau hyn yn uniongyrchol. Rwy'n croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull newydd gwell o ymgysylltu â chyflogwyr ac yn edrych ymlaen at graffu ar hyn ymhellach.

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's been interesting to see the reaction to this report, and, if the conclusions of the Petitions Committee here are both evidenced and reasoned, it seems that some of the comments in the media haven't been that way. My understanding is that the Ministry of Defence is not entirely correct in saying that the armed forces teams only visit—only visit—at the specific invitation of schools and colleges. From my experience, and from what I was led to understand from when we visited the school in Prestatyn—and I'm happy to be corrected—they had an ongoing conversation with the army. They told us that the army were very keen and very proactive in getting in touch with them to go into the schools and that is why they had the army in there—because they didn't have as many other businesses. They used the words that it is very 'tricky' to get other industries into schools in that area. So, I think that there is a wider debate than just saying that schools automatically contact the armed forces and that is as simple as the relationship goes. I think that they have much more resources to be able to go into schools than, say, a small business in the area that cannot afford, potentially, to take time out of its business to go and throw money at schools in this way.

I deeply resent the suggestion that this report is in some way unpatriotic or a disservice to serving soldiers. This claim doesn't stand up to the most basic scrutiny, but, like much of the hysteria we've seen in the right-wing media in recent weeks, that doesn't appear to be any kind of bar to saying such nonsense. I think, if you do look at the facts, ForcesWatch gave us information to say that over 75 per cent of schools in the state sector were visited and such low percentages in terms of the independent schools in Wales that were visited—. Then schools in Wales were visited twice as often as ones in other areas of the UK. So, you know, I think we do need to be mindful of saying that there's no agenda here in where the armed forces target their recruitment.

The comments I've been making today and in the press have been about, 'Let's open the debate to having a wide variety of people going into schools, not just the army'. These are formative years for young people. We know that people form opinions from a very young age, and I think it's very important then for us, as AMs, to be able to debate this in a grown-up way. You know, it's no surprise that McDonald's has a saying, 'Get 'em young, get 'em for life'. It's one of the reasons why the burger chain is also one of the largest toy manufacturers. So, I think we need to make sure that we can have our students aspire to what they want to be and not be shaped into what, potentially, others want them to be.

Mae wedi bod yn ddiddorol gweld yr ymateb i'r adroddiad, ac os yw casgliadau'r Pwyllgor Deisebau yma yn seiliedig ar dystiolaeth a rhesymeg, mae'n ymddangos nad yw hynny'n wir am rai o'r sylwadau a wnaed yn y cyfryngau. Yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, nid yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwbl gywir yn dweud nad yw'r timau lluoedd arfog ond yn ymweld—ond yn ymweld— ag ysgolion a cholegau os ydynt wedi derbyn gwahoddiad penodol ganddynt yn unig. O fy mhrofiad i, ac o'r hyn y cefais fy arwain i ddeall pan ymwelsom â'r ysgol ym Mhrestatyn—ac rwy'n hapus i gael fy nghywiro—roeddent yn trafod â'r fyddin yn gyson. Dywedodd yr ysgol wrthym fod y fyddin yn awyddus iawn ac yn rhagweithiol iawn yn dod i gysylltiad â hwy er mwyn mynd i'r ysgolion ac mai dyna pam yr oeddent yn cael y fyddin yno—am nad oedd ganddynt gymaint o fusnesau eraill. Roeddent yn dweud ei bod hi'n anodd iawn cael diwydiannau eraill i ddod i ysgolion yn yr ardal. Felly, credaf fod y ddadl yn ehangach na dweud bod ysgolion yn cysylltu â'r lluoedd arfog yn awtomatig ac mai dyna'n syml yw'r berthynas. Rwy'n credu bod ganddynt lawer mwy o adnoddau i allu mynd i ysgolion na busnes bach yn yr ardal, er enghraifft, nad yw'n gallu fforddio cymryd saib o'r busnes, o bosibl, i fynd i daflu arian at ysgolion yn y ffordd hon.

Rwy'n ddig iawn ynglŷn â'r awgrym fod yr adroddiad hwn yn anwlatgarol mewn rhyw ffordd neu'n gwneud cam â milwyr sy'n gwasanaethu. Nid oes unrhyw sail o gwbl dros yr honiad, ond fel llawer o'r hysteria a welsom yn y cyfryngau asgell dde dros yr wythnosau diwethaf, nid yw hynny i'w weld yn unrhyw fath o rwystr rhag dweud sothach o'r fath. Os edrychwch ar y ffeithiau, rhoddodd ForcesWatch wybodaeth i ni a ddywedai fod dros 75 y cant o ysgolion yn y sector gwladol wedi cael ymweliad ac roedd canrannau mor isel o ysgolion annibynnol yng Nghymru wedi cael ymweliad—. Yna ymwelwyd ag ysgolion yng Nghymru ddwywaith mor aml ag ysgolion mewn ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig. Felly, wyddoch chi, rwy'n credu bod angen i ni wyllo rhag dweud nad oes agenda yma lle y mae'r lluoedd arfog yn targedu eu gwaith recriwtio.

Mae'r sylwadau a wneuthum heddiw ac yn y wasg wedi ymwneud â, 'Beth am agor y ddadl i gael amrywiaeth eang o bobl yn mynd i ysgolion, nid y fyddin yn unig'. Mae'r rhain yn flynyddoedd ffurfiannol i bobl ifanc. Rydym yn gwybod fod pobl yn ffurfio barn o oedran ifanc iawn, ac rwy'n credu felly ei bod yn bwysig iawn i ni, fel Aelodau Cynulliad, allu trafod hyn fel oedolion. Wyddoch chi, nid yw'n syndod fod gan McDonalds ddywediad, 'Get 'em young, get 'em for life'. Mae'n un o'r rhesymau pam y mae'r gadwyn fyrgyrs hefyd yn un o'r gwneuthurwyr teganau mwyaf. Felly, rwy'n credu bod angen i ni wneud yn siŵr fod ein disgyblion yn anelu i fod yr hyn y maent eisiau bod a pheidio â chael eu troi'n beth y mae pobl eraill am iddynt fod o bosibl.

The military life has much to commend it. I have friends who serve in the military. It has a record of taking young men and women, including those from adversity, and giving them a decent future. But, equally, by focusing on those from deprived backgrounds, are we really looking to —. As I said earlier, we want to expand their horizons to look at other sectors and other businesses. And let's be honest here: as was hinted at earlier, the armed forces teams are not, in my view, presenting the profession as one fraught with danger. They're not going into detail on what it is like to fight in conflict, what it means for someone's family if they die in battle, what it means for a young soldier who is wounded, who loses a limb, or who is mentally scarred.

Take a look at the adverts the military run, with their emphasis on skills and a glamorous, globe-trotting lifestyle that we'd usually associate with playboys. It's not in the military's interest to talk up the downside of the job and if, instead, what they tell pupils equates with their other marketing techniques that we see on the streets of Wales, then, potentially, that could be argued as being recruitment—no, not directly recruiting in schools, because they're not allowed to do that, but setting the seed for those young people to join the army, giving them interview techniques, and giving them presentation activities and skills. Well, if that's not preparing somebody for the world of entering that sector, then I don't know what it is doing.

I looked earlier today at a freedom of information request that Plaid Cymru did in 2009. Some of the categories within that FOI said 'recruitment surges', and they listed the different areas of Wales where they were doing that. They have been quite honest in using the word 'recruitment', so it does beg the question as to why they're denying it so heavily now.

As I began in saying, I think that on other issues, like e-cigarettes and smoking in cars with children, we have that debate here in the National Assembly. We think it's important to discuss issues surrounding young people, and I think that this is a massively important issue. If we are sending our young people to die, potentially, in a war zone, then they need to be a part of the discussion on their own future as to what type of education they have in their schools. I hope that this petition can form part of that debate.

Mae yna lawer i'w gymeradwyo yn y bywyd milwrol. Mae gen i ffrindiau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Mae ganddynt enw am dderbyn dynion a menywod ifanc, gan gynnwys rhai sydd wedi wynebu caledi, a rhoi dyfodol gweddus iddynt. Ond yn yr un modd, drwy ganolbwyntio ar rai o gefndiroedd difreintiedig, a ydym mewn gwirionedd yn ceisio—. Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn awyddus i ehangu eu gorwelion i edrych ar sectorau eraill a busnesau eraill. A gadewch i ni fod yn onest yma: fel yr awgrymwyd yn gynharach, nid yw timau'r lluoedd arfog, yn fy marn i, yn cyflwyno'r proffesiwn fel un llawn perygl. Nid ydynt yn manylu ar sut brofiad yw ymladd mewn gwrthdaro, na'r hyn y mae'n ei olygu i deulu rhywun os yw'n marw mewn brwydr, na'r hyn y mae'n ei olygu i filwr ifanc sy'n cael ei anafu, sy'n colli coes neu fraich, neu sy'n cael ei greithio'n feddyliol.

Edrychwch ar yr hysbysebion sy'n cael eu dangos gan y lluoedd arfog, gyda'u pwyslais ar sgiliau a ffordd o fyw hudol yn teithio'r byd heb gyfrifoldebau. Nid yw'n fuddiol i'r fyddin siarad am anfanteision y swydd, ac yn lle hynny, os yw'r hyn y maent yn ei ddweud wrth ddisgyblion yn cyfateb i'w technegau marchnata eraill a welwn ar strydoedd Cymru, yna, gellid dadlau o bosibl mai ffordd o recriwtio yw hynny—na, nid recriwtio'n uniongyrchol mewn ysgolion, oherwydd nid ydynt yn cael gwneud hynny, ond plannu'r hedyn ym meddyliau'r bobl ifanc hyn i ymuno â'r fyddin, gan roi technegau cyfweliad iddynt, a rhoi gweithgareddau a sgiliau cyflwyno iddynt. Wel, os nad yw hynny'n paratoi rhywun ar gyfer mynd i mewn i'r sector, yna nid wyf yn gwybod beth y mae'n ei wneud.

Edrychais yn gynharach heddiw ar gais rhyddid gwybodaeth a wnaeth Plaid Cymru yn 2009. Roedd rhai o'r categorïau yn y Cais Rhyddid Gwybodaeth hwnnw yn sôn am 'ymchwyddiadau recriwtio', ac roeddent yn rhestru'r gwahanol ardaloedd o Gymru lle roeddent yn gwneud hynny. Maent wedi bod yn eithaf gonest wrth ddefnyddio'r gair 'recriwtio', felly mae'n rhaid gofyn pam eu bod yn ei wadu mor gryf yn awr.

Fel y dechreuais ddweud, ar faterion eraill, megis e-sigarêts ac ysmegu mewn ceir sy'n cludo plant, rydym yn cael y drafodaeth honno yma yn y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn credu ei bod yn bwysig trafod materion sy'n ymwneud â phobl ifanc, a chredaf fod hwn yn fater aruthrol o bwysig. Os ydym yn anfon ein pobl ifanc i farw, o bosibl, ar faes y gad, yna mae angen iddynt fod yn rhan o'r drafodaeth ar eu dyfodol eu hunain o ran pa fath o addysg y maent yn ei chael yn eu hysgolion. Gobeithiaf y gall y ddeiseb hon ffurfio rhan o'r ddatl honno.

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A couple of weeks ago I spoke at a Pembrokeshire College event to promote business skills, and there were lots of stakeholders in the room, to use the jargon. It was organised by Njord Energy Ltd, a wind energy company, promoted by the South Wales Chamber of Commerce, and it was held at the college. I talked about how collaboration between education institutions and industry can open up opportunities for young people. I think that that comes through in this report too. It is, in my opinion, good that young people can learn about the unique nature of a career in the armed forces. However, it is one option. Young people should be exposed to as many opportunities as possible; the Government has acknowledged as much in its response to the report. I look forward to seeing how the new enhanced employer development project takes shape over the coming months.

The petition was prompted by concerns that the armed forces make disproportionately more visits to Welsh secondary schools than the rest of the UK, and to more schools in poorer areas. I should think—and it is, again, my opinion—that this has something to do with areas already having a military presence or where there are fewer alternative industries that might visit those schools. Having grown up in a military family and lived around military communities in west Wales all my life, I appreciate how the armed forces is part of the fabric of many Welsh communities. Growing up, I went to the events and to the celebrations. I played at the sports facilities, and they were always better than the local ones. I went to the cinema, and we were lucky to live in military housing—at that time, that military housing was much more advanced than any other form of social housing in the area.

The other issue that I want to take up—and it has been mentioned around this Chamber this afternoon—is the inference that you have, somehow, lower aspirations and lower academic abilities before you join the army. It has been said repeatedly here today. I have to take issue with that, as somebody whose father was in the army and who was certainly not of low academic ability. I really do feel that that has to go on the record because I think that that is quite clearly not recognising or giving any value to the young people who went into that career by choice. I really have to speak up on their behalf.

So, I will come back to what I was going to say. I am pleased, as I said, that the Government has made a commitment, but I think we also have to recognise—and I'm going to reiterate it—that it is the schools, the headteachers and the governors who make a decision about the best interests of the young people. It is they, and they alone, who will invite the armed forces in to visit a school, and they cannot enter that school unless they've had that invitation.

Ychydig wythnosau yn ôl siaradais mewn digwyddiad yng Ngholeg Sir Benfro i hyrwyddo sgiliau busnes, ac roedd llawer o randdeiliaid yn yr ystafell, i ddefnyddio'r jargon. Fe'i trefnwyd gan Njord Energy Cyf, cwmni ynni gwynt, a hyrwyddir gan Siambr Fasnach De Cymru, ac fe'i cynhaliwyd yn y coleg. Siaredais ynglŷn â sut y gall cydweithio rhwng sefydliadau addysg a diwydiant greu cyfleoedd i bobl ifanc. Credaf fod hynny i'w weld yn yr adroddiad hwn hefyd. Yn fy marn i, mae'n beth da fod pobl ifanc yn gallu dysgu am natur unigryw gyrfa yn y lluoedd arfog. Fodd bynnag, un opsiwn ydyw. Dylid sicrhau bod pobl ifanc yn agored i gynifer o gyfleoedd ag y bo modd; mae'r Llywodraeth wedi cydnabod hynny yn ei hymateb i'r adroddiad. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y bydd y prosiect estynedig newydd ar gyfer datblygu cyflogwyr yn ymfurfio dros y misoedd nesaf.

Ysgogwyd y ddeiseb gan bryderon fod y lluoedd arfog yn ymweld â nifer fwy o ysgolion uwchradd yng Nghymru ar gyfartaledd nag yng ngweddill y DU, a mwy o ymweliadau ag ysgolion mewn ardaloedd tlotach. Rwy'n credu—ac unwaith eto, fy marn i yw hon—fod gan hyn rhywbeth i'w wneud ag ardaloedd sydd eisoes â phresenoldeb milwrol neu ble y ceir llai o ddiwydiannau eraill a allai ymweld â'r ysgolion hynny. Ar ôl cael fy magu mewn teulu milwrol a byw o gwmpas cymunedau milwrol yng ngorllewin Cymru ar hyd fy oes, rwy'n gwerthfawrogi sut y mae'r lluoedd arfog yn rhan o wead llawer o gymunedau yng Nghymru. Pan oeddwn yn ifanc, roeddwn yn mynychu'r digwyddiadau a'r dathliadau. Roeddwn yn defnyddio'r cyfleusterau chwaraeon, ac roeddent bob amser yn well na'r rhai lleol. Roeddwn yn mynd i'r sinema, ac roeddem yn ffodus i fyw mewn tai milwrol—ar y pryd, roedd y tai milwrol hynny yn llawer mwy datblygedig nag unrhyw fath arall o dai cymdeithasol yn yr ardal.

Y mater arall yr oeddwn am ei drafod—ac mae wedi cael ei grybwyll yn y Siambr hon y prynhawn yma—yw'r ensyniad, rywsut, fod eich dyheadau'n is a'ch galluoedd academaidd yn is cyn i chi ymuno â'r fyddin. Mae wedi cael ei ddweud dro ar ôl tro yma heddiw. Rhaid i mi ddadlau yn erbyn hynny, fel rhywun a oedd â thad yn y fyddin, ac yn bendant, nid oedd ei allu academaidd yn isel. Rwy'n credu'n wirioneddol fod angen cofnodi hynny oherwydd credaf ei bod hi'n eithaf amlwg nad yw hynny'n cydnabod na'n gwerthfawrogi'r bobl ifanc a ddewisodd ddilyn yr yrfa honno. Mae'n rhaid i mi siarad ar eu rhan.

Felly, dof yn ôl at yr hyn yr oeddwn yn mynd i'w ddweud. Fel y dywedais, rwy'n falch fod y Llywodraeth wedi gwneud ymrwymiad, ond rwy'n credu bod rhaid i ni hefyd gydnabod—ac rwy'n mynd i'w ailadrodd—mai'r ysgolion, y penaethiaid a'r llywodraethwyr sy'n gwneud penderfyniadau am les gorau'r bobl ifanc. Hwy, a hwy yn unig, a fydd yn gwahodd y lluoedd arfog i ymweld ag ysgol, ac ni allant ymweld ag ysgol oni bai eu bod wedi cael gwahoddiad.

I think that the report is a useful one, and I would make a suggestion that that report is distributed to all secondary schools in Wales as a tool to help schools consider the balance of the careers advice that they give. I am grateful to the petitioners for raising this as an issue. I did not see any evidence whatsoever that the army was recruiting in schools—even though that, again, has been mentioned in this Chamber today, and I find that really disappointing. I think there is a need to recognise the difference between people who come into schools to promote, to inform and to advise, and it is, and was evident in everything that was said to us in that committee, very different to the word 'recruitment'.

Rwy'n credu bod yr adroddiad yn un defnyddiol, a byddwn yn awgrymu ei fod yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru fel adnodd i helpu ysgolion i ystyried cydbwysedd y cyngor gyrfaoedd y maent yn ei roi. Rwy'n ddiolchgar i'r deisebwyr am dynnu sylw at y mater. Ni welais unrhyw dystiolaeth o gwbl fod y fyddin yn recriwtio mewn ysgolion—er bod hynny wedi cael ei grybwyll yn y Siambr heddiw, ac mae hynny'n hynod o siomedig. Rwy'n credu bod angen cydnabod y gwahaniaeth rhwng pobl sy'n mynd i ysgolion i hyrwyddo, i hysbysu ac i gynghori, ac mae hynny—ac roedd hyn yn amlwg ym mhob dim a ddywedwyd wrthym yn y pwyllgor hwnnw—yn wahanol iawn i'r gair 'recriwtio'.

16:41

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would just like to make a short contribution to this debate, firstly to thank the witnesses that gave evidence, the petitioners and also to the committee clerks who supported us as Members. I am one of the four members of the Petitions Committee, and in many ways it's a unique committee, because for me, at least—and I think for other Members as well—it's about allowing a petition to progress, allowing a process, and allowing views to be expressed, more so than our own views, at least at the early stages. Then, at the latter stages, we present our own views. This is a petition that I thought it was correct to allow to proceed to evidence sessions and ultimately here to this Chamber, triggering the debate we've had today. And I think it's one of the more interesting debates that we've had in this Chamber—interesting to people watching in from the outside.

Hoffwn wneud cyfraniad byr i'r ddadl hon, yn gyntaf drwy ddiolch i'r tystion a roddodd dystiolaeth, y deisebwyr a hefyd i glercod y pwyllgor a'n cynorthwyodd fel Aelodau. Rwy'n un o bedwar aelod y Pwyllgor Deisebau, ac mewn nifer o ffyrdd, mae'n bwyllgor unigryw, oherwydd, i mi o leiaf—ac i'r Aelodau eraill hefyd rwy'n credu—mae'n ymwneud â chaniatáu i ddeiseb symud ymlaen, caniatáu proses, a chaniatáu pobl i fynegi barn, yn fwy felly na'n barn ni ein hunain, o leiaf yn y camau cynnar. Yna, yn ystod y camau olaf hyn, rydym yn cyflwyno ein barn ein hunain. Roeddwn yn teimlo mai'r peth cywir i'w wneud gyda'r ddeiseb hon oedd caniatáu iddi symud ymlaen i'r sesiynau tystiolaeth ac yma i'r Siambr hon yn y pen draw, gan sbarduno'r ddadl rydym wedi'i chael heddiw. Ac rwy'n credu ei bod yn un o'r dadleuon mwyaf diddorol rydym wedi eu cael yn y Siambr hon—diddorol i'r bobl sy'n gwyllo o'r tu allan.

I was going to say that nobody wants war, but, unfortunately, there are some people who do want war. But I'm convinced that nobody in this Chamber wants war, and I think everybody in this Chamber wants peace. I also think that the army is an essential need in our country, but, of course, we all want to see no war, and we all want to see peace.

Roeddwn yn mynd i ddweud nad oes neb eisiau rhyfel, ond yn anffodus, mae yna rai pobl sydd eisiau rhyfel. Ond rwy'n argyhoeddedig nad oes neb yn y Siambr hon eisiau rhyfel, ac rwy'n credu bod pawb yn y Siambr hon eisiau heddwch. Rwyf hefyd yn credu bod y fyddin yn hanfodol yn ein gwlad, ond wrth gwrs, nid oes yr un ohonom am weld rhyfel, ac rydym i gyd am weld heddwch.

Coming to my own view on this petition, the army should certainly not recruit in schools. That would be wholly unacceptable, and I therefore fully agree with the petition's title and the text of the petition. I have to say, as others have said, that I didn't see any evidence at all that supported that the army were recruiting in schools, and the army doesn't do that. We did have one piece of evidence from the Reserve Forces and Cadets Association for Wales, who sought a view from the Ministry of Defence, and they said:

Gan symud ymlaen at fy marn fy hun ar y ddeiseb hon, yn sicr ni ddylai'r fyddin recriwtio mewn ysgolion. Byddai hynny'n gwbl annerbyniol, ac felly rwy'n cytuno'n llwyr â theitl y ddeiseb a thestun y ddeiseb. Mae'n rhaid i mi ddweud, fel y mae eraill wedi'i ddweud, na welais unrhyw dystiolaeth o gwbl fod y fyddin yn recriwtio mewn ysgolion, ac nid yw'r fyddin yn gwneud hynny. Cawsom un darn o dystiolaeth gan Gymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru, a oedd wedi gofyn barn y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac roeddent yn dweud:

'it is not possible to sign up for the Armed Forces outside of a recruitment office and all recruitment into the UK Armed Forces is voluntary and no young person under the age of 18 years can join our Armed Forces unless their application is accompanied by the formal written consent of their parent or guardian.'

'it is not possible to sign up for the Armed Forces outside of a recruitment office and all recruitment into the UK Armed Forces is voluntary and no young person under the age of 18 years can join our Armed Forces unless their application is accompanied by the formal written consent of their parent or guardian.'

There has been a lot of talk about this, and there was a lot of talk in our committee about the definition of 'recruitment', but I think it is important because that is the title of the petition, so it's important to say. But I think that the petitioners' views—the petition's title and text didn't really reflect their stance on this issue, and that again created some debate, perhaps, in committee. But it's my own view that, provided that the armed forces are treated equally to other organisations in careers advice and in the way they access schools, I can see no objection at all to their visiting schools or being included in careers advice. Many aspects, of course, of the armed forces provide valuable career pathways—engineering, medicine, logistics, personnel, et cetera—and that can be of great benefit to individuals within a well-structured and disciplined working environment.

Now, it does come to the recommendations—our recommendations, I do believe, are very balanced, and, from the evidence we received, I think Welsh Government does need to review and issue guidance to schools with regard to all visits undertaken by schools. Recommendation 3, I think, is particularly important: that more businesses and organisations should be allowed to visit schools—and be supported to visit schools, I should say, really—to talk about career options. Some organisations and businesses can't afford to go into schools; they can't afford it at their expense. I think that's where, perhaps, there's something for us to consider, as the Assembly, to take forward that discussion. I think that needs to happen in order to provide a fair and balanced playing field.

In conclusion, it's not very often I agree with other Members, particularly Joyce Watson, but I agree with much of what she said. Also, I agree with everything Darren Millar said, and Jeff spoke very well—Jeff, more or less, mirrored my views as well on this matter. I think it's fantastic that we can have this debate today, and I think what this has done is allowed us to have a sensible debate—a non-partisan debate—which is welcome. I think it was good that we allowed this petition to create this discussion today, and it allowed us also to bring forward the three recommendations that I think are very sensible and should be supported.

Bu llawer o sôn am hyn, ac roedd llawer o sôn yn ein pwyllgor am ddiffinio 'recruiwio', ond credaf ei fod yn bwysig oherwydd dyna yw teitl y ddeiseb, felly mae'n bwysig dweud. Ond credaf fod barn y deisebwyr—nid oedd teitl a thestun y ddeiseb yn adlewyrchu eu safbwynt ar y mater hwn mewn gwirionedd, ac mae'n bosibl fod hynny wedi creu rhywfaint o ddadl yn y pwyllgor. Ond yn fy marn i, cyhyd â bod y lluoedd arfog yn cael eu trin yn gyfartal â sefydliadau eraill o ran cyngor gyrfaoedd a'r ffordd y maent yn cael mynediad at ysgolion, ni allaf weld unrhyw wrthwynebiad o gwbl iddynt ymweld ag ysgolion neu gael eu cynnwys mewn sesiwn cyngor gyrfaoedd. Wrth gwrs, mae llawer o agweddau ar y lluoedd arfog yn cynnig llwybrau gyrfa gwerthfawr—peirianeg, meddygaeth, logisteg, personél ac yn y blaen—a gall hynny fod o fudd mawr i unigolion o fewn amgylchedd gwaith disgybledig ac wedi'i strwythuro'n dda.

Nawr, down at yr argymhellion—mae ein hargymhellion ni, rwy'n credu, yn gytbwys iawn, ac o'r dystiolaeth a gawsom, rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru adolygu a chyhoeddi canllawiau i ysgolion o ran yr holl ymweliadau sy'n cael eu trefnu gan ysgolion. Mae argymhelliad 3, rwy'n credu, yn arbennig o bwysig, sef y dylai mwy o fusnesau a sefydliadau gael eu caniatáu i ymweld ag ysgolion—a chael eu cynorthwyo i ymweld ag ysgolion, dylwn ei ddweud mewn gwirionedd—i siarad am opsiynau gyrfa. Ni all rhai sefydliadau a busnesau fforddio ymweld ag ysgolion; nid ydynt yn gallu ei fforddio ar eu costau eu hunain. Rwy'n credu mai hynny, efallai, y dylem ei ystyried fel Cynulliad er mwyn symud y drafodaeth honno yn ei blaen. Credaf fod angen i hynny ddigwydd er mwyn sicrhau tegwch a chydbwysedd.

I gloi, nid wyf yn aml yn cytuno ag Aelodau eraill, yn enwedig Joyce Watson, ond rwy'n cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd. Hefyd, rwy'n cytuno â phopeth a ddywedodd Darren Millar, a siaradodd Jeff yn dda iawn—roedd Jeff, fwy neu lai, yn adlewyrchu fy marn i ar y mater. Rwy'n credu ei bod yn wych ein bod yn gallu cael y ddaidl hon heddiw, ac rwy'n credu bod hyn wedi caniatáu i ni gael dadl synhwyrol—dadl amhleidiol—sydd i'w chroesawu. Rwy'n credu ei bod yn beth da ein bod wedi caniatáu i'r ddeiseb hon greu'r drafodaeth hon heddiw. Mae wedi ein galluogi hefyd i gyflwyno'r tri argymhelliad; rwy'n credu eu bod yn synhwyrol iawn ac y dylid eu cefnogi.

16:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Alun Ffred Jones.

Alun Ffred Jones.

16:46 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, a diolch am y cyfle i gyfrannu. Diolch hefyd am yr adroddiad gwerthfawr. Yn sicr, mae'r adroddiad yma yn profi gwerth y drefn ddeisebau, felly rwy'n ddiolchgar iawn am yr adroddiad a'r cyfle i gyfrannu.

Thank you, and thank you for the opportunity to contribute. Thank you also for this valuable report. Certainly, this report proves the value of the petitions system, so I'm very grateful for the report and the opportunity to contribute.

Rwy'n cynrychioli ardal lle mae yna draddodiad cryf o ymuno â'r lluoedd arfog, yn enwedig y fyddin. Mae yna draddodiad cryf o fewn teuluoedd o ymuno, ac mae ardal Caernarfon yn un o'r rhai gyda'r canran uchaf sy'n ymuno â'r lluoedd arfog yn holl wledydd Prydain. Mi ddylwn i nodi hefyd bod nifer o'r bobl ifanc yr ydw i'n gyfarwydd â nhw yn lleol hefyd wedi ymuno dros y blynyddoedd—rhai yn dal yn y gwasanaeth ac eraill wedi dod allan. Mae amryw wedi derbyn hyfforddiant buddiol yn ystod y blynyddoedd hynny, er bod yr hyfforddiant hwnnw mewn maes fel peirianneg, ac yn y blaen, wedi mynd â nhw i ganol rhyfeloedd fel Affganistan, sydd, yn sicr, wedi gadael ei ôl arnyn nhw. A gaf i hefyd, wrth fynd heibio, gydnabod yr hyn yr oedd Jeff Cuthbert yn ei ddweud am golegau Grŵp NCPT? Mae yna un ohonyn nhw ym Mangor, ac rwy'n cydnabod bod yna waith ardderchog yn cael ei wneud gyda phobl ifanc yn y rheini, er nad ydyn nhw ddim yn ffurfiol gysylltiedig â'r lluoedd arfog.

Ar ôl dweud hynny am y bobl ifanc sydd wedi ymuno, mae'n rhaid imi ddweud hefyd fy mod i, fel llawer iawn ohonoch chi, mae'n siŵr, fel Aelod Cynulliad, wedi dod ar draws niferoedd o gyn-aelodau lluoedd arfog sy'n dioddef canlyniadau—o ran iechyd ac ymddygiad—rhai o'r profiadau y maen nhw wedi'u cael wrth wasanaethu eu gwlad. Mae digwyddiadau Deepcut yn codi cwestiynau difrifol ynglŷn ag hyfforddiant ac agweddau o fewn y lluoedd arfog. Felly, mae yna fwy nag un wedd i'r mater yma, oherwydd bod natur y gwaith y mae'r lluoedd arfog yn gorfod ymwneud ag ef, yn y pen draw, yn gosod straen arbennig ac yn sicr yn gallu dylanwadu ar ymddygiad ac iechyd yr aelodau.

Mae'n ffaith bod y lluoedd arfog, a'r fyddin yn benodol, yn recriwtio canran uwch o bobl ifanc o ardaloedd difreintiedig neu gymharol ddifreintiedig. Mae'r fyddin hefyd yn trefnu gweithgareddau a digwyddiadau yn yr ardaloedd yma yn gwbl fwrriadol. Y rheswm am hyn, wrth gwrs, yw bod llai o gyfleon gwaith a hyfforddiant yn y cylchoedd yma, felly mae'r lluoedd arfog yn ddewis sydd ag apêl arbennig. Nid wyf yn beio'r lluoedd arfog am hynny—ffraith ydy hynny—ond ni allwn wadu bod yna gysylltiad eithaf clos rhwng natur y cymunedau tlotaf, neu gymharol dlawd, a'r ffaith eu bod nhw'n cyfrannu canran uwch o bobl i'r fyddin ac i'r lluoedd arfog yn gyffredinol.

Mae un o fy etholwyr wedi tynnu sylw at ddulliau recriwtio rwy'n credu sy'n annerbyniol; er enghraifft, gosod baneri mawr lliwgar ger y ganolfan waith. Rŵan, nid ydym yn gwneud hynny, hyd y gwn i, gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill—efallai y dylen ni wneud hynny o ran y gwasanaeth iechyd neu lywodraeth leol—ond yn sicr, rwy'n credu y dylai'r lluoedd arfog fod yn recriwtio ac yn rhoi gwybodaeth yn yr un ffordd ag y mae unrhyw faes arall yn gwneud.

I represent an area where there is a strong tradition of joining the armed forces, particularly the army. There is a strong tradition within families of joining, and the Caernarfon area is one of those with the highest percentage recruited to the armed forces throughout the whole of the UK. I should also note that many young people that I'm familiar with locally have also joined over the years—some are still serving and others have left. Many have received beneficial training during their years of service, although that training, in areas such as engineering and so on, has taken them into areas of conflict such as Afghanistan, and that has certainly left a mark on them. May I also, in passing, acknowledge what Jeff Cuthbert said about the NPCT Group colleges? There is one in Bangor and I do acknowledge that there is excellent work done there with young people, although they are not formally linked to the armed forces.

Having said that about those young people who have joined, I have to say also that I, like many of you, I'm sure, as Assembly Members, have come across many veterans who are suffering the consequences of some of the experiences—in terms of health and behaviour—that they've had in serving their country. The events at Deepcut do raise some serious questions about training and attitudes within the armed forces. So, there are numerous aspects to this issue, because the nature of the work undertaken by the armed forces ultimately does place particular strains on people and certainly can influence people's health and behaviour.

It is a fact that the armed forces, and the army specifically, do recruit a higher percentage of young people from disadvantaged or relatively disadvantaged areas. The army also organises events and activities in those areas, quite deliberately. The reason for this, of course, is that there are fewer job and training opportunities in these areas and therefore the armed forces is an option which is particularly appealing. I don't blame the armed forces for that—it is just a fact—but we can't deny the fact that there is a relatively clear link between the nature of our poorest, or relatively poor communities and the fact that they do disproportionately provide recruits for the army and the armed forces generally.

One of my constituents has drawn attention to recruitment methods which I think are unacceptable; for example, placing large colourful banners near the job centre. Now, we don't do that, as far as I know, with other public services—perhaps we should do in terms of the health service or local government—but certainly I do believe that the armed forces should be recruiting and providing information in the same way as any other organisation would do.

Rwy'n credu bod angen cae gwastad, os liciwch chi, o ran y rheolau sy'n ymwneud â recriwtio a rhoi gwybodaeth. Dyna pam mae'n bwysig iawn, iawn ein bod ni'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth lawn a chytbwys wrth iddyn nhw wynebu dewisiadau ynglŷn â sut maen nhw'n mynd i dderbyn hyfforddiant neu addysg at y dyfodol. Rwy'n sicr, yn fy meddwl fy hun, na ddylai pobl ifanc fod yn ymuno â'r lluoedd arfog yn 16 oed, gyda neu heb ganiatad eu rhieni. Rwy'n credu ei fod yn rhy ifanc i wneud y math yna o benderfyniad, o ystyried yr hyn a all fod o'u blaenau nhw. Ond, wrth fynd i ysgolion, mi ddylai'r lluoedd arfog fod yn cyflwyno'r cyfleon—ac mae'n nhw'n gyfleon dilys; rwy'n derbyn hynny—mewn ffordd gytbwys, ac ar yr un tir â chyflogwyr a hyfforddwyr eraill. Felly, mae yna le i ni warchod pobl ifanc, ac mae'r ddeiseb hon wedi codi pryderon dilys. Rwy'n credu bod yr adroddiad ei hun yn un cytbwys a gwerthfawr iawn.

I think we need a level playing field, if you like, in terms of the rules relating to recruitment and the provision of information. That is why it's very important that we do ensure that young people have full and balanced information as they face choices as to how they're going to enter training or education for the future. I'm certain in my own mind that young people shouldn't be joining the armed forces at 16 years of age, either with or without parental consent. I think it's too early to make that kind of decision, given what they could be facing. But in entering schools, the armed forces should be presenting the opportunities—and they are valid opportunities; I accept that—in a balanced way, in the same way as other trainers and service providers. So, we do have a role in protecting young people, and this petition has raised valid concerns. I think the report itself is very balanced and valuable.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Julie James.

I call the Deputy Minister for Skills and Technology, Julie James.

16:51 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'd like to begin by welcoming the report from the committee, thanking the committee for its hard work, and also thanking all the Members who've contributed to this very valuable debate today. I was very pleased that the committee's report recognised both the benefits of the armed forces' engagement with schools and the unique nature of the armed forces as a career.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy groesawu'r adroddiad gan y pwyllgor, diolch i'r pwyllgor am ei waith caled, yn ogystal â diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl hynod werthfawr hon heddiw. Roeddwn yn falch iawn fod adroddiad y pwyllgor yn cydnabod manteision ymgysylltiad y lluoedd arfog ag ysgolion a natur unigryw'r lluoedd arfog fel gyrfa.

As many Members have pointed out during the debate, the armed forces are one of a number of large employers in Wales, offering diverse career opportunities that may interest young people of all backgrounds and abilities. By engaging responsibly with schools and speaking with young people, the armed forces help young people think about what they want from their future careers. They also help signpost young people to youth engagement activities, such as cadets, where participation can significantly improve a young person's confidence and employability prospects.

Fel y mae nifer o'r Aelodau wedi ei nodi yn ystod y ddadl, mae'r lluoedd arfog yn un o nifer o gyflogwyr mawr yng Nghymru, yn cynnig cyfleoedd gyrfaol amrywiol a allai fod o ddiddordeb i bobl ifanc o bob cefndir a gallu. Drwy ymgysylltu'n gyfrifol ag ysgolion a siarad â phobl ifanc, mae'r lluoedd arfog yn helpu pobl ifanc i feddwl am yr hyn y maent am ei gael o'u gyrfaedd yn y dyfodol. Maent hefyd yn helpu i gyfeirio pobl ifanc at weithgareddau ymgysylltu ieuencid, megis y cadetiaid, lle y gall cyfranogiad wella hyder a rhagolygon cyflogadwyedd person ifanc yn sylweddol.

I want to encourage more and stronger links between schools and all employers, including the armed forces, because we know that the more opportunities young people get to meet and talk with employers, the more likely they are to stay actively engaged in their education and training and to make the best choices for their own future lives and careers.

Rwyf eisiau annog mwy o gysylltiadau cryfach rhwng ysgolion a phob cyflogwr, gan gynnwys y lluoedd arfog, oherwydd gwyddom po fwyaf o gyfleoedd y mae pobl ifanc yn eu cael i gyfarfod a siarad â chyflogwyr, y mwyaf tebygol ydynt o barhau i gymryd rhan weithredol yn eu haddysg a'u hyfforddiant ac i wneud y dewisiadau gorau ar gyfer eu bywydau a'u gyrfaedd yn y dyfodol.

Having set out that context, I would like to address each of the recommendations in turn. While I accept in principle the value of considering further research into why the armed forces make more visits to schools in some areas rather than others, I don't see any compelling evidence that would lead me to consider that a priority, especially given the current funding issues Members are very familiar with, which I won't rehearse again. But, at the very heart of this issue, as many Members have pointed out, is the question of whether school engagement represents recruitment activity. As William Powell acknowledged right at the beginning, the activity undertaken by the armed forces through school visits doesn't constitute recruitment activity—an assurance echoed in the evidence provided to the committee by the reserve forces and cadets associations.

I'm very proud of the strong historic ties between the armed forces and many communities across Wales, including the ones that I serve. It is impossible to think that young people in those communities are unaware of the dangers and risks associated with a career in the armed forces. Indeed, they are often from the very families most affected by those issues. So, I think it is really being quite patronising—I think that's the word I'm looking for—to those young people in assuming that they don't understand what they're actually looking at in an armed forces career.

Just let's rehearse that for a minute. It's a vast range of potential career opportunities for many young people. Many of them offer high-level qualifications and skills. The army recruits graduates as well as people with lower academic abilities, and indeed many of the young people who serve from my constituency are graduates before they enter the armed forces. The army, I also want to remind people, does not consist solely of combat careers. For example, recently, army engineers built hospitals in Sierra Leone to enable the UK response to the Ebola crisis, and many armed forces personnel are currently involved in rescuing fleeing refugees from the appalling situations they find themselves in across the middle east and Africa. So, I think it belittles both the young children and the communities that serve the armed forces to make points about combat careers only and about low academic achievements.

Indeed, I just want to also acknowledge the role of the Motivational Preparation College for Training because I, too, have visited them. I have seen the really amazing difference in the motivation, preparation, self-confidence and ability of some of the young people who've been through those programmes, most of whom do not actually go into the armed forces afterwards. But, it's nevertheless very valuable training and I thoroughly recommend any Member who hasn't been to see it to go and do just that.

Ar ôl gosod y cyd-destun hwnnw, hoffwn ymdrin â phob un o'r argymhellion yn eu tro. Er fy mod yn derbyn, mewn egwyddor, y byddai'n werth ystyried ymchwil pellach i'r rheswm pam y mae'r lluoedd arfog yn ymweld â mwy o ysgolion mewn rhai ardaloedd na'i gilydd, nid wyf yn gweld unrhyw dystiolaeth gref a fyddai'n fy arwain i ystyried hynny'n flaenoriaeth, yn enwedig o ystyried y materion ariannu presennol y mae'r Aelodau yn gyfarwydd iawn â hwy, ac nid wyf am eu hailadrodd eto. Ond wrth wraidd y mater hwn, fel y mae nifer o Aelodau wedi ei nodi, mae'r cwestiwn a yw ymgysylltiad ag ysgol yn cynrychioli gweithgaredd recriwtio. Fel y dywedodd William Powell ar y dechrau un, nid yw gweithgaredd y lluoedd arfog drwy ymweliadau ag ysgolion yn weithgarwch recriwtio—dyma sicrwydd sy'n cael ei adleisio yn y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor gan gymdeithasau lluoedd wrth gefn a chadetiadau Cymru.

Rwy'n falch iawn o'r cysylltiadau hanesyddol cryf rhwng y lluoedd arfog a llawer o gymunedau ledled Cymru, gan gynnwys y rhai rwy'n eu gwasanaethu. Mae'n amhosibl meddwl nad yw pobl ifanc yn y cymunedau hynny'n ymwybodol o'r peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gyrfa yn y lluoedd arfog. Yn wir, dônt yn aml o'r union deuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y pethau hynny. Felly, rwy'n credu ei bod yn eithaf nawddoglyd—rwy'n credu mai dyna'r gair rwy'n chwilio amdano—i ragdybio nad yw'r bobl ifanc hyn yn deall beth sydd o'u blaenau mewn gyrfa yn y lluoedd arfog.

Gadewch i ni ailedrych ar hynny am funud. Mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd gyrfa posibl i lawer o bobl ifanc. Mae llawer ohonynt yn cynnig cymwysterau a sgiliau lefel uchel. Mae'r fyddin yn recriwtio graddedigion yn ogystal â phobl â llai o allu academaidd, ac yn wir mae llawer o'r bobl ifanc sy'n gwasanaethu yn fy etholaeth i yn raddedigion cyn iddynt fynd i mewn i'r lluoedd arfog. Rwyf hefyd yn awyddus i atgoffa pobl nad gyrfaedd ymladd yn unig y mae'r fyddin yn eu cynnig. Er enghraifft, yn ddiweddar, adeiladodd peirianwyr y fyddin ysbytai yn Sierra Leone i alluogi'r DU i ymateb i'r argyfwng Ebola, ac ar hyn o bryd mae llawer o bersonél y lluoedd arfog yn achub ffoaduriaid sy'n ffoi o'r sefyllfaoedd ofnadwy y maent yn eu hwynebu ar draws y dwyrain canol ac yn Affrica. Felly, rwy'n credu mai bychanu'r bobl ifanc a'r cymunedau sy'n gwasanaethu'r lluoedd arfog yw gwneud pwyntiau am yrfaedd ymladd yn unig ac am gyflawniadau academaidd isel.

Yn wir, rwyf hefyd am gydnabod rôl y Coleg Hyfforddi Paratoi Ysgogiadol oherwydd fy mod innau hefyd wedi ymweld â hwy. Rwyf wedi gweld y gwahaniaeth gwirioneddol anhygoel yn ysgogiad, paratoad, hunanhyder a gallu rhai o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni'r rhaglenni hyn, ac nid yw'r rhan fwyaf ohonynt mewn gwirionedd yn mynd i mewn i'r lluoedd arfog wedyn. Serch hynny, mae'n hyfforddiant gwerthfawr iawn, ac rwy'n argymhell i unrhyw Aelod nad yw wedi bod yn gweld y ganolfan i fynd i wneud hynny.

The other point I want to make is that it's not my view that it's a Government's job to put barriers in the way of any legally operating employer when it comes to links with schools. Members only have to think for a little moment to see what a slippery slope that is. Many Members in this room object to many things that legitimately-operating companies do. They may think that policing the Arctic is not a good thing, they may think that experimentation on animals is not a good thing and they may think that a number of other activities that legitimately-operating companies do are not good things. If we were to start compiling a list of employers that we thought that Governments ought not to be encouraging in schools, I think we would be on a very slippery slope to a place that none of us actually want to end up in. So, I do not think that that is something that any Government should consider and I really hope that no Government ever will. Having said all of that, I think it's really important that we also get full information about every career open to young people as soon as possible into the school curriculum as we can manage, as early as possible before pupils start to narrow their academic choices down and that we make sure that all of the pathways open to young people are as open and transparent to both them and their parents as is possible to do.

On that basis, I move on to the recommendation about the careers and world of work framework and ensuring that the guidance in relation to inviting the armed forces into schools is reviewed. I just want to remind Members that Professor Donaldson's report, 'Successful Futures', which was accepted in full by the Welsh Government, sets out a dynamic vision for curriculum and assessment in Wales. A key purpose of that curriculum will be to prepare young people to participate fully in life and work, and the careers and world of work framework will be reviewed as part of the implementation of 'Successful Futures'. While this will take several years to implement, we will be providing updated guidance to schools on implementing the existing framework. I can confirm that the updated guidance will incorporate specific information for governors and headteachers, drawing attention to the importance of ensuring that when organisations and employers are invited into schools their work is set in an appropriate context.

Y pwynt arall rwyf am ei wneud yw nad wyf o'r farn mai gwaith Llywodraeth yw rhoi rhwystrau yn ffordd unrhyw gyflogwr sy'n gweithredu'n gyfreithlon o ran ei gysylltiadau ag ysgolion. Nid oes raid i'r Aelodau feddwl yn hir cyn sylweddoli cymaint o lethr llithrig yw hwnnw. Mae nifer o Aelodau yn yr ystafell hon yn gwrthwynebu llawer o bethau y mae cwmnïau sy'n gweithredu'n gyfreithlon yn eu gwneud. Mae'n bosibl eu bod yn credu nad yw plismona'r Arctig yn beth da, mae'n bosibl eu bod yn credu nad yw arbrofi ar anifeiliaid yn beth da ac mae'n bosibl eu bod yn credu nad yw nifer o weithgareddau eraill y mae cwmnïau sy'n gweithredu'n gyfreithlon yn eu gwneud yn bethau da. Pe baem yn dechrau llunio rhestr o gyflogwyr y credwn na ddylai'r Llywodraethau eu hannog mewn ysgolion, rwy'n credu y byddem ar lethr llithrig iawn i le nad oes yr un ohonom mewn gwirionedd yn awyddus i fod ynddo. Felly, nid wyf yn credu bod hynny'n rhywbeth y dylai unrhyw Lywodraeth ei ystyried ac rwyf yn mawr obeithio na fydd yr un Llywodraeth byth yn gwneud hynny. Wedi dweud hynny i gyd, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni wneud yn siŵr hefyd ein bod yn cael y wybodaeth lawn am bob gyrfa sy'n agored i bobl ifanc yn rhan o'r cwricwlwm ysgol cyn gynted â phosibl cyn i'r disgyblion ddechrau culhau eu dewisiadau academaidd a'n bod yn gwneud yn siŵr fod yr holl lwybrau sydd ar agor i bobl ifanc mor agored a thryloyw iddynt hwy a'u rhieni ag sy'n bosibl.

Ar y sail honno, rwy'n symud ymlaen at yr argymhelliad am y fframwaith gyrfaoedd a byd gwaith a sicrhau bod y canllawiau mewn perthynas â gwahodd y lluoedd arfog i ysgolion yn cael eu hadolygu. Rwyf eisiau atgoffa'r Aelodau fod adroddiad yr Athro Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus', a gafodd ei dderbyn yn llawn gan Lywodraeth Cymru, yn cyflwyno gweledigaeth ddeinamig ar gyfer y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Un o ddibenion allweddol y cwricwlwm hwnnw fydd paratoi pobl ifanc i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith, a bydd y fframwaith gyrfaoedd a byd gwaith yn cael ei adolygu yn rhan o'r broses o weithredu 'Dyfodol Llwyddiannus'. Er y bydd hyn yn cymryd sawl blwyddyn i'w weithredu, byddwn yn darparu canllawiau wedi'u diweddarau i ysgolion ar weithredu'r fframwaith presennol. Gallaf gadarnhau y bydd y diweddariad o'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth benodol i lywodraethwyr a phenaethiaid, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y gwaith yn cael ei osod mewn cyd-destun priodol pan fydd sefydliadau a chyflogwyr yn cael eu gwahodd i ysgolion.

Finally, I'm very pleased to accept the recommendation that Welsh Government gives further consideration to how schools, businesses and employers can best be supported to ensure that a diverse range of businesses and employers visit schools to provide pupils with information about the career opportunities they offer. In helping to prepare young people for the world of work, I want them to have more opportunities for interaction with employers. This can include employer visits, challenges, mentoring and work experience. In this context, I want to support and encourage schools to raise their ambitions for the number of employer interactions young people experience. The enhanced employer engagement project being delivered by businesses in the community in partnership with Careers Wales will play a key role in establishing a consistent framework for schools and employers to engage in partnership work. Indeed, I'm launching it tomorrow down in Carmarthenshire. The first 60 partnerships will be established during this academic year and I hope that, over time, all schools will take the opportunity to participate.

We are committed to do all we can to improve the outcomes for young people and in this context I thoroughly recommend the committee's report and thank everybody for taking part in this debate today.

Yn olaf, rwy'n falch iawn o dderbyn yr argymhellid y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach sut y gellid cynorthwyo ysgolion, busnesau a chyflogwyr yn y ffordd orau i sicrhau bod ystod eang o fusnesau a chyflogwyr yn ymweld ag ysgolion i roi gwybodaeth i ddisgyblion am y cyfleoedd gyrfaol y maent yn eu cynnig. Wrth helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith, rwyf am iddynt gael mwy o gyfleoedd i ryngweithio gyda chyflogwyr. Gall hyn gynnwys ymweliadau cyflogwyr, heriau, mentora a phrofiad gwaith. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn gefnogi ac annog ysgolion i anelu'n uwch o ran y nifer o ryngweithiadau y mae pobl ifanc yn eu cael gyda chyflogwyr. Bydd y prosiect estynedig ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr sy'n cael ei gyflwyno gan fusnesau yn y gymuned mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru yn chwarae rhan allweddol yn sefydlu fframwaith cyson er mwyn i ysgolion a chyflogwyr gymryd rhan mewn gwaith partneriaeth. Yn wir, rwy'n lansio hwnnw yfory yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y 60 o bartneriaethau cyntaf yn cael eu sefydlu yn ystod y flwyddyn academaidd hon, ac rwy'n gobeithio y bydd pob ysgol dros amser yn manteisio ar y cyfle i gymryd rhan.

Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth yn ein gallu i wella'r canlyniadau i bobl ifanc ac yn y cyd-destun hwn, rwy'n llwyr argymhell adroddiad y pwyllgor ac yn diolch i bawb am gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar William Powell i ymateb i'r ddadl.

I call on William Powell to reply to the debate.

16:59 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I'm absolutely delighted by the range and quality of contributions that we've had in this debate today. I'll just speak briefly about our colleagues' contributions. Jenny Rathbone acknowledged the benefits that come from military careers, particularly in terms of opportunity but also in terms of physical fitness and self-confidence. But, she also referenced the difficulties that flow from military careers, often, particularly, in the light of combat stress and the scars that people bear after their service. She also referenced some of the recent tragedies around army training, particularly the Pen y Fan incident and the difficulties and unanswered questions with regard to the Deepcut barracks over recent years.

Darren Millar, chairman of the cross-party group on the armed forces, which I should also acknowledge that I am a member of, spoke about the fact that visits only take place when there is a formal agreement, and he also said, which others picked up also, that Wales is a higher contributor to armed forces personnel than any other nation of the UK. He stressed the diversity of roles within the armed forces, which many others have quoted, and he also spoke of the need for awareness building of global security and peacekeeping, which is something that was referred to by the Deputy Minister in her full response this afternoon. He also spoke, as others have done, of the importance of the qualifications and the training accreditation that comes from a military career.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wrth fy modd gydag amrywiaeth ac ansawdd y cyfraniadau rydym wedi'u cael yn y ddadl hon heddiw. Siaradaf yn fyr am gyfraniadau ein cyd-Aelodau. Cydnabu Jenny Rathbone y buddion sy'n deillio o yrfaeod milwrol, yn enwedig o ran cyfleoedd, ond hefyd o ran ffitrwydd corfforol a hunanhyder. Ond cyfeiriodd hefyd at yr anawsterau sy'n deillio o yrfaeod milwrol, yn aml ac yn arbennig, yng ngoleuni straen ymladd a'r creithiau sydd gan bobl ar ôl rhoi gwasanaeth. Cyfeiriodd hefyd at rai o'r trasediau diweddar yn gysylltiedig â hyfforddiant y fyddin, yn enwedig y digwyddiad ym Mhen y Fan a'r anawsterau a'r cwestiynau heb eu hateb mewn perthynas â barics Deepcut dros y blynyddoedd diwethaf.

Siaradodd Darren Millar, cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog—a dylwn gydnabod fy mod i hefyd yn aelod o'r grŵp hwnnw—am y ffaith fod ymweliadau ond yn digwydd pan fo cytundeb ffurfiol. Hefyd, dywedodd—crybwyllwyd hyn gan unigolion eraill hefyd—fod Cymru'n cyfrannu mwy o bobl at bersonél y lluoedd arfog nag unrhyw wlad arall yn y DU. Pwysleisiodd y rolau amrywiol o fewn y lluoedd arfog, ac ategwyd hyn gan lawer o bobl eraill. Soniodd hefyd am yr angen i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch byd-eang a chadw'r heddwch, sy'n rhywbeth y cyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Weinidog yn ei ymateb llawn y prynhawn yma. Soniodd hefyd, fel y gwnaeth eraill, am bwysigrwydd y cymwysterau a'r achrediad hyfforddi sy'n deillio o yrfa filwrol.

Jeff Cuthbert in his contribution acknowledged his membership and support for the Royal British Legion, and he acknowledged the report that we've brought forward is both balanced and thoughtful in its nature. He emphasised again the key contribution made by the armed forces in building skills, the unique nature of the armed forces, but also the importance of the headteacher of a particular school retaining ultimate control as to who goes across the threshold of a school to provide information and advice. And he also was one of several colleagues to speak of the NPTC and its important contribution in this field of skills.

Bethan Jenkins in her contribution criticised some of the more lurid media coverage that there's been around the issue of army careers and militarism. She also challenged the idea that schools necessarily positively invite in the army, but that it's rather part of an ongoing dialogue between army recruiters and army promotional teams and schools. She also gave a robust defence of the committee's report, particularly against the charge that it was in some way unpatriotic. She argues for a more broadly based access for young people to careers advice, which is contained both in our report and has characterised many contributions by colleagues this afternoon. She also spoke about the danger of glamorising military careers, which was also a theme that was picked up later by Alun Ffred Jones in terms of his reference to the colourful banners outside the job centre. And she also referenced an interesting freedom of information request from a number of years ago, which did give some interesting context to the petition's consideration.

Joyce Watson in her contribution referred to recent experience of a careers event at Pembrokeshire College, and also emphasised, as we did in our report, the need for balance in careers advice that is provided. She acknowledged her own military heritage and the many benefits that that has afforded her in her adult life. She also nailed the inference that is present in some quarters that young recruits to the army are in some way educationally challenged, and in need of additional assistance. And she emphasised, as others have done, the autonomy of the headteacher with regard to invitations and those who visit any education establishment.

Russell George spoke of his commitment to the petitions process and of the particular experiences that he'd had in considering this petition, and the number of issues that it had raised. He also made a plea again for a greater level of awareness of a diverse range of careers.

I'm conscious that time is pressing. I've already referenced Alun Ffred Jones's comments with regard to the NPTC and over-glamorisation, but he did emphasise the very important role that the military plays in his own constituency of Arfon, and his appreciation of that.

In her response to our report, the Deputy Minister emphasised the value that she put on the report that we have produced. She also emphasises the fact that it is patronising to young people to suggest that they're incapable of making their own judgments in this matter, and also said that it would be inappropriate to prohibit any employers from bringing forward information about their careers.

Yn ei gyfraniad, cydnabu Jeff Cuthbert ei fod yn aelod o'r Llenng Brydeinig Frenhinol ac yn ei chefnogi, a chydabu bod yr adroddiad rydym wedi'i gyflwyno yn un cytbwys ac ystyriol ei natur. Pwysleisiodd eto y cyfraniad allweddol a wnaed gan y lluoedd arfog mewn sgiliau adeiladu, natur unigryw'r lluoedd arfog, a hefyd, pwysigrwydd sicrhau mai pennaeth ysgol benodol yn y pen draw sydd â'r gair olaf ynglŷn â phwy sy'n camu dros drothwy ysgol i ddarparu gwybodaeth a chyngor. Ac roedd hefyd yn un o nifer o gyd-Aelodau i sôn am yr MPTC a'i gyfraniad pwysig yn y maes sgiliau hwn.

Yn ei chyfraniad, beirniadodd Bethan Jenkins ychydig o'r sylw mwy di-chwaeth y mae'r wasg wedi'i roi i yrfaeoddy fyddin a militarïaeth. Roedd hi hefyd yn herio'r syniad fod ysgolion o reidrwydd yn mynd ati'n gadarnhaol i wahoddy fyddin, ond yn hytrach, fod hynny'n rhan o ddeialog barhaus rhwng recriwtiaid y fyddin a thimau hyrwyddo'r fyddin ac ysgolion. Amddiffynnodd adroddiad y pwyllgor yn gadarn hefyd, yn enwedig yn erbyn y cyhuddiad ei fod yn anwlatgarol mewn rhyw ffordd. Mae hi'n dadlau dros gael mynediad ehangach i bobl ifanc at gyngor gyrfaoedd, sy'n cael ei gynnwys yn ein hadroddiad ac sydd wedi nodweddu llawer o gyfraniadau gan gyd-Aelodau y prynhawn yma. Siaradodd hefyd am y perygl o lamoreiddio gyrfaoedd milwrol, a oedd hefyd yn thema a ategwyd yn ddiweddarach gan Alun Ffred Jones yn ei gyfeiriad at y baneri lliwgar y tu allan i'r ganolfan waith. Cyfeiriodd hefyd at gais rhyddid gwybodaeth diddorol a wnaed nifer o flynyddoedd yn ôl, ac a roddodd gyd-destun diddorol i'r ystyriaeth o'r ddeiseb.

Yn ei chyfraniad, cyfeiriodd Joyce Watson at ei phrofiad diweddar mewn digwyddiad gyrfaoedd yng Ngholeg Sir Benfro, ac roedd hi hefyd yn pwysleisio, fel y gwnaethom yn ein hadroddiad, yr angen am gydbwysedd yn y cyngor gyrfaoedd a gaiff ei ddarparu. Roedd yn cydnabod ei threftadaeth filwrol ei hun a'r manteision niferus y mae hynny wedi'u rhoi iddi fel oedolyn. Llwyddodd hefyd i ddinoethi'r ensyniad a goleddir gan rai fod pobl ifanc a recriwtir i'r fyddin yn llai galluog yn addysgol, ac angen cymorth ychwanegol. Ac roedd hi'n pwysleisio, fel y mae eraill wedi'i wneud, ymreolaeth y pennaeth mewn perthynas â gwahoddiadau a'r rhai sy'n ymweld ag unrhyw sefydliad addysg.

Siaradodd Russell George am ei ymrwymiad i'r broses ddeisebu ac am ei brofiadau penodol wrth ystyried y ddeiseb hon, a'r nifer o faterion a gododd o ganlyniad iddi. Hefyd, apeliodd eto am lefel uwch o ymwybyddiaeth o'r ystod amrywiol o yrfaeoddy.

Rwy'n ymwybodol bod amser yn brin. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at sylwadau Alun Ffred Jones mewn perthynas â'r MPTC a glamoreiddio gormodol, ond fe wnaeth bwysleisio'r rôl bwysig iawn sydd i'r fyddin yn ei etholaeth ei hun, sef Arfon, a'i werthfawrogiad o hynny.

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, roedd y Dirprwy Weinidog yn pwysleisio'r gwerth y mae'n ei roi ar yr adroddiad rydym wedi'i gynhyrchu. Mae hi hefyd yn pwysleisio'r ffaith fod awgrymu nad yw pobl ifanc yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ar y mater yn nawddoglyd, a dywedodd hefyd na fyddai'n briodol gwahardd unrhyw gyflogwyr rhag cyflwyno gwybodaeth am eu gyrfaoedd.

I'm very grateful indeed to everyone who has contributed today and to the Deputy Minister for her response. I'm particularly grateful to Joyce Watson for her proposal that we disseminate the report across high schools the length and breadth of Wales, and I'm sure that we can put that in hand. Diolch yn fawr.

Rwy'n ddiolchgar iawn yn wir i bawb sydd wedi cyfrannu heddiw ac i'r Dirprwy Weinidog am ei hymateb. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Joyce Watson am gynnig ein bod yn lledaenu'r adroddiad i ysgolion uwchradd ar hyd a lled Cymru, ac rwy'n sicr y gallwn roi hynny ar y gweill. Diolch yn fawr.

17:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, derbynir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Y cynnig Yw Nodi report the Committee Deisebau. A Oes any wrthwynebiad? Caravan, derbynir y cynnig in line with Rheol Orders 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig in line with Rheol Orders 12.36.

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Amseroedd Aros y GIG

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.

5. Welsh Conservatives Debate: NHS Waiting Times

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendment 2 in the name of Aled Roberts.

17:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is the Welsh Conservative debate on NHS waiting times, and I call Darren Millar to move the motion.

Eitem 5 yw dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar amseroedd aros y GIG, a galwaf ar Darren Millar i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5830 Paul Davies

Motion NDM5830 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi na chyrraeddwyd y targedau ar gyfer amser atgyfeirio am driniaeth GIG Cymru ers 2010;
2. Yn gresynu at effaith andwyol bosibl amseroedd aros hir yn y GIG ar ganlyniadau cleifion a'u hansawdd bywyd; a
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu cynllun ac amserlen ar gyfer cyrraedd ei thargedau amser atgyfeirio am driniaeth.

1. Notes that Welsh NHS referral-to-treatment time targets have not been met since 2010;
2. Regrets the potential adverse impact of prolonged NHS waiting times on patient outcomes and quality of life; and
3. Calls upon the Welsh Government to set out a plan and timetable for achieving its referral-to-treatment time targets.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

17:04

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion tabled in the name of Paul Davies on the order paper, which

Cynigaf y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies ar y papur gorchymyn, sydd

'Notes that Welsh NHS referral-to-treatment time targets have not been met since 2010;'

'Yn nodi na chyrraeddwyd y targedau ar gyfer amser atgyfeirio am driniaeth GIG Cymru ers 2010;'

'Regrets the potential adverse impact of prolonged NHS waiting times on patient outcomes and quality of life;'

'Yn gresynu at effaith andwyol bosibl amseroedd aros hir yn y GIG ar ganlyniadau cleifion a'u hansawdd bywyd;'

and

ac

'Calls upon the Welsh Government to set out a plan and timetable for achieving its referral-to-treatment time targets.'

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu cynllun ac amserlen ar gyfer cyrraedd ei thargedau amser atgyfeirio am driniaeth.'

And, if I can put on record at the start of this debate that we will be supporting the amendments tabled by the Liberal Democrats and Plaid Cymru also.

I want to take the opportunity at the start of my contribution today to commend the many excellent and hardworking NHS staff who do such a tremendous job, day in, day out, for the people of Wales. They work tirelessly for the patients they serve and it's only right to commend them for their efforts. But their efforts have been undermined in recent years, which have seen NHS budgets cut in Wales by record-breaking amounts. And for all the excuses from Labour Ministers, the reality is that the NHS spending in Wales has not increased, whereas the NHS spending in England has been increased by more than the rate of inflation.

The spending increases in England, of course, have resulted in Barnett consequentials to Wales, which could have been invested in our national health service. Yet instead, we've seen decisions by the Labour Government that have resulted in spending falling in real terms as those consequentials have been spent elsewhere.

And these decisions, of course, have had consequences for our health service, its workforce and its patients. In spite of the pre-election promises that we saw distributed across Wales in leaflets before the last Assembly elections, we've seen hospitals closed and downgraded, we've seen minor injuries units axed and, of course, we've seen services being withdrawn from the communities that rely upon them.

In addition, hospital beds have been axed before other services in the community have been sufficiently developed to pick up the strain. Of course, this has caused chaos in our emergency departments and for the Welsh ambulance service, as its hardworking staff try to manage the consequences. To compound these problems, poor workforce planning by Labour Ministers and uncertainty over the future of national health services has led to a recruitment crisis in key clinical disciplines. It's no wonder, then, that the performance targets that have been set by this Government have been missed—week in, week out, month in, month out—with very little sign of improvement.

Wales is lagging behind other parts of the UK on key performance indicators, and we all know why: it's your record-breaking health cuts—health cuts, I'm afraid to say, which have not been opposed by the Liberal Democrats or by Plaid Cymru. In fact, they were endorsed by Plaid Cymru when in coalition with the Labour Party. And those are the cuts that are taking their toll on our health service and disadvantaging Welsh patients.

Ac os caf gofnodi ar ddechrau'r ddadl hon y byddwn yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru hefyd.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle ar ddechrau fy nghyfraniad heddiw i ganmol y nifer o staff rhagorol a gweithgar y GIG sy'n gwneud gwaith mor aruthrol, ddydd ar ôl dydd, dros bobl Cymru. Maent yn gweithio'n ddiflino dros y cleifion y maent yn eu gwasanaethu ac nid yw ond yn deg ein bod yn eu canmol am eu hymdrechion. Ond mae eu hymdrechion wedi cael eu tanseilio dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi gweld y toriadau mwyaf erioed i gyllidebau'r GIG yng Nghymru. Ac er gwaethaf yr holl esgusodion gan Weinidogion Llafur, y gwir amdani yw nad yw gwariant y GIG yng Nghymru wedi cynyddu, tra bo gwariant y GIG yn Lloegr wedi cynyddu o fwy na'r gyfradd chwyddiant.

Mae'r cynnydd yn y gwariant yn Lloegr, wrth gwrs, wedi arwain at symiau canlyniadol Barnett i Gymru, y gellid bod wedi'u buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd gwladol. Eto i gyd, yn lle hynny, gwelsom benderfyniadau gan y Llywodraeth Lafur a arweiniodd at wario llai mewn termau real wrth i'r symiau canlyniadol hynny gael eu gwario yn rhywle arall.

Ac mae'r penderfyniadau hyn, wrth gwrs, wedi arwain at ganlyniadau i'n gwasanaeth iechyd, ei weithlu a'i gleifion. Er gwaethaf yr addewidion cyn etholiad a welsom mewn tafenni a ddsbarthwyd ledled Cymru cyn etholiadau diwethaf y Cynulliad, gwelsom ysbytai'n cael eu cau a'i hisraddio, gwelsom unedau mân anafiadau'n cael eu diddymu ac wrth gwrs, gwelsom wasanaethau'n cael eu tynnu'n ôl o'r cymunedau sy'n dibynnu arnynt.

Yn ogystal, collwyd gwelyau ysbyty cyn i wasanaethau eraill yn y gymuned gael eu datblygu'n ddigonol i allu trosglwyddo'r baich. Wrth gwrs, mae hyn wedi achosi anhrefn yn ein hadrannau achosion brys a gwasanaeth ambiwlans Cymru, tra bod ei staff gweithgar yn ceisio rheoli'r canlyniadau. I gymhlethu'r problemau hyn, mae cynllunio gweithlu gwael gan Weinidogion Llafur ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol gwasanaethau iechyd cenedlaethol wedi arwain at argyfwng recriwtio mewn disgyblaethau clinigol allweddol. Nid yw'n syndod, felly, fod y targedau perfformiad a osodwyd gan y Llywodraeth hon wedi'u methu—wythnos ar ôl wythnos, fis ar ôl mis—heb fawr o arwydd o welliant.

Mae Cymru yn llusgo ar ôl rhannau eraill o'r DU ar ddangosyddion perfformiad allweddol, ac rydym i gyd yn gwybod pam: oherwydd eich toriadau iechyd mwyaf erioed—toriadau iechyd na chawsant eu gwrthwynebu gan y Democratiaid Rhyddfrydol na Phlaid Cymru, mae'n ddrwg gennyf ddweud. Yn wir, cawsant eu cymeradwyo gan Blaid Cymru pan oeddent mewn clymblaid gyda'r Blaid Lafur. A dyna'r toriadau sy'n effeithio'n wael ar ein gwasanaeth iechyd ac yn peri anfantais i gleifion Cymru.

While Labour Ministers spent millions in unplanned expenditure nationalising an airport in Cardiff, thousands of patients across Wales saw operations cancelled as health boards tried to make ends meet. While Labour Ministers spent millions refurbishing their offices and hundreds of thousands of pounds on potted plants, national health service staff were struggling to cope with demand in our emergency departments. It's a national disgrace.

The facts are these: you cannot short-change a health service for 3 million people by over £1 billion and not expect it to have an impact. Yes, £1 billion—I'll repeat that figure, because that's the amount that the Members' research service have calculated would have been spent on our health service, over and above the actual spending that's taken place, if you as a Labour Government had fulfilled our pledge to increase spending in line with inflation since 2010-11. It's their figures, not my figures—their figures.

But, we know who's to blame for these cuts: it's Carwyn Jones and the lazy Labour Government that we have here in Wales. You know, in November 2009, the month before Carwyn Jones became First Minister, there were around 218,000 people on a national health service waiting list here in Wales; that has risen in the most recently published statistics to over 443,000 patients on a waiting list—more than double. We now have more than one in seven of the Welsh population on a waiting list, and you can understand why people are starting to call it the 'national waiting service', not the national health service.

Not only are more people waiting on waiting lists, but they're also waiting for longer. The number waiting for longer than 36 weeks has increased from just 848 in November 2009 to an eye-watering 27,313 in July of this year. Twenty-seven thousand compared with just 848 back in 2009. It really is shameful. Diagnostic test waits, orthodontic waiting times, mental health waiting times, referral-to-treatment waiting times, emergency department times and, of course, ambulance response times—on all of these measures, performance in Wales lags behind other parts of the UK, with many of these targets now being missed routinely. We saw the ambulance service performance against its targets published today—of course, the day before they're going to be scrapped and watered down by this Government—and those targets have only been met once in the past three years. It's absolutely appalling.

Tra'r oedd Gweinidogion Llafur yn gwario miliynau mewn gwariant heb ei gynllunio ar wladol'r maes awyr yng Nghaerdydd, cafodd llawdriniaethau miloedd o gleifion ledled Cymru eu canslo wrth i fyrddau iechyd geisio cael dau ben llinyn ynghyd. Tra'r oedd Gweinidogion Llafur yn gwario miliynau yn adnewyddu eu swyddfydd a channoedd o filoedd o bunnoedd ar blanhigion mewn potiau, roedd staff y gwasanaeth iechyd gwladol yn cael trafferth i ymdopi â'r galw yn ein hadrannau achosion brys. Mae'n warth cenedlaethol.

Dyma'r ffeithiau: ni allwch wneud toriadau o £1 biliwn i wasanaeth iechyd ar gyfer 3 miliwn o bobl a pheidio â disgwyl iddo gael effaith. Ie, £1 biliwn—rwy'n ailadrodd y ffigur hwnnw, oherwydd dyna'r swm, a gyfrifwyd gan wasanaeth ymchwil yr Aelodau, a fyddai wedi cael ei wario ar ein gwasanaeth iechyd, yn ychwanegol at y gwariant ar ein ddiwyddodd, pe baech chi fel Llywodraeth Lafur wedi cyflawni ein haddewid i gynyddu gwariant yn unol â chwyddiant ers 2010-11. Eu ffigurau hwy yw'r rhain, nid fy ffigurau i—eu ffigurau hwy.

Ond gwyddom pwy sydd ar fai am y toriadau hyn: Carwyn Jones a'r Llywodraeth Lafur ddiog sydd gennym yng Nghymru. Wyddoch chi, ym mis Tachwedd 2009, y mis cyn i Carwyn Jones ddod yn Brif Weinidog Cymru, roedd tua 218,000 o bobl ar un o restrau aros y gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru; mae'r ffigur hwnnw wedi codi yn yr ystadegau diweddaraf i'w cyhoeddi i dros 443,000 o gleifion ar restr aros—mwy na dwbl. Erbyn hyn, mae mwy nag un o bob saith o boblogaeth Cymru ar restr aros, a gallwch ddeall pam fod pobl yn dechrau ei alw yn 'wasanaeth aros gwladol', yn hytrach na'r gwasanaeth iechyd gwladol.

Nid yn unig y mae mwy o bobl yn aros ar restrau aros, ond maent hefyd yn aros am fwy o amser. Mae'r nifer sy'n aros am dros 36 wythnos wedi cynyddu o ddim ond 848 ym mis Tachwedd 2009 i'r ffigur anhygoel o 27,313 ym mis Gorffennaf eleni. Saith mil ar hugain o gymharu â dim ond 848 yn ôl yn 2009. Mae'n wirioneddol gywilyddus. Amseroedd aros am brofion diagnostig, amseroedd aros orthodontig, amseroedd aros iechyd meddwl, amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, amseroedd aros adrannau achosion brys ac wrth gwrs, amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans—mae'r perfformiad yng Nghymru yn llusgo ar ôl rhannau eraill o'r DU ar bob un o'r mesurau hyn, gyda llawer o'r targedau bellach yn cael eu methu'n rheolaidd. Gwelsom gyhoeddi perfformiad y gwasanaeth ambiwlans ochr yn ochr â'i dargedau heddiw—wrth gwrs, y diwrnod cyn iddynt gael eu dileu a'u gwanhau gan y Llywodraeth hon—ac unwaith yn unig y cyrhaeddwyd y targedau hynny yn y tair blynedd diwethaf. Mae'n gwbl warthus.

I'll leave other Members to reel off a few other statistics, but I will say this: there are consequences for patients and their loved ones. Prolonged waits for diagnosis can cause unnecessary worry and result in poorer outcomes for patients. Waiting too long for an ambulance can mean the difference, for example, between life and death. Long waits for treatment can have very serious consequences for patients with degenerative conditions. I've met cancer patients who've been diagnosed too late for effective treatment. I've spoken to the loved ones of patients who've died whilst waiting for an ambulance to attend to them in an emergency, and I've met the orthopaedic patients who've broken their hips during prolonged waits for joint replacements. All of these situations could have potentially been avoided if waiting time targets had been met.

In one of its reports the Nuffield Trust concluded that,

'Waiting times in Wales have been increasing...the decision to cut, rather than maintain NHS spending in real terms may have affected them.'

They went on to say this. And I quote:

'comparing England, Scotland and Wales...waiting times for common procedures appear to be lengthening disproportionately in Wales.'

The trust found that the average wait for hip and knee replacements in Wales was 170 days compared with around just 70 days in England and Scotland. The Wales Audit Office has also warned about the evidence that patients are beginning to come to harm as a result of long waiting times. It highlighted concerns in its report that cardiac patients in south Wales were coming to harm due to excessive waits, with higher death rates, poorer outcomes and greater pressure on emergency departments as a result. And I take my hat off to the fantastic work being done by the cardiac surgeons and teams in both Cardiff and Swansea, who, in spite of the ridiculous waiting times for some patients, are delivering some tremendous outcomes for those people who do get their surgery. Not only has the Wales Audit Office highlighted these concerns, but the Royal National Institute of Blind People has also warned that 48 patients per year, almost one each and every week, are losing their sight as a result of waits for ophthalmology appointments. It really is a disgrace.

Rwyf am adael i Aelodau eraill restru ychydig o ystadegau eraill, ond rwyf am ddweud hyn: mae yna ganlyniadau i gleifion a'u hanwyliaid. Gall amseroedd aros hir am ddiagnosis achosi pryder diangen a gall arwain at ganlyniadau gwaeth i gleifion. Gall aros yn rhy hir am ambiwlans olygu'r gwahaniaeth, er enghraifft, rhwng byw a marw. Gall amseroedd aros hir am driniaeth arwain at ganlyniadau difrifol iawn i gleifion sydd â chyflyrau dirywiol. Rwyf wedi cwrdd â chleifion canser sydd wedi cael diagnosis yn rhy hwyr i gael triniaeth effeithiol. Rwyf wedi siarad ag anwyliaid cleifion sydd wedi marw wrth aros am ambiwlans i'w trin mewn argyfwng, ac rwyf wedi cyfarfod â chleifion orthopedig sydd wedi torri eu cluniau yn ystod amseroedd aros hir i gael cymalau newydd. Mae'n bosibl y gellid bod wedi osgoi pob un o'r sefyllfaoedd hyn pe bai targedau amseroedd aros wedi cael eu cyrraedd.

Mewn un o'i adroddiadau, daeth Ymddiriedolaeth Nuffield i'r casgliad canlynol,

'Waiting times in Wales have been increasing...the decision to cut, rather than maintain NHS spending in real terms may have affected them.'

Aeth ymlaen i ddweud hyn, ac rwy'n dyfynnu:

'comparing England, Scotland and Wales...waiting times for common procedures appear to be lengthening disproportionately in Wales.'

Canfu'r ymddiriedolaeth mai'r amser aros am gluniau a phen-gliniau newydd ar gyfartaledd yng Nghymru oedd 170 diwrnod o'i gymharu â thua 70 diwrnod yn unig yn Lloegr a'r Alban. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi rhybuddio am y dystiolaeth fod cleifion yn dechrau wynebu niwed o ganlyniad i amseroedd aros hir. Tynnai sylw at bryderon yn ei adroddiad fod cleifion cardiaidd yn ne Cymru yn wynebu niwed o ganlyniad i amseroedd aros rhy hir, gyda chyfraddau marwolaeth uwch, canlyniadau gwaeth a mwy o bwysau ar adrannau achosion brys o ganlyniad. Ac rwy'n rhoi clod i'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan y llawfeddygon a'r timau cardiaidd yng Nghaerdydd ac Abertawe, sydd, er gwaethaf yr amseroedd aros gwarthus i rai cleifion, yn cyflawni rhai canlyniadau gwych i'r bobl hynny sydd yn cael eu llawdriniaeth. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at y pryderon hyn, ac mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion hefyd wedi rhybuddio bod 48 o gleifion y flwyddyn, un bob wythnos bron, yn colli eu golwg o ganlyniad i amseroedd aros am apwyntiadau offthalmoleg. Mae'n wirioneddol gwilyddus.

From this evidence, it is abundantly clear that patients are paying the price of Labour's record-breaking national health service cuts in Wales. Yet whenever we challenge—and no doubt we'll hear some of this today—Ministers in this Chamber on their failures to deliver against the targets that they set, we hear a blame game begin to start. We've heard: 'It's up to health boards to deliver against targets'; 'We've told the health boards they must deliver'; 'They've got to turn out better results.' We've been told: 'It's all about winter pressures'; 'It's winter pressures why we can't hit these targets'; and, of course, the old chestnut, 'It's all austerity cuts that are causing these problems.'

They fail to accept any responsibility whatsoever for the failures to take any meaningful action to address them. Instead of investing in the national health service to help those hardworking staff to deliver against its targets, we see Ministers seeking to reform and scrap targets and, of course, we see them seeking to avoid scrutiny by publishing performance against targets on a quarterly rather than a monthly or weekly basis, as, of course, is the case in England. Well, I'm afraid, Minister, that is not the answer to the missed targets fiasco that you are presiding over. You hold the purse strings of the Welsh NHS; you set its performance targets. Instead of scrapping those targets, you need to develop a plan; you need to take responsibility for your actions; reverse your cuts; and give the service all of the funding that it needs to turn out the results that patients deserve.

O'r dystiolaeth hon, mae'n gwbl amlwg fod cleifion yn talu'r pris am y toriadau Llafur mwyaf erioed i'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Ac eto, pan fyddwn yn herio Gweinidogion yn y Siambr hon ynghylch eu methiant i gyflawni'r targedau a osodwyd ganddynt—ac nid oes amheuaeth y byddwn yn clywed ychydig o hyn heddiw—clywn gêm y bwrw bai yn dechrau. Rydym wedi clywed: 'Cyfrifoldeb byrddau iechyd yw cyflawni targedau'; 'Rydym wedi dweud wrth y byrddau iechyd fod rhaid iddynt gyflawni'; 'Mae'n rhaid iddynt sicrhau canlyniadau gwell.' Rydym wedi clywed: 'Mae'n ymwneud yn llwyr â phwysau'r gaeaf'; 'Pwysau'r gaeaf yw'r rheswm pam na allwn gyrraedd y targedau hyn'; ac wrth gwrs, yr hen stori, 'Toriadau caledi sy'n achosi'r problemau hyn.'

Maent yn methu â derbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am y methiannau er mwyn rhoi camau ystyrlon ar waith i'w hunioni. Yn hytrach na buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd gwladol i helpu'r staff gweithgar i gyflawni'r targedau, gwelwn Weinidogion yn ceisio diwygio a chael gwared ar dargedau ac wrth gwrs, fe'u gwelwn yn ceisio osgoi'r broses graffu drwy gyhoeddi ffigurau perfformiad yn erbyn y targedau yn chwarterol yn hytrach na phob mis neu bob wythnos fel sy'n digwydd yn Lloegr, wrth gwrs. Wel, yn anffodus, Weinidog, nid dyna'r ateb i'r llanast hwn o dargedau y methwyd â'u cyrraedd o dan eich rheolaeth chi. Rydych yn gyfrifol am arian y GIG yng Nghymru; chi sy'n gosod ei dargedau perfformiad. Yn hytrach na chael gwared ar y targedau hynny, mae angen i chi ddatblygu cynllun; mae angen i chi gymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd; dad-wneud eich toriadau; a rhoi'r holl arian sydd ei angen ar y gwasanaeth i sicrhau'r canlyniadau y mae cleifion yn eu haeddu.

17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Elin Jones to move amendment 1, tabled in her name.

Gwelliant 1—Elin Jones

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau diagnosis cyflymach i leihau amseroedd aros.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Elin Jones i gynig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn ei henw.

Amendment 1—Elin Jones

Add as new point 3 and renumber accordingly:

Recognises the importance of achieving faster diagnosis in reducing waiting times.

Amendment 1 moved.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:15 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fe oedd Darren Millar yn iawn yn un darn, o leiaf, o'i gyfraniad y prynhawn yma: fod yna beryg gwirioneddol i ddadl o'r fath yma fynd yn rhestr o ystadegau, yn rhestr ddiddiwedd o dargedau, ac wedyn yn rhestr o fethiant y Llywodraeth i gwrrdd â rhai o'r targedau hynny. Rŷm ni wedi clywed rhai o'r rheini gan Darren Millar ac fe glywn ni eraill ohonyn nhw y prynhawn yma. Wrth gwrs, mae'r ddadl hon yn digwydd ar ddiwrnod cyn i un o dargedau mwyaf trychinebus y Llywodraeth gael ei 'ditch-o' yn llwyr gan y Llywodraeth, sef y targed hwnnw fod 65 y cant o ambiwlansys yn cyrraedd o fewn wyth munud i'r alwad. Yn hytrach na chwrrdd â'r targed, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu nid yn unig newid y targed, ond i beidio â chyhoeddi data a fydd yn ein galluogi ni i fesur perfformiad yn ôl y targed hwnnw o hyn ymlaen. Fe fyddai hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn i wneud hynny.

Thank you, Deputy Presiding Officer. Darren Millar was right in one part, at least, of his contribution today: there is a genuine risk for this kind of debate to become a list of statistics, an endless list of targets, and then a list of failures of the Government to meet some of those targets. We've heard some of those from Darren and we'll hear others this afternoon. Of course, this debate is happening a day before one of the Government's worst targets is to be ditched entirely by the Government, namely the target that 65 per cent of ambulances will reach the patient within eight minutes of the call. Instead of meeting that target, the Government has decided not only to change the target, but not to publish data that will allow us to measure performance according to that target from now on. That would have been very useful to be able to do that.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ond, rwyf i eisiau canolbwyntio ar un maes penodol y prynhawn yma, ac mae hynny'n adlewyrchu'r gwelliant rŷm ni wedi'i gyflwyno yn enw Plaid Cymru, a hynny ar bwysigrwydd profion diagnostig. Rŷm ni i gyd yn gwybod beth yw pwysigrwydd profion diagnostig, yn enwedig o edrych ar, darganfod a rhoi diagnosis o ganser.

Dim ond yr wythnos yma, rŷm ni wedi clywed am ymchwiliad o'r 'European Journal of Cancer' yn nodi bod y gyfradd o bobl sy'n byw gyda chanser—'survival rate' cancer—yn waeth yn y Deyrnas Gyfunol nag yn unrhyw wlad arall yng ngorllewin Ewrop. Y rheswm am hynny, yn eu hól nhw, yw bod yr arafwch yn y diagnosis yn effeithio'n uniongyrchol ar y gyfradd fyw honno, a'r arafwch diagnosis ar ei waethaf yn y Deyrnas Gyfunol. O fewn y Deyrnas Gyfunol, rŷm ni'n gwybod bod yr 'access' i brofion diagnostig lawer yn arafach, o bell ffordd, yng Nghymru na beth yw e mewn unrhyw wlad arall.

Dim ond i nodi rhai o'r ystadegau hynny, nawr: 1 y cant o bobl yn unig sydd yn aros dros chwe wythnos am 'MRI scan' yn Lloegr, lle mae 32 y cant o bobl yn aros dros chwe wythnos yng Nghymru; 8 y cant sy'n aros dros chwe wythnos am 'colonoscopy' yn Lloegr, lle mae 46 y cant yn aros dros chwe wythnos yng Nghymru. Mae'r un patrwm yn wir am 'CT scans' a'r 'non-obstetric ultrasounds' a'r 'cystoscopies' hefyd. Mae'r patrwm yn yr Alban yn debycach i Loegr nag yw ef i Gymru, ac felly mae'r Alban hefyd yn perfformio llawer yn well na ni. Targed Llywodraeth Cymru ar hyn yw nad yw neb i fod i aros dros wyth wythnos am brawf diagnostig—neb o gwbl. Ond, mae'r perfformiad yn erbyn y targed yn dangos bod 25 y cant yn dal yn aros dros wyth wythnos. Mae hynny'n ddau fis—dros wyth wythnos. Dau fis i aros am brawf heb sôn am i glywed ymhellach wedyn am y diagnosis. Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn gwybod am bobl sydd wedi gorfod aros mor hir â hynny ac yn ei ffeindio fe'n gyfan gwbl annerbyniol i fod yn gorfod aros mor hir â hynny am ddiagnosis sy'n gallu bod am ryw beth mor bwysig â diagnosis o ganser.

Felly, mae angen gwella'r perfformiad, ac mae Plaid Cymru'n credu y dylid, yn y maes hwn—ac yn hyn o beth fe fydd fy araith i'n gwahaniaethu i un Darren Millar achos rwy'n mynd i gynnis ffordd i wella'r sefyllfa i'r Llywodraeth drwy ryw fodel gwahanol, ac ni chlywom lot o syniadau ar sut mae gwella'r perfformiad yng nghyfraniad Darren Millar. O ran y profion diagnostig, model yn Nenmarc rŷm ni'n credu sy'n werth ei ystyried yma yng Nghymru yw ein bod ni'n creu canolfannau penodol profi a diagnostig, lle mae'r holl beiriannau a thechnolegau profi yn yr un ganolfan, gyda'r arbenigwyr hefyd sy'n gallu creu a dod i'r diagnosis hefyd yn y canolfannau hynny. Fe ellid bod yn creu rhyw dair o'r canolfannau yma ar hyd a lled Cymru tra'n parhau, wrth gwrs, gyda'r profi diagnostig sy'n digwydd o fewn yr ysbytai aciwt ar gyfer mewngleifion.

But, I want to focus on one specific area this afternoon, and that reflects the amendment that we've tabled in the name of Plaid Cymru, and that is on the importance of diagnostic tests. We all know about the importance of diagnostic tests, particularly in looking at, discovering and giving a diagnosis of cancer.

Only this week, we heard about research from the 'European Journal of Cancer', noting that the survival rate for cancer is worse in the UK than in any other country in western Europe. The reason for that, according to them, was that the slowness in diagnosis does affect directly the survival rate, and it's at its worst in the UK. Within the UK, we know that the access to diagnostic tests is much slower in Wales than it is in any other country.

Just to note some of those statistics now: only 1 per cent of people wait for more than six weeks for an MRI scan in England, whereas 32 per cent wait for more than six weeks in Wales; 8 per cent wait six weeks for a colonoscopy in England, whereas 46 per cent of people wait more than six weeks in Wales. The same pattern is true for CT scans, non-obstetric ultrasounds and cystoscopies as well. The pattern in Scotland is more similar to England than it is to Wales, and so Scotland performs much better than us. The target of the Welsh Government on this is that no-one is supposed to wait for more than eight weeks for a diagnostic test—no-one at all. But, the performance against the target shows that 25 per cent still wait more than eight weeks. That is two months—more than eight weeks. Two months to wait for a test, let alone to hear about the diagnosis. I'm sure that we all know about people who've had to wait as long as that and who found it unacceptable to have to wait so long for a diagnosis that can be as important as a cancer diagnosis.

So, we have to improve that performance, and Plaid Cymru believes that, in this field—and, in this sense, my speech will be different from Darren Millar's because I'm going to propose a way to improve the situation for the Government, through a different model, and we didn't hear many ideas about how we could improve the performance in Darren Millar's contribution. In terms of the diagnostic tests, a model in Denmark that we think is worth considering here in Wales is that we create specific centres for diagnostic tests, where all the technology and the testing machines are in the same centre, with the specialists who can formulate a diagnosis also in those centres. We could create three of these centres across Wales while continuing, of course, with the diagnostic tests that happen in acute hospitals for in-patients.

Yn gysylltiedig â hyn, fe ddylid rhyddhau mwy o feddygon teulu i gyfeirio'n uniongyrchol i brofion diagnostig ac i wneud hynny i'r canolfannau yma. Mae canllawiau newydd yr haf yma gan NICE yn fodel i hyrwyddo hyn ymhellach ac i alluogi meddygon teulu i fedru cyfeirio'n uniongyrchol, achos mae yna ormod o arafwch yn y system fel mae'n bodoli ar hyn o bryd. Yn ogystal â hynny, mae angen lleihau'r targed i gael y diagnosis o fewn 28 diwrnod. Dyna beth oedd barn y pwyllgor annibynnol ar ganser a adroddodd eleni. Dyna ddylai fod uchelgais y Llywodraeth yn y fan hon: i leihau'r amser aros hwnnw, a dyna beth yw ymrwymiad Plaid Cymru.

Related to that we should free more GPs to refer directly to diagnostic tests and to do that in these centres. New guidelines this summer from NICE are a model for promoting this further, and to allow GPs to refer directly, because there's too much delay in the system as it currently stands. As well as that, we need to reduce the target to get the diagnosis within 28 days. That was the view of the independent committee on cancer that reported this year. That should be the ambition of the Government here: to reduce the waiting time there, and that's what the Plaid Cymru commitment is.

17:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Kirsty Williams to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnis gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 3:

Insert at end of point 3:

'a sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol drwy gydol eu gofal.'

'and to ensure that patients are seen in a timely manner throughout their care.'

Cynigiwyd gwelliant 2.

Amendment 2 moved.

17:20 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I formally move the amendment on behalf of the Welsh Liberal Democrat group and, in doing so, say that the group will support the Plaid Cymru amendment this afternoon and will also support the motion.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y gwelliant yn ffurfiol ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac wrth wneud hynny, rwy'n dweud y bydd y grŵp yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru y prynhawn yma, a bydd hefyd yn cefnogi'r cynnig.

Without doubt, waiting targets are a blunt instrument, but they are the targets that the Welsh Government have set themselves and have set for the NHS in Wales. Therefore, we can't then turn around and say, 'Ah well, actually, what we're asking to measure is not relevant'. The Government have set those targets in the full knowledge of the facts: an ageing population, a rise in chronic illnesses and, therefore, demand. These were entirely predictable forces and should not have come as a shock to anyone. Therefore, simply to say, 'Ah, it's all the fault of an increase in demand,' is not credible. It is the job of the Government to predict that demand, to predict the services the citizens of this country will need and to develop and design a service to meet those demands.

Heb os, mae targedau aros yn offeryn di-awch, ond dyma'r targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod ar gyfer eu hunain ac ar gyfer y GIG yng Nghymru. Felly, ni allwn ddweud, 'O wel, nid yw'r hyn y gofynnwn am ei fesur yn berthnasol mewn gwirionedd'. Mae'r Llywodraeth wedi gosod y targedau hyn gan wybod yn iawn beth yw'r ffeithiau: poblogaeth sy'n heneiddio, cynnydd mewn salwch cronig ac felly, yn y galw. Roedd y rhain yn bwysau hollol ragweladwy, ac ni ddylent fod wedi bod yn sioc i neb. Felly, nid yw dweud, 'A, mae'r bai i gyd ar gynnydd yn y galw,' yn gredadwy. Gwaith y Llywodraeth yw rhagweld y galw, rhagweld pa wasanaethau y bydd dinasyddion y wlad hon eu hangen a datblygu a chynllunio gwasanaeth i ateb y gofynion hynny.

Waiting times are certainly important to patients. They are not just a matter of convenience or inconvenience, but often have a clinical relevance. For some, that will be the physical pain they will find themselves in, as they wait for elective surgery, or perhaps it will be the anxiety of the psychological impact of waiting. Incidentally, that in itself can lead to further demands on the system as people repeatedly find themselves in their GP surgery asking when they're going to be seen for that diagnostic test. In some cases, particularly in the cases of cardiac patients or cancer patients, waiting times can be a matter of life and death, and can significantly alter a person's prognosis.

Mae amseroedd aros yn sicr yn bwysig i gleifion. Nid mater o gyfleustra neu anghyfleustra yn unig ydynt, ond yn aml mae perthnasedd clinigol iddynt. I rai, y boen gorfforol y byddant yn ei themlo fydd yn berthnasol, wrth iddynt aros am lawdriniaeth ddewisol, neu bryder yn sgil effaith seicolegol yr aros efallai. Gyda llaw, gall hynny ynddo'i hun arwain at alwadau pellach ar y system wrth i bobl fynd at eu meddyg teulu dro ar ôl tro i ofyn pryd y cânt eu gweld ar gyfer gwneud prawf diagnostig. Mewn rhai achosion, yn enwedig achosion cleifion cardiaidd neu gleifion cancer, gall amseroedd aros fod yn fater o fywyd a marwolaeth, a gall newid prognosis person yn sylweddol.

If you were to listen to Darren, the Welsh NHS is a complete disaster and everything is fine over the border. The reality is, for many people in Wales, they are seen in a timely and clinically appropriate timescale. I'm very fortunate that in Powys—Powys is the only local health board that actually has met its referral-to-treatment times. However, you know, across the border, it should be noted that they too are struggling with the demands being placed on the NHS. Waits and the number of people waiting longer for elective surgery is at a 10-year high across the border in England. So, we have a system that is struggling wherever you find yourself. Certainly, Darren.

Pe baech yn gwranddo ar Darren, mae'r GIG yng Nghymru yn drychineb llwyr ac mae popeth yn iawn dros y ffin. Y realiti i lawer o bobl yng Nghymru yw eu bod yn cael eu gweld o fewn amserlen sy'n amserol ac yn briodol yn glinigol. Rwy'n ffodus iawn ym Mhowys—Powys yw'r unig fwrdd iechyd lleol sydd wedi cyrraedd ei dargedau amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Fodd bynnag, wyddoch chi, ar draws y ffin, dylid nodi eu bod hwythau hefyd yn cael trafferth â'r galwadau ar y GIG. Mae amseroedd a nifer y bobl sy'n aros yn hwy am lawdriniaeth ddewisol ar ei uchaf ers 10 mlynedd ar draws y ffin yn Lloegr. Felly, mae gennym system sy'n ei chael hi'n anodd lle bynnag y boch. Yn sicr, Darren.

17:23

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to the Member for taking the intervention. I accept not everything's perfect in England, but do you accept that you're more likely to wait longer for treatment if you're a patient in Wales than if you're a patient in England, on average?

Diolch i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Rwy'n derbyn nad yw popeth yn berffaith yn Lloegr, ond a ydych yn derbyn eich bod yn fwy tebygol o aros yn hwy am driniaeth os ydych yn glaf yng Nghymru nag os ydych yn glaf yn Lloegr, ar gyfartaledd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:23

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't disagree with that, Darren, and that's why I'll support your motion, but I just think it's slightly disingenuous to pretend that the NHS system, both in Wales and in England, is grappling with these problems.

Nid wyf yn anghytuno â hynny, Darren, a dyna pam y byddaf yn cefnogi eich cynnig, ond rwy'n credu ei bod yn ychydig yn annidwyll i esgus nad yw system y GIG, yng Nghymru ac yn Lloegr, yn cael trafferth gyda'r problemau hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now then, I'm particularly concerned about the enormous increase in Wales in the people that are waiting over 36 weeks for treatment: the people who are waiting the very longest. Often, there becomes a disincentive for local health boards to address the problems of people who have waited over 36 weeks, because they've already breached and, therefore, you tend to concentrate on patients who have not breached, and those who are over 36 weeks wait even longer. I would be particularly interested to hear from the Minister today what action he will take to address the needs of those people who have breached the 36-week waiting time. Those 36-week waiting times suggest to me that we have a system that is massively struggling with unscheduled care and a creaking primary care system. The fact that we can't get our electives into the hospital is because, actually, our hospitals are blocked up with unscheduled care patients, patients who are ill and patients who can't get into the community.

Nawr, rwy'n arbennig o bryderus am y cynnydd aruthrol yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n aros mwy na 36 wythnos am driniaeth: y bobl sy'n aros hiraf. Yn aml, nid oes cymhelliad i fyrddau iechyd lleol fynd i'r afael â phroblemau pobl sydd wedi aros dros 36 wythnos, am eu bod eisoes wedi methu targed, felly, rydych yn tueddu i ganolbwyntio ar gleifion nad ydynt wedi pasio'r targed amser, ac mae'r rhai sydd wedi aros dros 36 wythnos yn aros hyd yn oed yn hwy. Byddai gennyf ddiddordeb arbennig mewn clywed pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion y bobl sydd wedi aros yn hwy na'r targed amser o 36 wythnos. Mae'r amseroedd aros 36 wythnos yn awgrymu i mi fod gennym system sy'n cael trafferth aruthrol gyda gofal heb ei drefnu a system gofal sylfaenol sy'n gwegian. Y rheswm pam na allwn gael ein cleifion gofal dewisol i'r ysbty mewn gwirionedd yw oherwydd bod ein hysbytai yn llawn o gleifion gofal heb ei drefnu, cleifion sy'n sâl a chleifion nad ydynt yn gallu cael gofal yn y gymuned.

It goes without saying that we need adequate financial resources to support the NHS, but there is not a magic money tree. This Assembly is already spending 46 per cent of its budget on the health service, and we are in danger, if we're honest, of becoming a glorified health authority ourselves. If we carry on like this, we're going to be doing nothing else in this Chamber than simply financing a health service. So, we do need adequate resources; of course we do, but we also need better value for money and we need to tackle issues of overuse, underuse and misuse of NHS services. We need to identify and remove unwarranted variations in clinical practice because they exist. They exist, and we need to challenge it. We need to call it out, and we need to move forward. We need to use evidence to find better ways of delivering care and support services for many patients, especially in specific groups such as people with long-term conditions, older people living with frailty, and patients at the end of their lives. Action is needed at all levels in the system if we're going to address these issues and we're going to ensure better value for Welsh taxpayers' money and increase productivity within the system. Let us be clear what that means: some of the ways that that has been delivered in England has not simply been about money; it's been about very, very controversial service re-design, and none of us like that in this Chamber.

Afraid yw dweud bod arnom angen adnoddau ariannol digonol i gefnogi'r GIG, ond nid oes coeden arian hud yn bodoli. Mae'r Cynulliad eisoes yn gwario 46 y cant o'i chyllideb ar y gwasanaeth iechyd, ac rydym mewn perygl, os ydym yn onest, o ddod yn awdurdod iechyd estynedig ein hunain. Os byddwn yn parhau fel hyn, ni fyddwn yn gwneud dim yn y Siambr hon heblaw ariannu gwasanaeth iechyd. Felly, mae angen adnoddau digonol arnom; wrth gwrs bod, ond rydym hefyd angen gwell gwerth am arian ac rydym angen mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gorddefnyddio, tanddefnyddio a chamddefnyddio gwasanaethau'r GIG. Mae angen i ni nodi a dileu amrywiadau diangen mewn ymarfer clinigol oherwydd maent yn bodoli. Maent yn bodoli, ac mae angen herio hynny. Mae angen i ni dynnu sylw at hynny, ac mae angen i ni symud ymlaen. Mae angen i ni ddefnyddio tystiolaeth i ddod o hyd i ffyrdd gwell o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth i lawer o gleifion, yn enwedig mewn grwpiau penodol megis pobl â chyflyrau hirdymor, pobl hŷn sy'n byw gydag eiddilwch, a chleifion sy'n tynnu at ddiwedd eu hoes. Mae angen gweithredu ar bob lefel yn y system os ydym am fynd i'r afael â'r materion hyn ac os ydym yn mynd i sicrhau gwell gwerth am arian i drethdalwyr Cymru a chynyddu cynhyrchiant o fewn y system. Gadewch i ni fod yn glir ynglŷn â beth y mae hynny'n ei olygu: nid mater syml o arian sydd wrth wraidd rhai o'r ffyrdd y cafodd hyn ei gyflwyno yn Lloegr; mae wedi ymwneud ag ailgynllunio gwasanaethau mewn modd hynod o ddadleuol, ac nid oes yr un ohonom yn hoffi hynny yn y Siambr hon.

17:26

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With regard to waiting times in health in general, the picture in Wales is little short of scandalous. As our motion states, the Welsh NHS referral-to-treatment time targets have not been met since 2010.

However, I would like to focus the main thrust of my contribution on the second part of our motion: that the National Assembly should regret the potential adverse impact of prolonged NHS waiting times on patient outcomes and quality of life. Now, let me be clear, this is not down to the workforce, but rather, it's down to how the workforce is being managed. In my view, there's no potential adverse impact about it. If someone is in need of the specialist services of a consultant, then their problem is bound to be compounded by having to wait for treatment.

O ran amseroedd aros ym maes iechyd yn gyffredinol, mae'r darlun yng Nghymru yn gywilyddus yn wir. Fel y dywed ein cynnig, ni chyrhaeddwyd targedau amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth y GIG yng Nghymru ers 2010.

Fodd bynnag, hoffwn ganolbwyntio prif ran fy nghyfraniad ar ail ran ein cynnig: sef y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol resynu at effaith andwyol bosibl amseroedd aros hir yn y GIG ar ganlyniadau cleifion a'u hansawdd bywyd. Nawr, gadewch i mi fod yn glir, nid y gweithlu sy'n gyfrifol am hyn, ond yn hytrach, sut y mae'r gweithlu'n cael ei reoli. Yn fy marn i, nid yw'n fater o effaith andwyol bosibl. Os oes rhywun angen gwasanaethau arbenigol meddyg ymgynghorol, yna mae eu problem yn siŵr o waethygu drwy orfod aros am driniaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If a person is in pain—and most will accept that constant pain wears an individual down—then it stands to reason that they will begin to lose core strength. They might suffer from sleep deprivation, they might start to feel depressed, and other parts of their physiology will become affected. Waiting times for pain management are indefensible by any measure. If a person can't have an operation to mitigate or resolve their health problem, then at least a measure of pain management prior to being seen will enable them to maintain what health they do have. Yet, in some areas, robust pain management systems seem to fall into the nice-to-have category. I have met people who have waited over a year to see a pain management specialist, and this is both prior to and post consultant intervention. I have seen a hospital board terminate the contract of their pain management specialist, then fail to recruit a replacement, and then expect people in pain to travel eastwards and wait over a year for an appointment.

The waiting list problem is exacerbated by the way the system manages individuals with co-dependent needs. The elderly, in particular, suffer. They often need to be seen for a number of inter-related illnesses, yet they have to go through the process with different types of consultants on many different waiting lists. What they need, Minister, is to be under the care of, for example, an orthogeriatrician or a cardiogeriatrician—someone who can look after all of the inter-relating issues, who can call in the correct specialist, who can ensure effective treatment and enable the long-term return to a healthy life. Instead, many individuals—many elderly individuals in particular—are in a revolving-door situation.

Waiting times are extended by fruitless appointments when consultants find that test results have not been married to a patient's records, so the patient has to return again. Waiting times are extended because the onus is often put on patients to ring constantly for the results before they are able to confirm or book an appointment. Basic tests are repeated because hospital departments don't pass results on, or sets of records are not put together, or another department's results are not accepted. If you start your treatment in one hospital, then move to another, the chances of your records following you are slim. This is down to process and management of that process.

Os yw person mewn poen—a bydd y rhan fwyaf yn derbyn bod poen cyson yn gallu peri i unigolyn ddirywio—mae'n gwneud synnwyr y byddant yn dechrau colli cryfder craidd. Efallai y byddant yn dioddef o golli cswg, efallai y byddant yn dechrau teimlo'n isel eu hysbryd, a bydd rhannau eraill o'u ffisioleg yn cael eu heffeithio. Ni ellir amddiffyn amseroedd aros ar gyfer rheoli poen mewn unrhyw ffordd. Os na all pobl gael llawdriniaeth i leddfu neu ddatrys eu problem iechyd, yna byddai rhywfaint o reoli poen cyn cael eu gweld o leiaf yn eu galluogi i gadw eu hiechyd rhag gwaethygu. Eto i gyd, mewn rhai ardaloedd, mae'n ymddangos bod systemau rheoli poen effeithiol yn rhywbeth sy'n perthyn i'r categori 'pethau y byddai'n braf eu cael'. Rwyf wedi cyfarfod â phobl sydd wedi aros dros flwyddyn i weld arbenigwr rheoli poen, cyn ac ar ôl ymyrraeth meddyg ymgynghorol. Rwyf wedi gweld bwrdd ysbty yn dod â chontract eu harbenigwr rheoli poen i ben, yna'n methu â recriwtio rhywun yn ei le, ac yna'n disgwyl i bobl mewn poen deithio tua'r dwyrain ac aros dros flwyddyn am apwyntiad.

Mae problem rhestrau aros yn cael ei gwaethygu gan y ffordd y mae'r system yn rheoli unigolion sydd ag anghenion cyd-ddibynnol. Mae'r henoed, yn arbennig, yn dioddef yn y ffordd hon. Yn aml, maent angen cael eu gweld mewn perthynas â nifer o afiechydon cysylltiedig, ac eto mae'n rhaid iddynt fynd drwy'r broses gyda gwahanol fathau o feddygon ymgynghorol ar lawer o restrau aros gwahanol. Yr hyn sydd ei angen arnynt, Weinidog, yw cael eu rhoi dan ofal orthogeriatrydd neu gardiogeriatrydd, er enghraifft—rhywun sy'n gallu gofalu am yr holl faterion cysylltiedig, a fyddai'n gallu galw'r arbenigwr cywir, ac a fyddai'n gallu sicrhau triniaeth effeithiol a galluogi'r claf i ddychwelyd at fywyd iach yn y tymor hir. Yn lle hynny, mae llawer o unigolion—llawer o unigolion oedrannus yn arbennig—mewn sefyllfa drws tro.

Mae amseroedd aros yn cael eu hymestyn gan apwyntiadau ofer pan fydd meddygon ymgynghorol yn gweld nad yw canlyniadau profion wedi'u cysylltu â chofnodion claf, fel bod yn rhaid i'r claf ddychwelyd eto. Mae amseroedd aros yn cael eu hymestyn am fod y cyfrifoldeb yn aml ar gleifion i ffonio'n gyson i gael canlyniadau cyn y gallant gadarnhau neu drefnu apwyntiad. Caiff profion sylfaenol eu hailadrodd am nad yw adrannau ysbtyai'n trosglwyddo canlyniadau ymlaen, neu am nad yw setiau o gofnodion yn cael eu cysylltu â'i gilydd, neu am nad yw canlyniadau adran arall wedi dod i law. Os ydych yn dechrau eich triniaeth mewn un ysbty, yna'n symud i un arall, mae'r gobaith y daw eich cofnodion i'ch canlyn yn denau iawn. Mae'n ymwneud â phroses a'r modd y caiff y broses honno ei rheoli.

Waiting times are exacerbated because of the way that crucial staff are deployed. A hospital might have a consultant, but if that individual holds only one clinic a week, or one a fortnight, there's never a realistic prospect of waiting times reducing. Looking at what other tasks that individual might be undertaking just shows an enormous mismatch in some disciplines. Some staff are tasked with seeing patients in order to ensure that target-to-treatment times are met, but a more effective deployment, following specialist intervention, would help to manage the return home from hospitals better. As it is, the current system can actually delay getting proper treatment. One of the biggest problems is the annual 'let's stop elective surgery because it's winter' trend. It puts hospital waiting times miles behind. It is not what consultants want, because it makes managing their lists absolutely impossible, and the harsh reality is that much of this affects the more elderly section of society—individuals who may not have the depths of robust reserves to weather the time and pain of waiting for elective surgery. The result? A sicker person, who will take more resources to make well.

Before I finish, let me bring in the waiting times suffered by some of our young people, because the situation facing families with autistic children in my constituency is utterly abysmal. Simply having to diagnose a child who's believed to have autism often means a wait of three to four years for my constituents. This is down to the fact that health, social services and education are unable to co-work and co-manage the requirements that are needed in order to produce an effective statement or an effective diagnosis, and, for every autistic child, there are other children with special mental health needs that are simply not being met. This is not rocket science. There are companies out there that manage huge workforces successfully, and what we need to do is actually look at the management of the process rather than blaming the actual workforce in the process.

Mae amseroedd aros yn cael eu gwaethygu oherwydd y ffordd y caiff staff allweddol eu defnyddio. Efallai fod gan ysbty feddyg ymgynghorol, ond os mai un clinig yr wythnos y mae'r unigolyn dan sylw'n ei gynnal, neu un bob pythefnos, nid oes gobaith realistig y caiff amseroedd aros eu lleihau. Mae edrych ar ba dasgau eraill y gallai'r unigolyn fod yn eu gwneud yn dangos camgymhariad enfawr mewn rhai disgyblaethau. Mae rhai aelodau o staff yn cael y gwaith o weld cleifion er mwyn sicrhau bod amseroedd targed am driniaeth yn cael eu cyrraedd, ond byddai defnyddio staff yn fwy effeithiol, yn dilyn ymyrraeth arbenigol, yn helpu i reoli'r llif o bobl adref o ysbtytai yn well. Fel y mae, gall y system gyfredol beri oedi cyn rhoi triniaeth briodol. Un o'r problemau mwyaf yw'r duedd flynyddol i roi'r gorau i lawdriniaeth ddewisol am ei bod yn aeaf. Mae'n peri i amseroedd aros ysbtytai fynd ymhellach byth ar ei hôl hi. Nid dyma beth y mae meddygon ymgynghorol ei eisiau, am ei fod yn gwneud y dasg o reoli eu rhestrau yn un gwbl amhosibl, a'r realiti creulon yw bod llawer o hyn yn effeithio ar y bobl fwy oedrannus mewn cymdeithas—unigolion nad ydynt â chronfeydd dihybydd o adnoddau i wrthsefyll yr amser a'r boen o aros am lawdriniaeth ddewisol. Y canlyniad? Person salach, a fydd angen mwy o adnoddau i'w wella.

Cyn i mi orffen, gadewch i mi drafod yr amseroedd aros a ddiodefir gan rai o'n pobl ifanc, oherwydd mae'r sefyllfa sy'n wynebu teuluoedd sydd â phlant awtistig yn fy etholaeth yn hollol ofnadwy. Mae gwneud diagnosis syml ar blentyn y credir ei fod yn awtistig yn golygu bod yn rhaid i fy etholwyr aros am dair i bedair blynedd. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad yw iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn gallu cydweithio a chydreoli'r gofynion sydd eu hangen er mwyn cynhyrchu datganiad effeithiol neu ddiagnosis effeithiol, ac am bob plentyn awtistig, mae yna blant eraill sydd ag anghenion iechyd meddwl arbennig nad ydynt yn cael eu diwallu. Nid yw'n eithriadol o gymhleth. Ceir cwmnïau sy'n rheoli gweithluoedd enfawr yn llwyddiannus, a'r hyn sydd angen i ni ei wneud mewn gwirionedd yw edrych ar sut y mae'r broses yn cael ei rheoli yn hytrach na beio'r gweithlu ei hun yn y broses.

17:31

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I start, can I make a declaration of interest that my wife is a radiographer in the Welsh NHS and in the diagnostic services? Once again, I'm pleased to contribute to the debate on waiting times here in the Senedd. As many Members have mentioned, I also meet with constituents who raise concerns about the delays they have experienced in diagnosis and treatment. It's important to acknowledge that fact, but there is progress being made. But I acknowledge that people are still waiting and the experiences they have; I'm not going to bury my head in the sand, like some might want to claim that I will.

Cyn i mi ddechrau, a gaf fi wneud datganiad o fuddiant gan fod fy ngwraig yn radiograffydd yn y GIG yng Nghymru ac yn y gwasanaethau diagnostig? Unwaith eto, rwy'n falch o gyfrannu at y ddaol ar amseroedd aros yma yn y Senedd. Fel y mae llawer o Aelodau wedi sôn, rwyf hefyd yn cyfarfod ag etholwyr sy'n mynegi pryderon am yr oedi y maent wedi'i brofi ym meysydd diagnosis a thriniaeth. Mae'n bwysig cydnabod y ffaith honno, ond mae cynnydd yn cael ei wneud. Ond rwy'n cydnabod bod pobl yn dal i aros a'r profiadau y maent yn eu cael; nid wyf yn mynd i gladdu fy mhen yn y tywod, fel y byddai rhai eisiau honni fy mod am ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, in addition to being contacted by constituents who have expressed those concerns, I've also been contacted by constituents who have actually been telling me how much praise they have for the NHS here in Wales and the speedy treatment received, and the excellent care provided by the dedicated and committed staff. It's important to recognise the voice of the patient, and in this case we can look at the national survey of Wales for 2014-15, which was based on face-to-face interviews. That found that, of those who attended primary care, 91 per cent in Wales were satisfied with the care they received from their GP. Of those who attended secondary care—and it's important that it's those who attend, not just those who perceive a picture, but those who actually attend—92 per cent were satisfied with the care they received at their last appointment at an NHS hospital. These figures reflect the public opinion of those who have used the health system. That's not to say we should be content, but neither does it reflect the continual erosion of confidence in our health service that emanates from those benches to my left.

The Welsh Labour Government wants to end long waiting times in all areas of the NHS in Wales, and I'm sure the Deputy Minister will reiterate this point and provide details of the Government's actions to tackle the reduction in referral-to-treatment times. [Interruption.] Sorry, yes.

Fodd bynnag, yn ogystal â chael etholwyr yn cysylltu â mi i fynegi'r pryderon hynny, mae etholwyr wedi cysylltu â mi hefyd i ddweud wrthyf gymaint o ganmolioeth sydd ganddynt i'r GIG yma yng Nghymru a'r driniaeth gyflym a gawsant, a'r gofal rhagorol a ddarparwyd gan y staff ymroddedig ac ymrwymedig. Mae'n bwysig cydnabod llais y claf, ac yn yr achos hwn gallwn edrych ar arolwg cenedlaethol Cymru ar gyfer 2014-15, a oedd yn seiliedig ar gyfweiliadau wyneb yn wyneb. O'r rhai a gafodd ofal sylfaenol, canfu fod 91 y cant yng Nghymru yn fodlon ar y gofal a gawsant gan eu meddyg teulu. O'r rhai a gafodd ofal eilaidd—ac mae'n bwysig mai'r rhai sy'n cael y gofal yw'r rhain, ac nid y rhai sydd â chanfyddiad o'r darlun yn unig, ond y rhai sydd mewn gwirionedd yn cael y gofal—roedd 92 y cant yn fodlon ar y gofal a gawsant yn ystod eu hapwyntiad diwethaf mewn ysbyty GIG. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu barn gyhoeddus y bobl sydd wedi defnyddio'r system iechyd. Nid yw hynny'n golygu y dylem ymfodloni, ond nid yw chwaith yn adlewyrchu'r erydu cyson ar hyder yn ein gwasanaeth iechyd a glywn gan y meinciau ar fy llaw chwith.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru am roi terfyn ar amseroedd aros hir ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru, ac rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn ailadrodd y pwynt hwn ac yn darparu manylion ar gamau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn yr amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth. [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, iawn.

17:33 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to David Rees for giving way. When you waved your hand over in this direction and said about the negative messages coming from this side, I would correct you there. It's not coming from us—it's coming from our constituents, and it's coming from the constituents of many Assembly Members in this Chamber who are not happy with the NHS that they have in Wales at the moment. Yes, not everything is perfect across the border, but there is a problem here.

Diolch i David Rees am ildio. Pan oeddech yn chwifio eich llaw draw i'r cyfeiriad hwn ac yn sôn am y negeseuon negyddol a ddaw o'r ochr hon, byddwn yn eich cywiro yn y fan honno. Nid ni sy'n dweud hyn—ein hetholwyr sy'n dweud hyn, ac etholwyr llawer o Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr hon nad ydynt yn fodlon ar y GIG sydd ganddynt yng Nghymru ar hyn o bryd. Na, nid yw popeth yn berffaith ar draws y ffin, ond mae yna broblem yma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:33 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm glad the Member reflects the fact that it's his side continually eroding—and expanding and building up something that perhaps was well beyond. I remember the comments from his leader in Westminster as well, which definitely were out of order and beyond.

I'll go back to where I was. We are an ageing population. Kirsty Williams actually identified that, and, as a consequence of that ageing population, are experiencing more illnesses. Co-morbidity has been one of those conditions and problems that we face. We must ensure that we have the infrastructure, therefore, to be able to cope with the pressures that the NHS will continue to experience, and to ensure that all patients in the NHS are seen within the time frames recommended, and receive quality care in a dignified and well-informed environment.

Wel, rwy'n falch fod yr Aelod yn adlewyrchu'r ffaith mai ei ochr ef sy'n erydu'n gyson—ac yn ehangu ac yn adeiladu rhywbeth a oedd, o bosibl, yn gwbl annerbyniol. Rwy'n cofio sylwadau ei arweinydd yn San Steffan hefyd, a oedd yn bendant allan o drefn ac yn annerbyniol.

Af yn ôl i ble'r oeddwn. Rydym yn boblogaeth sy'n heneiddio. Nododd Kirsty Williams hynny ac o ganlyniad i'r boblogaeth honno sy'n heneiddio, rydym yn profi mwy o afiechydon. Mae cyd-forbidrwydd wedi bod yn un o'r cyflyrau a'r problemau sy'n ein hwynebu. Felly, rhaid i ni sicrhau bod gennym y seilwaith i allu ymdopi â'r pwysau y bydd y GIG yn parhau i brofi, ac i sicrhau bod yr holl gleifion yn y GIG yn cael eu gweld o fewn y fframiau amser a argymhellir, ac yn cael gofal o safon mewn amgylchedd urddasol a gwybodus.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diagnostics are clearly an important element of the infrastructure. Elin Jones has highlighted the diagnostic question, and waiting times have already been mentioned this afternoon, and in questions to the Minister earlier on. It was good, when I asked the question, to hear that improvements are being made in Wales. The Government has invested in new diagnostic equipment in order to reduce the time a patient has to wait for a test and examination. But we also need to ensure that we invest in staff to deliver those diagnostic tests and have greater utilisation of resources that we have already invested in. Staffing and recruitment remain key issues in delivering improvements, and evidence that has been presented to the Health and Social Care Committee suggests that, while some medical specialities, such as surgery, find it easier to recruit, in others, there are difficulties, particularly diagnostics, in areas of pathology, radiology and urology, and that's across the UK—it's not just in Wales. It's something that we need to look at, Deputy Minister; that's how we're going to improve upon that. It's not just clinicians; we need to ensure that we have a range of staff in all healthcare professions being trained and developed so we can deliver the services in those areas.

There are many other different conditions that we could focus on. I want to focus on two—they've already been mentioned, both of them, by Darren Millar: the referral-to-treatment time for cancer patients and cardiac patients. [Interruption.] Oh, you didn't mention them. Sorry, I heard it somewhere else; I accept that. It must have been someone else. We are often compared to England, so let's be clear: more cancer patients are treated within the 62-day target in Wales than are in England, and they are the latest published figures for the last quarter, April to June 2015. Statistics have been mentioned, so: 84.4 per cent in Wales, compared to 81.9 per cent in England.

I fully admit this is not good enough, and we have further to go, including in my own health board area—no problem and no questions about that—but we are seeing improvements, and some services ensure that 100 per cent of people are treated within the target time. Children's cancer: 100 per cent of patients started treatment within one month of diagnosis. Acute leukaemia: 100 per cent of patients started treatment within one month of diagnosis, and there are more that I could talk about. Cardiac patients at Morriston: the waiting list since March 2014 has dropped from 423—totally unacceptable—to 153 in February this year. That's clear improvement being made in cardiac services. A further £6.6 million has been invested by the Welsh Government to improve that even further in Morriston. These are positive, encouraging steps in the right direction.

We have an NHS in Wales that treats patients in the fastest and most dignified way possible, and we need to ensure that it keeps on progressing in that way.

Mae diagnosteg yn amlwg yn elfen bwysig o'r seilwaith. Mae Elin Jones wedi tynnu sylw at gwestiwn diagnosteg ac mae amseroedd aros eisoes wedi'u crybwyll y prynhawn yma, ac mewn cwestiynau i'r Gweinidog yn gynharach. Pan ofynnais y cwestiwn, roedd yn dda clywed bod gwelliannau'n cael eu gwneud yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi mewn offer diagnostig newydd er mwyn lleihau'r amser y mae claf yn gorfod aros am brofion ac archwiliadau. Ond mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn buddsoddi mewn staff i gynnal y profion diagnostig a gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau rydym eisoes wedi buddsoddi ynddynt. Mae staffio a recriwtio yn parhau i fod yn faterion allweddol wrth sicrhau gwelliannau, ac mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn awgrymu, er bod rhai arbenigeddau meddygol, megis llawdriniaeth, yn ei chael yn haws recriwtio, ceir anawsterau mewn arbenigeddau eraill, yn enwedig diagnosteg, ym meysydd patholeg, radioleg ac wroleg, ac mae hynny ledled y DU—nid yng Nghymru yn unig. Mae'n rhywbeth y mae angen i ni edrych arno, Ddirprwy Weinidog; dyna sut rydym am ei wella. Nid clinigwyr yn unig; mae angen i ni sicrhau bod gennym ystod o staff ym mhob proffesiwn gofal iechyd yn cael eu hyfforddi a'u datblygu, fel y gallwn ddarparu'r gwasanaethau yn y meysydd hynny.

Mae yna nifer o gyflyrau gwahanol eraill y gallem ganolbwyntio arnynt. Rwyf am ganolbwyntio ar ddau—maent wedi'u crybwyll yn barod, y ddau ohonynt, gan Darren Millar: yr amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth i gleifion canser a chleifion y galon. [Torri ar draws.] O, ni wnaethoch eu crybwyll. Mae'n ddrwg gennyf, fe'i clywais yn rhywle arall; rwy'n derbyn hynny. Mae'n rhaid mai rhywun arall a ddywedodd hynny. Rydym yn aml yn cael ein cymharu â Lloegr, felly gadewch i ni fod yn glir: mae mwy o gleifion canser yn cael eu trin o fewn y targed 62 diwrnod yng Nghymru nag yn Lloegr, a dyna'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer y chwarter diwethaf, mis Ebrill i fis Mehefin 2015. Crybwyllwyd ystadegau, felly: 84.4 y cant yng Nghymru, o'i gymharu ag 81.9 y cant yn Lloegr.

Rwy'n cyfaddef yn llwyr nad yw hyn yn ddigon da, ac mae gennym ragor i'w wneud, gan gynnwys yn ardal fy mwrdd iechyd fy hun—nid oes problem nac unrhyw gwestiwn ynglŷn â hynny—ond rydym yn gweld gwelliannau, ac mae rhai gwasanaethau yn sicrhau bod 100 y cant o bobl yn cael eu trin o fewn yr amser targed. Canser plant: dechreuodd 100 y cant o gleifion ar eu triniaeth o fewn un mis i'r diagnosis. Lewcemia aciwt: dechreuodd 100 y cant o gleifion ar eu triniaeth o fewn un mis i gael diagnosis, ac mae mwy y gallwn sôn amdano. Cleifion y galon yn Nhreforys: mae'r rhestr aros ers mis Mawrth 2014 wedi gostwng o 423—cwbl annerbyniol—i 153 ym mis Chwefror eleni. Dyna welliant amlwg yn cael ei wneud mewn gwasanaethau cardiaidd. Mae £6.6 miliwn pellach wedi cael ei fuddsoddi gan Lywodraeth Cymru i wella hynny hyd yn oed ymhellach yn Nhreforys. Mae'r rhain yn gamau cadarnhaol a chalonogol i'r cyfeiriad iawn.

Mae gennym GIG yng Nghymru sy'n trin cleifion yn y ffordd gyflymaf a mwyaf urddasol posibl, ac mae angen i ni sicrhau ei fod yn parhau i gamu ymlaen yn y ffordd honno.

17:36

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Therefore, I have greater faith here in the Welsh Labour Government achieving that than any Government involving the party to my left.

Felly, mae gennyf fwy o ffydd yma yng ngallu Llywodraeth Lafur Cymru i gyflawni hynny nag mewn unrhyw Lywodraeth sy'n cynnwys y blaid ar fy llaw chwith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:37

Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to have the opportunity today to take part in this debate on an issue that affects every one of us living and working in Wales.

Rwy'n falch o gael y cyfle heddiw i gymryd rhan yn y ddatl hon ar fater sy'n effeithio ar bob un ohonom sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm sure that Members will agree that medical issues dominate our mailbags, and, in my short time as an Assembly Member, I have already met several times with patients, health board members and clinical staff to get a greater appreciation of the issues surrounding the delivery of health services across north Wales.

Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno mai materion meddygol sy'n mynd â'r mwyaf o le yn ein bagiau post ac yn fy amser byr fel Aelod Cynulliad, rwyf eisoes wedi cyfarfod sawl gwaith â chleifion, aelodau bwrdd iechyd a staff clinigol i gael gwell gwerthfawrogiad o'r materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd ledled gogledd Cymru.

We must not allow today's debate to be turned into an attack on NHS staff in Wales. They do a valuable and difficult job under very challenging circumstances. However, what we do need to focus on is the constant failure to meet targets and why the Welsh Labour Government seems unwilling to address this, and also some of the additional pressures that are on our health service in north Wales. One thing does tend to lead to another in this service, and I think it's dangerous to view things in isolation.

Rhaid i ni beidio â chaniatáu i ddatl heddiw gael ei throï'n ymosodiad ar staff y GIG yng Nghymru. Maent yn gwneud gwaith gwerthfawr ac anodd dan amgylchiadau heriol iawn. Fodd bynnag, yr hyn y mae angen i ni ganolbwyntio arno yw'r methiant cyson i gyrraedd targedau a pham y mae Llywodraeth Lafur Cymru i'w gweld yn amharod i fynd i'r afael â hyn, a hefyd, peth o'r pwysau ychwanegol sydd ar ein gwasanaeth iechyd yn y gogledd. Mae un peth yn tueddu i arwain at y llall yn y gwasanaeth hwn, ac rwy'n credu ei bod yn beryglus inni edrych ar bethau ar eu pennau eu hunain.

Minister, as has already been highlighted by other speakers, waiting times for urgent cancer treatment have failed to be met for seven years. These are treatment targets set by your Government, which you have consistently failed to meet for nearly half the time that this Assembly has been in existence. The target has a stated aim of 95 per cent of urgent patients to begin their treatment within 62 days of referral. The last figures available from this June show that only 87 per cent of patients were seen in this target time. With a disease like cancer, a matter of days in delay in treatment starting can have a severe, and sometimes terminal, consequence in survival rates.

Weinidog, fel y mae siaradwyr eraill eisoes wedi nodi, methwyd â chyrraedd targedau amseroedd aros am driniaeth canser frys ers saith mlynedd. Targedau triniaeth a osodwyd gan eich Llywodraeth chi yw'r rhain, ac rydych wedi methu'n gyson â'u cyrraedd am bron i hanner yr amser y mae'r Cynulliad hwn wedi bodoli. Mae'r targed yn cynnwys nod penodol y dylai 95 y cant o gleifion brys fod wedi dechrau ar eu triniaeth o fewn 62 diwrnod i gael eu hatgyfeirio. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael o fis Mehefin eleni'n dangos mai 87 y cant o gleifion yn unig a gafodd eu gweld o fewn yr amser targed hwn. Gyda chlefyd fel canser, gall mater o ddyddiau o oedi cyn cychwyn triniaeth arwain at ganlyniad difrifol, a therfynol weithiau, yn y cyfraddau goroesi.

It is easy to throw numbers around, but let's look at these percentages as numbers. In July 2015, 77 people in Wales did not start their treatment within the recommended timescale. Minister, why should patients in Wales have their lives put at risk because your department is incapable of addressing this issue? The health board serving my constituents, Betsi Cadwaladr, sees 89 per cent starting their treatment within this 62-day limit, admittedly above the Wales average, but well below the 95 per cent target.

Mae'n hawdd taflu rhifau o gwmpas, ond gadewch i ni edrych ar y canrannau hyn fel rhifau. Ym mis Gorffennaf 2015, ni ddechreuodd 77 o bobl yng Nghymru ar eu triniaeth o fewn yr amserlen a argymhellir. Weinidog, pam y dylai bywydau cleifion yng Nghymru fod mewn perygl am fod eich adran yn analluog i fynd i'r afael â'r mater hwn? Yn y bwrdd iechyd sy'n gwasanaethu fy etholwyr i, Betsi Cadwaladr, 89 y cant o gleifion sy'n dechrau ar eu triniaeth o fewn y terfyn 62 diwrnod, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, rhaid cyfaddef, ond yn llawer is na'r targed o 95 y cant.

Back in 2013, the First Minister claimed that these targets would be met by March; they weren't. He then pledged to meet the targets by October 2013; they weren't. Not only were they not met, but, in true Welsh Labour style, the way waiting times are measured has now been changed. So, urgent and non-urgent routes are merged together. This is just another case of moving the goalposts and using smoke and mirrors to manipulate the figures.

You have a Labour Party leader in London holding up Wales as a bastion of how socialism works—a leader who you publicly backed during the leadership election. I find it hard to see how Welsh Labour is providing any beacon of hope as to how to run a nation's health service.

Minister, while I understand that this debate is looking at waiting times, as I said, it's dangerous to view things in the NHS in isolation. There are several other contributing factors that are putting extra strain on the NHS, especially in my part of north Wales. The reorganisation of maternity services has been controversial, confusing and damaging to the reputation of the health service provision in north Wales. Expectant mothers are facing the risk of having to travel miles across the top of north Wales on a road network that is creaking under the strain if plans to consolidate neonatal services at Ysbyty Glan Clwyd go ahead. Not only will this put extra strain on families, but it makes staff recruitment more difficult and places additional stresses on the current Ysbyty Glan Clwyd site. On Monday this week, a letter from three retired and 12 current consultants from Ysbyty Gwynedd appeared in the 'Daily Post', criticising the health board's decision, highlighting the refusal to make a decision, and putting forward other options. Minister, you claim to be listening to health professionals when considering the options—

Yn ôl yn 2013, honnodd y Prif Weinidog y byddai'r targedau hyn yn cael eu cyrraedd erbyn mis Mawrth; ni ddigwyddodd hynny. Yna, addawodd y byddai'n cyrraedd y targedau erbyn mis Hydref 2013; ni ddigwyddodd hynny. Nid yn unig na chawsant eu cyrraedd, ond yn gwbl nodweddiadol o Lafur Cymru, mae'r ffordd y mae amseroedd aros yn cael eu mesur wedi'i newid bellach. Felly, mae llwybrau brys a llwybrau nad ydynt yn rhai brys yn cael eu cyfuno. Dyma achos arall o symud y pyst gôl a thafu llwch i lygaid er mwyn ystrywio'r ffigurau.

Mae gennych arweinydd y Blaid Lafur yn Llundain yn cyfeirio at Gymru fel enghraifft wych o sut y mae sosialaeth yn gweithio—arweinydd a gefnogwyd yn gyhoeddus gennych yn ystod etholiad yr arweinyddiaeth. Rwy'n ei chael hi'n anodd gweld sut y mae Llafur Cymru yn rhoi unrhyw lygedyn o obaith o ran sut i redeg gwasanaeth iechyd gwlad.

Weinidog, er fy mod yn deall mai dadl sy'n edrych ar amseroedd aros yw hon, fel y dywedais, mae'n beryglus edrych ar bethau yn y GIG ar eu pennau eu hunain. Mae sawl ffactor cyfrannol arall sy'n rhoi straen ychwanegol ar y GIG, yn enwedig yn fy rhan i o ogledd Cymru. Mae ad-drefnu gwasanaethau mamolaeth wedi bod yn ddadleuol, yn ddryslyd ac yn niweidiol i enw da'r ddarpariaeth iechyd yn y gogledd. Mae mamau beichiog yn wynebu'r risg o orfod teithio milltiroedd ar draws gogledd Cymru ar rwydwaith ffordd sy'n gwegian dan y straen os yw cynlluniau i gyfuno gwasanaethau newyddenedigol yn Ysbyty Glan Clwyd yn mynd yn eu blaenau. Nid yn unig y bydd hyn yn rhoi straen ychwanegol ar deuluoedd, ond mae'n gwneud recriwtio staff yn anos ac yn gosod pwysau ychwanegol ar safle presennol Ysbyty Glan Clwyd. Ddydd Llun yr wythnos hon, ymddangosodd llythyr gan dri meddyg ymgynghorol wedi ymddeol a 12 o feddygon ymgynghorol presennol Ysbyty Gwynedd yn y 'Daily Post', yn beirniadu penderfyniad y bwrdd iechyd, gan dynnu sylw at y gwrthodiad i wneud penderfyniad, a chynnig opsiynau eraill. Weinidog, rydych yn honni eich bod yn gwrandao ar weithwyr iechyd proffesiynol wrth ystyried yr opsiynau—

- 17:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Finish with this now, please. Gorffennwch gyda hyn yn awr, os gwelwch yn dda.
- 17:42 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Continues.]—do you agree with these doctors, who state that it is difficult to predict an obstetric emergency and, when it does happen— [Yn parhau.]—a ydych chi'n cytuno â'r meddygon hyn, sy'n nodi ei bod yn anodd rhagweld argyfwng obstetrig, a phan fo'n digwydd—
- 17:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Finish now, please. Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.
- 17:42 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Continues.]—it is very serious and urgent? I urge you to take note of the advice of these people in the front line, and I have their letter here for you, Minister— [Yn parhau.]—mae'n ddifrifol iawn ac yn achos brys? Rwy'n eich annog i gymryd sylw o gyngor y bobl hyn sydd ar y rheng flaen, ac mae gennych eu llythyr yma i chi, Weinidog—
- 17:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
William Graham. [Interruption.] Please, I've given very good warning there that you should have finished. William Graham. William Graham. [Torri ar draws.] Rhoddais hen ddigon o rybudd y dylech fod wedi gorffen. William Graham.

17:42	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. It's worth saying and emphasising once again that the impetus for this debate came from complaints from our own constituents. Each one of us, probably, across the Chamber, has had comments of one kind or another—some good, as David said, but, unfortunately, the majority are not good, and that is the reason for this debate today.</p> <p>The number of patients waiting longer than 36 weeks to begin NHS treatment has more than tripled in the last four years: 27,000 people are waiting over nine months for treatment, and this must be unacceptable. In the last three months, the number of patients in the Aneurin Bevan Local Health Board waiting for specified diagnostic and therapy services was 21 per cent in May, 24 per cent by June and 27 per cent in July; a trend that continues to get worse. The accident and emergency figures are even more concerning. In April of this year, an average of 27 people per day were waiting more than eight hours for treatment, 21 per day in May, and 22 per day in July. In real terms, this means that one person per hour every day has to wait more than eight hours in A&E. Dyfed-Powys Police—</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n werth dweud a phwysleisio unwaith eto fod yr ysgogiad ar gyfer y ddadl hon wedi dod o gwynion gan ein hetholwyr ein hunain. Mae pob un ohonom, yn ôl pob tebyg, ar draws y Siambr, wedi derbyn sylwadau o ryw fath neu'i gilydd—rai ohonynt yn dda, fel y dywedodd David, ond yn anffodus, nid yw'r mwyafrif yn dda, a dyna'r rheswm dros y ddadl heddiw.</p> <p>Mae nifer y cleifion sy'n aros yn hwy na 36 wythnos i ddechrau triniaeth GIG wedi mwy na threblu yn y pedair blynedd diwethaf: mae 27,000 o bobl yn aros dros naw mis am driniaeth, ac mae'n rhaid bod hyn yn annerbyniol. Yn ystod y tri mis diwethaf, nifer y cleifion ym Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a oedd yn aros am wasanaethau diagnostig a therapi penodedig oedd 21 y cant ym mis Mai, 24 y cant erbyn mis Mehefin a 27 y cant ym mis Gorffennaf; tuedd sy'n parhau i waethygu. Mae'r ffigurau damweiniau ac achosion brys yn destun mwy o bryder hyd yn oed. Ym mis Ebrill eleni, roedd cyfartaledd o 27 o bobl y dydd yn aros mwy nag wyth awr am driniaeth, 21 y dydd ym mis Mai, a 22 y dydd ym mis Gorffennaf. Mewn termau real, mae'n golygu bod un person yr awr bob dydd yn gofod aros mwy nag wyth awr yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys. Mae Heddlu Dyfed-Powys—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:43	<p>David Rees Bywgraffiad Biography</p> <p>Will you take an intervention on that?</p>	<p>A wnewch chi dderbyn ymyriad ynglŷn â hynny?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:43	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, I will.</p>	<p>Gwnaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:43	<p>David Rees Bywgraffiad Biography</p> <p>I accept the figures you're talking about, but obviously you're talking about the wait for treatment there; I've attended A&E as a patient, but the situation was that I was required to stay in A&E for a period of time whilst they checked to ensure that the medication I received had no adverse effect. So, my discharge, actually, was well beyond the time, but I was treated a lot earlier. So, the timescales, in fact, and the figures, are not quite as accurate as that.</p>	<p>Rwy'n derbyn y ffigurau rydych yn siarad amdanynt, ond yn amlwg rydych yn siarad am yr amser aros am driniaeth; rwyf wedi mynychu'r adran ddamweiniau ac achosion brys fel claf, ond y sefyllfa oedd bod angen i mi aros yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys am gyfnod o amser wrth iddynt wneud yn siŵr nad oedd y feddyginiaeth a gefais wedi cael unrhyw effaith andwyol. Felly, cefais fy rhyddhau ymhell y tu hwnt i'r amser, ond cefais fy nhrin yn llawer cynharach. Nid yw'r amserlenni a'r ffigurau mor fanwl gywir â hynny mewn gwirionedd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:44	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>The fact remains that people were remaining in A&E for eight hours, and that is not acceptable.</p> <p>Dyfed-Powys Police gave comment that longer waiting times in A&E are having an impact on policing in Wales. Amazingly, officers were taking people to hospital when there were not enough ambulances. It is deeply regrettable that the Welsh Government persistently miss key NHS targets. Referral-to-treatment time targets have not been met since 2010, the urgent cancer treatment target has not been met for seven years, and A&E waiting-time targets have not been met since 2009. Missed targets across the health service are damaging the experience of patients in Wales.</p>	<p>Erys y ffaith fod pobl yn aros yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys am wyth awr, ac nid yw'n dderbyniol.</p> <p>Nododd Heddlu Dyfed-Powys fod amseroedd aros hirach yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys yn effeithio ar blismona yng Nghymru. Yn rhyfeddol, roedd heddwision yn cludo pobl i'r ysbty pan nad oedd digon o ambiwlansys. Mae'n anffodus iawn fod Llywodraeth Cymru yn gyson yn methu â chyrraedd targedau allweddol y GIG. Nid yw targedau amseroedd aros rhwng atgyfeirio a triniaeth wedi cael eu cyrraedd ers 2010, nid yw'r targed triniaeth canser frys wedi'i gyrraedd ers saith mlynedd, ac nid yw targedau amseroedd aros damweiniau ac achosion brys wedi cael eu cyrraedd ers 2009. Mae methiant i gyrraedd targedau ar draws y gwasanaeth iechyd yn niweidio profiadau cleifion yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Labour chose to cut spending on patients and Wales is the only nation of the United Kingdom in which health spending has been cut. The potential impact on NHS waiting times is, clearly, concerning.

The Health Foundation and the Nuffield Trust found that the Welsh Government's decision to cut rather than maintain NHS spending in real terms may have affected waiting times in Wales, and in comparing England, Scotland and Wales, waiting times for common procedures appear to be lengthening disproportionately in Wales. One of the more alarming features of the Labour Government's administration of the health service has been the inability to meet ambulance response times. The latest ambulance response times show that Welsh Government targets have been missed for 21 consecutive months. Wales has the lowest target in the United Kingdom for urgent ambulance call-outs, yet the target has only been met once since May 2012. Due to the pressure on the ambulance service, countless numbers of patients have been left to wait substantial periods of time, hours in some cases, for an ambulance to arrive. Worryingly, half of the incidents which involved waits of over 3 hours occur in my region, with the list of medical emergencies including breathing or heart problems, traumatic injuries, strokes and road traffic accidents. It is simply unacceptable that patients have been left to wait, in some instances for many hours for an ambulance to arrive. Almost 30% of the 262 category A call-outs waiting over an hour were in my region. In contrast with England, failure by the Welsh ambulance service to meet the category A eight-minute target resulted not in public censure and comment, but in the imposition of successively less-demanding milestone targets being set for the percentage of category A calls to be met within eight minutes. From April 2004, the target was reduced to 65% and now 58%.

The problem of lengthy ambulance waits for patients is likely to be attributed to the amount of time ambulances spend queuing outside accident and emergency departments. Ambulances forced to queue outside hospitals in the waiting area are subsequently unable to attend to patients in need of urgent medical assistance. Over the past two years, an outrageous 80,400 hours have been wasted while ambulances were waiting to discharge their patients. To put this into perspective, this equates to a staggering nine years. From tomorrow, a new traffic light system for ambulance response times will be introduced. I am concerned that, just like in April 2004, Labour's response to persistently missing targets is again to shift the goalposts for performance measurements. My own constituents are suffering as a result and this has resulted in a number of e-mails, letters and calls to surgeries. One has complained that his operation had been pushed back by as much as four years and on one occasion he received a letter saying staff were not available to perform the operation.

Dewisodd Llafur dorri gwariant ar gleifion a Chymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig lle y mae gwariant ar iechyd wedi cael ei dorri. Mae'r effaith bosibl ar amseroedd aros y GIG, yn amlwg, yn destun pryder.

Canfu'r Sefydliad Iechyd ac Ymddiriedolaeth Nuffield y gallai penderfyniad Llywodraeth Cymru i dorri yn hytrach na chynnal gwariant y GIG mewn termau real fod wedi effeithio ar amseroedd aros yng Nghymru, ac wrth gymharu Cymru, Lloegr a'r Alban, ymddengys bod amseroedd aros am driniaethau cyffredin yn ymestyn yn anghymesur yng Nghymru. Un o nodweddion mwyaf brawychus dull y Llywodraeth Lafur o weinyddu'r gwasanaeth iechyd yw'r anallu i gyrraedd targedau amseroedd ymateb ambiwlansys. Mae'r amseroedd ymateb ambiwlansys diweddaraf yn dangos bod targedau Llywodraeth Cymru heb gael eu cyrraedd ers 21 mis yn olynol. Cymru sydd â'r targed isaf yn y Deyrnas Unedig ar gyfer galwadau ambiwlans brys, ac eto unwaith yn unig y mae'r targed wedi'i gyrraedd ers mis Mai 2012. Oherwydd y pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans, mae niferoedd di-rif o gleifion wedi'u gadael i aros am gyfnodau sylweddol o amser, oriau mewn rhai achosion, i ambiwlans gyrraedd. Testun pryder oedd bod hanner yr achosion gydag amseroedd aros o dros 3 awr yn digwydd yn fy rhanbarth i, ac mae'r rhestr o argyfyngau meddygol yn cynnwys problemau anadlu neu broblemau â'r galon, anafiadau trawmatig, strôcs a damweiniau traffig ar y ffordd. Mae'n gwbl annerbyniol fod cleifion wedi cael eu gadael i aros, mewn rhai achosion am oriau lawer, i ambiwlans gyrraedd. Yn fy rhanbarth i y gwelwyd bron i 30% o'r 262 o alwadau categori A a oedd yn aros dros awr. Mewn cyferbyniad â Lloegr, nid arweiniodd methiant gwasanaeth ambiwlans Cymru i gyrraedd y targed wyth munud categori A at gerydd a sylw cyhoeddus, ond yn hytrach at osod targedau cerrig milltir llai a llai ymestynnol ar gyfer y ganran o alwadau categori A i'w cyrraedd o fewn wyth munud. O fis Ebrill 2004, cafodd y targed ei ostwng i 65%, a bellach mae'n 58%.

Mae'n debygol fod y broblem gydag amseroedd aros hir am ambiwlans i gleifion yn deillio o faint o amser y mae ambiwlansys yn ei dreulio yn ciwio y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae ambiwlansys sy'n cael eu gorfodi i giwio y tu allan i ysbytai yn y man aros wedyn yn methu â chyrraedd cleifion sydd angen cymorth meddygol brys. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n warthus bod 80,400 awr wedi'u gwastraffu wrth i ambiwlansys aros i ddadlwytho eu cleifion. I roi hyn mewn persbectif syfrdanol, mae hyn yn cyfateb i naw mlynedd. Yfory, cyflwynir system oleuadau traffig newydd ar gyfer amseroedd ymateb ambiwlansys. Yn union fel ym mis Ebrill 2004, rwy'n poeni mai ymateb Llafur i'r methiant cyson i gyrraedd targedau unwaith eto fydd symud y pyst gôl wrth fesur perfformiad. Mae fy etholwyr fy hunan yn dioddef o ganlyniad i hyn, ac mae wedi arwain at nifer o negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau ffôn i gymorthfeydd. Mae un wedi cwyno bod ei lawdriniaeth wedi cael ei gwthio'n ôl cymaint â phedair blynedd, ac ar un achlysur cafodd lythyr yn dweud nad oedd staff ar gael i gyflawni'r llawdriniaeth.

Given the scale of prolonged waiting times in Wales, and the persistent failure to hit key targets, a clear plan and timetable must be brought forward detailing how referral to treatment, and other key NHS waiting time targets will be met.

O ystyried graddau amseroedd aros hir yng Nghymru, a'r methiant parhaus i gyrraedd targedau allweddol, mae'n rhaid cyflwyno cynllun ac amserlen eglur yn manylu ar sut y bydd amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, a thargedau amseroedd aros eraill allweddol y GIG, yn cael eu cyrraedd.

17:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:47 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health

Thank you, Deputy Presiding Officer. At the outset, I can confirm that the Government will support both amendments but will not support today's motion. I want to, at the outset in my contribution, pay tribute to the 80,000 people that are employed by NHS Wales and the work they do every day, often in very difficult circumstances. Sadly, as we experienced yet again today, the political debate about our NHS relishes bad news and promotes the negative while taking for granted the truly astonishing daily achievements of our NHS. Our 80,000 NHS workers deserve to have a much more honest and constructive debate about the high quality healthcare that they provide, instead of a Tory-led assault on the NHS. The staff are not fooled by Tory claims to support NHS staff when they then spend all of their time criticising the service that they do provide.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ar y cychwyn, a gaf fi gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r ddau welliant, ond ni fydd yn cefnogi'r cynnig heddiw. Ar ddechrau fy nghyfraniad, rwyf am dalu teyrnged i'r 80,000 o bobl sy'n cael eu cyflogi gan GIG Cymru a'r gwaith y maent yn ei wneud bob dydd, yn aml o dan amgylchiadau anodd iawn. Yn anffodus, fel rydym wedi'i brofi unwaith eto heddiw, mae'r ddadl wleidyddol ynghylch ein GIG yn cael blas ar newyddion drwg ac yn hyrwyddo'r negyddol gan gymryd cyflawniadau dyddiol gwirioneddol syfrdanol ein GIG yn ganiataol. Mae 80,000 o weithwyr ein GIG yn haeddu cael dadl lawer mwy gonest ac adeiladol am y gofal iechyd o ansawdd uchel a ddarperir ganddynt, yn hytrach nag ymosodiad dan arweiniad y Toriaid ar y GIG. Nid yw'r staff yn cael eu twyllo gan honiadau'r Toriaid eu bod yn cefnogi staff y GIG pan fyddant wedyn yn treulio'u holl amser yn beirniadu'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Darren Millar a gododd—

Darren Millar rose—

17:48 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will take an intervention.

Fe gymeraf ymyriad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:48 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful to you for taking the intervention. If you listened to my contribution, I paid tribute to the hard work of those 80,000 members of staff. Will you acknowledge the pain and suffering of many of those over 400,000 people currently waiting for NHS treatment?

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am gymryd yr ymyriad. Pe baech chi wedi gwrandao ar fy nghyfraniad, telais deyrnged i waith caled yr 80,000 aelod o staff. A wnewch chi gydnabod poen a dioddefaint llawer o'r 400,000 a mwy o bobl sydd ar hyn o bryd yn aros am driniaeth GIG?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:49 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the regular conversations I have with NHS staff, they are regularly angry at the Tory assault on the NHS. They are not fooled by a cursory attempt to say that they back front-line staff while then running down the service that they do provide. Once again, the Tories choose to ignore what our health service has achieved since devolution and, especially, in the face of austerity. The Tories can never acknowledge, let alone welcome, the genuine satisfaction and overwhelming praise that the public has for the care that the NHS provides. They will never acknowledge that over 90% of the people of Wales are happy with their last episode of patient care. Once again, the Tories essentially claim that the NHS has gone backwards. The truth is found in the 18 million contacts in primary care, the 4 million outpatient appointments, the three quarters of a million hospital admissions, the 1 million A&E attendances and half a million ambulance calls each year.

Yn y sgysriau rheolaidd rhyngof i â staff y GIG, maent yn ddig yn rheolaidd ynglŷn ag ymosodiad y Toriaid ar y GIG. Nid ydynt yn cael eu twyllo gan ymgais arwynebol i ddweud eu bod yn cefnogi staff rheng flaen cyn mynd ati i fychanu'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Unwaith eto, mae'r Toriaid yn dewis anwybyddu'r hyn y mae ein gwasanaeth iechyd wedi'i gyflawni ers datganoli ac yn arbennig yn wyneb caledi. Ni all y Toriaid fyth gydnabod, heb sôn am groesawu, boddhad gwirioneddol a chanmoliaeth helaeth y cyhoedd o ran y gofal y mae'r GIG yn ei ddarparu. Ni fyddant byth yn cydnabod bod dros 90% o bobl Cymru yn fodlon ar eu profiad diweddaraf o ofal i gleifion. Unwaith eto, i bob pwrpas mae'r Toriaid yn honni bod y GIG wedi symud wysg ei gefn. Ceir hyd i'r gwyr yn y 18 miliwn o gysylltiadau ym maes gofal sylfaenol, y 4 miliwn o apwyntiadau cleifion allanol, y tri chwarter miliwn o dderbyniadau i'r ysbyty, yr 1 filiwn o dderbyniadau i'r adrannau damweiniau ac achosion brys, a'r hanner miliwn o alwadau ambiwlans bob blwyddyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, the last time the Tories ran Wales, we saw decades of underinvestment in the health service. It was not unusual for people to wait five years for treatment. Today, the standard referral time to treatment is 10 weeks. At the start of devolution, 2,500 people waited more than a year and a half for an out-patient appointment. Today, no-one waits that long. The NHS today is unambiguously better than it was 18 years ago when the Tories were in charge. NHS Wales sees more people, treats more people and treats more people more successfully than ever before. There has been a 20 per cent increase in the number of in-patient and day cases—650,000 more appointments every year. A&E attendance has risen by nearly 17 per cent, yet half will spend less than two hours there and the overwhelming majority are seen, treated and discharged within four hours. Urgent cancer referrals are up 12 per cent, and yet Wales continues to outperform the NHS in England on cancer waits, as David Rees has pointed out.

The Tories like to talk about waiting lists, and yet the size of the waiting list has gone up in every single part of the UK, and the waiting list has grown by a fifth here in Wales. It's grown by a quarter in England, and it tells you nothing about waiting times for treatment. We know that some people do wait too long for some procedures in parts of Wales. And we've been clear that we want waiting times, both for treatment and diagnostics, to come down, and we've seen some progress. Long waits for cardiac surgery have been eradicated in Wales. I hope that everyone in this Chamber will congratulate and recognise the hard work of the teams in Swansea and Cardiff to achieve this and, of course, the outstanding success in outcomes that Cardiff has achieved in being one of the top three cardiac centres in the UK.

Wrth gwrs, y tro diwethaf y bu'r Toriaid yn rheoli Cymru, gwelwom ddegawdau o danfuddsoddi yn y gwasanaeth iechyd. Nid oedd yn anarferol i bobl aros pum mlynedd am driniaeth. Heddiw, yr amser aros safonol rhwng atgyfeirio a thriniaeth yw 10 wythnos. Ar ddechrau datganoli, arhosai 2,500 o bobl dros flwyddyn a hanner am apwyntiad claf allanol. Heddiw, nid oes neb yn aros cyn hired. Mae'r GIG heddiw yn bendant yn well nag yr oedd 18 mlynedd yn ôl pan oedd y Toriaid yn ei reoli. Mae GIG Cymru yn gweld mwy o bobl, yn trin mwy o bobl ac yn trin mwy o bobl yn fwy llwyddiannus nag erioed o'r blaen. Bu cynnydd o 20 y cant yn nifer y cleifion mewnlod ac achosion cleifion allanol—ceir 650,000 yn fwy o apwyntiadau bob blwyddyn. Mae derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys wedi codi bron 17 y cant, ac eto bydd eu hanner yn treulio llai na dwy awr yno ac mae'r mwyafrif llethol yn cael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau o fewn pedair awr. Mae atgyfeiriadau cancer brys wedi codi 12 y cant, ac eto y mae Cymru yn parhau i berfformio'n well na'r GIG yn Lloegr ar amseroedd aros cancer, fel y mae David Rees wedi'i nodi.

Mae'r Toriaid yn hoffi siarad am restrau aros, ac eto mae maint y rhestr aros wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU, ac mae'r rhestr aros wedi cynyddu un rhan o bump yma yng Nghymru. Mae wedi tyfu chwarter yn fwy yn Lloegr, ac nid yw'n dweud dim wrthych am amseroedd aros am driniaeth. Gwyddom fod rhai pobl yn aros yn rhy hir am rai llawdriniaethau mewn rhannau o Gymru. Ac rydym wedi bod yn glir ein bod eisau i amseroedd aros leihau ar gyfer triniaeth a diagnosteg ac rydym wedi gweld rhywfaint o welliant. Mae amseroedd aros hir am lawdriniaeth y galon wedi cael eu dileu yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd pawb yn y Siambr hon yn llongyfarch ac yn cydnabod gwaith caled y timau yn Abertawe a Chaerdydd i gyflawni hyn ac wrth gwrs, llwyddiant ysgubol y canlyniadau y mae Caerdydd wedi eu cyflawni wrth ddod yn un o'r tair canolfan gardiaidd orau yn y DU.

17:52

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, we have made phenomenal progress in allowing those that need stents straight away in a cardiac situation. But, will you acknowledge that for those patients who can actually wait for their stents, we are not meeting the clinical targets for those patients to receive stenting surgery? And that's not me saying that—that's the award-winning surgeons in Cardiff and Swansea who've identified that need.

Ddirprwy Weinidog, rydym wedi gwneud cynnydd aruthrol o ran caniatáu i'r rheini sydd angen stentau ar unwaith mewn achosion cardiaidd. Ond i'r cleifion sy'n gallu aros am eu stentau mewn gwirionedd, a wneuch chi gydnabod nad ydym yn cyrraedd y targedau clinigol er mwyn i'r cleifion hynny gael llawdriniaeth stent? Ac nid fi sy'n dweud hynny —y llawfeddygon a enillodd wobrau yng Nghaerdydd ac Abertawe sydd wedi nodi'r angen hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:52

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I've made clear in every contribution I've made in this debate about the NHS, I don't claim that we're perfect and that there is not a need for further improvement. But, I remain immensely proud of what we have done in the health service. For example, we've halved the number of people waiting more than eight weeks for diagnostic tests in the last year. The average wait is four weeks. Management information shows that we can expect a further improvement in September, and I expect to see that progress continue.

Fel rwyf wedi'i wneud yn glir ym mhob cyfraniad a wneuthum yn y ddadl hon am y GIG, nid wyf yn honni ein bod yn berffaith ac nad oes angen gwelliant pellach. Ond rwy'n dal i fod yn hynod o falch o'r hyn rydym wedi'i wneud yn y gwasanaeth iechyd. Er enghraifft, rydym wedi haneru nifer y bobl a fu'n aros mwy nag wyth wythnos am brofion diagnostig yn y flwyddyn ddiwethaf. Yr amser aros ar gyfartaledd yw pedair wythnos. Dengys gwybodaeth reoli y gallwn ddisgwyl gwelliant pellach ym mis Medi, ac rwy'n disgwyl gweld y cynnydd hwnnw'n parhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, we recognise that we do need to make long term and sustainable change to the way that the NHS provides planned care. That's why we set up a clinically-led planned care programme to develop system-wide change. It's already developed plans for orthopaedics and ophthalmology, with ear, nose and throat and neurology to follow next year. This is part of our shared drive across the NHS to deliver the right care at the right time and in the right place.

We hear a lot from the Tories, and again today, about management. Well, let's talk about that. Which management presides over 20 trusts in special measures? Which management has two thirds of trusts facing tens of billions of pounds of deficit? Thirty-three trusts do not have a permanent chief executive; another one has gone this week. The average length of employment is less than 20 months for an NHS chief executive in England. Which management delivered a wasteful top-down reorganisation of the NHS, packaged and ready for privatisation? That is the Tory vision for the NHS.

Now let's talk about the Tories' record-breaking cuts—
[Interruption.]

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud newidiadau hirdymor a chynaliadwy i'r ffordd y mae'r GIG yn darparu gofal wedi'i gynllunio. Dyna pam ein bod wedi sefydlu rhaglen gofal wedi'i gynllunio dan arweiniad clinigol i ddatblygu newid ar draws y system gyfan. Mae eisoes wedi datblygu cynlluniau ar gyfer orthopedeg ac offthalmoleg, gyda gwasanaethau clust, trwyn a gwddf a niwroleg i ddilyn y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn rhan o'n cydymdrech ar draws y GIG i ddarparu'r gofal cywir ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn.

Rydym yn clywed llawer gan y Toriaid—ac eto heddiw—ynglŷn â rheoli. Wel, gadewch i ni siarad am hynny. Pa reolaeth sy'n llywyddu dros 20 o ymddiriedolaethau mewn mesurau arbennig? Pa reolaeth sydd â dwy ran o dair o'i hymddiriedolaethau yn wynebu degau o biliynau o bunnoedd o ddiffyg? Nid oes prif weithredwr parhaol gan 33 o ymddiriedolaethau; mae un arall wedi mynd yr wythnos hon. Mae hyd cyflogaeth prif weithredwr GIG yn Lloegr yn llai na 20 mis ar gyfartaledd. Pa reolaeth sydd wedi ad-drefnu'r GIG o'r brig i lawr mewn modd gwastraffus, wedi'i pheycynnu'n barod ar gyfer ei phreifateiddio? Dyna weledigaeth y Toriaid ar gyfer y GIG.

Nawr, gadewch i ni siarad am doriadau gwaeth nag erioed y Toriaid—[Torri ar draws.]

17:54

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. He's not giving way to you a second time, it appears.

Trefn, trefn. Nid yw am ildio i chi am yr eildro, mae'n ymddangos.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:54

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've given way to two interventions, and I don't have time to give way for more.

Rwyf wedi ildio i ddau ymyriad, ac nid oes gennyf amser i ildio i ragor.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let's talk about Tory record-breaking cuts. There have been record-breaking cuts for Wales—£1.4 billion-worth of record-breaking cuts—slashed from the Welsh Government budget by the Tory leadership of the UK Government since 2011. Straight after this year's election, a further £15 million of cuts in year, with a promise of more to come in the spending review. And we have heard not a single protest from a Welsh Conservative in this place. Not a single Welsh Conservative has stood up for Wales and the Welsh Government budget. We will continue to support our NHS in Wales. We've invested in services to help with the challenges of austerity, to treat an ageing population with increasingly complex conditions, and many of those are faced with the terrible dilemma of whether to heat or eat as a direct result of UK Government choices.

Gadewch i ni siarad am doriadau gwaeth nag erioed y Toriaid. Cafwyd toriadau llym na welwyd eu tebyg o'r blaen i Gymru—gwerth £1.4 biliwn o doriadau gwaeth nag erioed—oddi ar gyllideb Llywodraeth Cymru gan arweinwyr Toriaidd Llywodraeth y DU ers 2011. Yn syth ar ôl yr etholiad eleni, £15 miliwn arall o doriadau canol blwyddyn, gydag addewid o ragor i ddod yn yr adolygiad o wariant. Ac nid ydym wedi clywed gair o brotest gan y Ceidwadwyr Cymreig yn y lle hwn. Nid oes un Ceidwadwr Cymreig wedi sefyll dros Gymru a chyllideb Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i gefnogi ein GIG yng Nghymru. Rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaethau i helpu gyda heriau caledi, i drin poblogaeth sy'n heneiddio gyda chyflyrau iechyd cynyddol gymhleth, ac mae llawer o'r rheini'n wynebu'r cyfyng-gyngor ofnadwy rhwng cadw'n gynnes neu fwyta o ganlyniad uniongyrchol i ddewisiadau Llywodraeth y DU.

Despite the cuts to our budgets, we have provided more than £1 billion of extra cash resource to our NHS in these last two years. In revenue terms, that equates to an increase of more than 9 per cent or alternatively an extra £178 per person.

Er gwaethaf y toriadau i'n cyllidebau, rydym wedi darparu dros £1 biliwn o adnoddau ariannol ychwanegol i'n GIG yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. O ran refeniw, mae hynny'n cyfateb i gynnydd o fwy na 9 y cant neu fel arall, £178 y person yn ychwanegol.

As Kirsty Williams recognised in her thoughtful contribution, health spending equates to 46 per cent of the Welsh Government budget. This is hardly a statement of any lack of resource and a lack of will to fund the health service in Wales. Last week, the finance Minister announced a further 1 per cent for the NHS, to ensure people with hepatitis C get access to the most advanced medicines.

We will continue to work with and for our NHS to sustain an improved performance across the health service this month, next month and into the new year.

We do not see the NHS as an opportunity to score the cheapest of political points. We will invest in the NHS. We will continue to expect more: to see waiting times improve and to see outcomes improve for patients. There is so much to be proud of in our national health service, and I will make no apology in continuing to stand up for our NHS and the people that it serves.

17:56

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for all the contributions, starting with Darren Millar commending the many excellent and hard-working NHS staff in Wales undermined by Labour's record-breaking NHS cuts and excuses. Hospitals closed and downgraded, minor injury units closed, community hospital services withdrawn, recruitment crisis allowed to develop, all putting pressure on accident and emergency departments with consequences for patients and loved ones.

Elin Jones stressed rightly the importance of diagnostic tests, particularly cancer, but noted that 25 per cent of patients still wait more than two months for diagnosis.

Kirsty Williams noted that the Welsh Government had set its own breach of targets in full knowledge of the facts and predictable pressures, and that waiting times, again, can be a matter of life and death. Of course, it's a matter of regret that the Liberal Democrats voted for the Labour budget that saw the biggest ever single decrease in Welsh NHS funding.

Angela Burns started by saying the picture was a little short of scandalous. She said the remedy was not down to the workforce, but how the workforce was managed, and then, of course, the policy framework imposed upon them by Welsh Government. She talked about the impact of long-term pain management clinics, something which I know in north-east Wales has been profound when the Welsh health service repatriated patients who'd always previously used pain clinics in the Countess of Chester Hospital, subjecting them to months and months of agony. She referred to older patients in a revolving-door situation, leading to more resources having to be used to then make them well. And something close to my heart, the delays in autism assessment and diagnosis.

Fel y cydnabu Kirsty Williams yn ei chyfraniad meddylgar, mae gwariant ar iechyd yn cyfateb i 46 y cant o gyllideb Llywodraeth Cymru. Prin fod hwn yn ddatganiad o unrhyw ddiffyg adnoddau a diffyg ewyllys i ariannu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid 1 y cant yn ychwanegol ar gyfer y GIG, er mwyn sicrhau bod pobl sydd â hepatitis C yn cael mynediad at y meddyginiaethau mwyaf datblygedig.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r GIG ac ar ei ran er mwyn cynnal gwell perfformiad ar draws y gwasanaeth iechyd y mis hwn, y mis nesaf ac i mewn i'r flwyddyn newydd.

Nid ydym yn gweld y GIG fel cyfle i sgorio pwyntiau gwleidyddol rhad. Byddwn yn buddsoddi yn y GIG. Byddwn yn parhau i ddisgwyl mwy: i weld amseroedd aros yn gwella ac i weld canlyniadau'n gwella i gleifion. Mae cymaint i fod yn falch ohono yn ein gwasanaeth iechyd gwladol, ac nid wyf yn ymddiheuro am barhau i sefyll dros ein GIG a'r bobl y mae'n darparu gwasanaeth ar eu cyfer.

Diolch i chi am yr holl gyfraniadau, gan ddechrau gyda Darren Millar yn cymeradwyo holl staff rhagorol a gweithgar y GIG yng Nghymru sy'n cael eu tansellio gan doriadau mwy nag erioed i'r GIG ac esgusodion Llafur. Ysbytai'n cau ac yn cael eu hisraddio, unedau mân anafiadau'n cau, gwasanaethau ysbytai cymunedol yn cael eu tynnu'n ôl, argyfwng recriwtio sy'n cael ei ganiatáu i ddatblygu, oll yn rhoi pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys gyda chanlyniadau i gleifion a'u hanwyliaid.

Pwysleisiodd Elin Jones yn gywir pa mor bwysig yw profion diagnostig, yn enwedig canser, ond nododd fod 25 y cant o gleifion yn dal i aros mwy na dau fis i gael diagnosis.

Nododd Kirsty Williams fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ei methiannau ei hun i gyrraedd y targedau gan wybod y ffeithiau'n llawn a'r pwysau rhagweladwy, a bod amseroedd aros, unwaith eto, yn gallu bod yn fater o fyw neu farw. Wrth gwrs, mae'n destun gofid fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi pleidleisio dros y gyllideb Lafur a welodd y gostyngiad unigol mwyaf erioed i gyllid y GIG yng Nghymru.

Dechreuodd Angela Burns drwy ddweud bod y darlun yn ymylu ar fod yn gywilyddus. Dywedodd nad mater i'r gweithlu oedd dod o hyd i ateb ond yn hytrach, roedd yn ymwneud â'r ffordd y câi'r gweithlu ei reoli, ac wrth gwrs, y fframwaith polisi a orfodir arnynt gan Lywodraeth Cymru. Siaradodd am effaith clinigau rheoli poen hirdymor, rhywbeth y gwn ei fod yn fater difrifol iawn yng ngogledd-ddwyrain Cymru pan ddychwelwyd cleifion a arferai ddefnyddio clinigau poen yn Ysbyty'r Countess of Chester yn flaenorol i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, gan olygu eu bod wedi dioddef misoedd lawer o boen. Cyfeiriodd at gleifion hŷn mewn sefyllfa drws troi, gan arwain at orfod defnyddio mwy o adnoddau er mwyn eu gwella. A rhywbeth sy'n agos at fy nghalon, yr oedi wrth asesu a gwneud diagnosis o awtistiaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

David Rees acknowledges the problem and rightly praised staff for their patient care and rightly raised the importance of staff training and development.

Janet Haworth, again—how valuable and difficult a job NHS staff do under challenging circumstances. Why should patients be put at risk because the Minister is incapable of dealing with problems that have grown on his watch and that of his predecessors? Other contributing factors, she referred to, putting strain on the NHS, and referring to maternity service reorganisation in north Wales, criticised by the health board's own consultants consistently, right up to this week.

William Graham, the impetus for this debate came from complaints by our own constituents. I'd add, matters raised directly with us by NHS staff as well. Wales is the only UK nation, he said, where health spending has been cut in real terms, and it's Labour's response to missed targets to move goalposts.

The Deputy Minister—well, it was a predictable Tory bogeyman soundbite response from an artless dodger. He had the cheek, after 16 and a half years of Labour running NHS Wales, to say that we need long-term and sustainable change. Has it taken you 16 and a half years to get to that point? You've been running it since 1999. How about the A&E nurse from Cardiff who said that it was worse than her tour—

Mae David Rees yn cydnabod y broblem a rhoddodd ganmoliaeth haeddiannol i staff am eu gofal i gleifion. Roedd yn iawn hefyd i grybwyll pwysigrwydd hyfforddi a datblygu staff.

Janet Haworth, unwaith eto—am waith mor werthfawr ac anodd y mae staff y GIG yn ei wneud o dan amgylchiadau heriol. Pam y dylai cleifion gael eu rhoi mewn perygl am na all y Gweinidog ymdrin â phroblemau sydd wedi tyfu o dan ei oruchwyliaeth ef a goruchwyliaeth ei ragflaenwyr? Cyfeiriodd at ffactorau eraill sy'n cyfrannu at roi straen ar y GIG, a chyfeiriodd at ad-drefnu gwasanaethau mamolaeth yn y gogledd, a feirniadwyd gan ymgynghorwyr y bwrdd iechyd ei hun yn gyson, hyd at yr wythnos hon.

William Graham, daeth yr ysgogiad i'r ddadl hon o gwynion gan ein hetholwyr ein hunain. Byddwn yn ychwanegu materion a dynnwyd i'n sylw'n uniongyrchol gan staff y GIG yn ogystal. Cymru yw'r unig wlad yn y DU, meddai, lle y mae gwariant ar iechyd wedi cael ei dorri mewn termau real, ac ymateb Llafur i dargedau a fethwyd yw symud pyst y gôl.

Y Dirprwy Weinidog—wel, dyna sylw bachog rhagweladwy am y bwci-bo Toriaidd gan ystrywiwr di-glem. Roedd ganddo'r wyneb, ar ôl 16 a hanner o flynyddoedd o Lafur yn rhedeg y GIG yng Nghymru, i ddweud bod arnom angen newid hirdymor a chynaliadwy. A yw wedi cymryd 16 a hanner o flynyddoedd i chi gyrraedd y pwynt hwnnw? Rydych chi wedi bod yn ei redeg ers 1999. Beth am y nyrs ddamweiniau ac achosion brys o Gaerdydd a ddywedodd ei fod yn waeth na'i thaith ar ddyletswydd—

18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Order. I don't mind a bit of passion, but this is going too far. Let's all calm down and hear the end of this speech. Mark Isherwood.

Trefn. Trefn. Nid oes ots gennyf weld ychydig o angerdd, ond mae hyn yn mynd yn rhy bell. Gadewch i ni i gyd dawelu a chlywed diwedd yr araith hon. Mark Isherwood.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:00 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

How about the A&E nurse from Cardiff who said that it was worse than her tour of duty in Iraq? Health complaints to the public services ombudsman are at record levels. Of course, the Deputy Minister compared chalk and cheese. He knows that waiting times in England are 18 weeks as opposed to 26 weeks here, and, of course, they generally meet them in England. They haven't met them here for years. He talks about special measures without mentioning that the thresholds in England are lower because the UK Government isn't afraid of exposing poor performance and doing something about it.

Beth am y nyrs ddamweiniau ac achosion brys o Gaerdydd a ddywedodd ei fod yn waeth na'i thaith ar ddyletswydd yn Irac? Mae lefelau cynion iechyd i'r ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus yn uwch nag erioed o'r blaen. Wrth gwrs, roedd y Dirprwy Weinidog yn cymharu dau beth cwbl wahanol. Mae'n gwybod mai 18 wythnos yw amseroedd aros yn Lloegr yn hytrach na 26 wythnos yma, ac wrth gwrs, yn gyffredinol maent yn eu cyrraedd yn Lloegr. Nid ydynt wedi eu cyrraedd yma ers blynyddoedd. Mae'n siarad am fesurau arbennig heb sôn bod y trothwyon yn Lloegr yn is am nad yw Llywodraeth y DU yn ofni datgelu perfformiad gwael a gwneud rhywbeth am y peth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We've heard a range of statistics; I won't choose to repeat them. I'll actually quote here Jeremy Corbyn, who said that there are issues with health in Wales. Mark Drakeford responded by saying that this is being tackled by link-ups with large English hospitals, but it was Labour's repatriation of health services from large English hospitals that helped drive the growth in waiting lists and which has caused so much fear, distress and pain for so many patients, who will see the laughter on your faces and they will be your judge. I will leave the very last word to a constituent who e-mailed me yesterday:

'What is happening to our healthcare? Glan Clwyd in special care, Pendyffryn Medical Group terminating their contract with the health board on 31 March 2016. My doctor's off to Cyprus to practice as a GP.'

That is what you have done to too many people working for and dependent on the NHS in Wales. Hang your heads in shame.

Rydym wedi clywed amryw o ystadegau; nid wyf yn dewis eu hailadrodd. Mewn gwirionedd fe ddyfynnaf Jeremy Corbyn yma, a ddywedodd fod problemau gydag iechyd yng Nghymru. Ymatebodd Mark Drakeford drwy ddweud bod hyn yn cael ei ddatrys drwy gysylltiadau ag ysbytai mawr yn Lloegr, ond gwaith Llafur ar ddod â gwasanaethau iechyd yn ôl i Gymru o ysbytai mawr yn Lloegr a helpodd i ymestyn y rhestrau aros ac sydd wedi achosi cymaint o ofn, gofid a phoen i gymaint o gleifion, a fydd yn gweld y chwerthin ar eich wynebau ac a fydd yn eich barnu. Gadawaf y gair olaf un i etholwr a anfonodd e-bost ataf ddoe:

'What is happening to our healthcare? Glan Clwyd in special care, Pendyffryn Medical Group terminating their contract with the health board on 31 March 2016. My doctor's off to Cyprus to practice as a GP.'

Dyna'r hyn rydych wedi'i wneud i ormod o bobl sy'n gweithio i'r GIG ac sy'n dibynnu ar y GIG yng Nghymru. Dylech blygu eich pennau mewn cywilydd.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment? Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio? A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:01 **6. Cyfnod Pleidleisio**

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote first on the Welsh Conservatives' debate on local authority services and council tax. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendment tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 38. Therefore, the motion without amendment is not agreed and we will now vote on the amendment.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 38, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5831](#)

6. Voting Time

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, pleidleisiwn yn gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar wasanaethau awdurdodau lleol a'r dreth gyngor. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, pleidleisiwn ar y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliant.

Motion not agreed: For 11, Against 38, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5831](#)

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. There voted against 11. Therefore, amendment 1 is agreed.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5831](#)

Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

Amendment agreed: For 38, Against 11, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5831](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Cynnig NDM5831 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5831 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r rhan bwysig y mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn ei chwarae mewn profiadau unigolion o wasanaethau cyhoeddus.

1. Notes the important role that local authority services play in an individuals' experiences of public services.

2. Yn gresynu at y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau awdurdod lleol yn y dyfodol os bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fynd ar drywydd polisiâu llymder.

2. Regrets the implications for the future of local authority services if the UK Government continues to pursue austerity policies.

3. Yn credu y dylai awdurdodau lleol a chymunedau gael y rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain i godi cyllid, er mwyn amddiffyn gwasanaethau a swyddi lleol.

3. Believes that local authorities and communities should have the freedom to make their own decisions to raise finance, in order to protect local services and jobs.

18:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Open the vote. Have all Members voted who wished to vote? Close the vote. There voted in favour 38 and there voted against 11—eventually. The motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. A yw pob Aelod a oedd yn dymuno pleidleisio wedi gwneud hynny? Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid, a phleidleisiodd 11 yn erbyn—yn y diwedd. Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Derbyniwyd cynnig NDM5831 fel y'i diwygiwyd: O blaid 38, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Motion NDM5831 as amended agreed: For 38, Against 11, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5831 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5831 as amended](#)

18:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We now vote on the Welsh Conservatives' debate on NHS waiting times. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 29. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig am amseroedd aros y GIG. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 20, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 20, Against 29, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5830](#)

[Result of the vote on motion NDM5830](#)

18:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49. No votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5830](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5830](#)

18:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49. There were no votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5830](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5830](#)

18:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis fel y'i diwygiwyd.

Cynnis NDM5830 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5830 as amended:

Cynnis bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi na chyrraeddwyd y targedau ar gyfer amser atgyfeirio am driniaeth GIG Cymru ers 2010;

1. Notes that Welsh NHS referral-to-treatment time targets have not been met since 2010;

2. Yn gresynu at effaith andwyol bosibl amseroedd aros hir yn y GIG ar ganlyniadau cleifion a'u hansawdd bywyd; a

2. Regrets the potential adverse impact of prolonged NHS waiting times on patient outcomes and quality of life; and

3. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau diagnosis cyflymach i leihau amseroedd aros.

3. Recognises the importance of achieving faster diagnosis in reducing waiting times.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu cynllun ac amserlen ar gyfer cyrraedd ei thargedau amser atgyfeirio am driniaeth a sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol drwy gydol eu gofal.

4. Calls upon the Welsh Government to set out a plan and timetable for achieving its referral-to-treatment time targets and to ensure that patients are seen in a timely manner throughout their care.

18:05

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24. There voted against 25, therefore the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid. Pleidleisiodd 25 yn erbyn, felly gwrthodwyd y cynnis fel y'i diwygiwyd.

Gwrthodwyd cynnis NDM5380 fel y'i diwygiwyd: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.

Motion NDM5380 as amended not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5830 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5830 as amended](#)

18:05

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

For those Members who are not staying for the final item, can you please leave quietly?

A wnaiff yr Aelodau nad ydynt yn aros ar gyfer yr eitem olaf adael yn dawel os gwelwch yn dda?

18:06

7. Dadl Fer: Gofal Lliniarol yng Nghymru—Edrych y Tu Hwnt i 2016

7. Short Debate: Palliative Care in Wales—Looking Beyond 2016

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 7 is the short debate and I call on Mark Isherwood to speak to the subject he has chosen.

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 7 yw'r ddadl fer a galwaf ar Mark Isherwood i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

18:06

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much. My subject is palliative care in Wales, looking beyond 2016. I'm happy to accept requests to speak from Janet Finch-Saunders, Darren Millar and Kirsty Williams.

Diolch yn fawr iawn. Fy mhwnic yw gofal lliniarol yng Nghymru, gan edrych y tu hwnt i 2016. Rwy'n hapus i dderbyn ceisiadau i siarad gan Janet Finch-Saunders, Darren Millar a Kirsty Williams.

As chair of the cross-party group on hospices and palliative care, I've consulted Hospices Cymru to inform my contribution to this debate. The majority of end-of-life care in Wales is provided by local hospices across a range of settings, including in-patient units and hospice-at-home services. Hospices are key to the delivery of palliative care. It's vital that, at local level, health boards make full use of hospices' expertise to ensure they best meet the needs of their communities. As the population ages and people approach the end of life with evermore complex healthcare needs, often involving care for more than just one condition, access to cost-effective, high quality palliative and end-of-life care will become ever more important.

In Wales, an estimated 24,000 of the 32,000 people who die each year, need some form of palliative care, but the London School of Economics estimates that 6,200 of these do not receive any. There are lessons the NHS can learn from hospices and especially about the integration of care services in the home, community, hospital and hospice. With pressures on public spending, it's even more important that NHS Wales's investment in palliative care is sustained. Instead, the level of funding from health boards in Wales has remained static since 2010 with no inflationary increases added to the funding given to hospices, and hospices throughout Wales are over £1 million worse off now because of this.

As the north Wales hospices' liaison group report on the future of palliative care in Wales states, the lack of a coherent palliative care strategy for north Wales based on a comprehensive needs assessment is preventing service providers, including hospices, from planning effectively for the future.

The Welsh Government's end-of-life delivery plan sets out how NHS Wales should work with partners, in particular in the hospice and social care sector, to reduce inequalities in end-of-life care. It's designed to help health boards and other organisations to support living and dying well, detect and identify patients early, deliver fast, effective care and reduce the distress of terminal illness for the patient and their family. This plan will end next year and the challenge is for the next Welsh Government to develop a new plan in partnership with hospices and palliative care providers.

Fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar hosbisau a gofal lliniarol, rwyf wedi ymgynghori â Hosbisau Cymru er mwyn llunio fy nghyfraniad i'r ddatl hon. Mae'r rhan fwyaf o ofal diwedd oes yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan hosbisau lleol mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys unedau cleifion mewnol a gwasanaethau hosbis yn y cartref. Mae hosbisau'n allweddol ar gyfer darparu gofal lliniarol. Mae'n hanfodol fod byrddau iechyd ar lefel leol, yn gwneud defnydd llawn o arbenigedd hosbisau i sicrhau eu bod yn mynd ati yn y ffordd orau i ddiwallu anghenion eu cymunedau. Wrth i'r boblogaeth heneiddio a phobl yn nesu at diwedd eu hoes gydag anghenion gofal iechyd mwyfwy cymhleth, sy'n aml yn cynnwys gofal ar gyfer mwy nag un cyflwr, bydd mynediad at ofal lliniarol diwedd oes sy'n gosteifeithiol ac o ansawdd da yn dod yn gynyddol bwysig.

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 24,000 o'r 32,000 o bobl sy'n marw bob blwyddyn angen rhyw fath o ofal lliniarol, ond mae Ysgol Economeg Llundain yn amcangyfrif nad yw 6,200 o'r rhain yn derbyn unrhyw ofal o'r fath. Ceir gwersi y gall y GIG eu dysgu gan hosbisau ac yn enwedig ynglŷn ag integreiddio gwasanaethau gofal yn y cartref, yn y gymuned, mewn ysbytai ac mewn hosbisau. Gyda phwysau ar wariant cyhoeddus, mae hyd yn oed yn fwy pwysig i ni gynnal buddsoddiad GIG Cymru ym maes gofal lliniarol. Yn lle hynny, mae lefel y cyllid gan fyrdau iechyd yng Nghymru wedi parhau'n sefydlog ers 2010 heb unrhyw gynydd chwyddiannol wedi'i ychwanegu at y cyllid a roddir i hosbisau, ac mae hosbisau ledled Cymru fwy na £1 miliwn yn waeth eu byd yn awr oherwydd hyn.

Fel y mae adroddiad grŵp cyswllt hosbisau gogledd Cymru ar ddyfodol gofal lliniarol yng Nghymru yn ei nodi, mae diffyg strategaeth gydlynol ar gyfer gofal lliniarol yng ngogledd Cymru yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o anghenion yn atal darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys hosbisau, rhag cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Mae cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal diwedd oes yn nodi sut y dylai GIG Cymru weithio gyda phartneriaid, yn enwedig yn y sector hosbisau a gofal cymdeithasol, i leihau anghydraddoldebau mewn gofal diwedd oes. Ei nod yw helpu byrddau iechyd a sefydliadau eraill i gefnogi byw a marw gydag urddas, canfod ac adnabod cleifion yn gynnar, darparu gofal cyflym ac effeithiol a lleihau gofid salwch angheuol i'r claf a'i deulu. Bydd y cynllun hwn yn dod i ben y flwyddyn nesaf a'r her yw i Lywodraeth nesaf Cymru ddatblygu cynllun newydd mewn partneriaeth â hosbisau a darparwyr gofal lliniarol.

As one hospice under the Hospices Cymru banner has told me, the points that have been pertinent for a while now, centre around funding and finance. We need secure, realistic funding arrangements for statutory hospice funding contributions, following the current three-year ring-fenced arrangement. Health boards are now budgeting on three-year cycles; the same pressures apply to hospices and clarity is needed on future funding projections. They said that a funding proportion is closer to achieving parity with England, i.e. approximately 20 per cent versus at least 33 per cent in England and they said that this is especially crucial, given the 1:4 return on investment ratio achieved by hospices against their statutory income. They also call for the availability of Welsh Government capital funds for projects that improve palliative care, similar to the £60 million allocated to English hospices in 2012.

Another hospice has stated that third sector providers of services should be treated equitably with NHS providers. Any inflationary uplifts passed on to NHS providers by their health board should also be reflected in service level agreements with third sector providers of palliative care services.

The last all-Wales needs assessment work for palliative care in Wales was commissioned in 2005 by the cancer networks and undertaken by Peter Tebbit. His October 2005 report was split into the different cancer networks. Since then, we've had the palliative care planning group Sugar report in 2008 and the formation of the implementation group under the chair of Baroness Ilori Finlay. Neither of these two groups have looked into the impact of changes in the population demographics. In the last few years, we've had predictions of a significant increase in the average age of people living over the next 20-plus years. Living longer doesn't mean living healthier, and it's predicted that people will live with co-morbidities, not just cancer. The impact on palliative care in Wales is significant. What we don't know is what services will be needed to support the provision of palliative care and, therefore, to help NHS Wales, health boards and third sector providers plan services adequately. In his response, therefore, would the Minister please agree we need an updated population needs assessment both at a national and regional level? I'd be grateful if he could address that in his response.

Palliative care in Wales is seeing a shortage of specialist doctors. There is, therefore, the need to develop a medium to long-term strategy for NHS Wales, and specifically for palliative care, to address workforce issues now.

Fel y dywedodd un o'r hosbisau dan faner Hosbisau Cymru wrthyf, mae'r pwyntiau sydd wedi bod yn berthnasol ers cryn dipyn yn awr yn troi o gwmpas arian a chyllid. Mae arnom angen trefniadau cyllido cadarn a realistig ar gyfer cyfraniadau arian statudol i hosbisau, yn dilyn y trefniant cyfredol sy'n clustnodi arian am dair blynedd. Mae byrddau iechyd bellach yn cyllidebu ar sail cylchoedd tair blynedd; mae'r un pwysau'n berthnasol i hosbisau ac mae angen eglurder ynghylch rhagamcanion cyllid yn y dyfodol. Roeddent yn dweud bod y gyfran ariannu yn agosach at fod yn gydradd â Lloegr, hy tua 20 y cant yn erbyn o leiaf 33 y cant yn Lloegr ac roeddent yn dweud bod hyn yn arbennig o bwysig, o ystyried y gymhareb elw ar y buddsoddiad o 1:4 a gyflawnir gan hosbisau yn erbyn eu hincwm statudol. Maent hefyd yn galw am sicrhau bod cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer prosiectau sy'n gwella gofal lliniarol, yn debyg i'r £60 miliwn a ddyrannwyd i hosbisau yn Lloegr yn 2012.

Mae hosbis arall wedi datgan y dylai darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector gael eu trin yn gyfartal â darparwyr y GIG. Dylai unrhyw gynnydd chwyddiannol a drosglwyddir i ddarparwyr y GIG gan eu bwrdd iechyd gael eu hadlewyrchu hefyd mewn cytundebau lefel gwasanaeth â darparwyr gwasanaethau gofal lliniarol y trydydd sector.

Comisiynwyd y gwaith asesu anghenion gofal lliniarol diwethaf ar gyfer Cymru gyfan yn 2005 gan y rhwydweithiau cancer ac fe'i cyflawnwyd gan Peter Tebbit. Roedd ei adroddiad ym mis Hydref 2005 wedi'i rannu yn ôl y gwahanol rwydweithiau cancer. Ers hynny, rydym wedi cael adroddiad grŵp cynllunio gofal lliniarol Sugar yn 2008 a ffurfio'r grŵp gweithredu o dan gadeiryddiaeth y Farwnes Ilori Finlay. Nid yw'r un o'r ddau grŵp wedi edrych ar effaith newidiadau yn nemograffeg y boblogaeth. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cael rhagfynegiadau o gynnydd sylweddol yn oedran cyfartalog y bobl a fydd yn byw dros yr 20 a mwy o flynyddoedd nesaf. Nid yw byw'n hirach yn golygu byw'n iachach, a rhagwelir y bydd pobl yn byw gyda chyflyrau cydforbid, nid cancer yn unig. Mae'r effaith ar ofal lliniarol yng Nghymru yn arwyddocaol. Yr hyn nad ydym yn ei wybod yw pa wasanaethau y bydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal lliniarol ac felly, i helpu GIG Cymru, byrddau iechyd a darparwyr trydydd sector i gynllunio gwasanaethau yn ddigonol. Yn ei ymateb, felly, a fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod angen asesiad wedi'i ddiweddarau o anghenion y boblogaeth ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol? Byddwn yn ddiolchgar pe gallai roi sylw i hynny yn ei ymateb.

Mae yna brinder meddygon arbenigol ym maes gofal lliniarol yng Nghymru. Felly, mae angen datblygu strategaeth yn y tymor canolig i'r tymor hir ar gyfer y GIG yng Nghymru, ac yn benodol ar gyfer gofal lliniarol, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â'r gweithlu yn awr.

Two weeks ago, I attended the launch, and I know the Minister did as well, of the Tŷ Hafan report 'Palliative Care for Children and Young People in Wales', which drew on the active involvement of contributors including NHS Wales, local health boards, academia and the charity sector, notably Tŷ Hafan, Hope House: Tŷ Gobaith, children's hospices and Together for Short Lives. Their system-wide review of the services available for children who need specialist care throughout their lives highlighted the strides that have been taken in Wales and provided recommendations for improving the support available. The report describes how the services required for children expected to die in childhood and the support required by their families differ considerably from adult end-of-life care.

The report suggests that, at any one time, and excluding newborn babies, there are 1,050 children in Wales that would benefit from specialist paediatric palliative care, around 10 per cent of whom will die in any one year. The relatively small numbers in need of care has, the report suggests, resulted in their needs becoming subsumed within a wider approach to palliative end-of-life care. It describes the 2008 Sugar report as being fundamental to moving children's end-of-life care forward and highlights the significant commitments across the NHS and from specialist clinicians. It describes how the system of care is built around a small number of highly committed individuals working across complex structures and, as such, is fragmented and fragile. Its recommendations include developing a paediatric palliative care implementation plan to run alongside the end-of-life implementation plan to better take account of the specific needs of children.

Advances in medical treatments and technology have meant that children with conditions where premature death was inevitable now have a much greater chance of living through transition into adulthood, thus delaying the requirement for end-of-life care. But, as the report states, out of the estimated population of 1,054 children needing palliative care in Wales, around 105 will require end-of-life care during each given year, leaving a question mark over what support and service is currently being offered to the remaining 90 per cent of children with palliative care needs. Tŷ Hafan's deputy chief executive said

'We cannot do this alone, we can do so in partnership and we welcome the collaboration and cooperation of all stakeholders that has made this report possible. The numbers of families affected might be modest but the impact of the services and the care we all provide to those in unimaginable circumstances is enormous. Developing a better understanding of how paediatric palliative care in Wales must evolve to meet future needs is essential to maintain the quality of care, extend the service and maximise its impact.'

Bythefnos yn ôl, mynychais lansiad adroddiad Tŷ Hafan ar ofal lliniarol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, a gwn fod y Gweinidog yn bresennol yno hefyd. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ymwneud gweithredol cyfranwyr, gan gynnwys GIG Cymru, byrddau iechyd lleol, y byd academiaidd a'r sector elusennol, yn enwedig Tŷ Hafan, Tŷ Gobaith, hosbisau plant a Together for Short Lives. Roedd eu hadolygiad ar draws y system gyfan o'r gwasanaethau sydd ar gael i blant sydd angen gofal arbenigol drwy gydol eu bywydau yn tynnu sylw at y camau a roddwyd ar waith yng Nghymru ac yn darparu argymhellion ar gyfer gwella'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut y mae'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer plant y disgwylir iddynt farw yn ystod eu plentyndod a'r cymorth sydd ei angen ar eu teuluoedd yn wahanol iawn i ofal diwedd oes i oedolion.

Mae'r adroddiad yn awgrymu fod 1,050 o blant yng Nghymru ar unrhyw un adeg, ac eithrio babanod newydd-anedig, a fyddai'n elwa o ofal lliniarol pediatriig arbenigol, a bydd tua 10 y cant ohonynt yn marw mewn unrhyw un flwyddyn. Mae'r niferoedd cymharol fach sydd angen gofal wedi arwain, yn ôl yr hyn y mae'r adroddiad yn ei awgrymu, at gynnwys eu hanghenion o fewn ymagwedd ehangach at ofal lliniarol diwedd oes. Mae'n disgrifio adroddiad Sugar 2008 fel dogfen hanfodol ar gyfer symud gofal diwedd oes i blant yn ei flaen ac mae'n tynnu sylw at yr ymrwymadau sylweddol ar draws y GIG a chan glinigwyr arbenigol. Mae'n disgrifio sut y mae'r system ofal wedi'i hadeiladu o amgylch nifer fach o unigolion ymroddedig iawn sy'n gweithio ar draws strwythurau cymhleth ac sydd fel y cyfryw'n dameidiog ac yn fregus. Mae ei argymhellion yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu gofal lliniarol pediatriig i gydredeg ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu diwedd oes i ystyried anghenion penodol plant yn well.

Mae datblygiadau mewn triniaethau meddygol a thechnoleg wedi golygu bod llawer mwy o obaith gan blant sydd â chyflyrau lle y mae marwolaeth gynamserol yn anochel o fyw drwy'r cyfnod pontio i fod yn oedolion, gan oedi'r angen am ofal diwedd oes. Ond fel y dywed yr adroddiad, o boblogaeth amcangyfrifedig o 1,054 o blant sydd angen gofal lliniarol yng Nghymru, bydd tua 105 angen gofal diwedd oes yn ystod pob un o'r blynyddoedd, gan adael marc cwestiwn dros ba gymorth a gwasanaeth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd i'r 90 y cant arall o blant ag anghenion gofal lliniarol. Dywedodd dirprwy brif weithredwr Tŷ Hafan

'We cannot do this alone, we can do so in partnership and we welcome the collaboration and cooperation of all stakeholders that has made this report possible. The numbers of families affected might be modest but the impact of the services and the care we all provide to those in unimaginable circumstances is enormous. Developing a better understanding of how paediatric palliative care in Wales must evolve to meet future needs is essential to maintain the quality of care, extend the service and maximise its impact.'

Moving on to adult services, according to George Thomas Hospice Care, only 44 per cent of patients die at home, residential nursing home or hospice, with 55 per cent dying in hospital in the Cardiff and Vale area. However, 72 per cent of their own patients die in residential and nursing homes or hospice beds, and only 28 per cent in hospital. This represents a significant reduction in emergency admissions and acute bed days for patients with terminal conditions.

The June 2015 Marie Curie report, 'Triggers for palliative care: Improving access to care for people with diseases other than cancer—Implications for Wales', states:

'there is much work to be done if Wales is going to achieve its vision of access to high quality care for everyone who needs it, regardless of their underlying condition.'

They say:

'One of the biggest challenges is the lack of information about current and projected levels of unmet need for palliative and end of life care services.'

And they add that,

'Patient surveys show that specialist palliative care is consistently rated very highly for those who receive it. However, far less is known about the experiences of the majority of people with a terminal illness who do not access specialist palliative care.'

They say:

'We need to act now to make sure that everyone with a terminal illness gets the care and support they need, regardless of their underlying condition or diagnosis.'

They note that people in the later stages of long-term neurological conditions also need access to co-ordinated, effective and compassionate palliative and end-of-life care. And they recommend that the Welsh Government

'Commit to providing the resources required to ensure all those with a palliative care need can access palliative services, regardless of their condition. This commitment should recognise the growing need for palliative care services into the future.'

They also recommend that there should be,

'A mandatory requirement for everyone involved in the healthcare of people with a terminal illness to undertake practice based palliative care training as part of their continuing professional development.'

On 17 November, I'll be sponsoring their event in the Assembly, highlighting that everyone who needs palliative care should receive access to it, helping them to make the most of the time they have left. Making this a reality requires change on both a local and national level.

Gan symud ymlaen at wasanaethau oedolion, yn ôl Gofal Hosbis George Thomas, 44 y cant yn unig o gleifion sy'n marw gartref, mewn cartref nyrsio preswyl neu mewn hosbis, gyda 55 cant yn marw yn yr ysbyty yn ardal Caerdydd a'r Fro. Fodd bynnag, mae 72 y cant o'u cleifion eu hunain yn marw mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio neu welyau hosbis, a 28 y cant yn unig yn yr ysbyty. Dyma ostyngiad sylweddol mewn derbyniadau brys a dyddiau gwely aciwt i gleifion yn dioddef o gyflyrau terfynol.

Mae adroddiad Marie Curie ym mis Mehefin 2015, 'Triggers for palliative care: Improving access to care for people with diseases other than cancer—Implications for Wales', yn datgan:

'there is much work to be done if Wales is going to achieve its vision of access to high quality care for everyone who needs it, regardless of their underlying condition.'

Maent yn dweud:

'One of the biggest challenges is the lack of information about current and projected levels of unmet need for palliative and end of life care services.'

Ac maent yn ychwanegu bod,

'Patient surveys show that specialist palliative care is consistently rated very highly for those who receive it. However, far less is known about the experiences of the majority of people with a terminal illness who do not access specialist palliative care.'

Maent yn dweud:

'We need to act now to make sure that everyone with a terminal illness gets the care and support they need, regardless of their underlying condition or diagnosis.'

Maent yn nodi bod pobl yn y cyfnodau diweddarach o gyflyrau niwrolegol hirdymor hefyd angen mynediad at ofal lliniarol a diwedd oes cydgysylltiedig, effeithiol a thosturiol. Ac maent yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru

'Commit to providing the resources required to ensure all those with a palliative care need can access palliative services, regardless of their condition. This commitment should recognise the growing need for palliative care services into the future.'

Maent hefyd yn argymhell y dylid cael,

'A mandatory requirement for everyone involved in the healthcare of people with a terminal illness to undertake practice based palliative care training as part of their continuing professional development.'

Ar 17 Tachwedd, byddaf yn noddï eu digwyddiad yn y Cynulliad, gan amlygu'r ffaith y dylai pawb sydd angen gofal lliniarol ei gael, gan eu helpu i wneud y gorau o'r amser sydd ganddynt ar ôl. Mae gwireddu hyn yn galw am newid ar lefel leol a chenedlaethol.

Hospices and palliative care charities are part of the answer. They can enable our health service as a true design and delivery partner to deliver far better outcomes together. Thank you.

Mae hosbisau ac elusennau gofal lliniarol yn rhan o'r ateb. Maent yn galluogi ein gwasanaeth iechyd, fel partner cynllunio a darparu go iawn, i sicrhau canlyniadau llawer gwell gyda'n gilydd. Diolch.

18:17 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We do have an ageing population, therefore there is a fundamental need for change. The Bevan Foundation report on Wales in 2020 predicts that Wales will be home to 115,000 more older people and that the population aged over 80 will double by 2030. Five per cent of people aged over 65 have dementia, and 33 per cent of people aged over 85 have this illness. It is the fifth-leading cause of death for those over 65, and that's according to the national palliative research centre. Good palliative care has been shown to improve quality of life, reduce pain, and improve family satisfaction and wellbeing.

Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio, felly mae yna angen sylfaenol am newid. Mae adroddiad Sefydliad Bevan ar Gymru yn 2020 yn rhagweld y bydd Cymru yn gartref i 115,000 yn fwy o bobl hŷn a bydd y boblogaeth dros 80 oed yn dyblu erbyn 2030. Mae pump y cant o bobl dros 65 oed yn dioddef o ddementia, ac mae'r salwch yn effeithio ar 33 y cant o bobl dros 85 oed. Dyma'r pumed prif achos marwolaeth ymhlith rhai dros 65 oed yn ôl y ganolfan ymchwil genedlaethol ar gyfer gofal lliniarol. Dangoswyd bod gofal lliniarol da yn gwella ansawdd bywyd, yn lleihau poen, ac yn gwella lefelau bodlonrwydd a lles teuluol.

I would like to just put on record my support for St David's Hospice Care and Tŷ Gobaith—two fantastic hospices within my own constituency.

Hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i Ofal Hosbis Dewi Sant a Tŷ Gobaith—dwy hosbis wych yn fy etholaeth fy hun.

However, measuring the quality of end-of-life care is particularly challenging. It is important to recognise a wide variety of roles within palliative care: support for the patient, family, carers, children, complementary therapies, education, welfare advice, chaplaincy, as well as clinical and medical care. However, there is a desperate need to remove barriers to collaborative working between the third sector, local authorities and health boards, and look to what partnerships might be possible in the coming years.

Fodd bynnag, mae mesur ansawdd gofal diwedd oes yn arbennig o heriol. Mae'n bwysig cydnabod yr amrywiaeth eang o rolau ym maes gofal lliniarol: cefnogaeth i'r claf, y teulu, gofawyr, plant, therapïau cyflenwol, addysg, cyngor lles, caplaniaeth, yn ogystal â gofal clinigol a meddygol. Fodd bynnag, mae angen dybryd i ddileu rhwystrau i gydweithio rhwng y trydydd sector, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ac i edrych ar ba bartneriaethau a allai fod yn bosibl yn y blynyddoedd nesaf.

18:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You're over a minute.

Rydych wedi cael dros funud.

18:18 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay. All right. All patients and families should be able to access the appropriate support and palliative care in the event of a serious illness and life-threatening illness.

lawn. O'r gorau. Dylai pob claf a theulu allu cael y cymorth a'r gofal lliniarol sy'n briodol mewn achos o salwch difrifol a salwch sy'n bygwth bywyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

18:19

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Mark, for giving me a minute of your time. I simply wanted to say that I'm a great fan of the hospice movement. I think they do some tremendous work, not least in my own constituency as well, particularly where St Kentigern and St David's serve a good proportion of the individuals who need palliative care in my constituency. But I do think that we need to increase the emphasis on needing to expand the availability of hospice-at-home services, given their important role in the future, and that there needs to be a greater emphasis from Government on the need to provide high quality palliative care for people who do not have cancer. We tend to think of palliative care as something that is provided only to cancer patients. Of course, we know that that is not the case and that there are many other degenerative conditions for which palliative care can be very, very useful in relieving suffering and managing pain. Just one final point, and that is that, obviously, we would like to see an expansion of Government financial support to the hospice movement—something we've campaigned for for a long time. On the issue of dignity in dying, we've had a significant debate in the Assembly and nationally on this in recent months, and I do think that this is one way that we can show our support for dignity for those people who may be approaching the final curtain.

Diolch i chi, Mark, am roi munud o'ch amser i mi. Yn syml, roeddwn eisiau dweud fy mod yn gefnogwr mawr i'r mudiad hosbisau. Rwy'n credu eu bod yn gwneud gwaith aruthrol, yn fy etholaeth i yn bendant, yn enwedig lle y mae Sant Cyndeyrn a Dewi Sant yn gwasanaethu cyfran dda o'r unigolion sydd angen gofal lliniarol yn fy etholaeth. Ond rwy'n meddwl bod angen i ni gynyddu'r pwyslais ar yr angen i ehangu argaeledd gwasanaethau hosbis yn y cartref, o ystyried eu rôl bwysig yn y dyfodol, a bod angen mwy o bwyslais gan y Llywodraeth ar yr angen i ddarparu gofal lliniarol o safon i bobl nad ydynt yn dioddef o ganser. Rydym yn tueddu i feddwl am ofal lliniarol fel rhywbeth sy'n cael ei ddarparu'n unig ar gyfer cleifion canser. Wrth gwrs, gwyddom nad yw hynny'n wir, a bod yna lawer o gyflyrau dirywiol eraill y gallai gofal lliniarol fod yn ddefnyddiol iawn o ran lleddfu dioddefaint a rheoli poen sy'n gysylltiedig â hwy. Un pwynt olaf, sef y byddem, yn amlwg, yn hoffi gweld ehangu cefnogaeth ariannol y Llywodraeth i'r mudiad hosbis—rhywbeth rydym wedi ymgyrchu amdano ers amser hir. Ar fater marw gydag urddas, rydym wedi cael dadl arwyddocaol yn y Cynulliad ac yn genedlaethol ar hyn yn ystod y misoedd diwethaf, ac rwy'n credu bod hon yn un ffordd y gallwn ddangos ein cefnogaeth i urddas y bobl hynny a allai fod yn nesu at y diwedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:20

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mark Isherwood, too, for allowing me a moment of time. I'd just like to put on record, Deputy Presiding Officer, my thanks to the staff of Usk House in Brecon, which is part of the St David's hospice group, and the Bracken Trust in Llandrindod Wells, which the Minister has visited with me, and the tremendous volunteer effort that goes into those two centres supporting professional staff. But it is the volunteers and the fundraisers that give so generously of their time and commitment that keep both of those projects providing services for local people. Can I wish the Bracken Trust all the very best in the Powys Association of Voluntary Organisations' voluntary sector awards, which they've been shortlisted for? The event takes place tomorrow night, and I'm sure the Minister would like, having met the staff at Bracken Trust, to wish them well.

Diolch i Mark Isherwood hefyd am ganiatáu rhywfaint o amser i mi. Hoffwn gofnodi fy niolch, Ddirprwy Lywydd, i staff Usk House yn Aberhonddu, sy'n rhan o grŵp hosbis Dewi Sant, ac Ymddiriedolaeth Bracken yn Llandrindod. Bùm yno gyda'r Gweinidog a gwelsom yr ymdrech wirfoddol aruthrol yn y ddwy ganolfan i gefnogi'r staff proffesiynol. Ond y gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n codi arian gan gyfrannu mor hael o'u hamser a'u hymroddiad sy'n cynnal gwaith y ddau brosiect ar ddarparu gwasanaethau i bobl leol. A gaf fi dymuno'r gorau i Ymddiriedolaeth Bracken sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yng ngwobrau sector gwirfoddol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys? Cynhelir y digwyddiad nos yfory, ac rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn hoffi dymuno'n dda iddynt ar ôl cyfarfod â'r staff yn Ymddiriedolaeth Bracken.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:21

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister for Health and Social Services to reply—
Mark Drakeford.

A'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ateb
—Mark Drakeford.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:21

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwyf am ddiolch i Mark Isherwood am ddefnyddio'r ddadl fer heddiw i dynnu sylw at bwysigrwydd y gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru, yn edrych y tu hwnt i 2016. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r effaith y mae gofal lliniarol yn ei gael ar unigolion ac ar y teulu. Mae'r atgofion o'r profiadau yna yn parhau am weddill ein hoes.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I want to thank Mark Isherwood for using today's short debate to highlight the importance of palliative care services in Wales, looking beyond 2016. We are all aware of the impact that palliative care has on the individual and on the family. The memories of those experiences will remain for the rest of our lives.

Mae'r ffordd yr ydym yn gofalu am bobl ar ddiwedd eu hoes yn adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn gofalu am ein cymdeithas. Mae'n rhaid cofio bob tro taw person, unigolyn, yr ydym yn gofalu amdano.

The way in which we care for people at the end of their lives reflects the way we care for our society as a whole. We must always bear in mind that we are caring for a person, an individual.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd, I think it's very evident from the contributions this afternoon just how valued hospice services are in Wales, and just how connected Assembly Members often are to local facilities in their own areas. I've been very fortunate during the time I've been health Minister to visit quite a number of them. I'm very happy to add my support to that of Kirsty Williams for the hospice in her locality, which we visited together.

The debate scheduled for today is one to focus on beyond 2016. I need just to fill in something of the background to that—the journey that's been outlined already by Mark Isherwood. I think those who were involved at the time would recognise that, back in 2007, palliative and end-of-life care services were in a very different place to where they are today. I sat in my job then in a whole series of meetings, and they weren't easy meetings, often, both between different third sector providers that tended to compete with one another rather than collaborate with one another, and between third sector providers and the NHS, where certainly there was a level of distrust in the room that was getting in the way of developing good palliative care services in Wales.

That was the context in which Edwina Hart, as health Minister at the time, established a palliative care review group, which was chaired by Viv Sugar. It looked at how services could be improved, and it led to the establishment of a palliative care implementation board chaired by Professor the Baroness Ilorra Finlay. I will certainly ask Baroness Finlay about the work that the board has done to consider the impact of changing demographics on the provision of hospice and palliative care here in Wales. I think we will find that the board is very alert to these changes, and is intending to make those changes part of the refresh of the implementation plan, the end-of-life delivery plan that we have here in Wales. But I'm very happy to take up the point that Mark Isherwood made in that regard.

What Ilorra Finlay had at the core of what she was trying to achieve was to make sure that the funding of palliative care services and access to those services was fair and equitable across Wales. Inequalities at the end of life are as unacceptable as inequalities in life itself. Ilorra's work was very much focused on making sure that good-quality end-of-life care should be available wherever and whenever an individual needed it. That's why we provide the £6.4 million annually to invest in specialist palliative care services here in Wales. It's why we launched the first ever delivering end-of-life care plan for Wales back in 2013, setting out how the Welsh Government works with the NHS, the third sector and other organisations to improve palliative care for people here in Wales.

Dirprwy Lywydd, rwy'n credu ei bod yn amlwg iawn o'r cyfraniadau y prynhawn yma pa mor werthfawr yw gwasanaethau hosbis yng Nghymru, a chymaint o gysylltiad sydd gan Aelodau'r Cynulliad yn aml â chyfleusterau lleol yn eu hardaloedd eu hunain. Rwyf wedi bod yn ffodus iawn yn ystod yr amser y bûm yn Weinidog Iechyd i ymweld â chryn nifer ohonynt. Rwy'n hapus iawn i ategu cefnogaeth Kirsty Williams i'r hosbis yn ei hardal leol y buom ein dau yn ymweld â hi.

Mae'r ddadl a drefnwyd ar gyfer heddiw yn un i ganolbwyntio arni y tu hwnt i 2016. Mae angen i mi roi rhywfaint o'r cefndir i hynny—i'r daith sydd wedi'i hamlinellu'n barod gan Mark Isherwood. Rwy'n credu y byddai'r rhai a oedd yn ymwneud â hyn ar y pryd yn cydnabod, yn ôl yn 2007, fod gwasanaethau gofal lliniarol a diwedd oes mewn lle gwahanol iawn i ble y maent heddiw. Eisteddais bryd hynny mewn cyfres o gyfarfodydd yn rhinwedd fy swydd ar y pryd, ac nid oeddent yn gyfarfodydd hawdd, yn aml, rhwng gwahanol ddarparwyr trydydd sector a dueddai i gystadlu yn hytrach na chydweithio â'i gilydd, a rhwng darparwyr y trydydd sector a'r GIG, lle y ceid lefel o ddiffyg ymddiriedaeth, yn sicr, yn yr ystafell a oedd yn mynd yn ffordd y broses o ddatblygu gwasanaethau gofal lliniarol da yng Nghymru.

Dyna oedd y cyd-destun pan aeth Edwina Hart, y Gweinidog Iechyd ar y pryd, ati i sefydlu grŵp adolygu gofal lliniarol dan gadeiryddiaeth Viv Sugar. Edrychai ar sut y gellid gwella gwasanaethau, ac arweiniodd at sefydlu bwrdd gweithredu gofal lliniarol dan gadeiryddiaeth yr Athro Farwnes Ilorra Finlay. Byddaf yn sicr yn gofyn i'r Farwnes Finlay am y gwaith y mae'r bwrdd wedi'i wneud i ystyried effaith demograffeg sy'n newid ar y ddarpariaeth hosbis a gofal lliniarol yma yng Nghymru. Rwy'n meddwl y gwelwn fod y bwrdd yn effro iawn i'r newidiadau hyn, a'i fod yn bwriadu gwneud y newidiadau hynny yn rhan o'r gwaith o ailwampio'r cynllun gweithredu, y cynllun cyflawni ar gyfer gofal diwedd oes sydd gennym yma yng Nghymru. Ond rwy'n hapus iawn i dderbyn y pwynt a wnaeth Mark Isherwood yn hynny o beth.

Roedd gwneud yn siŵr bod cyllido gwasanaethau gofal lliniarol a mynediad at y gwasanaethau hynny yn deg ac yn gyfartal ledled Cymru yn ganolog i'r hyn y ceisiai Ilorra Finlay ei gyflawni. Mae anghydraddoldebau ar ddiwedd oes yr un mor annerbyniol ag anghydraddoldebau mewn bywyd. Roedd gwaith Ilorra yn canolbwyntio'n bendant iawn ar sicrhau y dylai fod gofal diwedd oes o ansawdd da ar gael lle bynnag a phryd bynnag y byddai ei angen ar yr unigolyn. Dyna pam ein bod yn darparu £6.4 miliwn bob blwyddyn i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol yma yng Nghymru. Dyna pam y lanswyd y cynllun cyflawni ar gyfer gofal diwedd oes cyntaf erioed ar gyfer Cymru yn ôl yn 2013, yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r GIG, y trydydd sector a sefydliadau eraill i wella gofal lliniarol i bobl yma yng Nghymru.

The first annual report of the end-of-life care plan was published last year. It shows that we're the only country in the United Kingdom to provide 24-hour, seven-days-a-week consultant-led specialist palliative care advice services to professionals caring for people in their own homes and hospitals and hospices. We provide seven-days-a-week, every-week-of-the-year clinical nurse specialists to provide services directly to patients in the same settings. Because, from the very beginning, Baroness Finlay was keen to make sure that there was an external validation of the work that was done, this is a service that's used iWantGreatCare to evaluate patients' experience of specialist palliative care from the very beginning. The average Welsh score last year was 9.54 out of 10. It is a service that is hugely valued by those people who receive it.

We've worked hard with GPs in Wales as well to improve their understanding of palliative care. In the last six years, the number of people recorded on GP palliative care registers has increased from 2,810 in 2008, at the start of this journey, to 8,272 by the end of 2014. Good-quality GP palliative care registers are absolutely essential so that palliative care teams know the individuals who are in need of care and treatment and are able to discuss the nature of the care and treatment that that person wishes to receive.

Dirprwy Llywydd, when I was thinking about this afternoon's debate, I jotted down a series of five different areas in which it seemed to me that the terms of palliative care services in the future will need to develop. It's been a bit heartening for me to hear, I think, almost every one of those five areas echoed in what other Members have said here this afternoon. The first of my five areas, thinking beyond 2016, was to say that the way we provide palliative care for children and young people will need to develop even further because, as we heard at the event that Mark Isherwood referred to, advances in medical care mean that far more children are living beyond childhood, beyond young adulthood, even. For them, palliative care is something that doesn't just happen at the very end of life; it is part of a much longer journey, and the way in which we provide for the transition from childhood to young adulthood and adult care is something that will affect far more people in the future. We have a clinical lead in transitions—Dr Victoria Lidstone. Many people here will have met her prior to her premature retirement, but her work will be taken up by a new appointment, and it will be used to support some of the excellent work, such as the dedicated transition team based at Tŷ Gobaith in north Wales, which is already supporting children in that way. That, I think, for me, is the first way in which things will need to develop further.

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cyntaf y cynllun gofal diwedd oes y llynedd. Mae'n dangos mai ni yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig sy'n darparu gwasanaethau cyngor lliniarol arbenigol dan arweiniad meddygon ymgynghorol saith diwrnod yr wythnos 24 awr i weithwyr proffesiynol sy'n gofalu am bobl yn eu cartrefi eu hunain ac mewn ysbytai a hosbisau. Rydym yn darparu arbenigwyr nyrsio clinigol saith diwrnod yr wythnos, bob wythnos o'r flwyddyn i ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i gleifion yn yr un lleoliadau. Oherwydd bod y Farwnes Finlay, o'r cychwyn cyntaf, yn awyddus i wneud yn siŵr fod y gwaith a wnaed yn cael ei ddilysu'n allanol, mae hwn yn wasanaeth sydd wedi defnyddio iWantGreatCare i werthuso profiad cleifion o ofal lliniarol arbenigol o'r cychwyn cyntaf. Sgôr gyfartalog Cymru y llynedd oedd 9.54 allan o 10. Mae'n wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y bobl sy'n ei dderbyn.

Rydym wedi gweithio'n galed gyda meddygon teulu yng Nghymru hefyd i wella eu dealltwriaeth o ofal lliniarol. Yn y chwe blynedd diwethaf, mae nifer y bobl a gofnodwyd ar gofrestri gofal lliniarol meddygon teulu wedi cynyddu o 2,810 yn 2008, ar ddechrau'r daith hon, i 8,272 erbyn diwedd 2014. Mae cofrestri gofal lliniarol meddygon teulu o ansawdd da yn gwbl hanfodol er mwyn i dimau gofal lliniarol wybod pa unigolion sydd angen gofal a thriniaeth, a gallant drafod natur y gofal a'r driniaeth y mae'r unigolyn yn dymuno ei chael.

Ddirprwy Lywydd, pan oeddwn yn meddwl am y ddadl y prynhawn yma, nodais gyfres o bum maes gwahanol lle'r oedd yn ymddangos i mi y byddai angen i amodau gwasanaethau gofal lliniarol ddatblygu yn y dyfodol. Mae wedi bod yn gryn galonddid i mi glywed, rwy'n meddwl, bron bob un o'r pum maes yn cael eu hadleisio yn yr hyn a ddywedodd Aelodau eraill yma y prynhawn yma. Y maes cyntaf o'r pump, gan feddwl y tu hwnt i 2016, oedd dweud y bydd angen i'r ffordd rydym yn darparu gofal lliniarol i blant a phobl ifanc ddatblygu hyd yn oed ymhellach oherwydd, fel y clywsom yn y digwyddiad y cyfeiriodd Mark Isherwood ato, mae datblygiadau mewn gofal meddygol yn golygu bod llawer mwy o blant yn byw y tu hwnt i blentyndod, y tu hwnt i fod yn oedolion ifanc, hyd yn oed. Iddynt hwy, nid yw gofal lliniarol yn rhywbeth sy'n digwydd ar ddiwedd oes yn unig; mae'n rhan o daith lawer hirach, a bydd y modd y darparwn ar gyfer pontio rhwng plentyndod a bod yn oedolyn ifanc a gofal i oedolion yn rhywbeth a fydd yn effeithio ar lawer mwy o bobl yn y dyfodol. Mae gennym arweinydd clinigol mewn pontio—Dr Victoria Lidstone. Bydd llawer o bobl yma wedi cyfarfod â hi cyn iddi ymddeol yn gynamserol, ond bydd y sawl a benodir yn ei lle yn bwrw ymlaen â'i gwaith, a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi peth o'r gwaith ardderchog, megis gwaith y tîm pontio pwrpasol sy'n gweithio yn Nhŷ Gobaith yng ngogledd Cymru, ac sydd eisoes yn cefnogi plant yn y ffordd honno. Dyna'r ffordd gyntaf y bydd angen i bethau ddatblygu ymhellach, rwy'n meddwl

The second one is something that Members have also mentioned. The focus of the Sugar report was palliative care for cancer patients. Today, we know that palliative care is needed for a far wider range of conditions. I went on a visit to the Hospice of the Valleys in April this year. They told me that, six years ago, only 2 per cent of patients admitted had a non-cancer diagnosis. Today, 34 per cent of those people that the Hospice of the Valleys work with have a non-cancer diagnosis, and that includes dementia, in the way that Janet mentioned in her contribution. But dementia, motor neurone disease and chronic obstructive pulmonary disease—all those are part of the work of the Hospice of the Valleys, and that's a second way in which I think, beyond 2016, hospice care will need to develop.

The third on my list was something that Darren Millar mentioned, because I think that the location of palliative care is going to change beyond 2016 too. The work of the St David's hospice, with its hospice-at-home services, I think, is an example of how that third development will take place. We were able to find an additional £1 million to support the delivery of priorities within the end-of-life delivery plan in this financial year, and the key priority identified by that board and by all health boards together has been an expansion of the hospice-at-home provision. Over £900,000 of that £1 million will be used for exactly that purpose.

Here's my fourth priority, I think, for the way that palliative care services will develop after 2016, and that is in the work that we can do to encourage greater use of advance care planning. Death is something that will come, in one way or another, to us all, yet it remains a subject that we find very difficult to talk about and, certainly, a subject that we find difficult to plan for in our own lives. We've had some real strides forward in Wales in the last two years in the discussions that we have persuaded families to have around organ donation. We need to build on that willingness to talk about difficult subjects at the time of death, by explaining to people that a proper plan for what you would like to see for yourself when that time comes is of enormous advantage, not simply to you, but particularly to your family members, who will want to know that the things that they are putting in place are consistent with what you would have wished to see for yourself. Those conversations and those advance care plans make a real difference.

There's been a very interesting piece of work in Cwm Taf, carrying out pilot work with care homes in that locality, where advance decision making has been discussed with care home residents and is making a real difference to the way in which care at the end of life is being provided to them. The work of Dying Matters, set up in 2009 by the National Council for Palliative Care, is being taken forward in Wales by our equivalent campaign, Byw Nawr. I was very pleased to be at its first event, held just down the road here on 21 May and to speak at its meeting at the National Eisteddfod. It will help us to have those conversations here in Wales.

Mae'r ail yn rhywbeth y mae'r Aelodau wedi'i grybwyll hefyd. Ffocws adroddiad Sugar oedd gofal lliniarol ar gyfer cleifion canser. Heddiw, gwyddom fod angen gofal lliniarol ar gyfer ystod lawer ehangach o gyflyrau. Bûm ar ymweliad â Hosbis y Cymoedd ym mis Ebrill eleni. Dywedwyd wrthyf mai 2 y cant o'r cleifion a gafodd eu derbyn chwe blynedd yn ôl a oedd wedi cael diagnosis heb fod yn ganser. Heddiw, mae 34 y cant o'r bobl y mae Hosbis y Cymoedd yn gweithio gyda hwy wedi cael diagnosis heb fod yn ganser, ac mae hynny'n cynnwys dementia, fel y crybwyllodd Janet yn ei chyfraniad. Ond mae dementia, clefyd niwronau motor a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint—mae'r rhain oll yn rhan o waith Hosbis y Cymoedd, a dyna ail ffordd y credaf y bydd angen i ofal hosbis ddatblygu y tu hwnt i 2016.

Roedd y trydydd peth ar fy rhestr yn rhywbeth a grybwyllodd Darren Millar, oherwydd credaf fod lleoliad gofal lliniarol yn mynd i newid y tu hwnt i 2016 hefyd. Rwy'n meddwl bod gwaith hosbis Dewi Sant, gyda'i gwasanaethau hosbis yn y cartref, yn enghraifft o sut y bydd y trydydd datblygiad yn digwydd. Gallasom ddod o hyd i £1 miliwn ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau o fewn y cynllun cyflenwi ar gyfer gofal diwedd oes yn y flwyddyn ariannol hon, a'r flaenoriaeth allweddol a nodwyd gan y bwrdd hwnnw a chan bob bwrdd iechyd gyda'i gilydd oedd ehangu'r ddarpariaeth hosbis yn y cartref. Bydd dros £900,000 o'r £1 miliwn yn cael ei ddefnyddio at yr union ddiben hwnnw.

Fy mhedwaredd flaenoriaeth, rwy'n credu, ar gyfer y ffordd y bydd gwasanaethau gofal lliniarol yn datblygu ar ôl 2016, yw'r gwaith y gallwn ei wneud i annog mwy o ddefnydd ar gynlluniau gofal ymlaen llaw. Mae marwolaeth yn rhywbeth a fydd yn dod i ni i gyd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, ac eto mae'n parhau i fod yn bwnc rydym yn ei chael yn anodd iawn ei drafod ac yn sicr, yn bwnc rydym yn ei chael hi'n anodd cynllunio ar ei gyfer yn ein bywydau eu hunain. Rydym wedi gwneud rhai camau gwirioneddol ymlaen yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn y trafodaethau yr ydym wedi perswadio teuluoedd i'w cael ynglŷn â rhoi organau. Mae angen i ni adeiladu ar y parodrwydd i siarad am bynciau anodd ar adeg marwolaeth, drwy egluro i bobl y byddai cynllun priodol ar gyfer yr hyn yr hoffech ei sicrhau ar eich cyfer chi'ch hun pan ddaw'r amser hwnnw'n fantais enfawr, nid yn unig i chi, ond i aelodau eich teulu'n arbennig, a fydd eisiau gwybod bod y pethau y maent yn eu rhoi ar waith yn cydfynd â'r hyn y byddech wedi dymuno ei sicrhau ar eich cyfer chi'ch hun. Mae'r sgysiau hyn a chynlluniau gofal ymlaen llaw o'r fath yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Gwnaed gwaith diddorol iawn yng Nghwm Taf, ar gynllun pilot gyda chartrefi gofal yn yr ardal honno, lle y cafodd penderfyniadau ymlaen llaw eu trafod gyda phreswylwyr cartrefi gofal ac maent yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd y mae gofal diwedd oes yn cael ei ddarparu iddynt. Mae gwaith Materion Marwolaeth, a sefydlwyd yn 2009 gan y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol, yn cael ei wneud yng Nghymru drwy ein hymgyrch gyfatebol, Byw Nawr. Roeddwn yn falch iawn o fod yn eu digwyddiad cyntaf, a gynhaliwyd i lawr y ffordd ar 21 Mai ac i siarad yn eu cyfarfod yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd yn ein helpu i gael y sgysiau hynny yma yng Nghymru.

Finally, my fifth way in which I think palliative care beyond 2016 will develop will be if we are able to change the perception of palliative care amongst the public at large. Very often, I think, people think of palliative care as a sign of, somehow, having given up on life, that it's a surrender to the inevitable, and that, if only there was some other wonder treatment that they would be able to have access to, that would somehow prolong their life in a very different way. Yet, what we actually know, and Atul Gawande set this out very well indeed in his recent Reith lectures and his book 'Being Mortal'—. He sets out the evidence that good palliative care not only allows you to make best use of the time that you have available to you, but that it actually helps you to live longer as well, that it is more effective, in many ways, than some of those other forms of intervention that in the mind of the public sometimes appear to hold out a different prospect for them. Good-quality palliative care is about the quality of life and the length of life as well. That change in perception, I think, will be something that will take hold even further beyond 2016.

Finally, Dirprwy Lywydd, let's not forget what we have achieved here in Wales, and I think it's been well recognised in all the contributions this afternoon, and to know that it's regarded very positively, far beyond Wales. Professor Baroness Iloria Finlay, whose work has led so much of what we have here in Wales, has a private Member's Bill before the House of Lords at this very moment. It will have its Second Reading on Friday, 23 October. The Bill is a Bill for England, but what it does is to advocate the Welsh model of palliative care as a basis for bringing about improvements in that part of the United Kingdom as well. As we look forward to what more we can achieve in this field, I think it's very good for us to know that what has happened here in Wales since 2008 is being regarded as a model by others of how their services too can be improved. Thank you very much.

Yn olaf, y bumed ffordd y credaf y bydd gofal lliniarol yn datblygu y tu hwnt i 2016 yw os gallwn newid y canfyddiad o ofal lliniarol ymysg y cyhoedd yn gyffredinol. Yn aml iawn, rwy'n credu, mae pobl yn meddwl am ofal lliniarol fel arwydd, rywsut, o roi'r gorau i geisio byw, ei fod yn ildio i'r anochel, a phe bai yna driniaeth ryfeddol arall y byddent yn gallu cael gafael arni, byddai hynny rywsut yn ymestyn eu bywydau mewn ffordd wahanol iawn. Eto i gyd, yr hyn a wyddom mewn gwirionedd, a nododd Atul Gawande hyn yn hynod o dda yn ei ddarlithiau Reith yn ddiweddar, ac yn ei lyfr, 'Being Mortal'. Mae'n nodi'r dystiolaeth fod gofal lliniarol da, nid yn unig yn caniatáu i chi wneud y defnydd gorau o'r amser sydd gennych ar gael i chi, ond ei fod mewn gwirionedd yn eich helpu i fyw'n hirach hefyd, ei fod yn fwy effeithiol, mewn sawl ffordd, na rhai o'r mathau eraill o ymyriadau sy'n ymddangos weithiau ym meddwl y cyhoedd fel pe baent yn cynnig gobaith gwahanol ar eu cyfer. Mae gofal lliniarol o ansawdd da yn ymwneud ag ansawdd bywyd a hyd bywyd hefyd. Mae'r newid hwn yn y canfyddiad, rwy'n meddwl, yn rhywbeth a fydd yn dwyn ffrwyth hyd yn oed ymhellach y tu hwnt i 2016.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, gadewch i ni beidio ag anghofio'r hyn rydym wedi'i gyflawni yma yng Nghymru, ac rwy'n meddwl ei fod wedi cael ei gydnabod yn dda yn yr holl gyfraniadau y prynhawn yma, a gwybod ei fod yn cael ei ystyried yn gadarnhaol iawn, ymhell y tu hwnt i Gymru. Mae gan yr Athro Farwnes Iloria Finlay, yr arweiniodd ei gwaith at gymaint o'r hyn sydd gennym yma yng Nghymru, Fil Aelod preifat gerbron Tŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd. Bydd yr Ail Ddarllenriad arno ddydd Gwener, 23 Hydref. Bil ar gyfer Lloegr ydyw, ond yr hyn y mae'n ei wneud yw hyrwyddo'r model Cymreig o ofal lliniarol fel sail i ysgogi gwelliannau yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig hefyd. Wrth i ni edrych ymlaen at weld beth arall y gallwn ei gyflawni yn y maes hwn, rwy'n meddwl ei bod yn dda iawn i ni wybod bod yr hyn sydd wedi digwydd yma yng Nghymru ers 2008 yn cael ei ystyried fel model gan eraill o sut y gellid gwella eu gwasanaethau hwy hefyd. Diolch yn fawr iawn.

18:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:36.

The meeting ended at 18:36.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)